Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 01/2014

# Gwerthusiad Terfynol - Cyrraedd y Nod

## Gwerthusiad Terfynol - Cyrraedd y Nod

**ICF GHK (GHK Consulting Ltd)**

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
Martina Aumeyr
Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 801125
E-bost: martina.aumeyr@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013
ISBN 978-1-4734-0623-0
© Hawlfraint y Goron

## Tabl cynnwys

Rhestr Acronymau ........ iii

Tabl o dablau ........ v

Tabl o ffigurau ........ vii

Crynodeb Gweithredol ........ 1

1 Cyflwyniad ........ 23

2 Prosiectau Cyrraedd y Nod ........ 41

3 Comisiynu, cyflwyno a rheoli prosiectau Cyrraedd y Nod ........ 62

4 Gwariant ac allbynnau ........ 91

5 Effeithiau Troedle Cyntaf ........ 136

6 Effaith Llwybrau i'r Brig ........ 160

7 Ychwanegedd, gwaddol a chynaliadwyedd ........ 186

8 Casgliadau ac argymhellion ........ 204

Atodiadau ........ 235

Atodiad 1 Modelau rhesymeg ........ 236

Atodiad 2 Fframwaith gwerthuso effaith Troedle Cyntaf ........ 238

Atodiad 3 Fframwaith gwerthuso effaith Llwybrau i'r Brig ........ 242

Atodiad 4 Fframwaith gwerthuso prosesau ........ 246

Atodiad 5 Tystiolaeth o arfer effeithiol yn y llenyddiaeth ........ 266

Atodiad 6 Detholiad o astudiaethau achos ........ 258

Atodiad 7 Adolygu adroddiadau gwerthuso ........ 262

Atodiad 8 Gweithgareddau a restrwyd yn y cynllun busnes na chafodd eu cynnal ........ 263

## Rhestr o Acronymau

AAA: Anghenion Addysgol Arbennig

AB: Addysg Bellach

ABCh: Addysg Bersonol a Chymdeithasol

AdAS: Yr Adran Addysg a Sgiliau

ADY: Anghenion Dysgu Ychwanegol

APADGOS: Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

AU: Addysg Uwch

CCAC: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

CCUHP: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

CGGC: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

CLIC: Sianel ar-lein sy’n cynnig gwybodaeth, newyddion a chyngor i bobl ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru

CydAAA: Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig

DCSF: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

DPP: Datblygiad Proffesiynol Parhaus

EBSCO: System rheoli gwybodaeth sy’n cynnwys cronfeydd data ymchwil academaidd, e-gyfnodolion ac e-lyfrau

EDMS: System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd

ESF: Cronfa Strwythurol Ewropeaidd

FfCC: Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol

IAG: Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad

MI: Gwybodaeth Reoli

NEET: Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

ONS: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

PUPIL: Disgyblion yn Deall Problemau yn eu Hardal (prosiect Blaenoriaeth 1 Cronfa Gymdeithasol Ewrop)

RhCT: Rhondda Cynon Taf

RhyCA: Rhwydwaith y Coleg Agored

SCT: System Cyfiawnder Troseddol

SCYA: Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg

SGCh: Sector Gwirfoddol a Chymunedol

STEM: Gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg

UCD: Uned Cyfeirio Disgyblion

WBL: Dysgu Seiliedig ar Waith

WEFO: Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

YOT: Timau Troseddau Ieuenctid

## Tabl o dablau

Tabl 1 Tystiolaeth a ddefnyddiwyd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda o ran cyflawni nodau ac amcanion Cyrraedd y Nod - cynlluniau busnes prosiectau ....56
Tabl 2 Tystiolaeth a ddefnyddiwyd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda o ran cyflawni deilliannau: cynlluniau busnes cyd-noddwyr Troedle Cyntaf ....58
Tabl 3 Tystiolaeth a ddefnyddiwyd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda o ran cyflawni deilliannau: cynlluniau busnes cyd-noddwyr Llwybrau i'r Brig ....58
Tabl 4 Cyllideb Cyrraedd y Nod ....91
Tabl 5 Gwariant Troedle Cyntaf hyd at ddiwedd Mawrth 2013....92
Tabl 6 Gwariant Troedle Cyntaf hyd at ddiwedd Mehefin 2013....94
Tabl 7 Gwariant Llwybrau i'r Brig hyd at ddiwedd Mawrth 2013....96
Tabl 8 Gwariant Llwybrau i'r Brig hyd at ddiwedd Mehefin 2013....97
Tabl 9 Troedle Cyntaf – cyflawniad yn erbyn targedau allbynnau....99
Tabl 10 Troedle Cyntaf - Cyflawniad targedau allbynnau gan gyd-noddwyr ....101
Tabl 11 Rhwystrau a wynebir gan gyfranogwyr Troedle Cyntaf....103
Tabl 12 Llwybrau i'r Brig – cyflawniad yn erbyn targedau allbynnau....105
Tabl 13 Llwybrau i'r Brig – Cyflawniad targedau allbynnau gan gyd-noddwyr ....107
Tabl 14 Rhwystrau a wynebir gan gyfranogwyr Llwybrau i'r Brig....110
Tabl 16 Llwybrau i'r Brig – Asesiad o ba mor briodol oedd y gweithgareddau i nodau'r prosiect ....122
Tabl 17 Llwybrau i'r Brig – Cyfranogwyr fesul awdurdod lleol yn ôl cyd-noddwr....126
Tabl 18 Troedle Cyntaf – asesiad o gryfder y dystiolaeth o feysydd deilliannau tymor byr a thymor canolig allweddol....136
Tabl 19 Troedle Cyntaf – nifer y bobl ifanc yn mynd i mewn i ddysgu pellach ....144
Tabl 20 Troedle Cyntaf – cymwysterau a enillwyd ....145
Tabl 21 Troedle Cyntaf – cyflawniad deilliannau a chanlyniadau gan gyd-noddwyr ....153

Tabl 22 Llwybrau i’r Brig – asesiad o gryfder y dystiolaeth o feysydd deilliannau tymor byr a thymor canolig allweddol ........................................ 161
Tabl 23 Yr Urdd – gwelliannau ym mhob elfen o Dangos Llwyddiant .......... 162
Tabl 24 Llwybrau i’r Brig – nifer y bobl ifanc yn mynd i mewn i ddysgu pellach ........................................................................................................ 167
Tabl 25 Llwybrau i’r Brig – cymwysterau a enillwyd ..................................... 170
Tabl 26 Llwybrau i’r Brig – cyflawniad deilliannau a chanlyniadau gan gyd-noddwyr ........................................................................................................ 179
Tabl 27 Troedle Cyntaf – gweithgareddau’r prosiect y mae noddwyr yn chwilio am gyllid ar eu cyfer ........................................................................ 198
Tabl 28 Llwybrau i’r Brig – gweithgareddau’r prosiect y mae noddwyr yn chwilio am gyllid ar eu cyfer ........................................................................ 199
Tabl 29 Troedle Cyntaf – gweithgareddau sydd wedi’u cynnal .................... 199
Tabl 30 Llwybrau i’r Brig – gweithgareddau sydd wedi’u cynnal .................. 200
Tabl 32 Beth sydd wedi gweithio’n dda a heriau o ran dylunio a datblygu Cyrraedd y Nod ........................................................................................... 209
Tabl 33 Beth sydd wedi gweithio’n dda a’r heriau o ran cyflwyno Cyrraedd y Nod ............................................................................................................ 215
Tabl 34 Beth sydd wedi gweithio’n dda a heriau o ran monitro, adolygu a dysgu ............................................................................................................ 218
Tabl 35 Beth sydd wedi gweithio’n dda a heriau o ran perfformiad y prosiectau ........................................................................................................ 222
Tabl 36 Beth sydd wedi gweithio’n dda a heriau o ran gwaddol a chynaliadwyedd Cyrraedd y Nod ................................................................ 227

## Tabl o ffigurau

Ffigur 1 Polisïau a strategaethau newydd a gyflwynwyd er 2008 ….. 43
Ffigur 2 Troedle Cyntaf – Cyfran o wariant cyd-noddwyr………………. 93
Ffigur 3 Troedle Cyntaf – mathau o wariant ………………………………..95
Ffigur 4 Llwybrau i'r Brig – Cyfran o wariant cyd-noddwyr ……….96
Ffigur 5 Llwybrau i'r Brig – mathau o wariant ………………………..98
Ffigur 6 Lefel cymwysterau bresennol cyfranogwyr Troedle Cyntaf ………..102
Ffigur 7 Lefel cymwysterau bresennol cyfranogwyr Llwybrau i'r Brig………109
Ffigur 8 Troedle Cyntaf – cyfran y gyllideb a wariwyd ar fathau gwahanol o weithgareddau……………………………………………………………113
Ffigur 9 Troedle Cyntaf – cyfran o gyfanswm y gwariant ar weithgarwch wedi'i is-gontractio yn ôl math o sefydliad ………………………………………...116
Ffigur 10 Troedle Cyntaf – cyfranogwyr yn ôl awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth 11-19 oed……………………………………………………...117
Ffigur 11 Llwybrau i'r Brig – cyfran y gyllideb a wariwyd ar fathau gwahanol o weithgareddau ……………………………………………………………121
Ffigur 12 Mathau o isgontractwyr Llwybrau i'r Brig …………………...124
Ffigur 13 Llwybrau i'r Brig – cyfranogwyr yn ôl awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth 11-19 oed …………………………………………………125
Ffigur 14 Gweithdai Dinasyddiaeth Weithgar y Ddraig Ffynci: cynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig mewn perthynas â sgiliau cymdeithasol a phersonol ……………………...141
Ffigur 15 Troedle Cyntaf – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr anabl a chyfranogwyr nad ydynt yn anabl ……………………………………………..149
Ffigur 16 Troedle Cyntaf – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr NEET a'r rheiny mewn addysg ………………………………………………………...150
Ffigur 17 Troedle Cyntaf – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr gwryw a benyw ……………………………………………………………………..150
Ffigur 18 Troedle Cyntaf – canran y cyfranogwyr yn ennill cymwysterau ac yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill yn ôl awdurdod lleol… ………………151
Ffigur 19 Cerdd Gymunedol Cymru: cynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig mewn perthynas â hyder… ……………………………………….164

Ffigur 20 Cerdd Gymunedol Cymru: cynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig mewn perthynas â sgiliau cymdeithasol, cyfeillgarwch ac ymdeimlad o berthyn i gymuned…… 165
Ffigur 21 SNAP Cymru: cynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig mewn perthynas â sgiliau personol a chymdeithasol……………………………...166
Ffigur 22 SNAP Cymru – cyfran y bobl ifanc â chynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig………………………………………………………... 167
Ffigur 23 Cerdd Gymunedol Cymru: dyheadau pobl ifanc ar gyfer y dyfodol cyn ac ar ôl cyfranogi mewn gweithgareddau Cyrraedd y Nod……………. 173
Ffigur 24 Llwybrau i'r Brig – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr anabl a chyfranogwyr nad ydynt yn anabl …………………………………………….. 176
Ffigur 25 Llwybrau i'r Brig – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr NEET a'r rheiny mewn addysg……………………………………………. 177
Ffigur 26 Llwybrau i'r Brig – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr gwryw a benyw………………………………………………………………. 177
Ffigur 27 Llwybrau i'r Brig – canran y cyfranogwyr yn ennill cymwysterau yn ôl awdurdod lleol…………………………………………………. 178
Ffigur 28 Llwybrau i'r Brig – canran y cyfranogwyr yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill yn ôl awdurdod lleol……………………………………... 179

## Crynodeb Gweithredol

1. Hwn yw'r gwerthusiad terfynol o Cyrraedd y Nod a gynhaliwyd gan ICF GHK ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n defnyddio ymchwil a wnaed rhwng Mehefin 2012 a Mehefin 2013.

### Cyflwyniad

*Prosiectau Cyrraedd y Nod*

2. Roedd Cyrraedd y Nod yn fenter £29 miliwn a ariannwyd yn rhannol drwy Flaenoriaeth 1 Rhaglen Weithredol ar gyfer Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, sy'n anelu at baratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol drwy godi'u dyheadau a chynyddu eu cyfranogiad mewn dysgu.
3. Roedd Cyrraedd y Nod yn cynnwys dau brosiect – Troedle Cyntaf, a ariannwyd o dan Thema 1: Mynd i'r Afael â Thangyflawniad (sy'n ceisio gwella deilliannau addysgol pobl ifanc y mae perygl iddynt dangyflawni), a Llwybrau i'r Brig, a ariannwyd o dan Thema 2: Codi Sgiliau a Dyheadau (sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus i gyflogaeth).
4. Goruchwyliwyd y prosiectau gan noddwr arweiniol, sef Llywodraeth Cymru, a weithiodd mewn partneriaeth â deg o sefydliadau cyd-noddi, yn cynnwys wyth sefydliad o'r sector gwirfoddol a chymunedol (Cyngor Celfyddydau Cymru, Plant yng Nghymru, y Ddraig Ffynci, Achub y Plant, Cerdd Gymunedol Cymru, SNAP Cymru, Techniquest ac Urdd Gobaith Cymru) a dwy adran yn Llywodraeth Cymru.

*Diben yr astudiaeth*

5. Nodau'r astudiaeth oedd:
   - Gwerthuso effeithiolrwydd y prosesau ar gyfer dylunio, rheoli a chyflwyno Cyrraedd y Nod;
   - Asesu effeithiolrwydd Cyrraedd y Nod o ran gwireddu nodau ac amcanion a bennwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol, yn cynnwys

targedau Cronfa Strwythurol Ewropeaidd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), cyflawni deilliannau ac effeithiau buddiol ar gyfer pobl ifanc, a chyfrannu at uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc; ac

- Amlygu gwersi a ddysgwyd er mwyn llywio datblygu ymyriadau yn y dyfodol.

*Cyfyngiadau'r astudiaeth*

6. Mae'r ffaith mai cyfyngedig yw'r wybodaeth reoli a gwerthusiadau cadarn eraill o weithgareddau sydd ar gael yn golygu bod yr adroddiad hwn wedi gorfod dibynnu'n ormodol ar ddata ansoddol. Nid yw wedi gallu bodloni pob un o'i ofynion. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn galluogi'r adroddiad i ddod i gasgliadau cadarn ynglŷn â'r prosesau ar gyfer dylunio, rheoli a gweithredu prosiect Cyrraedd y Nod. Mae hefyd yn rhoi cipolwg ar y gweithgareddau a'u nodweddion cyflwyno sydd i weld yn cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol. Nid yw, fodd bynnag, yn galluogi dod i gasgliadau cadarn a chyffredinol ynglŷn ag effaith Cyrraedd y Nod na gwersi i lywio cyflwyno gwasanaethau i bobl ifanc yn y dyfodol.

*Dull*

7. Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn pedwar cam:

<u>Cam 1: Cwmpasu</u>

8. Datblygwyd fframweithiau gwerthuso prosesau ac effeithiau a nodwyd gweithgareddau 14 o astudiaeth achos (saith ar gyfer pob prosiect). Cynhaliwyd adolygiad byr o lenyddiaeth hefyd er mwyn nodi tystiolaeth ynglŷn â nodweddion arfer effeithiol wrth ymgysylltu ac ail-ymgysylltu â phobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl.
9. Yn ystod y cam cwmpasu, cymerodd grŵp o 12 o bobl ifanc rhwng 11 ac 20 oed o saith awdurdod lleol yn yr ardal Gydgyfeirio ran mewn gweithdy cyfranogol. Yn ystod y gweithdy, archwiliwyd eu barnau ar y canlynol: y

prif rwystrau i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant; beth sy'n gweithio'n dda o ran darparu cymorth i bobl ifanc; a'r agweddau mwyaf pwysig a lleiaf pwysig ar Cyrraedd y Nod. Gan ddefnyddio sylwadau cyfranogwyr, nodom set o gwestiynau ymchwil y credai'r bobl ifanc y dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio arnynt.

Cam 2: Gwerthusiad interim a Cam 3: Gwerthuso effaith

10. Yn fras, diben Cam 2 (Medi 2012 i Ionawr 2013) oedd casglu tystiolaeth ynglŷn â'r prosesau ar gyfer dylunio, rheoli a gweithredu Cyrraedd y Nod, a diben Cam 3 (Ionawr 2013 i Fehefin 2013) oedd asesu effeithiau'r prosiectau. Felly, cynhaliwyd yr un tasgau ymchwil allweddol ar gyfer pob cam o'r ymchwil ond gyda ffocws ar brosesau yng Ngham 2 a ffocws ar ddysgu am gyflwyno, deilliannau, effeithiau, gwaddol a chynaliadwyedd yng Ngham 3.
11. Disgrifir y tasgau ymchwil yn fanwl yn y prif adroddiad, ond roeddent yn cynnwys:
    - **Pennu rhestr o weithgareddau a gyflwynir gan bob prosiect**. Nid oedd hon ar gael ac felly casglwyd gwybodaeth am bob gweithgaredd yr oedd disgwyl iddynt gael eu comisiynu, gan gynnwys y grŵp targed ar gyfer pob gweithgaredd, ymhle yr oedd gweithgareddau'n cael eu cyflwyno yn yr ardal Gydgyfeirio, natur y gweithgaredd, y gyllideb a ddyrannwyd a pha un a oedd y gweithgaredd yn cael ei gyflwyno'n uniongyrchol neu wedi'i roi ar gontract i ddarparwyr eraill.
    - **Dadansoddi'r adroddiadau hawliadau chwarterol gan Lywodraeth Cymru i WEFO** (gwariant; cyfanswm nifer y cyfranogwyr; nodweddion allweddol y cyfranogwyr; a niferoedd y cyfranogwyr yn ennill cymwysterau, yn mynd i mewn i ddysgu pellach ac yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill).
    - **Cyfweliadau manwl gyda sefydliadau cyd-noddi** (20 ym mhob cam). Yng Ngham 2 roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar brosesau ar gyfer dylunio, cynllunio, comisiynu, rheoli a chyflwyno gweithgareddau. Yng Ngham 3, roedd y cyfweliadau'n archwilio barnau ynglŷn â chyflwyno

gweithgareddau a gwersi a ddysgwyd ynghylch gweithrediad effeithiol, deilliannau ac effeithiau a gyflawnwyd, gwaddol a chynaliadwyedd. Nid oedd rhai o'r staff yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chomisiynu gweithgareddau yn eu swydd mwyach, ac felly nid oeddem yn gallu cael eu safbwynt hwy.

- **Ymchwil astudiaeth achos:** Yng Ngham 2, cynhaliwyd dau weithdy hanner diwrnod ar gyfer rheolwyr gweithgareddau astudiaethau achos, un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru. Trwy drafodaethau wedi'u hwyluso, cafwyd barnau ar y broses gomisiynu, sut yr oedd gweithgareddau wedi'u datblygu, gweithio mewn partneriaeth a chyflwyno mewn partneriaeth. Cafodd cyfranogwyr gweithgareddau astudiaethau achos eu cyfweld hefyd. Yng Ngham 3, roedd yr ymchwil astudiaethau achos yn cynnwys cyfweliadau gyda rheolwyr gweithgareddau, staff cyflwyno, partneriaid cyflwyno, partneriaid cyfeirio, a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran. Yn nodweddiadol, cynhaliwyd ymweliad diwrnod neu ddau ddiwrnod â safle'r prosiect. Cyfwelwyd â chyfanswm o 183 o gyfranogwyr (162 o bobl ifanc a 21 o weithwyr proffesiynol), 56 o staff cyflwyno ac 17 o staff partneriaid cyfeirio.
- **Adolygiad o'r adroddiad gwerthuso ac adroddiad y prosiectau:** Cafodd adroddiadau gwerthuso a gomisiynwyd gan gyd-noddwyr ac adroddiadau am brosiectau eu hadolygu er mwyn amlygu tystiolaeth o ddeilliannau ac effeithiau. Nid oedd rhai o'r adroddiadau gwerthuso yn cyflwyno tystiolaeth gadarn am ddeilliannau ar gyfer pobl ifanc, ac fe wnaeth hynny gyfyngu ar eu defnyddioldeb.
- **Cyfweliadau ffôn gyda 10 o randdeiliaid ehangach (Cam 3 yn unig):** Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, yn cynnwys prif swyddogion ieuenctid, cynrychiolwyr cyrff ambarél y sector gwirfoddol, ac aelodau o'r grŵp llywio nad oeddent yn noddwyr. Roedd y cyfweliadau'n archwilio barnau ar y canlynol: sut mae Cyrraedd y Nod yn cydweddu â'r agenda strategol a'r agenda polisi ehangach ar gyfer pobl ifanc NEET a phobl ifanc yng Nghymru; sut mae hyn wedi newid a pha un a yw Cyrraedd y Nod wedi ymateb i

hyn; sut y cafodd y prosiectau eu datblygu a'u gweithredu; a'r dysgu a'r gwaddol.

- **Myfyrio ar ganfyddiadau'r ymchwil gyda phobl ifanc (Cam 3 yn unig):** Daethpwyd â chwech o bobl ifanc o'r grŵp a fu'n myfyrio ar gwestiynau'r ymchwil yn ystod y cyfnod cwmpasu at ei gilydd eto i drafod canfyddiadau'r astudiaeth a oedd yn dod i'r amlwg.

Cam 4: Ymchwil ychwanegol i fynd i'r afael â bylchau yn y wybodaeth reoli:

12. Drwy'r cam cwmpasu a'r dadansoddiad cychwynnol o wybodaeth reoli, nodwyd bylchau sylweddol yn y wybodaeth reoli a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru a chyd-noddwyr. Y prif fylchau oedd data ar:
    - Allbynnau, deilliannau a gwariant ar lefel gweithgareddau unigol;
    - Deilliannau tymor byr a thymor canolig sy'n gamau ar y ffordd tuag at ddeilliannau tymor hwy o fynd ymlaen i ddysgu pellach neu ennill cymhwyster (fel cwblhau rhan o gymhwyster, cwblhau lleoliad gwirfoddol neu aros mewn addysg neu hyfforddiant); a
    - Deilliannau ar gyfer gweithwyr proffesiynol.
13. Er bod data ychwanegol wedi'i gyflwyno gan rai noddwyr ym mis Ionawr 2013, roedd hwn yn dal yn annigonol. Cynhaliom rywfaint o ymchwil ansoddol a meintiol ychwanegol felly i lenwi rhai o'r bylchau hyn, ac mae eu manylion yn y prif adroddiad.

**Effeithiolrwydd y prosesau ar gyfer dylunio a datblygu prosiectau Cyrraedd y Nod**

*Tystiolaeth o angen a bylchau mewn gwasanaethau*

14. Mae cynlluniau busnes y prosiectau yn derbyn yr heriau a wynebir gan bobl ifanc fel rhai wedi'u darllen a'u deall yn eang. Cyfeiriant at ymgynghoriad ehangach ond nid ydynt yn cyflwyno canfyddiadau, ac maent yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth ymchwil sy'n rhoi tystiolaeth ategol o anghenion.  Mae rhywfaint o'r dystiolaeth a ddyfynnwyd i weld yn

llai perthnasol a defnyddiol ar gyfer amlygu anghenion, fel astudiaeth ansoddol ar raddfa fach mewn un ardal awdurdod lleol.

15. Roedd cynlluniau busnes y cyd-noddwyr yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth ychwanegol am anghenion pobl ifanc, fel ystadegau cenedlaethol, canfyddiadau o ymgynghoriadau cenedlaethol ac arolygon ar raddfa fawr.
16. Mae cynlluniau busnes y prosiectau yn datgan disgwyliad am weithgareddau cenedlaethol yn cael eu cyflwyno'n lleol a fyddai'n cefnogi darpariaeth leol bresennol. Fodd bynnag, nid ydynt yn mynd ati, yn ôl ardal awdurdod lleol na rhanbarth, i fapio mentrau prif ffrwd presennol neu fentrau eraill y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i ddangos sut fyddai gweithgareddau Cyrraedd y Nod yn llenwi bylchau ac yn ychwanegu gwerth. Yn lle hynny, cyflwynir meysydd cyffredinol anghenion am wasanaethau.
17. Roedd cynlluniau busnes y cyd-noddwyr yn ystyried cwmpas gwasanaethau a phrosiectau eraill yng Nghymru i ryw raddau er mwyn diffinio sut y byddai gweithgareddau arfaethedig yn cyd-fynd â darpariaeth bresennol, ond ni wnaeth yr un ohonynt fapio hynny'n fanwl.
18. Roedd bron pob un o'r rhanddeiliaid yn pryderu bod rhai o weithgareddau a gwasanaethau'r prosiect yn dyblygu yn hytrach na llenwi bylchau yn y ddarpariaeth leol.
19. Cyflwynir disgwyliadau bras o ran cydweddu â gwasanaethau prif ffrwd, gyda manylion cyfyngedig ynghylch cyfeiriadau a llwybrau dilyniant disgwyliedig rhwng gwasanaethau.

*Targedau*

20. Mae'r rhan fwyaf o'r targedau yn y cynllun busnes yn ymwneud ag amcanion y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn hytrach nag amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
21. Tystiolaeth gyfyngedig sydd y lluniwyd targedau ar sail asesiad o'r cyflenwad a'r galw a chostau amcangyfrifedig i gyflawni allbynnau a deilliannau.

*Tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran cyflawni deilliannau ar gyfer pobl ifanc mewn perygl a phobl ifanc NEET*

22. Mae'r cynlluniau busnes yn cynnig gweithgareddau eang ar gyfer pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl, gan gynnwys gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau, gweithgareddau dinasyddiaeth, cymorth hyfforddi dwys i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, gwybodaeth a chyngor a gweithgareddau ymgysylltu STEM. Wrth ddadlau o blaid gweithgareddau, mae cynlluniau busnes y prosiectau a'r cyd-noddwyr yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth o beth sy'n gweithio o ran cyflawni deilliannau, ond gallai hyn fod wedi bod yn fwy cynhwysfawr a chadarn o lawer.

**Effeithiolrwydd y prosesau ar gyfer comisiynu, cyflwyno a rheoli prosiectau Cyrraedd y Nod**

*Comisiynu*

23. Bu oedi yn y broses gomisiynu tra bod penderfyniadau'n cael eu gwneud adeg yr adolygiad canol prosiect ynghylch blaenoriaethau ar gyfer gweddill y cyfnod cyflwyno gan WEFO a Llywodraeth Cymru. I lawer o gyd-noddwyr, golygai hyn fod y broses gomisiynu a chyflwyno wedi'i chrynodi yn ystod y camau diweddarach, gan greu pwysau sylweddol.
24. Adroddodd ychydig o gyd-noddwyr fod lefel yr arian cyfatebol a oedd ar gael wedi effeithio ar gomisiynu. Nodwyd ganddynt fod y targedau ar gyfer arian cyfatebol wedi'u diffinio cyn y dirywiad economaidd. Pan ddaeth hi'n amser i geisio sicrhau ffynonellau cyllid eraill yn 2008 a 2009, roedd llawer llai o gyllid ar gael nag a ragwelwyd pan oedd y prosiect wrthi'n cael ei gynllunio.
25. Profiad cyfyngedig o gomisiynu trwy gontractio cystadleuol oedd gan nifer o gyd-noddwyr, ac adroddwyd ganddynt y byddent wedi hoffi cael mwy o gymorth gan Lywodraeth Cymru i sefydlu prosesau.
26. Aeth y rhan fwyaf o gyd-noddwyr ati i asesu sefydliadau tendro yn erbyn gallu wedi'i brofi i ennyn diddordeb y grŵp targed, tystiolaeth o

bartneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol a gallu i gofnodi, monitro a gwerthuso. Er bod pris/cost yn ystyriaeth i'r rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr, nid oedd yn gyffredinol yn faen prawf allweddol i asesu cynigion yn ei erbyn.

27. Yn gyffredinol, ni wnaeth y cyd-noddwyr ymchwil er mwyn meincnodi costau unedau i asesu cynigion, ac ni wnaethant ychwaith amrywio'r dull o gomisiynu yn ôl maint contractau, gan awgrymu mewn rhai achosion na chyflawnwyd cymesuredd a gwerth am arian o bosibl.
28. Er iddynt fod yn amheugar ar y cychwyn ynghylch gwerth ychwanegol y broses gomisiynu, adroddodd nifer o gyd-noddwyr ei bod wedi ychwanegu gwerth. Er enghraifft, roedd grwpiau targed na fyddent wedi'u cyrraedd fel arall wedi cael cymorth ac roedd partneriaethau newydd wedi'u ffurfio a fydd yn gwella darpariaeth ar gyfer y grwpiau targed o bobl ifanc yn y dyfodol.

*Sefydlu a chychwyn arni*

29. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni wnaeth y cyd-noddwyr gasglu data gwybodaeth reoli oddi wrth asiantau cyflwyno ymhellach na hynny yr oedd WEFO yn ei fynnu. Fe wnaeth rhai cyd-noddwyr a oedd yn cyflwyno gweithgareddau'n uniongyrchol gasglu gwybodaeth reoli ychwanegol ond ni throsglwyddwyd hon i'r tîm yn Llywodraeth Cymru a oedd yn rheoli'r rhaglen, ac yn aml fe'i cadwyd ar ffurf copi caled.
30. Un her fawr i'r cyd-noddwyr o ran rhoi cyfarwyddiadau clir i asiantau cyflwyno oedd diffyg gwybodaeth glir gan Lywodraeth Cymru am ba gyfranogwyr oedd yn cyfrif tuag at dargedau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a'r wybodaeth reoli yr oedd ei hangen.
31. Aeth y cyd-noddwyr ati i friffio asiantau cyflwyno ar y gofynion monitro ac adrodd, ond serch hynny cawsant anawsterau o ran cael data gan ddarparwyr nad oedd ganddynt, mewn rhai achosion, unrhyw brofiad blaenorol o gyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd.
32. Fe wnaeth nifer o asiantau cyflwyno fynegi'r farn, oherwydd bod llawer o sefydliadau partner yn derbyn cyllid gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer prosiectau eraill, bod amharodrwydd ymhlith rhai asiantaethau i

gydweithredu a chyfeirio pobl ifanc at eu gweithgareddau oherwydd pryder na fyddent yn cyfrif tuag at y targed ar gyfer eu gweithgarwch eu hunain.

*Cyflwyno*

33. Sefydlwyd amryw o fecanweithiau gan y cyd-noddwyr, gan gynnwys ymweliadau monitro, arsylwi gweithgareddau, ac adroddiadau cynnydd misol, ar gyfer monitro a sicrhau ansawdd y cyflwyno gan sefydliadau dan gontract a hefyd eu cyflwyno uniongyrchol eu hunain. Fe wnaeth rhai ohonynt gryfhau prosesau yn ystod oes y prosiect, er enghraifft, cynyddu amlder adroddiadau diweddaru neu ymweliadau, neu fireinio gofynion ar gyfer darparu gwybodaeth. Fodd bynnag, ni wnaeth y rhan fwyaf ohonynt gasglu data gwybodaeth reoli heblaw am hynny oedd yn ofynnol at ddibenion y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, sy'n golygu mai ystod eang o allbynnau a deilliannau sydd wedi'u monitro.
34. Yn gyffredinol, nid ymddengys bod prosesau sicrhau ansawdd a monitro wedi'u hamrywio yn ôl maint a hyd contractau. O ganlyniad, mae rhai cyd-noddwyr wedi canfod eu bod wedi treulio cyfnod amser anghymesur yn rheoli contractau bach.
35. Aeth asiantau cyflwyno dan gontract a rheolwyr gweithgareddau yn y sefydliadau cyd-noddi ati i recriwtio pobl ifanc o ystod o sefydliadau partner, yn cynnwys Gyrfa Cymru, timau troseddau ieuenctid, clybiau ieuenctid, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion, sefydliadau eraill y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol a gwasanaethau awdurdod lleol allweddol. Yn gyffredinol, ymddengys fod y broses recriwtio cyfranogwyr wedi bod yn un hwylus, ac arweiniodd at bobl ifanc wedi'u targedu yn cael cynnig mynediad i gyfleoedd ychwanegol.
36. Roedd cyfranogwyr (yn bobl ifanc ac yn weithwyr proffesiynol), yn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â'r broses o gael eu recriwtio i weithgareddau. Teimlent gan fwyaf fod ganddynt wybodaeth ddigonol am y gweithgaredd ymlaen llaw, a bod y wybodaeth a gawsant yn gwneud y gweithgaredd yn ddeniadol.
37. Ar ôl cael eu recriwtio i weithgareddau, mae anghenion pobl ifanc wedi'u hasesu mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Fe wnaeth rhai asiantau cyflwyno

ymgorfforі Dangos Llwyddiant i'w proses asesu, ond roedd barn gyffredinol fod Dangos Llwyddiant yn fwy addas i waith dwys un-i-un dros gyfnod hir o amser. Aeth rhai o'r bobl ifanc ati i ddisgrifio'r dulliau asesu a ddefnyddiwyd gan weithgareddau, fel graddfa i asesu pa mor optimistaidd y teimlai pobl ifanc ynglŷn â'u dyfodol. Roeddent yn gweld bod hwn yn ddull defnyddiol ac yn hawdd ei ddeall.

38. Ystyriai noddwyr, staff cyflwyno a phobl ifanc fod y canlynol yn effeithiol o ran ennyn diddordeb pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl: cynnig dewis mawr o weithgareddau i bobl ifanc; sicrhau bod gweithwyr ieuenctid yn meddu ar y sgiliau i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda phobl ifanc ar sail parch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr; cyflwyno gweithgareddau ymarferol iawn sy'n wahanol i weithgareddau nodweddiadol yr ystafell ddosbarth; a sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig dros amser er mwyn cryfhau effeithiau. Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi tystiolaeth yn y llenyddiaeth ynglŷn ag arfer effeithiol wrth gyflawni deilliannau ar gyfer pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl.

*Rheoli prosiectau Cyrraedd y Nod*

39. Roedd cytundeb ymhlith y cyd-noddwyr fod newidiaeth staff yn y tîm Rheoli Prosiectau yn Llywodraeth Cymru wedi arwain at wybodaeth ac arweiniad anghyson ac anamserol.
40. Roedd y cyd-noddwyr yn siomedig yn gyffredinol fod y gronfa ddata gwybodaeth reoli ganolog wedi'i sefydlu'n hwyrach na'r disgwyl, ac na allent lanlwytho gwybodaeth reoli yn uniongyrchol. Roeddent o'r farn y byddai hyn wedi torri ar yr amser a'r adnoddau yr oedd eu hangen ar gyfer casglu a chyflwyno gwybodaeth reoli.
41. Yn gyffredinol, roedd y cyd-noddwyr o'r farn fod cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Prosiectau wedi bod yn ddefnyddiol o ran mynd i'r afael â materion gweithredol mewn perthynas â gwybodaeth reoli a hawliadau misol, ond roedd hyn i ryw raddau wedi atal pwyslais ehangach ar rannu dysgu ac arbenigedd rhwng cyd-noddwyr.
42. Roedd consensws hefyd ymhlith y cyd-noddwyr fod Grŵp Llywio ac Ymgynghori'r Prosiectau wedi methu â chynnwys uwch arweinwyr polisi yn

Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o bartneriaid cenedlaethol allweddol er gwaethaf ymdrechion gorau'r tîm rheoli rhaglenni yn Llywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod rhaglenni Ardal Gydgyfeirio eraill y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd sy'n targedu'r un grwpiau o bobl ifanc wedi sefydlu grwpiau tebyg.

**Cyflawni nodau ac amcanion yn y cynllun busnes**

43. Bu tanwariant sylweddol ym mhrosiect Cyrraedd y Nod: roedd y gyllideb gychwynnol bron i £50 miliwn ond y gwariant terfynol oedd £29 miliwn.
44. Llwyddodd y prosiectau i gyflawni eu targedau trwybwn cyffredinol: fe wnaeth cyfanswm o dros 31,000 o bobl ifanc a 2,160 o weithwyr proffesiynol gyfranogi yn Cyrraedd y Nod (15,974 o bobl ifanc ac 1,160 o weithwyr proffesiynol yn Troedle Cyntaf a 15,786 o bobl ifanc a dros 1,000 o weithwyr proffesiynol yn Llwybrau i'r Brig).
45. Fodd bynnag, bu anawsterau wrth dargedu: cymerodd nifer sylweddol yn llai o bobl ifanc NEET ran mewn gweithgareddau na'r disgwyl (roedd rhyw bumed o gyfranogwyr yn bobl ifanc NEET o gymharu â'r targed gwreiddiol ar gyfer bron i hanner y bobl ifanc i fod yn NEET); yn Troedle Cyntaf, cymerodd gyfran uwch o bobl ifanc 11-13 oed na'r disgwyl ran (y targed gwreiddiol oedd 30% (5,130 o bobl ifanc) o gymharu â'r 40% (6,457 o bobl ifanc) a gymerodd ran mewn gwirionedd); a gallai'r ddau brosiect fod wedi bod yn fwy effeithiol o ran targedu lleiafrifoedd ethnig.
46. Mae grwpiau mewn perygl penodol y sonnir amdanynt yn y cynllun busnes – pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl anabl ifanc a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid – wedi'u cynnwys yn effeithiol mewn prosiectau.
47. Nid oedd perfformiad yn erbyn targedau yn gyson ar draws noddwyr, gyda rhai yn gorgyflawni'n sylweddol yn erbyn dangosyddion penodol a rhai yn tangyflawni'n sylweddol. Mae hyn yn awgrymu nad oedd y targedau bob amser yn briodol ar gyfer y gweithgareddau.
48. Mae gweithgareddau prosiect wedi'u darparu'n anghymesur mewn rhai meysydd o gymharu ag eraill. Nid oes sail resymegol glir ar gyfer yr amrywio daearyddol hwn yn yr ardal Gydgyfeirio.

49. Mae tystiolaeth gymharol gadarn fod y ddau brosiect wedi arwain at wella sgiliau personol a chymdeithasol ymhlith pobl ifanc. Ymddengys mai'r gweithgareddau sydd wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran gwneud hynny yw:

- Yn Troedle Cyntaf, gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru, gweithgaredd Gweithiwr Trosglwyddo AdAS a gweithgarwch Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid;
- Yn Llwybrau i'r Brig, mentora un-i-un a gweithdai grŵp yn seiliedig ar gerddoriaeth yn cael eu cyflwyno gan Cerdd Gymunedol Cymru a chyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu cyflwyno gan yr Urdd.

50. Mae rhai o'r nodau yn y cynllun busnes wedi'u cyflawni. Yn Troedle Cyntaf, mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu a chyflwyno pecynnau hyfforddi mewn dulliau arloesol o ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol sy'n gyswllt llinell flaen gyda phobl ifanc;
- Darparu cymorth lleol ac arloesol i bobl ifanc, drwy ystod eang o weithgareddau.

Ac ar gyfer Llwybrau i'r Brig:

- Datblygu ystod o wybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth i bobl ifanc ar faterion yn ymwneud â dysgu, gyrfaoedd a ffordd o fyw (trwy wefan CLIC yn bennaf a gweithgareddau SNAP Cymru, er yr ymgorfforwyd rhywfaint o wybodaeth ac arweiniad mewn llawer o weithgareddau);
- Datblygu adnoddau hyfforddi ar feysydd fel rheoli cyllidebau a gallu ariannol ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill;
- Cyflwyno ystod o ymyriadau i bobl ifanc sy'n debygol o dangyflawni er mwyn sicrhau y gallant gyflawni lefel cymhwyster uwch trwy lwybrau dysgu newydd (trwy weithgareddau'n cael eu cyflwyno gan yr Urdd a Cerdd Gymunedol Cymru).

51. Fodd bynnag, nid yw rhai nodau allweddol yn y cynlluniau busnes wedi'u cyflawni.  Ar gyfer Troedle Cyntaf, mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu, rhoi ar brawf a gweithredu dulliau systematig ac arloesol o adnabod pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl;

- Datblygu systemau Cymru gyfan ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc NEET; a
- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymgymryd â rhaglenni hyfforddi byr mewn sgiliau'n gysylltiedig â gwaith a chymhwyso'r rhain trwy brofiad yn gysylltiedig â gwaith.

  Ac ar gyfer Llwybrau i'r Brig:

  - Cynyddu cyfleoedd ar gyfer profiad tebyg i brofiad gwaith sy'n gysylltiedig â chyflogwyr a diwydiannau.

52. Ymddengys yn fras fod y nodau a'r amcanion a amlinellwyd yn y cynllun busnes mewn perthynas â thema drawsbynciol cyfle cyfartal wedi'u cyflawni.
53. Er nad oes modd gwneud asesiad llawn o ba un a yw'r holl weithgareddau wedi ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol yn effeithiol, mae nifer o enghreifftiau yn y ddau brosiect o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar faterion yn gysylltiedig â'r amgylchedd lleol. Nid yw un o nodau allweddol Llwybrau i'r Brig, sef cynnig y cyfle i bobl ifanc ymgymryd â lleoliadau gwaith a gwirfoddoli mewn sefydliadau amgylcheddol, wedi'i gyflawni.
54. Ychydig o weithgareddau a aeth ati i geisio amlygu a lledaenu enghreifftiau o arfer da – sef un o nodau allweddol cynlluniau'r ddau brosiect. Bydd y gweithgareddau hynny a gafodd eu gwerthuso'n allanol (gweithgareddau a gyflwynwyd gan yr Urdd, SNAP Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid) yn cyfrannu'n rhannol at y nod hwn os caiff adroddiadau gwerthusol eu cylchredeg.
55. Mae'r gweithgareddau a gyflwynwyd i weithwyr proffesiynol a phobl ifanc yn y ddau brosiect yn berthnasol yn gyffredinol i amcanion polisi Ymestyn Hawliau a'r Cynllun Ymgysylltu Ieuenctid a'r Cynllun Gweithredu dilynol, ond golyga'r niferoedd isel o bobl ifanc NEET a gymerodd ran mai cyfyngedig oedd y cyfraniad at Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, sef strategaeth lleihau niferoedd NEET y llywodraeth.

*Ychwanegedd*

56. Yn gyffredinol, roedd cyd-noddwyr, partneriaid cyflwyno, sefydliadau cyfeirio a rhai rhanddeiliaid o’r farn na fyddai’r deilliannau a gyflawnwyd wedi digwydd pe na bai’r rhaglen yn bodoli. Roeddent yn cytuno bod cyllid Cyrraedd y Nod wedi galluogi cyflwyno gweithgareddau ar raddfa fwy na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall, a bod hyn wedi galluogi cyrraedd mwy o bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol o ardal ddaearyddol ehangach.
57. Yn arwyddocaol, serch hynny, roedd rhanddeiliaid o’r farn fod diffyg asesiad cynhwysfawr o anghenion ar ddechrau’r prosiect a chynnwys rhanddeiliaid rhanbarthol a lleol yn annigonol wedi lleihau gwerth ychwanegol ac wedi cynyddu’r potensial am ddyblygu yn hytrach na mynd i’r afael â bylchau yn y ddarpariaeth.
58. Mae’r niferoedd isel o gyfranogwyr NEET a’r niferoedd uwch na’r disgwyl o bobl ifanc mewn perygl yn dangos bod buddiolwyr y tu allan i’r grŵp targed a fwriadwyd wedi elwa ar y prosiect.
59. Nid oes unrhyw dystiolaeth o  ddadleoli nac amnewid gweithgareddau eraill.

**Gwaddol a chynaliadwyedd**

*Gwaddol*

60. Gall llawer o’r gweithgareddau amlygu buddion ehangach a gwaddolion fel cymhwyster cynyddol gweithwyr proffesiynol a chymhwyster sefydliadol cynyddol trwy weithio gwell mewn partneriaeth, prosesau busnes gwell, a datblygu offer ac adnoddau i’w defnyddio yn y dyfodol.

*Cynaliadwyedd*

61. Ym Mehefin 2013, nid oedd y rhan fwyaf o weithgareddau wedi sicrhau cyllid i’w cynnal.  Tynnodd llawer o’r cyd-noddwyr sylw at yr heriau o sicrhau cyllid parhaus ar gyfer Cyrraedd y Nod yn y dirywiad economaidd sydd ohoni. Adroddodd rhanddeiliaid, am nad yw Cyrraedd y Nod wedi rhannu dysgu, bod ymwybyddiaeth o weithgareddau yn isel ymhlith darpar gyllidwyr.

62. Roedd y cyd-noddwyr yn derbyn bod nifer o weithgareddau wedi gweithio o ran cyflawni deilliannau ar gyfer pobl ifanc (er nad yw hyn yn seiliedig ar fonitro a gwerthuso cadarn ym mhob achos) ac y dylent, mewn egwyddor, gael eu cynnal. Mae noddwyr wrthi'n chwilio am gyllid i gynnal y gweithgareddau hyn ac yn disgwyl clywed pa un a yw cynigion a gyflwynwyd wedi bod yn llwyddiannus.

63. Mae rhai gweithgareddau'n cael eu cynnal ac wedi sicrhau cyllid parhaus. Mae'r rhain yn cynnwys, yn Troedle Cyntaf, hyfforddiant Plant yng Nghymru ar gyfer gweithwyr proffesiynol ynghylch sut i wella cyfranogiad pobl ifanc mewn penderfyniadau, elfennau o waith Achub y Plant, a gweithwyr trosglwyddo allweddol mewn rhai awdurdodau lleol. Yn Llwybrau i'r Brig, mae'r rhain yn cynnwys: mentora NEET gan Cerdd Gymunedol Cymru, hyfforddiant a chymorth teulu SNAP Cymru a rhai o weithgareddau dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol yr Urdd trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Casgliadau: gwersi ar gyfer cynllunio, rheoli a chyflwyno**

64. Mae yna ffyrdd ar gyfer gallu datblygu, rheoli a chyflwyno prosiectau a rhaglenni graddfa fawr fel Cyrraedd y Nod yn wahanol er mwyn gwella'u heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd, cynyddu'r deilliannau a gyflawnir, a sicrhau eu bod yn darparu dysgu ar gyfer darpariaeth brif ffrwd gan y llywodraeth yn ogystal â'r trydydd sector.

*Datblygu prosiectau*

65. Dylai'r holl brosiectau a gweithgareddau fod yn seiliedig ar gadwyn resymeg sy'n esbonio'r sail resymegol yn glir (h.y. pa broblemau y mae'r prosiect neu weithgaredd yn mynd i'r afael â nhw, pa fylchau sy'n cael sylw, pam mae angen am y prosiect neu weithgaredd); mewnbynnau; gweithgareddau; allbynnau; deilliannau bwriadedig tymor byr a thymor canolig; ac effeithiau disgwyliedig. Er mwyn dod at y gadwyn resymeg hon, dylai fod proses gwmpasu ac ymchwilio helaeth. Yn benodol:
    - Dylai prosiectau yn y dyfodol ddechrau gydag ymarferiad mapio manwl yn cael ei gynnal ar lefel ranbarthol neu lefel awdurdod lleol er mwyn deall darpariaeth bresennol y brif ffrwd a darpariaeth y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd fel y gellir amlygu bylchau'n effeithiol. Dylid gwneud hyn gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau, yn cynnwys ymchwil ddesg a dadansoddi, ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Dylai canfyddiadau drafft yr asesiad o fylchau gael eu rhannu gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau ansawdd ac i gyflawni consensws o ran y blaenoriaethau i fynd i'r afael â nhw.
    - Dylid cynnal adolygiad systematig o dystiolaeth am beth sy'n gweithio o ran cyflawni deilliannau disgwyliedig y prosiect, a'u defnyddio i lywio natur gweithgareddau (beth, am ba hyd, sut, ar gyfer pwy). Dylai rhanddeiliaid awdurdod lleol gael y cyfle hefyd i gyfrannu gwybodaeth am beth sy'n gweithio mewn cyd-destunau lleol fel rhan o'r broses hon.
    - Cyn comisiynu, dylai fod adolygiad trylwyr o'r farchnad er mwyn: deall yr atebion a allai fod ar gael ac i gael adborth ar y modd gorau o gyflawni'r gofyniad; penderfynu nifer a natur cyflenwyr; ac asesu pa fodel caffael yw'r un mwyaf priodol a graddfa/maint/hyd contractau i'w gosod.
    - Dylid datblygu diffiniadau clir o grwpiau targed allweddol a'u cytuno rhwng pob un o'r rhanddeiliaid ar ddechrau'r prosiect, a dylai'r potensial am groesgyfeirio a nodwyd gael ei gynnwys mewn targedau a gofynion contract.

- Dylai targedau fod yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o gyflenwad a galw sy'n ystyried poblogaeth gyfan y grŵp targed, tystiolaeth o angen, darpariaeth arall ar gyfer y grŵp targed, y niferoedd sy'n debygol o fanteisio ar weithgareddau a gwybodaeth briodol am gostau cyflenwi er mwyn cyflawni allbynnau a deilliannau ar sail data meincnod.
- Dylid gosod targedau ar gyfer gweithgareddau, yn hytrach nag ar lefel prosiect, a dylent gynnwys targedau daearyddol.
- Dylid gwella'r broses ar gyfer adolygu ansawdd cynlluniau busnes er mwyn sicrhau mwy o graffu a her o ran y dystiolaeth a'r sail resymegol a gyflwynir, ac i symud o syniad cychwynnol at gynllun datblygedig. Fel rhan o hyn, dylai fod cyfleoedd am fewnbwn gan arweinwyr polisi ac ymarferwyr arbenigol. Dylai hyn fod yn gymwys i gyd-noddwyr mewnol lawn gymaint â noddwyr allanol.

*Llywio a rheoli*

66. Dylai'r mecanweithiau ar gyfer llywio prosiectau graddfa fawr y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd gael eu haddasu i sicrhau y gellir ymgysylltu â'r holl randdeiliaid strategol a gweithredol perthnasol:
    - O gofio'r rhwystrau ymarferol i gael arweinydd polisi ar bob grŵp llywio llawer o brosiectau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru, dylid sefydlu grwpiau polisi thematig sy'n goruchwylio'r holl brosiectau sy'n berthnasol i'w meysydd polisi. Dylai eu rôl gynnwys monitro a hwyluso cyfrannu at amcanion polisi a chasglu a lledaenu dysgu am beth sy'n gweithio o ran cyflawni amcanion polisi.
    - Dylai fod grwpiau gweithredol rhanbarthol neu isranbarthol hefyd sy'n ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau cyflwyno. Sicrhau bod gweithgareddau'n cyfateb i anghenion rhanbarthol ac yn llenwi bylchau yn y ddarpariaeth a hwyluso partneriaethau gweithredol sy'n cefnogi deilliannau ar gyfer pobl ifanc ddylai rôl y grwpiau hyn fod.

*Cyflwyno*

67. Mae comisiynu yn gam pwysig i sicrhau bod gweithgareddau cost-effeithiol yn cael eu darparu sy'n bodloni nodau a deilliannau'r prosiect.
    - Dylid rhoi sail resymegol glir ar gyfer pam y mae rhai gweithgareddau yn cael eu gosod ar gontract a bod rhai eraill yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol gan noddwyr.
    - Pan gaiff y penderfyniad ei wneud bod angen i weithgaredd gael ei osod ar gontract, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arbenigwr contractio i weithio'n agos gyda noddwyr nad yw'r arbenigedd hwn ganddynt yn fewnol. Dylid darparu cyngor ac arweiniad ynghylch sut i gynnal adolygiad o'r farchnad cyn contractio, gan lunio manylebau, a sicrhau bod y broses monitro a sicrhau ansawdd yn gymesur â maint y contract.
    - Dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig am gontractau ddangos eu perthnasoedd presennol gyda phartneriaid cyflwyno a chyfeirio, gan gynnwys datganiadau gan bartneriaid y byddant yn cefnogi cyflwyno'r gweithgaredd.
    - Dylid darparu digwyddiadau ar lefel leol hefyd er mwyn hwyluso partneriaethau gweithredol rhwng awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a sefydliadau'r sector preifat.
    - I gyflawni deilliannau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc NEET neu bobl ifanc mewn perygl, dylai'r cyflwyno ddigwydd dros gyfnod amser digonol er mwyn rhoi amser i weithwyr proffesiynol ieuenctid adeiladu perthynas gyda phobl ifanc a chyflawni deilliannau ystyrlon sy'n fwy tebygol o gael eu cynnal. Mae hyn yn mynnu dealltwriaeth o gyllidebau a fframiau amser gweithgareddau pan gânt eu comisiynu.
    - Dylai'r broses o fonitro'r cyflwyno ganolbwyntio ar brosesau gweinyddol ar gyfer casglu, dilysu a chyflwyno data'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ond hefyd darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar sut i addasu'r cyflwyno er mwyn gwella deilliannau.

*Dysgu*

68. Dylai gwerthuso ffurfiannol yn ogystal â gwerthuso crynodol fod yn nodwedd o brosiectau yn y dyfodol. Dylid penodi gwerthuswyr allanol ar ddechrau prosiectau yn hytrach na chanol ffordd drwodd er mwyn gweithio ar y cyd â noddwyr i sefydlu prosesau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso cyflawni amcanion polisi'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Dylai'r dysgu sy'n dod i'r amlwg gael ei rannu'n rheolaidd trwy gydol y prosiect gyda noddwyr a rhanddeiliaid. Yn benodol:
    - Dylai data gwybodaeth reoli gael ei gasglu'n ganolog ar lefel gweithgaredd. Dylai hyn gynnwys data ar gydrannau allweddol pob adran o'r model rhesymeg sy'n sail i'r prosiect (mewnbynnau, gweithgareddau, deilliannau ac effeithiau tymor byr a thymor canolig).
    - Lle bo angen, dylid darparu cymorth adeiladu capasiti i noddwyr ar ddechrau'r prosiect ac yn barhaus er mwyn eu galluogi i fonitro a gwerthuso'n effeithiol. Gallai hyn gynnwys arweiniad i lunio cadwyn resymeg ar gyfer gweithgareddau penodol, darparu offer casglu data priodol ac arweiniad at sut y gall data gael ei ddadansoddi'n rheolaidd i lywio'r cyflwyno.
    - Dylid sefydlu strategaeth ledaenu o ddechrau'r prosiect sy'n cynnwys cyfleoedd i randdeiliaid ddod at ei gilydd yn ystod y prosiect i fyfyrio ar ddysgu o'r monitro a gwerthuso ffurfiannol.
    - Dylai gwerthuso ganolbwyntio ar sicrhau ei bod yn bosibl asesu beth sy'n gweithio i gyflawni'r deilliannau a ddisgwylir gan weithgareddau, gyda blaenoriaeth i'r rheiny nad ydynt wedi'u profi gystal/sy'n cael eu haddasu a'r rhai gwirioneddol arbrofol. Dim ond bryd hynny y bydd tystiolaeth i danategu penderfyniadau gan gyllidwyr i ddarparu cyllid.

**Casgliadau: gwersi ar gyfer llunwyr polisi a chyllidwyr**

69. Collwyd llawer o gyfleoedd i ddarparu gwersi o'r gweithgareddau yn y prosiectau. O ganlyniad, nid yw'n glir pa un a yw gweithgareddau dinasyddiaeth, er enghraifft, yn darparu sgiliau neu ba un a yw gweithgareddau celfyddydau, er enghraifft, yn ail-ennyn diddordeb pobl ifanc mewn dysgu neu mewn gwneud gweithgareddau cadarnhaol. Nifer gymharol fach o ganfyddiadau y gellir eu hamlygu i wneud datganiadau cadarnhaol am ba weithgareddau yr ymddengys eu bod yn gweithio i gyfrannu at ddeilliannau polisi allweddol, sut ddylai'r gweithgareddau gael eu cyflwyno'n effeithiol i gyflawni'r deilliannau a ddymunir, a pha weithgareddau sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc fel y byddant yn caffael sgiliau na fyddent yn eu cael fel arall o ddysgu ffurfiol.
70. Os yw hyn i'w gyflawni mewn rhaglenni'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd o'r math hwn yn y dyfodol, mae'n bwysig bod llunwyr polisi a chyllidwyr yng Nghymru yn defnyddio'r gwersi uchod ac:
    - Yn glir ynghylch y cwestiynau ymchwil y maent am fynd i'r afael â nhw yn ogystal â'r deilliannau a ddisgwyliant o'r ymyriadau ar gyfer y grwpiau targed.
    - Yn adeiladu systemau ar gyfer casglu gwybodaeth reoli a dangos tystiolaeth o'r deilliannau o'r cychwyn cyntaf (i'r holl fuddiolwyr).
    - Yn cefnogi dysgu trwy gydol y rhaglen ochr yn ochr â threfniadau rheoli gweithredol, a sicrhau bod dysgu'n bwydo i anghenion llunwyr polisi yn ogystal â'r rheiny sy'n gweithredu polisïau ar lawr gwlad.
    - Yn sicrhau bod dysgu o lenyddiaeth ymchwil yn cael ei adolygu'n feirniadol a'i ymgorffori ar y cychwyn cyntaf yng ngwaith comisiynwyr ac asiantau cyflwyno fel bod gweithgareddau'n adlewyrchu'r hyn sy'n hysbys am beth sy'n gweithio a lle mae angen asesu dulliau arbrofol yn ofalus.
    - Yn cydlynu'r comisiynu ac yn darparu parhad cydlyniant yn ogystal â chyflwyno.
    - Yn datblygu strategaethau ymadael a lledaenu ar ddechrau prosiectau a gweithgareddau.

- Yn darparu cymorth a hyfforddiant i noddwyr i gyfateb i’r wybodaeth, y sgiliau a’r cymwyseddau sydd eu hangen i gyfranogi mewn rhaglenni o’r fath fel comisiynwyr ac asiantau cyflwyno, gyda phrif rôl yn y dysgu a’r gwerthuso.

# 1 Cyflwyniad

## Prosiectau Cyrraedd y Nod

1.1 Roedd Cyrraedd y Nod yn fenter £29 miliwn a ariannwyd yn rhannol rhwng 2008 a 2013 drwy Flaenoriaeth 1 Rhaglen Weithredol ar gyfer Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, sy'n anelu at baratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol drwy godi'u dyheadau a chynyddu eu cyfranogiad mewn dysgu.

1.2 Roedd Cyrraedd y Nod yn cynnwys dau brosiect – Troedle Cyntaf, a ariannwyd o dan Thema 1: Mynd i'r Afael â Thangyflawniad (sy'n ceisio gwella deilliannau addysgol pobl ifanc y mae perygl iddynt dangyflawni), a Llwybrau i'r Brig, a ariannwyd o dan Thema 2: Codi Sgiliau a Dyheadau (sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus i gyflogaeth). Cyflwynodd y prosiectau ystod o weithgareddau a gwasanaethau i bobl ifanc, a hefyd llawer o gymorth adeiladu capasiti a chymorth datblygu i bobl yn gweithio yn y sector ieuenctid.

1.3 Goruchwyliwyd y prosiectau gan noddwr arweiniol, sef Llywodraeth Cymru, a weithiodd mewn partneriaeth â deg o sefydliadau cyd-noddi, yn cynnwys wyth sefydliad o'r sector gwirfoddol a chymunedol (Cyngor Celfyddydau Cymru, Plant yng Nghymru, y Ddraig Ffynci, Achub y Plant, Cerdd Gymunedol Cymru, SNAP Cymru, Techniquest ac Urdd Gobaith Cymru) a dwy adran yn Llywodraeth Cymru.

1.4 Yn dilyn ymlaen o werthusiad interim cynharach gan BMG Research and Wavehill Consulting, comisiynwyd ICF GHK yn 2012 i gynnal y gwerthusiad terfynol yn cwmpasu'r cyfnod 2010 i 2013. Ni chyhoeddwyd y gwerthusiad interim.

## Diben yr astudiaeth

1.5 Nodau'r gwerthusiad terfynol o Cyrraedd y Nod yw asesu'r canlynol:

- Y graddau y mae'r ddau brosiect sy'n rhan o Cyrraedd y Nod, sef Troedle Cyntaf a Llwybrau i'r Brig, wedi'u cyflwyno'n effeithiol ac

wedi cyflawni'u hamcanion disgwyliedig dros y cyfnod o fis Gorffennaf 2010 hyd fis Mawrth 2013;

- Pa weithgareddau fu'n effeithiol ac y gellir eu parhau ar sail gynaliadwy;
- Pa weithgareddau ddylai ddylanwadu ar gyflwyno ymyriadau eraill ac ymyriadau yn y dyfodol gyda'r un nodau; a
- Beth sydd wedi gweithio'n dda o ran rheoli a gweithredu'r rhaglen, er mwyn dylanwadu ar y trefniadau ar gyfer rhaglenni graddfa fawr eraill sydd ag amcanion a grwpiau targed tebyg.

1.6 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, diffiniwyd yr amcanion penodol canlynol:

1. Gwerthuso effeithiolrwydd y prosesau ar gyfer cyflwyno Cyrraedd y Nod (o'r dylunio a'r rheoli i weithredu a threfniadau casglu data) sy'n cynnwys asesu pa mor dda y mae wedi:
    - Sefydlu gweithgareddau i gyd-fynd â gwasanaethau a mentrau eraill a darparu portffolio cydlynus o weithgareddau sy'n cynnig llwybrau graddedig i bobl ifanc o ymddieithrio i gyflogaeth neu hyfforddiant;
    - Defnyddio ymchwil a datblygu i lywio ei weithgareddau a'r dulliau y maent wedi'u mabwysiadu'n llwyddiannus (yn enwedig yn y tri gweithgaredd sydd wedi defnyddio dull ymchwil a datblygu yn benodol);
    - Targedu pobl ifanc a fydd yn elwa ar y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA), anableddau, y rheiny yn y system cyfiawnder troseddol a'r rheiny nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) neu mewn perygl o fod felly;
    - Darparu ymyriadau cynnar sydd wedi ymgysylltu â'r rheiny mewn perygl ac wedi defnyddio dulliau arloesol o ymgysylltu'n llwyddiannus â grwpiau gwahanol o bobl ifanc;
    - Dosbarthu adnoddau'n briodol ar draws y grwpiau targed ac ar draws yr ardal Gydgyfeirio; a

- Darparu trefniadau rheoli sydd wedi sicrhau cydweddu rhwng gweithgareddau a'r rhaglen a nodau prosiectau o'r cam comisiynu hyd at weithredu.

2. Gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol Cyrraedd y Nod ar lefel rhaglenni, prosiectau a gweithgareddau, sy'n cynnwys asesu'r graddau mae wedi:
   - Cyflawni ei nodau ac amcanion a'r targedau fel y'u hamlinellwyd yng nghynllun busnes Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) (ar y tair lefel) yn cynnwys y targedau ar gyfer cyfranogwyr: mynd i mewn i waith, addysg a hyfforddiant ac aros ynddynt; cyflawni cymwysterau; cyfranogi mewn gweithgareddau cadarnhaol a sicrhau eu hymgysylltiad yn y rhain;
   - Cyflawni ei ddeilliannau ac effeithiau gydag effaith fuddiol ar bobl ifanc nid yn unig mewn perthynas â dysgu a sgiliau achrededig ond hefyd mewn sgiliau a dyheadau, lles a chymhelliant a sgiliau meddal o weithgareddau dysgu heb fod yn ffurfiol; ac wedi
   - Cyfrannu at fentrau polisi Llywodraeth Cymru ac uchelgeisiau ar gyfer pobl ifanc.
3. Dysgu gwersi ac adnabod argymhellion er mwyn llywio:
   - Datblygiad ymyriadau yn y dyfodol;
   - Rheolaeth a chyflwyniad rhaglenni mawr yn y dyfodol gyda gweithgareddau lluosog;
   - Cynllun cynaliadwyedd ar gyfer y gweithgareddau a ariennir pan ddaw'r cyfraniad o'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i ben sy'n defnyddio graddfa'r prif-ffrydio sy'n digwydd a thystiolaeth o weithgareddau effeithiol sy'n awgrymu beth ddylid ei rannu a'i ledaenu; ac
   - Amlygu arfer da y dylid ei rannu a'i ledaenu.

**Cyfyngiadau'r astudiaeth**

1.7 Mae'r ffaith mai cyfyngedig yw'r Wybodaeth Reoli sydd ar gael a gwerthusiadau cadarn eraill o weithgareddau a gomisiynwyd yn golygu bod y gwerthusiad terfynol hwn wedi gorfod dibynnu ar ddata ansoddol. Nid yw felly yn gallu bodloni pob un o'i ofynion i werthuso perfformiad y prosiectau ac asesu pa un a fodlonwyd uchelgeisiau.

1.8 Mae tri bwlch arwyddocaol.

1.9 Yn gyntaf, yr unig allbynnau a deilliannau sydd wedi'u cofnodi'n systematig ac yn ganolog ar draws y prosiectau yw 'deilliannau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd' a ddiffinnir gan WEFO. Nod y deilliannau hyn yw helpu olrhain ymgysylltiad pobl ifanc â'r farchnad lafur ac fel y cyfryw, cofnodant wybodaeth mewn perthynas â chymwysterau a enillwyd a chyfranogwyr yn mynd i mewn i ddysgu pellach. O ystyried bod Cyrraedd y Nod, a Troedle Cyntaf yn arbennig, yn targedu'r bobl ifanc hynny sydd wedi'u hymylu'n fawr, nid yw'r deiliannau hyn yn cipio'n ddigonol y camau tuag at hyfforddiant a chyflogaeth (fel cwblhau rhan o gymwysterau, cwblhau lleoliad gwirfoddol, aros mewn addysg neu hyfforddiant, cynnal cyfranogiad mewn gweithgaredd cymdeithasol neu hamdden cadarnhaol, a gwella sgil generig). Yn lle hynny, ar ffurflenni'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, mae canlyniadau o'r fath wedi'u grwpio gyda'i gilydd o dan y pennawd generig 'deilliannau cadarnhaol eraill.'

1.10 Yn ail, ni wnaeth y rhan fwyaf o noddwyr ddatblygu'u systemau monitro eu hunain i gofnodi'n fanylach y deilliannau cadarnhaol eraill hyn a fyddai'n dangos gwerth eu gweithgareddau a dangos bod amcanion a amlinellwyd yn eu hachosion busnes ac achos busnes Cyrraedd y Nod yn cael eu cyflawni. Ni wnaethant ychwaith, wrth gyflwyno gweithgareddau adeiladu gallu, gasglu data ar ddeilliannau ar gyfer gweithwyr proffesiynol a sefydliadau sy'n cyfranogi yn y rhain. Mae ychydig o weithgareddau wedi mesur newidiadau yn nhueddfryd cymdeithasol ac emosiynol a sgiliau pobl ifanc. Lle mae'r data hwn ar gael, fe'i defnyddiwn fel rhan o'n hasesiad o ddeilliannau a gyflawnwyd. Yn bennaf, serch hynny, dim ond tystiolaeth yn seiliedig ar hunan-gofnodi a chyfran fach o fuddiolwyr sydd ar gael.

1.11 Yn drydydd, nid yw'r wybodaeth reoli ar gael yn gyffredinol ar lefel gweithgareddau. Golyga hyn na ellir gosod y canfyddiadau ansoddol am brosesau a deilliannau gweithgareddau unigol yn eu cyd-destun yn ôl data perfformiad ac ni ellir ychwaith cymharu neu feincnodi'r gweithgareddau er mwyn asesu pa un a ydynt wedi darparu gwerth am arian neu wedi darparu tystiolaeth o beth sy'n gweithio i deilyngu buddsoddi yn y dyfodol. Yn ogystal, ni ellir cynnal dadansoddiad o ba weithgareddau sydd wedi targedu pobl ifanc yn effeithiol a ble mae gweithgareddau wedi'u cyflwyno.

1.12 Felly, mae llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â deilliannau yn ansoddol ei natur ac yn defnyddio samplau cymharol fach. Mae'r dystiolaeth hon yn ein galluogi i ddod i gasgliadau cadarn ynglŷn â'r prosesau ar gyfer dylunio, rheoli a gweithredu Cyrraedd y Nod. Mae hefyd yn rhoi cipolwg ar y gweithgareddau a nodweddion eu cyflwyniad yr ymddengys eu bod yn cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol. Yn absenoldeb gwybodaeth reoli briodol, nid yw'n ddigonol fodd bynnag i'n galluogi i ddod i gasgliadau cadarn a chyffredinol ynglŷn ag effaith Cyrraedd y Nod a'r gwersi y gellid eu dysgu o'r buddsoddiad er mwyn llywio cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer pobl ifanc.

1.13 Er mwyn asesu deilliannau ac effeithiau'r prosiectau a gweithgareddau, lluniwyd y canlynol gennym er mwyn graddio ansawdd y dystiolaeth werthusol sydd gennym i'w dadansoddi (Blwch 1 isod). Ar ddechrau Penodau 5 a 6 rydym yn crynhoi'r sail dystiolaeth ar gyfer gwerthuso prif gyflawniadau'r gweithgareddau. Daw'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a ddefnyddir gennym o gategorïau C, D neu E.

**Blwch 1 Graddio ansawdd tystiolaeth**

- Gradd A: Tystiolaeth feintiol gref (maint sampl gynrychioliadol neu gyfanswm poblogaeth mawr) a thystiolaeth ansoddol gref (mae'n triongli barnau sampl fawr o'r holl randdeiliaid).
  Gradd B: Tystiolaeth feintiol gref (maint sampl gynrychioliadol fawr) ond tystiolaeth ansoddol fwy cyfyngedig (er enghraifft, triongli cyfyngedig rhwng barnau'r holl randdeiliaid a niferoedd annigonol, fel barnau arweinwyr cyd-

noddwyr a staff cyflwyno yn unig, ond dim barnau pobl ifanc, rhieni na phartneriaid cyfeirio)

- Gradd C: Ychydig o dystiolaeth feintiol (tystiolaeth feintiol o sampl fach anghynrychioliadol o bosibl) ond tystiolaeth ansoddol dda (mae'n triongli barnau sampl fawr o'r holl randdeiliaid).
- Gradd D: Dim tystiolaeth feintiol neu dystiolaeth feintiol gyfyngedig iawn (maint sampl bach, neu ddata meintiol y gwyddwn ei fod yn broblematig, fel y data meintiol mewn perthynas â chymwysterau a enillwyd, nad yw'n cynnwys gwybodaeth am ran-gymwysterau ac unedau achrededig) a thystiolaeth ansoddol gyfyngedig (rhywfaint o driongli ond graddfa ac ymdriniaeth annigonol)
- Gradd E: dim tystiolaeth feintiol a dim tystiolaeth ansoddol ymhellach na'r asiantau cyflwyno.

**Methodoleg**

1.14 Gwnaed y gwaith ymchwil mewn pedwar cam, a ddisgrifir isod. Cymerodd rheolwr prosiect Cyrraedd y Nod ac aelodau tîm cyflwyno Cyrraedd y Nod (ar y pryd) ran mewn cyfweliadau lled-strwythuredig a darparwyd gwybodaeth ganddynt ar adegau amrywiol drwy'r cyfnod gwerthuso.

*Cam 1: Cwmpasu*

<u>Datblygu'r fframwaith gwerthuso</u>

1.15 Gwnaethom waith cwmpasu helaeth rhwng Mehefin ac Awst 2012 er mwyn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn yr oedd disgwyl i Cyrraedd y Nod ei gyflawni. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyfarfod cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru i gael ein briffio ar y prosiectau;
- Casglu ac adolygu gwybodaeth reoli am y prosiectau;

- Adolygiad o ddogfennau prosiect allweddol fel cynlluniau busnes, cynlluniau gweithredu, adroddiadau cynnydd ac adroddiadau gwerthuso; a
- Chyfweliadau cwmpasu gydag arweinwyr prosiect a staff cyflwyno allweddol yn Llywodraeth Cymru a phob un o'r cyd-noddwyr.

1.16 Allbwn allweddol cam cwmpasu'r astudiaeth oedd modelau rhesymeg ar gyfer Troedle Cyntaf a Llwybrau i'r Brig (0). Mae'r modelau rhesymeg yn cyflwyno'r 'ddamcaniaeth newid' ar gyfer pob prosiect drwy amlinellu'r sail resymegol a'r cysylltiad rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, deilliannau ac effeithiau tymor hwy. Defnyddiwyd y modelau rhesymeg fel sail fframwaith gwerthuso effaith (0 ac 0) er mwyn asesu perfformiad a gwaddol. Yn ogystal, datblygom fframwaith gwerthuso prosesau (0) i asesu'r dylunio, y comisiynu a'r gweithredu.

<u>Detholiad sampl o astudiaethau achos</u>

1.17 Yn ystod y cam cwmpasu, fe wnaethom drefniadau mwy pendant hefyd ar gyfer yr ymchwil atodol y byddem yn ei gwneud i asesu prosesau a pherfformiad drwy astudiaethau achos. Nodom 14 o weithgareddau astudiaethau achos (o dros 150 o weithgareddau), saith wedi'u cyflwyno o dan Troedle Cyntaf a saith o dan Llwybrau i'r Brig. Dewiswyd o leiaf un astudiaeth achos gweithgaredd o bob sefydliad noddi ar y cyd, ac i'r cyd-noddwyr hynny sy'n derbyn dyraniadau mwy o'r cyllid a niferoedd cyfranogwyr, dewiswyd gweithgareddau astudiaethau achos ychwanegol. Wrth wneud ein dewis, fe wnaethom hepgor gweithgareddau nad oedd ganddynt gyfranogwyr (fel datblygu deunyddiau hyfforddi neu wefannau, neu gynnal ymarferiadau ymchwil ac ymgynghori); roeddent yn destun gwerthusiad annibynnol ar wahân; neu roeddent yn rhy fach o ran eu maint i deilyngu ymchwil fanwl. Gellir gweld rhestr o weithgareddau'r astudiaethau achos a ddewiswyd yn 0.

1.18 Ar draws y sampl astudiaethau achos, cynhwysom gymysgedd o fathau gwahanol o weithgarwch; er enghraifft, cyfranogi mewn gweithgaredd cymdeithasol neu hamdden strwythuredig (chwaraeon a gweithgareddau

corfforol, celf, gwirfoddoli, neu fynychu clwb neu gymdeithas); cyfranogi mewn penderfyniadau a llywodraethu; gwybodaeth, cyngor ac arweiniad; hyfforddi pobl ifanc i fod yn hyfforddwyr; gweithgareddau ymgysylltu Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM). Hefyd, cynhwysom weithgareddau gyda grwpiau targed gwahanol, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol, pobl ifanc NEET, a phobl ifanc mewn perygl o fod yn NEET.

Cael pobl ifanc i fyfyrio ar gwestiynau'r ymchwil

1.19 Gweithiom ar y cyd â'r Ddraig Ffynci, un o'r cyd-noddwyr allanol, i gynnal gweithdy gyda phobl ifanc. Diben y gweithdy oedd sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfle i lywio cynllunio cwestiynau'r ymchwil ar gyfer yr astudiaeth mewn ffordd sy'n ystyrlon ac yn cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Cynhaliom weithgareddau cyfranogol gyda grŵp o 12 o bobl ifanc 11-20 oed o saith awdurdod lleol yn yr ardal Gydgyfeirio. Roedd y gweithgareddau'n archwilio barnau ar y prif rwystrau i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a wynebir gan bobl ifanc, eu barn ar yr hyn sy'n gweithio'n dda o ran darparu cymorth i bobl ifanc i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth neu aros ynddynt, a'u barnau ar brosiectau Cyrraedd y Nod, a beth yw'r agweddau mwyaf pwysig a lleiaf pwysig ar y prosiectau. Ar sail sylwadau'r cyfranogwyr, nodom set o gwestiynau ymchwil yr oedd y bobl ifanc o'r farn y dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio arnynt.

Arolwg o lenyddiaeth

1.20 Fe wnaethom adolygu tystiolaeth ynglŷn ag arfer effeithiol o ran cyflwyno ymyriadau i gefnogi ymgysylltiad parhaus neu ail-ymgysylltiad plant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o fod felly. Defnyddiom EBSCO i chwilio am ystod o gronfeydd data testun llawn a chrynodebau academaidd. Hefyd, chwiliom wefannau adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau elusennol a oedd yn gwneud ymchwil. Ein meini prawf cynnwys oedd bod rhaid i bob eitem fod:

- Yn gadarn o ran dylunio ymchwil: cyn belled ag y bo modd, nodom adolygiadau a gwerthusiadau llenyddiaeth systematig a oedd yn defnyddio samplau mwy o fuddiolwyr, mesuriad o bellter a deithiwyd ac astudiaethau achos ddigon manwl i ddarparu canfyddiadau cadarn).

- Wedi'u cyhoeddi ers 2006: mewn ychydig o achosion, lle'r oedd y dystiolaeth yn arbennig o berthnasol, cynhwysom astudiaethau a gyhoeddwyd cyn 2006.

1.21 Ar dystiolaeth y DU y gwnaethom ganolbwyntio fwyaf, ond lle bo'n berthnasol defnyddiom dystiolaeth o fannau eraill. Hefyd, roedd ein ffocws ar ymchwil wedi'i hadolygu gan gymheiriaid yn bennaf, ond roedd hefyd yn cynnwys astudiaethau ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd gan adrannau ac asiantaethau llywodraeth y DU a sefydliadau'r trydydd sector.

1.22 Diben yr adolygiad o lenyddiaeth oedd amlygu tystiolaeth ynglŷn â nodweddion arfer effeithiol o ran ymgysylltu ac ail-ymgysylltu â phobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl er mwyn asesu p'un a ddangoswyd y rhain gan weithgareddau Cyrraedd y Nod. Hefyd, roedd yr adolygiad yn mynd ati i amlygu gweithgareddau meincnod. Mae'r rhain yn weithgareddau tebyg i'r rheiny a gyflwynwyd o dan Cyrraedd y Nod, sydd wedi bod yn destun gwerthusiad, ac felly yn darparu meincnod ar gyfer deilliannau a chyflawniadau.

1.23 Mae'r adolygiad wedi llywio asesiad o ba un a yw gweithgareddau'n dangos nodweddion o arfer effeithiol. Nid oeddem serch hynny'n gallu meincnodi gweithgareddau Cyrraedd y Nod yn erbyn gweithgareddau cymharydd oherwydd y diffyg tystiolaeth werthusol a oedd ar gael ynglŷn â gweithgareddau Cyrraedd y Nod.

1.24 Cyflwynir yr adolygiad o lenyddiaeth yn Annex 5**.**

*Cam 2: Gwerthusiad interim a Cham 3: Gwerthuso effaith*

1.25 Yn fras, diben Cam 2 (Medi 2012 i Ionawr 2013) oedd casglu tystiolaeth ynglŷn â'r prosesau ar gyfer dylunio, rheoli a gweithredu Cyrraedd y Nod, a diben Cam 3 (Ionawr 2013 i Fehefin 2013) oedd asesu effeithiau'r prosiectau. Felly, cynhaliwyd yr un tasgau ymchwil allweddol ar gyfer pob cam o'r ymchwil ond gyda ffocws ar brosesau yng Ngham 2 a ffocws ar ddysgu am gyflwyno, deilliannau, effeithiau, gwaddol a chynaliadwyedd yng Ngham 3.

1.26 Mae’r tasgau ymchwil yr ymgymerwyd â nhw yn y ddau gam yn cael eu disgrifio isod.

Sefydlu rhestr o weithgareddau a gyflwynwyd o dan Cyrraedd y Nod

1.27 Am na chafodd cofnod canolog ei gadw, neilltuom gryn ymdrech i ddatblygu rhestr derfynol o weithgareddau a gyflwynwyd gan bob un o’r cyd-noddwyr, a oedd yn cynnwys manylion sylfaenol fel: y grŵp targed ar gyfer pob gweithgaredd, lle’r oedd gweithgareddau’n cael eu cyflwyno yn yr ardal Gydgyfeirio, natur y gweithgaredd, y gyllideb ddyranedig a pha un a oedd y gweithgaredd yn cael ei gyflwyno’n uniongyrchol neu dan gontract i ddarparwyr eraill. Roedd y dasg hon yn mynd rhagddi ar draws y ddau gam ymchwil ac yn defnyddio sgyrsiau ffôn a negeseuon e-bost gyda chyd-noddwyr a data a gyflwynwyd gan gyd-noddwyr yn Ionawr 2013. Hefyd, fe wnaeth hyn sefydlu pa weithgareddau bwriadedig na chafodd eu cyflwyno a pha ddyraniadau cyllid na ddefnyddiwyd.

Dadansoddi gwybodaeth reoli

1.28 Ar gyfer Cam 2, roedd ein dadansoddiad yn canolbwyntio ar ddadansoddi’r adroddiadau hawliadau chwarterol gan Lywodraeth Cymru i WEFO hyd at ddiwedd Medi 2012. Aethom ati i ddadansoddi:

- Y gwariant cronnol hyd yma wedi’i rannu i feysydd gwariant allweddol;
- Cyfanswm nifer y cyfranogwyr yn ôl awdurdod lleol;
- Nodweddion allweddol cyfranogwyr; a
- Chanlyniadau o ran niferoedd y cyfranogwyr yn ennill cymwysterau, yn mynd i mewn i ddysgu pellach ac yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill yn ôl awdurdod lleol, statws mudo, rhyw, statws cyflogaeth, anabledd, oed ac ethnigrwydd.

1.29 Ar gyfer Cam 3, fe wnaethom ddiweddaru’r dadansoddiad hwn i gynnwys data o hawliad gweithgarwch Mehefin 2013. Dylid nodi felly

nad yw unrhyw gyfeiriad at wybodaeth reoli prosiectau yn ymwneud â data terfynol ar adeg cau'r prosiect.

1.30 Trwy'r cam cwmpasu a'r dadansoddiad cychwynnol o wybodaeth reoli, nodom fylchau sylweddol yn y wybodaeth reoli a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru a chyd-noddwyr. Y prif fwlch oedd diffyg data ar allbynnau, deilliannau a gwariant ar lefel gweithgareddau unigol. I fynd i'r afael ar hyn, ar ein cyngor ni, gofynnodd Llywodraeth Cymru i gyd-noddwyr ddarparu rhestr lawn o weithgareddau a ariannwyd gyda manylion eu mewnbynnau, eu hallbynnau a'u deilliannau hyd at ddiwedd Medi 2012. Roedd y data hwn (a gyflwynwyd yn Ionawr 2013) yn cynnwys:

- Yn y rhan fwyaf o achosion, rhestr o weithgareddau a gafodd eu cyflwyno'n uniongyrchol a'u caffael, y grŵp targed ar gyfer y gweithgareddau a'r gyllideb ddyranedig;
- Mewn rhai achosion, gwariant gwirioneddol ar weithgareddau o gymharu â'r gyllideb ddyranedig; ac
- Mewn ychydig o achosion, gwybodaeth am yr ardaloedd awdurdod lleol lle cyflwynwyd y gweithgareddau.

1.31 Mewn rhai achosion darparwyd allbynnau ar lefel gweithgareddau (e.e. nifer y cyfranogwyr a gymerodd ran ym mhob gweithgaredd), ond ni chawsant eu darparu felly yn bennaf.

1.32 Felly, yng Ngham 3, cynhaliwyd rhywfaint o ddadansoddi pellach ar wybodaeth reoli ynglŷn â'r canlynol:

- Y mathau o weithgareddau a gyflwynwyd a'r gwariant ar fathau gwahanol o weithgareddau. Dylid nodi, ar gyfer rhai gweithgareddau, na ddarparwyr y gwariant gwirioneddol ac felly fe wnaethom gymryd yn ganiataol fod y gyllideb a ddyrannwyd yr un fath â'r gwariant; a
- Chyfran y gweithgareddau a gyflwynwyd yn uniongyrchol gan gyd-noddwyr a chyfran y gweithgareddau wedi'u contractio i ddarparwyr allanol.

1.33 Fodd bynnag, nid oedd modd o hyd dadansoddi a chymharu pa weithgareddau wnaeth berfformio'n arbennig o dda drwy gyflawni'u deilliannau a gwneud hynny'n gost-effeithiol. Nid oedd modd ychwaith

dadansoddi ymhle y cyflwynwyd gweithgareddau yn yr ardal Gydgyfeirio a pha gyfranogwyr wnaeth elwa ar ba weithgareddau.

1.34 Aethom ati hefyd i ddadansoddi data a ddarparwyd gan y tîm prosiectau ar nodweddion cyfranogwyr prosiectau yr ystyriwyd eu bod yn eu rhoi mewn perygl o fod yn NEET. Roedd data ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o gyfranogwyr ond roedd rhai o'r diffiniadau categorïau yn aneglur.

Cyfweliadau manwl gyda sefydliadau cyd-noddi

1.35 Yn ystod Cam 2, cynhaliom gyfweliadau ffôn manwl lled-strwythuredig gydag arweinwyr yn y sefydliadau cyd-noddi mewnol ac allanol. Nod y cyfweliadau oedd archwilio sut mae gweithgareddau wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â gwasanaethau eraill a chyd-fynd â nhw; y fanyleb a'r broses gomisiynu; sut mae cyd-noddwyr wedi gweithio gyda'r sefydliadau comisiynu i ddatblygu gweithgareddau neu sut maent wedi datblygu gweithgareddau eu hunain; sut mae perfformiad wedi'i reoli; cynnydd hyd yma; barnau ar fod yn gyd-noddwr; heriau allweddol a beth sydd wedi gweithio'n dda. Yn nodweddiadol, fe wnaeth y cyfweliadau bara rhyw ddwy awr yr un. Darparwyd dogfennaeth ategol gan ychydig o'r sefydliadau cyd-noddi, ond nid gan bob un ohonynt, fel manylebau a chontractau enghreifftiol, meini prawf ar gyfer sgorio cynigion a llawlyfrau sicrhau ansawdd.

1.36 Nid oedd rhai o'r staff yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chomisiynu gweithgareddau yn eu swydd mwyach, ac felly nid oeddem yn gallu cael eu safbwynt hwy. Golyga hyn fod rhai bylchau yn ein dealltwriaeth o brosesau ar gyfer dylunio a gweithredu gweithgareddau a oedd yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru.

1.37 Yn ystod Cam 3, cynhaliom ragor o gyfweliadau ffôn manwl gyda phob un o'r cyd-noddwyr allanol, a hefyd gyda darparwyr dan gontract gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith. Roedd y cyfweliadau hyn yn archwilio barnau terfynol ynghylch cyflwyno gweithgareddau a'r gwersi a ddysgwyd am weithredu effeithiol, deilliannau ac effeithiau a gyflawnwyd, gwaddol a chynaliadwyedd.

Ymchwil astudiaethau achos

1.38 Yn ystod Cam 2, cynhaliom ddau weithdy hanner diwrnod ar gyfer rheolwyr gweithgareddau astudiaethau achos, un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru.  Aethom ati i hwyluso trafodaethau er mwyn amlygu themâu allweddol mewn perthynas â barnau ynghylch y broses gomisiynu, sut yr oedd gweithgareddau wedi'u datblygu, gweithio mewn partneriaeth a chyflwyno gweithgareddau. Roedd rheolwyr y gweithgareddau naill ai yn staff yn y sefydliadau cyd-noddi a oedd yn gyfrifol am weithgaredd penodol, neu'n staff yn yr asiantau cyflwyno dan gontract a oedd yn gyfrifol am weithgareddau. Buom hefyd yn cyfweld â chyfranogwyr mewn gweithgareddau astudiaethau achos ynglŷn â recriwtio i'r gweithgaredd, cynnwys a chyflwyniad y gweithgaredd, buddion canfyddedig a chynlluniau at y dyfodol. Trefnom gyfweliadau i gyd-daro â chyfranogiad mewn gweithgaredd neu ddigwyddiad cyfredol Cyrraedd y Nod. Fe wnaeth ymchwilydd fynychu'r gweithgaredd a chyfweld â phobl ifanc naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl y gweithgaredd, fel bo'n briodol. Felly, cynhaliwyd cyfweliadau mewn amryw o leoliadau, yn cynnwys ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, clybiau ieuenctid, canolfannau cymunedol a chyfleusterau chwaraeon a hamdden.

1.39 Yn ystod Cam 3, cynhaliom ymchwil astudiaethau achos fanwl gyda'r 14 o weithgareddau astudiaethau achos, yn cynnwys cyfweliadau gyda rheolwyr gweithgareddau, staff cyflwyno, partneriaid cyflwyno, partneriaid cyfeirio, a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran. Y rheiny a oedd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd ar y pryd oedd y cyfranogwyr yn bennaf, a hefyd ychydig o'r rheiny a oedd wedi cwblhau gweithgaredd yn ddiweddar. Yn nodweddiadol, cynhaliwyd ymweliad diwrnod neu ddau ddiwrnod â safle'r prosiect.

1.40 Fel rhan o'r ymweliadau aethom ati'n fanylach i archwilio'r themâu allweddol a godwyd yng ngweithdy'r rheolwyr gweithgareddau astudiaethau achos, a hefyd buom yn canolbwyntio ar wersi a ddysgwyd ynghylch cyflwyno, deilliannau ac effeithiau a gyflawnwyd, cynlluniau ar gyfer parhau i gyflwyno gweithgareddau, ac enghreifftiau o waddolion a gyflawnwyd hyd yma. Roedd y cyfweliadau â chyfranogwyr yn cynnwys

ffocws tebyg i'r rheiny a gynhaliwyd fel rhan o Gam 2. I'r ychydig o gyfranogwyr a oedd wedi cwblhau'r gweithgaredd beth amser yn ôl, roedd pwyslais ar ganfod pa un a oedd deilliannau a gofnodwyd wedi'u cynnal dros amser. At ei gilydd, cyfwelom â chyfanswm o 183 o gyfranogwyr (162 o bobl ifanc a 21 o weithwyr proffesiynol), 56 o staff cyflwyno ac 17 o staff partneriaid cyfeirio.

Adolygu adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau prosiectau

1.41 Aethom ati i adolygu adroddiadau gwerthuso a gomisiynwyd gan gyd-noddwyr gweithgareddau penodol ac adroddiadau 'ar ddiwedd prosiectau', er mwyn amlygu tystiolaeth o ddeilliannau ac effeithiau. Rhoddir rhestr lawn yn Atodiad 7 o'r adroddiadau a adolygwyd gennym. Nid oedd rhai o'r adroddiadau gwerthuso yn cyflwyno tystiolaeth gadarn ynglŷn â deiliannau ar gyfer pobl ifanc, ac fe wnaeth hynny gyfyngu ar ddefnyddioldeb yr adroddiadau.

Cyfweliadau ffôn gyda 10 o randdeiliaid ehangach (Cam 3 yn unig)

1.42 Cynhaliom gyfweliadau lled-strwythuredig gyda set ehangach o randdeiliaid cenedlaethol, yn cynnwys prif swyddogion ieuenctid o nifer o awdurdodau lleol yn yr ardal Gydgyfeirio, cynrychiolwyr cyrff ambarél y sector gwirfoddol, ac aelodau o'r grŵp llywio (ar adegau amrywiol) nad oeddent yn noddwyr. Roedd y cyfweliadau'n archwilio barnau ar y canlynol: sut mae Cyrraedd y Nod yn cydweddu â'r agenda strategol a'r agenda polisi ehangach ar gyfer pobl ifanc NEET a phobl ifanc yng Nghymru; sut mae hyn wedi newid  a pha un a yw Cyrraedd y Nod wedi ymateb i hyn; sut y cafodd y prosiectau eu datblygu a'u gweithredu; a'r dysgu a'r gwaddol.

Myfyrio ar ganfyddiadau'r ymchwil gyda phobl ifanc (Cam 3 yn unig)

1.43 Fe wnaethom ailgynnull y grŵp o bobl ifanc a fu'n myfyrio ar gwestiynau'r ymchwil yn ystod y cam cwmpasu. Roedd chwech o'r 12 o

bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad gwreiddiol ar gael o hyd, gan ein galluogi i ofyn am farnau ar ganfyddiadau'r astudiaeth wrth iddynt ddod i'r amlwg.

*Ymchwil ychwanegol i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth reoli*

1.44 Nid oedd y data gwybodaeth reoli ychwanegol a gyflwynwyd gan gyd-noddwyr yn Ionawr 2013 yn darparu digon o wybodaeth i alluogi cyflawni nodau ac amcanion y gwerthusiad. Felly, fe wnaethom ddiffinio ymchwil ansoddol a meintiol bellach y gellid ei gwneud o bosibl o'r hyn a ddeallom oedd y wybodaeth reoli a gasglwyd gan gyd-noddwyr am weithgareddau yr oeddent wedi'u comisiynu a allai lenwi rhai bylchau. Rhoesom ein ffocws ar weithgareddau lle mai gwybodaeth reoli gryno gyfyngedig oedd ar gael; nid oedd unrhyw werthusiad annibynnol; ac roedd disgwyl y byddai niferoedd cymharol fawr o fuddiolwyr. Ceisiom ychwanegu tystiolaeth o'r crynodeb o ddata a gasglwyd am fuddiolwyr a'r deilliannau a gyflawnwyd, astudiaethau achos ychwanegol, a chyfweliadau ffôn pellach gyda'r staff a oedd yn cyflwyno gweithgareddau, a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, o ystyried bod yr amseru ar gyfer yr ymchwil ychwanegol hon (rhwng Mawrth a Mehefin 2013) yn cyd-daro â diwedd cyllid Cyrraedd y Nod, canfuom fod y rhan fwyaf o'r staff cyflwyno wedi symud ymlaen i rolau newydd, mewn sefydliadau newydd yn aml, bod gwaith papur wedi'i archifo, ac nad oedd sefydliadau mewn cysylltiad mwyach â'r bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol a oedd wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau. Er hyn, roedd modd i ni gwblhau'r canlynol o hyd:

- Casglu a dadansoddi data Dangos Llwyddiant (neu amrywiadau o ddata Dangos Llwyddiant) o'r Ddraig Ffynci (ar gyfer 31 o bobl ifanc; 0.5% o gyfranogwyr Y Ddraig Ffynci), SNAP Cymru (ar gyfer 52 o bobl ifanc; 3% o gyfranogwyr SNAP Cymru), Cerdd Gymunedol Cymru (ar gyfer 497 o bobl ifanc; 83% o gyfranogwyr Cerdd Gymunedol Cymru) a chwech o ddarparwyr dan gontract Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd y Ddraig Ffynci, SNAP Cymru a darparwyr Cyngor Celfyddydau Cymru wedi casglu mesuriadau cyn

ac ar ôl o dueddfryd cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc a'u sgiliau ar ffurf copi caled yn ffeiliau achos y bobl ifanc; fe wnaethom ni gasglu'r ffurflenni a dadansoddi'r data. Ni ddywedwyd wrthym pa un a oedd y data'n ymwneud â sampl ar hap neu sampl fwriadus. Darparwyd data ar ffurf electronig gan Cerdd Gymunedol Cymru, ac aethom ati i ddadansoddi hwnnw. Rhoddwyd yr holiaduron i'r holl bobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithgareddau Cerdd Gymunedol Cymru.

- Adolygu a dadansoddi 241 o ffeiliau achos SNAP Cymru (rhyw 14% o bobl ifanc yn cael cymorth gan y sefydliad a ddewiswyd ar hap ar draws bob un o'r awdurdodau lleol yr oedd y sefydliad wedi gweithio ynddynt) er mwyn amlygu deilliannau a gofnodwyd. Dylid nodi mai yn nodiadau achos y staff y cofnodwyd y deilliannau yn bennaf, ac nid mewn fformat systematig. Mae'n debygol felly nad yw'r holl ddeilliannau wedi'u cipio mewn ffeiliau achos.
- Cyfweliadau ffôn gyda gweithwyr trosglwyddo allweddol a'u rheolwyr mewn pum ardal awdurdod lleol i ofyn am farnau ar ddeilliannau ac effeithiau ar gyfer pobl ifanc, yn ogystal â deilliannau sefydliadol.
- Cyfweliadau ffôn gyda naw o weithwyr proffesiynol ieuenctid a oedd wedi defnyddio gwefan Rhwydwaith y Gweithwyr Cyfranogi i geisio barnau ar ddefnyddioldeb y wefan ac i amlygu unrhyw welliannau canlyniadol i arfer proffesiynol a sefydliadol o ganlyniad i ddefnyddio'r wefan.
- Tri chyfweliad gyda sefydliadau dan gontract gan y Ddraig Ffynci i gyflwyno gweithdai Dinasyddiaeth Weithgar. Roedd y cyfweliadau hyn yn archwilio barnau ar brosesau, deilliannau, dysgu a gwaddol.
- Un cyfweliad ychwanegol gydag aelod o'r staff cyflwyno yn Plant yng Nghymru a thri o bobl ifanc a oedd wedi elwa ar gymorth gan y sefydliad.
- Adolygiad o 30 o adroddiadau diwedd prosiect o ryw 75 a gyflwynwyd gan ddarparwyr dan gontract i Gyngor Celfyddydau Cymru. Dewisom yr adroddiadau hynny a oedd yn darparu'r lefel dystiolaeth fwyaf cadarn. Roedd cadernid yn cynnwys defnyddio

Dangos Llwyddiant, arolygon cyn ac ar ôl, ac astudiaethau achos a ddatblygwyd gan ddefnyddio triongli barnau pobl ifanc, staff prosiectau, a gweithwyr proffesiynol eraill a oedd yn gysylltiedig â gofal y bobl ifanc.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.45 Mae strwythur gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn asesu'r achos a wnaed dros Cyrraedd y Nod a'r dystiolaeth a lywiodd ei uchelgeisiau a'i gweithgareddau.
- Mae Pennod 3 yn cyflwyno canfyddiadau ynglŷn ag effeithiolrwydd y prosesau ar gyfer rheoli, dylunio, comisiynu a chyflwyno prosiectau Cyrraedd y Nod.
- Mae Pennod 4 yn dadansoddi gwariant pob prosiect ac yn cyflwyno tystiolaeth am yr allbynnau allweddol.
- Mae Penodau 5 a 6 yn cyfosod tystiolaeth ynglŷn â'r deilliannau a'r effeithiau a gyflawnwyd gan bob prosiect.
- Mae Pennod 7 yn ystyried gwaddol y prosiectau a'r elfennau ohonynt sy'n cael eu cynnal.
- Mae Pennod 8 yn dod i gasgliadau ynglŷn ag effeithiolrwydd y prosesau ar gyfer dylunio, cyflwyno a rheoli Cyrraedd y Nod, ac yn amlygu dysgu ac argymhellion er mwyn llywio mentrau tebyg graddfa fawr yn y dyfodol.

## 2 Prosiectau Cyrraedd y Nod

2.1 Yn y bennod hon rydym yn amlinellu ac yn asesu'r sail resymegol a wnaed ar gyfer Cyrraedd y Nod a'i uchelgeisiau – y problemau y mae'n mynd ati i fynd i'r afael â nhw a'r rhesymeg y tu ôl i hyn – a sut y bwriadwyd iddo gyflawni ei amcanion yn y gweithgareddau a gafodd eu hariannu, eu datblygu a'u cyflwyno. Mae hyn yn gosod y cyd-destun ar gyfer ein dadansoddiad o'r prosesau ar gyfer dylunio, comisiynu a chyflwyno'r prosiectau (Pennod 3), perfformiad y prosiectau, a'r deilliannau a gyflawnwyd (Penodau 4, 5 a 6). Defnyddiwn y cynlluniau busnes a'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid a noddwyr y prosiectau.

### Cyd-destun

*Blaenoriaeth 1 Ardal Gydgyfeirio'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd*

2.2 Mae Fframwaith Strategol Blaenoriaeth 1 yn amlinellu dwy thema (mynd i'r afael â thangyflawniad a chodi sgiliau a dyheadau) i fynd i'r afael â heriau ar draws yr ardal Gydgyfeirio mewn perthynas â chyrhaeddiad a chyflawniad pobl ifanc, y sgiliau sydd ganddynt yn barod ar gyfer cyflogaeth, a'u dilyniant i addysg bellach a gwaith.

2.3 O ganlyniad mae disgwyl i brosiectau a gafodd eu hariannu o dan Flaenoriaeth 1 i wella deilliannau addysgol. Disgwylir iddynt wneud hyn trwy ddarparu ystod o gymorth i hyrwyddo a sicrhau trosglwyddo a dilyniant gwell i ddysgu pellach a chyflogaeth yn y dyfodol, a thrwyddynt. Dylai'r cymorth sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn aros mewn addysg ac yn gwneud cynnydd; bod mwy yn dysgu medrau lefel uwch yn enwedig yn y pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) gyda stereoteipiau rhyw yn cael eu herio; a bod mwy yn symud ymlaen i gyflogaeth, gan gynyddu'u sgiliau yn y broses.

2.4 Fel egwyddor, dylai cyllid rhaglenni ar gyfer prosiectau o dan y Flaenoriaeth hon ychwanegu gwerth at strategaethau domestig a chyllidebau tuag at y problemau hyn, a chyfrannu felly at y cynnydd y

maent yn ei wneud tuag at nodau newidiadau mewn dyheadau ac agweddau, cyrhaeddiad a chyflawniad gwell, a lefelau dilyniant uwch yn 16 ac 18 oed i hyfforddiant, addysg bellach a chyflogaeth gyda llai yn mynd yn NEET.

2.5 O ganlyniad dylai fod disgwyl i brosiectau, er enghraifft, ddarparu gweithgareddau cwricwlaidd amgen i ennyn diddordeb pobl ifanc a darparu deilliannau dysgu, ehangu gweithgareddau Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a gwella sgiliau dinasyddiaeth, cynyddu ystod ac ansawdd cymorth i bobl ifanc, a darparu gwell profiad gwaith a sgiliau parod at waith. Dylai o leiaf 70% o'r cyllid gael ei ddyrannu i'r rhai rhwng 14-19 oed, gyda blaenoriaeth i bobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET, neu mewn grŵp penodol sy'n wynebu heriau o ran gwneud cynnydd neu gyflawni gystal â rhai eraill, fel pobl ifanc ag anabledd. Gall prosiectau adeiladu gallu pobl ifanc i helpu'u cyfoedion a gallu oedolion i weithio gyda phobl ifanc.

*Polisïau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru*

2.6 Yn 2008 roedd Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy nifer o strategaethau rhyng-gysylltiedig i arwain cyllid prif ffrwd, a darparu cyllid penodol ychwanegol mewn rhai achosion, sef:

- Gwneud Pethau'n Iawn, cynllun gweithredu pum mlynedd ar gyfer Cymru yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau allweddol mewn ymateb i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008;
- Y Wlad sy'n Dysgu, cynllun gweithredu deng mlynedd i wella'r system addysg (2008);
- Llwybrau 14-19 a oedd yn cynnig llwybrau dysgu unigol gyda hyfforddiant, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (2004);
- Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri i fynd i'r afael â diffygion mewn sgiliau sylfaenol a'u caffael;
- Y Strategaeth Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru (2006);

- Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, y strategaeth sgiliau a chyflogaeth genedlaethol (2008);
- Ymestyn Hawliau, y polisi blaenllaw ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru i’r rhai 11-25 oed (2006);
- Iaith Pawb, strategaeth yr Iaith Gymraeg (2003); a
- Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru, i hyrwyddo effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus i’r eithaf (2004).

2.7 Yn unol â newidiadau ym meddwl a blaenoriaethau’r llywodraeth, a’r dirwasgiad yn gwaethygu, mae’r rhain wedi newid gryn dipyn ond gydag uchelgeisiau tebyg (ond uwch) na phan gychwynnwyd Cyrraedd y Nod.

2.8 Mae Ffigur 1 yn rhestru polisïau a fframweithiau strategol newydd ac amnewid sydd wedi dod i’r amlwg.

**Ffigur 1 Polisïau a strategaethau newydd a gyflwynwyd er 2008**

- *Y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7-19 oed, 2008.* Fframwaith newydd sy’n cynnig dull cytbwys a holistaidd o gyflwyno ABCh ac sy’n cynnwys ystod o brofiadau i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol a lles dysgwyr.
- *Gwyddoniaeth i Gymru, 2012*, sy’n disodli’r strategaeth flaenorol ond sy’n parhau i roi pwyslais ar ennyn diddordeb a datblygu pobl ifanc a chynyddu’r gyfran o bobl ifanc sy’n astudio gwyddoniaeth ac yn dilyn gyrfaoedd yn gysylltiedig â STEM.
- *Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, 2012,* sy’n darparu deilliannau disgwyliedig blynyddol i ysgolion mewn rhifedd a llythrennedd i bob dysgwr rhwng 5 ac 14 oed. Mae’n dweud wrth athrawon pob pwnc am y gofyniad i gymhwyso llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fe’i cyflwynwyd ym Medi 2012, a disgwylir iddo gael ei gyflwyno fesul cam yn ystod 2013.
- *Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, 2011-15.* Mae’r strategaeth hon yn cymryd golwg holistaidd ar y materion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu ac yn ystyried taith plant a phobl ifanc, o’u geni hyd at 24 oed, a allai ymddieithrio oddi wrth ddysgu. Arweiniodd hyn at ddyrannu £49m i gefnogi mesurau penodol ar gyfer pobl ifanc 16 oed i roi iddynt “gyfleoedd i ddysgu sgiliau addas i symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy” yn 2011. Trefnwyd bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer y rhaglen Adeiladu Sgiliau (yn agored i bobl ifanc 16 ac 17 oed). Ar 25 Medi 2013 cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg y diweddariad terfynol o’r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Ieuenctid deunaw pwynt a’r symudiad at fframwaith chwe phwynt newydd ar gyfer Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Nghymru. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar 1 Hydref

2013. Mae’n seiliedig ar chwe elfen gydrannol system, y profwyd ei bod yn effeithiol o ran cynyddu ymgysylltiad a datblygiad ieuenctid: nodi pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio; broceriaeth a chydlyniant gwell ar gyfer cymorth; trefniadau cadarnach ar gyfer olrhain a throsglwyddo pobl ifanc drwy’r system; sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc; cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; a mwy o atebolrwydd dros ddeilliannau gwell ar gyfer pobl ifanc.

- *Cynllun cyflawni’r Strategaeth Troseddwyr Ifanc, 2009-2011*. Mae’n cynnwys nod i gynyddu cyfranogiad mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.
- *Strategaeth Tlodi Plant, 2011*. Y tri amcan strategol ar gyfer mynd i’r afael â thlodi plant yw: 1) lleihau nifer y teuluoedd sy’n byw mewn cartrefi heb waith; 2) gwella sgiliau rhieni a phobl ifanc sy’n byw mewn cartrefi incwm isel fel eu bod yn gallu sicrhau cyflogaeth sy’n talu’n dda; a 3) lleihau anghydraddoldebau sy’n bodoli mewn deilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella deilliannau rhai tlotaf.
- *Iaith Fyw, Iaith Byw: 2010.* Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg sy’n anelu at gynyddu niferoedd y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg ac sy’n dewis gwneud hynny.

**Sail Resymegol**

2.9 Er mwyn penderfynu ar nodau ac amcanion y prosiectau a llywio prosiect Cyrraedd y Nod, cynhaliodd staff Llywodraeth Cymru ymgynghoriadau gyda phobl ifanc, y rheiny sy’n gweithio gyda phobl ifanc a llunwyr polisi[1] a chynhaliwyd dadansoddiad o ymchwil a dynnodd sylw at anghenion a bylchau mewn gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc i gefnogi gweithredu strategaethau allweddol a gynlluniwyd i godi cyrhaeddiad pobl ifanc a chynyddu’u mynediad i addysg bellach a chyflogaeth fel y disgrifir uchod. Aeth cyd-noddwyr allanol ati hefyd i gynnal ymgynghoriadau gyda phlant a phobl ifanc, darparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid strategol ynglŷn â’r angen am eu gweithgareddau arfaethedig.

[1] Roedd hyn yn cynnwys rhwydweithiau cenedlaethol fel: Rhwydwaith Sefydliadau Pobl Ifanc Cymru Gyfan, y Rhwydwaith Datblygu ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor, Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a’r Grŵp Gweithredol 14-19. Hefyd, ym Medi 2007, cynhaliwyd digwyddiad deuddydd yr ardal Gydgyfeirio gyfan yn Aberystwyth i godi ymwybyddiaeth o’r prosiect ymhlith darpar randdeiliaid.

*Tystiolaeth o'r angen*

2.10 Mae'r cynlluniau busnes cymeradwy ar gyfer y ddau brosiectau yn derbyn yr heriau a wynebir gan bobl ifanc fel rhai wedi'u darllen a'u deall yn eang, a'r strategaethau cenedlaethol sy'n mynd i'r afael â'r rhain y dylai'r prosiectau fod yn eu cefnogi. Cyfeiriant at yr ymgynghoriad eang ond nid ydynt yn cyflwyno'r canfyddiadau yn y cynlluniau busnes. Nid ymddengys bod dogfen o sylwedd sy'n cyflwyno canfyddiadau a goblygiadau ar gyfer llywio'r un o'r ddau brosiect. Mae rhanddeiliaid wedi dynodi bod y broses wedi amlygu meysydd angen eraill na chawsant eu cynnwys yn y prosiectau, fel yr angen i gefnogi pobl ifanc ar gyfnodau trosglwyddo, a fyddai yn gyffredinol wedi cadarnhau'r gefnogaeth i'r nodau a meysydd gweithgaredd a fwriadwyd ar gyfer pob prosiect.

2.11 Maent yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth ymchwil sy'n rhoi tystiolaeth ategol o anghenion mewn perthynas â heriau a wynebir gan bobl ifanc yn eu bywydau. Roedd hyn yn cynnwys:

- Arolwg o ryw 3,000 o bobl ifanc fel rhan o astudiaeth beilot i werthuso *Ymestyn Hawliau*[2]*.* Darparodd hyn dystiolaeth am yr anawsterau y bydd pobl ifanc yn eu hwynebu yn eu hysgol, cartref, teulu a bywydau cymdeithasol. Mae canfyddiadau allweddol yn cynnwys bod dros draean o bobl ifanc yn teimlo'n bryderus ynghylch eu dyfodol; bod bron i hanner yn cytuno bod ganddynt broblemau ymddygiad ac emosiynol; bod bron i bumed wedi'u heffeithio gan 'anghytgord priodasol' rhwng rhieni, ac roedd rhyw draean yn ystyried nad oeddent yn cyfranogi mewn unrhyw weithgareddau cadarnhaol. Y rheiny a adroddodd am brofiad negyddol yn eu bywydau yn gysylltiedig â bywyd teulu a bywyd ysgol oedd y rhai lleiaf tebygol o fod yn ymgymryd â gweithgareddau cymdeithasol a hamdden cadarnhaol a chyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, gan awgrymu'r angen i ganolbwyntio ymdrechion ar y bobl ifanc hyn.

---

2 Haines, K.,Case, S., Isles, E., Rees, I., a Hancock, A., 2004. *Extending Entitlement: Making it Real'* . Ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130603realen.pdf [Mynediad 31 Hydref 2013]

- Arolwg, ‘Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni’ gyda dros 10,000 o bobl ifanc ynglŷn â’u barnau am eu hanghenion[3], a amlygodd fod dros draean o bobl ifanc yn ei chael hi’n anodd cael gafael ar wybodaeth a chyngor ar ddewisiadau gyrfa, bod rhyw bumed yn methu â gweld perthnasedd addysg i’w bywyd a’u gwaith yn y dyfodol, ac mai ymwybyddiaeth gyfyngedig o gynghorau ysgol sydd gan ryw chwarter, neu ddim ymwybyddiaeth o gwbl.

2.12 Roedd yn ofynnol i’r holl noddwyr allanol a rhai noddwyr mewnol gyflwyno cynlluniau busnes, ac roedd y rhain yn defnyddio ystod dystiolaeth debyg o angen yn y rhan fwyaf o achosion. Cyfeiriodd ychydig ohonynt at ffynonellau, fel yr Astudiaeth Carfannau Ieuenctid, sef arolwg cynrychioliadol yn genedlaethol gyda maint sampl mawr (i ddangos tystiolaeth o anghenion pobl ifanc anabl, er enghraifft) a chanfyddiadau o arolygon ac ymgynghoriadau cenedlaethol. Defnyddiodd ychydig ohonynt ystadegau cenedlaethol hefyd, er enghraifft, am ddeilliannau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer grwpiau targed penodol, cyffredinolrwydd anghenion dysgu ychwanegol a chyfranogiad pobl ifanc mewn pynciau STEM.

2.13 Ymddengys bod rhywfaint o’r dystiolaeth a ddyfynnwyd yn llai perthnasol a defnyddiol ar gyfer nodi anghenion. Mae hyn yn cynnwys ymchwil ansoddol graddfa fach ynglŷn â’r rhesymau dros fod pobl ifanc yn NEET[4] a dylanwad eu teulu a chefndir addysgol ar eu statws NEET presennol (cyfweliadau gyda sampl fach o bobl ifanc mewn un ardal awdurdod lleol).

2.14 Yn gyffredinol roedd noddwyr allanol o’r farn fod yr ymgyngoriadau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc yn ystod y cam cynllunio ac ar sail barhaus yn werthfawr iawn ac wedi helpu sicrhau bod cynnwys a fformat gweithgareddau yn ddiddorol ac yn briodol i anghenion.

*Tystiolaeth o fylchau mewn gwasanaethau a gweithgareddau*

---

[3] Y Ddraig Ffynci, 2007. *Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni*, Ar gael yn: http://www.pupilvoicewales.org.uk/uploads/publications/15.pdf [Mynediad 31 Hydref 2013]

[4] Rees, G., Williamson, H., Istance, D., 1996. Status Zero: A study of jobless school leavers in South Wales. *Papurau Ymchwil mewn Addysg*, 11 (2), tud. 219-235

2.15 Nid yw'r cynlluniau busnes ar lefel prosiect yn cyflwyno tystiolaeth o fylchau mewn gwasanaethau ar lefel ranbarthol a lleol – un mater allweddol a amlygwyd gan bron pob un o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth. Er enghraifft, nid oes unrhyw fapio, yn ôl awdurdod lleol na rhanbarth, o wasanaethau prif ffrwd presennol na mentrau eraill y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, i ddangos sut y gall gweithgareddau Cyrraedd y Nod lenwi bylchau ac ychwanegu gwerth. Mynegwyd pryder gan nifer o randdeiliaid ynghylch dyblygu gwasanaethau a gweithgareddau yn hytrach na llenwi bylchau yn yr hyn y bwriadwyd i'r prosiectau a'r gweithgareddau eu cyflwyno. Fodd bynnag, dywedwyd yn glir yn y cynllun busnes y byddai disgwyl i Troedle Cyntaf a Llwybrau i'r Brig gyflwyno gweithgareddau cenedlaethol yn lleol a fyddai'n cefnogi gweithgareddau'n cael eu cyflwyno'n lleol.

2.16 Yr hyn y mae'r cynlluniau busnes yn ei ddatgan yw anghenion gwasanaeth cyffredinol ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio'r ymgynghoriad a rhywfaint o'r ymchwil a ddyfynnwyd, er nad yw bob amser yn glir beth oedd cryfder y dystiolaeth i gefnogi'r gweithgareddau i'w hariannu. Ar gyfer Troedle Cyntaf, nodwyd bod y canlynol yn angenrheidiol i wella sgiliau a dyheadau pobl ifanc:

- gwell cyfleoedd y tu allan i'r ysgol i'w helpu i gael hawliau;
- ymyrraeth gynnar i herio agweddau at addysg a dilyniant;
- cymorth i bobl ifanc NEET gymryd camau i fynd yn ôl i addysg neu i mewn i gyflogaeth;
- ymyrraeth gynnar i atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET am y tymor hir
- prosesau gwell a mwy cyson ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n NEET; ac
- adnoddau gallu ariannol mewn sgiliau sylfaenol.

2.17 Ar gyfer Llwybrau i'r Brig, nodwyd bod y canlynol yn angenrheidiol i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu, cyngor, cymorth ac arweiniad:

- mwy o bobl ifanc i astudio pynciau STEM a'r angen cysylltiedig am gymorth gwell i athrawon STEM i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc mewn pynciau STEM;

- cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael cyngor ac arweiniad, a chynnwys pobl ifanc mwy ym mhob agwedd ar ddylunio a chynnal CLIC;
- mwy o ddarpariaeth ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd i ymarfer y Gymraeg (ar sail tystiolaeth o Adroddiad Blynyddol Estyn 2005-06);
- gwersi ABCh gwell; a
- mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddeall a chael mynediad i'w hawliau a chyfrannu at gymunedau lleol.

2.18 Yn y rhan fwyaf o achosion, aeth cynlluniau busnes cyd-noddwyr ati i ystyried cwmpas gwasanaethau a phrosiectau eraill yng Nghymru i ryw raddau, er mwyn diffinio sut fyddai gweithgareddau arfaethedig yn cyd-fynd â darpariaeth bresennol a'i hehangu, yn hytrach na'i dyblygu. Er enghraifft, diffiniwyd gweithgareddau fel rhai y bwriadwyd iddynt:

- Gynnig cyfleoedd ar gyfer cymorth hirdymor, mwy dwys i bobl ifanc dan anfantais na hynny sydd ar gael ar hyn o bryd trwy wasanaethau prif ffrwd (SNAP Cymru, yr Urdd ac Achub y Plant);
- Ehangu gweithgarwch sydd wedi'i ganolbwyntio mewn lleoliad daearyddol penodol ar draws yr ardal Gydgyfeirio (Techniquest, Cerdd Gymunedol Cymru, Plant yng Nghymru);
- Cynnig gwasanaeth presennol i grwpiau oed gwahanol, lle'r oedd tystiolaeth o alw ac angen nad oeddent yn cael eu bodloni ar hyn o bryd (yr Urdd, Cerdd Gymunedol Cymru);
- Cynnig gwasanaethau graddfa fach presennol i nifer fwy o gyfranogwyr (yr Urdd, Techniquest).

2.19 Ond ni wnaed unrhyw fapio manwl. Gwnaeth nifer o gyd-noddwyr sylwadau ar anawsterau o ran sefydlu trosolwg o ddarpariaeth bresennol, ac awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi cefnogi'r broses hon drwy arwain ymarferiad cynllunio strategol a chyfleoedd i ymgynghori'n lleol â Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

*Cydweddiad â gwasanaethau eraill*

2.20 Dywed y cynlluniau busnes ar gyfer Troedle Cyntaf a Llwybrau i'r Brig y bydd y prosiectau yn "*gweithio gyda phrosiectau rhanbarthol a lleol eraill (e.e. Genesis, Adeiladu Sgiliau a Sgiliau Sylfaenol) mewn partneriaeth* […] *i sicrhau bod y potensial ar gyfer dyblygu yn cael ei leihau a bod gweithgareddau'n ategu'i gilydd".* Y bwriad oedd y byddai cynrychiolwyr o'r prosiectau cenedlaethol a rhanbarthol hyn eistedd ar grŵp llywio'r prosiectau. Nododd y cynllun busnes hefyd fod "*trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda phrosiectau eraill, er enghraifft, y Loteri Fawr, ynghylch sut y gall y prosiectau weithio gyda'i gilydd i groesgyfeirio buddiolwyr a llenwi bylchau yn y ddarpariaeth wrth iddynt gael eu nodi".* Gwahoddwyd y rhanddeiliaid hyn i eistedd ar y Grŵp Cynghori, ac er gwaethaf ymdrechion gan y tîm rheoli prosiectau i'w hannog i gyfranogi, nid oeddent yn bresennol. Roedd y tîm rheoli prosiectau o'r farn mai un o'r prif resymau pam nad ymgysylltodd yr uwch randdeiliaid oedd y nifer uchel o grwpiau cynghori tebyg 'yn cystadlu' am aelodaeth o blith yr un rhanddeiliaid.

2.21 Roedd pob un o'r cynlluniau busnes hefyd yn amlinellu'r cysylltiadau bwriadedig rhwng Troedle Cyntaf a Llwybrau i'r Brig fel y byddai "*dilyniant o unigolion drwy'r prosiectau"*. Rhagwelwyd y byddai traean o gyfranogwyr Troedle Cyntaf yn symud ymlaen i gyfranogi mewn gweithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad yn Llwybrau i'r Brig, tra byddai pumed o'r cyfranogwyr yn Llwybrau i'r Brig yn cael eu cyfeirio i gael cymorth personol dwys strwythuredig a chyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau Troedle Cyntaf. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn wedi digwydd[5] na bod hyn wedi'i gynnwys mewn cynlluniau noddwyr.

2.22 Nid yw cyfeiriadau a llwybrau dilyniant rhwng gwasanaethau presennol a gweithgareddau prosiectau arfaethedig wedi'u diffinio yn eu cynlluniau busnes. Yn yr un modd, esboniad cyfyngedig sydd am sut fyddai gweithgareddau prosiect gwahanol yn ymwneud â'i gilydd a sut fyddent

[5] Mae data gwybodaeth reoli yn dangos bod rhyw 1.5% o bobl ifanc wedi cael cymorth gan fwy nag un cyd-noddwr (gan ddau noddwr yn bennaf) ond nid yw'n dynodi a oedd hyn o fewn yr un prosiect neu ba un a oedd dilyniant rhwng y ddau.

yn cyfeirio at brosiectau eraill cynlluniedig Blaenoriaeth 1, fel Adeiladu Sgiliau.

*Polisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru*

Mae cynlluniau busnes y cyd-noddwyr hefyd yn amlygu'r polisïau a'r strategaethau cenedlaethol allweddol y bwriadwyd i weithgareddau arfaethedig gyfrannu atynt. At ei gilydd, mae cysondeb rhwng cynlluniau busnes y prosiectau a'r cyd-noddwyr, gyda'r rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr yn datgan pa bolisïau cenedlaethol allweddol y mae eu gweithgareddau'n cyfrannu atynt, a hefyd yn darparu manylion am strategaethau, gweithredoedd a pholisïau eraill sy'n berthnasol i'w gweithgareddau penodol. Roedd rhai o gynlluniau busnes y cyd-noddwyr yn dynodi gweithgareddau a fyddai'n cefnogi egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac yn cyfrannu at ymdrechion Llywodraeth Cymru i ymgorffori ymagwedd seiliedig ar hawliau o fewn gwasanaethau plant a phobl ifanc.

**Uchelgeisiau**

2.23 Mae'r uchelgeisiau ar gyfer Cyrraedd y Nod – y nodau ac amcanion ar gyfer y prosiectau a'u targedau o fewn y cyllid a ddyrannwyd – wedi'u hamlinellu yn yr achosion busnes yn unol â'r ddwy thema ar gyfer prosiectau o fewn Blaenoriaeth 1 Fframwaith Strategol Cronfa Strwythurol Ewropeaidd yr Ardal Gydgyfeirio. Nod Thema 1, sef mynd i'r afael â thangyflawniad, yw gwella deilliannau addysgol pobl ifanc sydd mewn perygl o dangyflawni, a nod Thema 2, sef codi sgiliau a dyheadau, yw cynorthwyo pobl ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus i gyflogaeth.

*Nodau ac amcanion*

2.24 Yn unol â nodau'r ddwy Thema, roedd y ddau brosiect yn amlinellu nodau gwahanol yn eu cynlluniau busnes:

- Amcan Troedle Cyntaf oedd "*cryfhau sefyllfa bresennol pobl ifanc 11-19 oed yng Nghymru sy'n NEET, neu mewn perygl o fod yn NEET".* Roedd yn disgwyl canolbwyntio felly ar nodi, ymgysylltu a chefnogi'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed ac wedi'u hymyleiddio fwyaf a oedd bellaf oddi wrth y farchnad lafur er mwyn eu helpu i ddatblygu sgiliau a chymwyseddau a fyddai'n eu helpu i barhau'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant neu'u helpu i ail-ymgysylltu;
- Amcan Llwybrau i'r Brig oedd *"cryfhau'r sefyllfa bresennol yng Nghymru i bobl ifanc 11-19 oed o ran cyfleoedd ar gyfer dysgu, cyngor, cymorth ac arweiniad."* Tra bod Llwybrau i'r Brig hefyd yn cefnogi rhai o'r bobl ifanc mwyaf ymyledig, gan gynnwys pobl ifanc NEET, roedd yn disgwyl cefnogi pobl ifanc i symud ymlaen mewn addysg ac i mewn i ddysgu pellach.
- I gefnogi'r nodau hyn, mae'r cynlluniau busnes ar gyfer y ddau brosiect yn rhestru amcanion penodol yr oedd disgwyl eu cyflawni erbyn diwedd mis Mawrth 2013, pan ddaeth y prosiectau i ben. Cyflwynir y rhain ym Blwch 2 a Blwch 3 isod.

**Blwch 2 Amcanion Troedle Cyntaf fel y'u datganwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol, 2008**

- Datblygu, cynnal peilot a gweithredu systemau safonol ar draws yr ardal Gydgyfeirio gyfan ar gyfer ymyrraeth gynnar gyda phobl ifanc sy'n NEET a systemau ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc NEET;
- Cynnal peilot, gwerthuso a lledaenu ystod o ddulliau newydd ac arloesol o ymgysylltu â phobl ifanc;
- Cyflwyno rhaglen hyfforddi strwythuredig ac achrededig mewn dulliau arloesol ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc i ystod eang o weithwyr proffesiynol llinell flaen ar draws yr ardal Gydgyfeirio, gydag adnoddau cysylltiedig;
- Cyflwyno cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau achrededig yn gysylltiedig â gwaith i ystod o bobl ifanc, a chynnig cyfleoedd i'r bobl ifanc hynny gael profiad o ddefnyddio'r sgiliau a ddysgwyd mewn lleoliad gwaith;
- Darparu cymorth penodol a chymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc ag AAA, anableddau neu sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid (gyda phwyslais ar ferched) i'w galluogi i ddatblygu sgiliau a chael cyfleoedd i hyrwyddo dysgu a hyfforddiant; a
- Datblygu a gweithredu elfennau trawswladol i'r prosiect - *dilëwyd y nod*

*hwn ran o'r ffordd drwy'r prosiect oherwydd cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol i weision sifil*

**Blwch 3 Amcanion ar gyfer Llwybrau i'r Brig fel y'u datganwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol, 2008**

- Datblygu, cynnal peilot a gweithredu ystod o wybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth i bobl ifanc ar ddysgu, gyrfaoedd a materion ffordd o fyw, a darparu hyfforddiant mewn effeithiolrwydd personol i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol;
- Darparu Cymorth Personol a Chymorth Anogwr Dysgu i gynorthwyo pobl ifanc i wneud penderfyniadau a lleoli cyfleoedd i ddysgu a chaffael sgiliau;
- Hyrwyddo diddordeb a niferoedd sy'n astudio pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) a dewisiadau gyrfa yn y dyfodol yn ymwneud â'r rhain;
- Datblygu a chyflwyno hyfforddiant ac adnoddau sy'n hyrwyddo sgiliau sylfaenol cymhwysol ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys meysydd fel rheoli cyllidebau drwy lythrennedd/gallu ariannol;
- Cyflwyno ystod o ymyriadau i bobl ifanc sy'n debygol o dangyflawni a chynnig cyfleoedd i'r bobl ifanc hynny i gyflawni lefel cymhwyster uwch trwy lwybrau dysgu newydd, yn cynnwys cerddoriaeth; a
- Chreu ystod o gyfleoedd newydd i bobl ifanc ymgymryd â phrofiad tebyg i brofiad gwaith a dysgu sgiliau y gellir eu defnyddio naill ai mewn dysgu pellach neu gyflogaeth (yn gysylltiedig â chyflogwyr allweddol a diwydiant).

*Targedau*

2.25 Roedd cynlluniau busnes gwreiddiol y prosiectau yn cynnwys targedau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a WEFO. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- Chyfanswm nifer y bobl ifanc y bydd prosiectau yn eu cynorthwyol, gan gynnwys targedau penodol ar gyfer cyfranogwyr mewn grwpiau oed gwahanol (11-13 oed ac 14-19 oed), cyfranogwyr benywaidd a chyfranogwyr NEET;
- Nifer y bobl ifanc sy'n ennill cymwysterau a'r lefelau cymwysterau i'w hennill, a nifer y bobl ifanc yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill

2.26 Yn ogystal, roedd cynllun busnes Troedle Cyntaf yn amlygu pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl ifanc anabl fel grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed a fydd yn cael eu cynorthwyo gan y prosiect. Cynhwyswyd targed cyffredinol ar gyfer y niferoedd o bobl ifanc o'r grwpiau hyn. Roedd cynllun busnes Troedle Cyntaf hefyd yn darparu targed ar gyfer nifer y gweithwyr proffesiynol a fyddai'n cyfranogi mewn hyfforddiant strwythuredig ac achrededig mewn perthynas â dulliau effeithiol ac arloesol o ymgysylltu â phobl ifanc, ond nid oedd yn pennu gweithwyr proffesiynol penodol y dylid eu targedu.

2.27 Nid oedd y cynlluniau busnes ar gyfer y ddau brosiect na chynlluniau busnes y cyd-noddwyr yn pennu targedau ar gyfer yr awdurdodau lleol lle ddylai gweithgareddau cael eu cyflwyno. Yn lle hynny, datganwyd uchelgais eang ar gyfer *"gweithgarwch unffurf ar draws pob un o'r 15 ardal awdurdod lleol",* gyda gofyniad i gyd-noddwyr sicrhau bod *"yr holl weithgarwch yn cael ei gyflwyno ym mhob un o'r 15 o ardaloedd Cydgyfeirio".*

2.28 Cyflwynir targedau gwariant prosiectau yn y cynllun busnes, wedi'u dadansoddi i feysydd allweddol, fel caffael, staffio, ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol a llety, ac wedi'u dadansoddi hefyd i ddangos cyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ac arian cyfatebol disgwyliedig. Ni osodwyd targedau gwariant ar gyfer gweithgareddau penodol naill ai yng nghynlluniau busnes y prosiectau na chynlluniau busnes cyd-noddwyr.

2.29 At ei gilydd, tystiolaeth gyfyngedig sydd y ffurfiwyd targedau ar sail asesiad o gyflenwad a galw, a chostau amcangyfrifedig i gyflawni allbynnau a deilliannau:

- **Niferoedd targed o bobl ifanc sy'n NEET neu mewn perygl yn yr ardal Gydgyfeirio.** Nid yw'r cynllun busnes yn cynnwys: data ar gyfanswm o boblogaeth NEET i amcangyfrif pa gyfran y byddai'n rhesymol ei chefnogi yn y prosiect; data ar y boblogaeth NEET ym mhob awdurdod lleol, i ddangos lle dylid targedu gweithgareddau; nac unrhyw dystiolaeth am y boblogaeth amcangyfrifedig o bobl ifanc 'mewn perygl' ar sail ymchwil.

- **Y boblogaeth ar gyfer gweithgareddau targed gwahanol.** Gan fwyaf, nid yw cynlluniau busnes y prosiectau na'r cyd-noddwyr yn amcangyfrif nifer y bobl ifanc sy'n debygol o ymgymryd â gweithgareddau gwahanol yn seiliedig ar weithgareddau meincnod, monitro a gwerthuso blaenorol neu ddata poblogaeth.
- **Y mathau i weithgareddau arfaethedig a fyddai'n gwneud gwahaniaeth a'u costau**. Ymddengys mai cyfyngedig fu'r cwmpasu a'r ymchwil i sefydlu pa weithgareddau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl ifanc, ac y dylid eu cynnwys yn y prosiect felly, a beth yw costau priodol ar gyfer gweithgareddau er mwyn cyflawni'r allbynnau a'r deilliannau a ddymunir.

**Gweithgareddau**

2.30 Mae cynlluniau busnes y prosiectau yn rhestru gweithgareddau i'w cyflwyno mewn atodiad i'r brif ddogfen. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau amrywiol ar gyfer pobl ifanc NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET i adeiladu eu sgiliau a'u tueddfryd personol, cymdeithasol ac emosiynol, ac i gefnogi datblygu sgiliau cyflogadwyedd, a hefyd adeiladu gallu a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol:

2.31 Mae gweithgareddau y bwriadwyd iddynt gael eu cyflwyno yn Troedle Cyntaf yn cynnwys: cymorth trosglwyddo gan weithiwyr allweddol i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol; mentora a chymorth addysg bersonol i bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid; rhaglen o weithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau; gweithgareddau dinasyddiaeth; hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar ddulliau cyfranogol; a datblygu systemau ar gyfer nodi a chadw mewn cysylltiad â phobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl. Ac yn Llwybrau i'r Brig, mae'r gweithgareddau a restrwyd yn cynnwys: datblygu gwybodaeth a chyngor yn cael eu darparu drwy'r wefan CLIC; gweithgareddau ymgysylltu STEM; gweithgareddau cyfranogi mewn cerddoriaeth; a chyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ar gyfer siaradwyr Cymraeg ifanc.

2.32 Yn ôl y disgwyl, mae’r rhain yn cynnig ymagweddau amgen at ddysgu a chyflawni sgiliau ac yn cynnig cyfleoedd i gyfoethogi sgiliau a gallu sefydliadau i ddarparu’r rhain i’r rheiny sydd mewn perygl. Wrth lunio’r achos ar gyfer y gweithgareddau hyn, mae cynlluniau busnes y prosiectau yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth o beth sy’n gweithio i gyflawni deilliannau ar gyfer pobl ifanc y maent yn canolbwyntio arnynt. Mae hyn yn cynnwys (gweler

2.33 Tabl 1):

- adroddiadau prosiectau a chynlluniau peilot sydd wedi’u hariannu’n flaenorol fel y gellir eu hehangu a’u parhau o dan Cyrraedd y Nod, fel gweithgareddau cyfranogi yn cael eu cyflwyno gan y Ddraig Ffynci; ymchwil o systemau cenedlaethol a lleol presennol ar gyfer nodi, cofnodi, ymateb i ac olrhain pobl ifanc sy’n NEET; a phrosiect peilot i ddatblygu dulliau i helpu teuluoedd i fynd i’r fael â dyled. Nid yw rhai o’r adroddiadau, fodd bynnag, yn defnyddio gwerthusiadau o ddeilliannau a gyflawnwyd a fyddai’n cefnogi buddsoddi yn hytrach na myfyrdodau rheolwyr ac adborth ansoddol, heb ei dadansoddi yn aml, oddi wrth fuddiolwyr;
- ymchwil i fuddion gwaith allweddol yn seiliedig ar ddull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a amlygodd yr angen am: lefel uchel o ddewis a rheolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gosod nodau yn effeithiol; gwybodaeth o ansawdd dda sy’n hygyrch; gweithwyr allweddol empathig gyda sgiliau gwrando da; ac ymagwedd hyblyg;
- ymchwil i fuddion gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau, a nododd fod gan bobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithgareddau celfyddydau cymunedol uchelgeisiau cymharol uchel i barhau’n broffesiynol yn eu maes arfer celfyddyd dewisedig, i fynychu cyrsiau addysg bellach neu addysg uwch neu i sicrhau cyflogaeth, ac wedi nodi nodweddion o arfer effeithiol; a
- thystiolaeth werthusol ynglŷn â beth sy’n gweithio’n dda o ran cefnogi pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid i drosglwyddo’n llwyddiannus o’r ddalfa i’r gymuned, a ddangosodd fod hyfforddiant personol yn effeithiol o ran helpu pobl ifanc gael mynediad i dai,

gwasanaethau iechyd a gweithgareddau i ddifyrru, ac o ran helpu pobl ifanc i gadw ffocws ar gadw'n glir o helbul pan gânt eu rhyddhau.

2.34 Nid oes unrhyw:

- dystiolaeth ymchwil na thystiolaeth werthusol ynglŷn ag effeithiolrwydd gweithgareddau dwysedd uwch o ran cyflawni deilliannau ar gyfer pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl (ymhellach na hynny ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny yn y system cyfiawnder ieuenctid);
- cyfeiriad at unrhyw adolygiadau systematig o lenyddiaeth o beth sy'n gweithio i gyflawni'r deilliannau a ddisgwylir gan Cyrraedd y Nod neu o dargedu grwpiau mewn perygl a grwpiau NEET yn effeithiol i sicrhau gwerth ychwanegol;
- asesiad o sut yr oedd angen llywio natur neu ddwysedd gweithgareddau er mwyn cyflawni'r deilliannau disgwyliedig;
- gweithgarwch wedi'i gynllunio i gydosod tystiolaeth ynglŷn ag arfer effeithiol o'r llenyddiaeth, yn enwedig astudiaethau gwerthuso cadarn;
- tystiolaeth i ddadlau'r achos dros ddefnyddio gweithgareddau seiliedig ar STEM fel modd o ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc sydd wedi dadrithio; a
- thystiolaeth wedi'i chyflwyno bod gweithgareddau, fel gwella gwybodaeth a sgiliau dinasyddiaeth, yn cynnwys buddion i bobl ifanc sy'n NEET neu mewn perygl o fod yn NEET.

2.35 Caiff natur y dystiolaeth sy'n sail i weithgareddau prosiectau ei chadarnhau yn y cyfweliadau â noddwyr y prosiectau.

**Tabl 1 Tystiolaeth a ddefnyddiwyd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda o ran cyflawni nodau ac amcanion Cyrraedd y Nod - cynlluniau busnes prosiectau**

| Ymchwil | Tystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio Cyrraedd y Nod |
|---|---|

| | |
|---|---|
| *Gwerthusiad o'r Ddraig Ffynci,* Arad Consulting, 2008. | Mae'r gwerthusiad hwn yn dangos yn glir bod Y Ddraig Ffynci yn arwain y ffordd yn y DU ac Ewrop o ran cyfranogiad pobl ifanc. Tystiolaeth gyfyngedig y mae'r ymchwil yn ei darparu ar ddeilliannau ar gyfer pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogi, gan ganolbwyntio mwy ar brosesau cyflwyno. Cyflwynir rhywfaint o dystiolaeth ansoddol ar raddfa fach ar y buddion canfyddedig. |
| *Law yn Llaw – Gweithgareddau sy'n Seiliedig ar y Celfyddydau ac Adfywio,* Prifysgol Morgannwg | Mae'r astudiaeth hon yn nodi bod gan bobl ifanc a fu'n ymwneud â gweithgareddau'n seiliedig ar y celfyddydau uchelgeisiau cymharol uwch i barhau'n broffesiynol yn eu maes arfer celfyddyd dewisedig, i fynychu cyrsiau addysg bellach neu addysg uwch neu i sicrhau cyflogaeth. |
| Ymchwil a wnaed gan yr Uned Ymchwil Polisi Cymdeithasol (Prifysgol Caerefrog), Sefydliad Norah Fry (Prifysgol Bryste) a Sefydliad Joseph Rowntree | Mae'r ymchwil hon wedi amlygu ystod o fuddion sy'n deillio ar gyfer hyrwyddo sgiliau ac ymgysylltu o ddull sy'n defnyddio gweithwyr allweddol i weithio gyda phobl ifanc ag AAA. |
| *Ymestyn Hawliau Gwerthuso Prosiect y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru*, Fundamentals Europe (2008). | Mae'r cynllun busnes yn amlygu buddion cadarnhaol ar gyfer buddiolwyr a cheir tystiolaeth o hynny yn y gwerthusiad, ond nid yw'n datgan pa nodweddion o arfer effeithiol sydd wedi arwain at y deilliannau hyn. |
| *Gwerthusiad o'r Cymorth Personol ar gyfer Datblygu Llwybrau Dysgu mewn Prosiectau Peilot yn y Ddalfa* – yr Uned Pobl a Gwaith, 2006<br><br>*Canfyddiadau Pobl Ifanc yn y Ddalfa*, SCYA, 2006 | Mae'r gwaith peilot hwn yn asesu rhaglen cymorth personol a gyflwynir i bobl ifanc cyn eu rhyddhau ac yn syth ar ôl eu rhyddhau, ac mae'n casglu barnau pobl ifanc ar y cymorth sydd ei angen arnynt. |

Ffynhonnell: Cynllun busnes prosiectau (2008)

2.36 Gan mwyaf, ychydig o dystiolaeth ychwanegol y mae cynlluniau busnes y cyd-noddwyr yn ei darparu o beth sy'n gweithio, ac maent yn dibynnu'n bennaf ar ddysgu o gyflwyno gwasanaethau blaenorol, sy'n tueddu bod yn seiliedig ar fyfyrdodau rheolwyr a staff cyflwyno yn hytrach nag ar werthusiad cadarn o ymchwil (gweler Tabl 2 a Tabl 3). Roedd y cyd-noddwyr o'r farn fod eu gallu i dynnu ar brofiadau o gyflwyno gwasanaethau blaenorol yn ddefnyddiol, ac fe'i gwnaeth yn haws hefyd i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cam cynllunio.

2.37 Mae ychydig o noddwyr yn defnyddio tystiolaeth o ymchwil a gwerthuso, fel gwerthusiadau o brosiectau blaenorol y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd (Cyngor Celfyddydau Cymru), ymchwil i wersi a ddysgwyd o saith o fentrau tlodi plant (Plant yng Nghymru) ac astudiaethau achos arfer da o'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (SNAP Cymru).

**Tabl 2 Tystiolaeth a ddefnyddiwyd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda o ran cyflawni deilliannau: cynlluniau busnes cyd-noddwyr Troedle Cyntaf**

| Cyd-noddwr | Tystiolaeth a ddefnyddiwyd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda o ran cyflawni deilliannau |
|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Gwerthusiad allanol o brosiectau blaenorol a gyflwynwyd o dan Amcanion 2 a 3 y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd |
| Plant yng Nghymru | Dysgu o gynlluniau peilot o'r gweithgarwch arfaethedig yn y ddwy flynedd flaenorol<br>Adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree sy'n tynnu sylw at wersi a ddysgwyd o saith o fentrau tlodi plant, gan gynnwys y rheiny gyda phobl ifanc anabl |
| Y Ddraig Ffynci | - Dysgu o gyflwyno gwasanaethau blaenorol er nad yw hyn wedi'i seilio ar fonitro a gwerthuso cadarn. |
| Achub y Plant | Adborth gan bobl ifanc a dysgu o raglenni blaenorol a gyflwynwyd rhwng 2005-08. Er enghraifft, roedd Sicrhau Newid yn seiliedig yn drwm ar 'Ysbrydoli newid lleol a chenedlaethol' Canolfannau Hyfforddi Diogel a gafodd ei werthuso'n drwyadl. |
| Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr | Profiad blaenorol o gyflwyno gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys rhaglenni peilot. |

Ffynhonnell: Cyfweliadau gyda chyd-noddwyr a chynlluniau busnes cyd-noddwyr

**Tabl 3 Tystiolaeth a ddefnyddiwyd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda o ran cyflawni deilliannau: cynlluniau busnes cyd-noddwyr Llwybrau i'r Brig**

| Cyd-noddwr | Tystiolaeth a ddefnyddiwyd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda o ran cyflawni deilliannau |
|---|---|
| Cerdd Gymunedol Cymru | Profiad blaenorol o gyflwyno gwasanaethau yn y gymuned. |
| SNAP | Tystiolaeth o arfer gorau o'r astudiaethau achos a gyflwynwyd yn yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb.<br>Dysgu o gyflwyno gwasanaethau blaenorol. |
| Techniquest | Dysgu o gyflwyno gwasanaethau blaenorol. |
| Urdd Gobaith Cymru | Dysgu o'u profiad blaenorol o gyflwyno gwasanaethau |

Ffynhonnell: Cyfweliadau gyda chyd-noddwyr a chynlluniau busnes cyd-noddwyr

## Crynodeb

*Cyd-destun*

- Roedd disgwyl i brosiectau Cyrraedd y Nod gyfrannu at yr heriau mewn perthynas â chyrhaeddiad a chyflawniad pobl ifanc, y sgiliau sydd ganddynt yn barod ar gyfer cyflogaeth, a'u dilyniant i addysg bellach a gwaith. Mae'r heriau hyn yn rhan o Fframwaith Strategol Blaenoriaeth 1, ac roedd nifer o bolisïau rhyng-gysylltiedig gan Lywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â nhw yn 2008.

*Tystiolaeth o angen a bylchau mewn gwasanaethau*

- Mae cynlluniau busnes y prosiectau yn derbyn yr heriau a wynebir gan bobl ifanc fel rhai wedi'u darllen a'u deall yn eang. Cyfeiriant at ymgynghoriad ehangach ond nid ydynt yn cyflwyno canfyddiadau, ac maent yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth ymchwil sy'n rhoi tystiolaeth ategol o anghenion. Mae rhywfaint o'r dystiolaeth a ddyfynnwyd i weld yn llai perthnasol a defnyddiol ar gyfer nodi anghenion, fel astudiaeth ansoddol ar raddfa fach mewn un ardal awdurdod lleol.
- Roedd cynlluniau busnes y cyd-noddwyr yn defnyddio rhywfaint o dystiolaeth ychwanegol am anghenion pobl ifanc, fel ystadegau cenedlaethol, canfyddiadau o ymgynghoriadau cenedlaethol ac arolygon ar raddfa fawr.
- Mae cynlluniau busnes y prosiectau yn datgan disgwyliad am weithgareddau cenedlaethol yn cael eu cyflwyno'n lleol a fyddai'n cefnogi darpariaeth leol bresennol. Fodd bynnag, nid ydynt yn mynd ati, yn ôl ardal awdurdod lleol na rhanbarth, i fapio mentrau prif ffrwd presennol neu fentrau eraill y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i ddangos sut fyddai gweithgareddau Cyrraedd y Nod yn llenwi

bylchau ac yn ychwanegu gwerth. Yn lle hynny, cyflwynir meysydd cyffredinol anghenion am wasanaethau.

- Roedd cynlluniau busnes y cyd-noddwyr yn ystyried cwmpas gwasanaethau a phrosiectau eraill yng Nghymru i ryw raddau er mwyn diffinio sut y byddai gweithgareddau arfaethedig yn cyd-fynd â darpariaeth bresennol, ond ni wnaeth yr un ohonynt fapio hynny'n fanwl.
- Roedd bron pob un o'r rhanddeiliaid yn pryderu bod rhai o weithgareddau a gwasanaethau'r prosiect yn dyblygu yn hytrach na llenwi bylchau yn y ddarpariaeth leol.
- Cyflwynir disgwyliadau bras o ran cydweddu â gwasanaethau prif ffrwd, gyda manylion cyfyngedig ynghylch cyfeiriadau a llwybrau dilyniant disgwyliedig rhwng gwasanaethau.

*Targedau*

- Mae'r rhan fwyaf o'r targedau yn y cynllun busnes yn ymwneud ag amcanion y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn hytrach nag amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
- Tystiolaeth gyfyngedig sydd y lluniwyd targedau ar sail asesiad o'r cyflenwad a'r galw a chostau amcangyfrifedig i gyflawni allbynnau a deilliannau.

*Tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran cyflawni deilliannau ar gyfer pobl ifanc mewn perygl a phobl ifanc NEET*

- Mae'r cynlluniau busnes yn cynnig gweithgareddau eang ar gyfer pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl, gan gynnwys gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau, gweithgareddau dinasyddiaeth, cymorth hyfforddi dwys i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, gwybodaeth a chyngor a gweithgareddau ymgysylltu STEM. Wrth ddadlau o blaid gweithgareddau, mae cynlluniau busnes y prosiectau a'r cyd-noddwyr yn defnyddio

rhywfaint o dystiolaeth o beth sy'n gweithio o ran cyflawni deilliannau, ond gallai hyn fod wedi bod yn fwy cynhwysfawr a chadarn.

# 3 Comisiynu, cyflwyno a rheoli prosiectau Cyrraedd y Nod

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ynglŷn ag effeithiolrwydd y broses ar gyfer comisiynu, cyflwyno a rheoli prosiectau Cyrraedd y Nod. Mae'n defnyddio cyfweliadau gydag arweinwyr y cyd-noddwyr, rhanddeiliaid ac ymchwil astudiaethau achos i ddisgrifio'r broses ar gyfer pob un o'r camau allweddol canlynol:

- Y broses gomisiynu;
- Gweithgareddau sefydlu a chychwyn;
- Cyflwyno gweithgareddau, yn cynnwys prosesau ar gyfer monitro a sicrhau ansawdd; a
- Rheoli dau brosiect Cyrraedd y Nod, yn cynnwys trefniadau llywio.

3.2 Rydym yn gwahaniaethu rhwng rôl comisiynwyr ac asiantau cyflwyno, gan ddiffinio'r comisiynwyr fel y sefydliadau cyd-noddi mewnol ac allanol, a'r asiantau cyflwyno, fel naill ai sefydliadau dan gontract i gyd-noddwyr i gyflwyno gweithgareddau neu dimau o fewn y sefydliadau cyd-noddi sy'n gyfrifol am gyflwyno.

3.3 Ar gyfer pob cam, rydym hefyd yn ystyried rôl Llywodraeth Cymru fel y noddwr arweiniol, sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith ar draws y sefydliadau cyd-noddi.

## Comisiynu

### *Y broses*

<u>Beth wnaeth y comisiynwyr</u>

3.4 Nid oedd gan rai sefydliadau cyd-noddi allanol unrhyw brofiad o gomisiynu, neu brofiad cyfyngedig iawn o hynny. Roedd gofynion caffael Cyrraedd y Nod felly yn creu heriau sylweddol i'r sefydliadau hyn, gyda'r staff yn gorfod dysgu llawer mewn cyfnod amser byr.

3.5 I helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn, fe wnaeth nifer o sefydliadau cyd-noddi allanol sicrhau eu bod, wrth recriwtio staff newydd i'r prosiectau, yn cynnwys gofyniad am brofiad o gaffael a rheoli contractau. Cafodd y

cyd-noddwyr eu cefnogi hefyd gan Lywodraeth Cymru i gael mynediad i hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), a darparwyd templedi, manylebau a chontractau enghreifftiol iddynt. Aeth y cyd-noddwyr ati hefyd i rannu enghreifftiau o'u manylebau a'u contractau rhyngddynt eu hunain.

3.6 Roedd disgwyl i gyd-noddwyr mewnol ac allanol ddatblygu eu proses gais a'u meini prawf asesu eu hunain ar gyfer cynigion. Yn y cam hwn, rhoddwyd nifer o'r cyd-noddwyr allanol, ond nid pob un ohonynt, mewn cysylltiad â'r arweinwyr polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru i gael mewnbwn ac arweiniad er mwyn helpu llywio'r fanyleb ar gyfer y gweithgaredd, ac i sicrhau ei bod yn gyson â blaenoriaethau polisi. Gan mwyaf, aeth y cyd-noddwyr ati i ymchwilio a chynllunio beth fyddent yn ei gomisiynu o dan Cyrraedd y Nod yn annibynnol heb unrhyw ystyriaeth o'r hyn yr oedd cyd-noddwyr eraill yn cynllunio i'w gomisiynu. Nid oedd unrhyw gynllunio ar y cyd ar draws y sefydliadau cyd-noddi o ran cyfeirio a llwybrau dilyniant rhwng gweithgareddau wedi'u comisiynu, i fapio'r grwpiau targed neu leoliadau lle byddai darparwyr dan gontract yn gweithio neu i drafod y posibilrwydd o gomisiynu ar y cyd.

3.7 Ymddengys mai cyfyngedig fu adolygiadau o'r farchnad yn ystod y cam cynllunio a chyn-gomisiynu. Er enghraifft, nid oes fawr o dystiolaeth fod y cyd-noddwyr wedi ymgysylltu â darparwyr yn y farchnad i ddeall yr atebion a allai fod ar gael ac i gael adborth ar y modd gorau i fodloni'r gofyniad. Ymddengys mai ymagwedd gymharol ad hoc fu tuag at benderfynu nifer a natur y cyflenwyr a oedd yn ofynnol, a hyd a'r math o gontract. Ystyriaeth gyfyngedig hefyd a roddwyd i fodelau caffael gwahanol (e.e. comisiynu ar y cyd er mwyn sicrhau arbedion maint neu gaffael drwy gyfres o lotiau), yn cynnwys ystyried prosesau caffael gwahanol ar gyfer contractau o faint gwahanol.

3.8 Fe wnaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, yr unig sefydliad cyd-noddi allanol i roi'r holl waith cyflwyno dan gontract, ddyfarnu contractau mewn tri cham, gyda phedwar lot ym mhob cam yn seiliedig ar lefelau ariannu gwahanol. Yn y cam cyntaf, roedd lotiau ar wahân ar gyfer prosiectau o dan £25,000, rhwng £25,000 a £99,999, rhwng £100,000 a £250,000, ac uwchlaw £250,000. Nid oedd rhaid i brosiectau a oedd yn cynnig am ac

yn derbyn llai na £25,000 ddarparu arian cyfatebol (darparwyd hyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru), tra’r oedd yn rhaid i brosiectau mwy ei ddarparu. Fe wnaeth yr ymagwedd hon alluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i gyrraedd partneriaid cyflwyno llai, yn gweithio’n lleol. Roedd ail gyfnod a thrydydd cyfnod y broses gaffael yn defnyddio lotiau hefyd, yn seiliedig ar lefelau cyllid gwahanol, ond ariannwyd llai o brosiectau o dan £25,000. Trwy drefnu’r broses caffael mewn tri cham, roedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gallu sicrhau bod lledaeniad da o brosiectau o ran daearyddiaeth, ffurf celf a grŵp targed. Er enghraifft, ar ôl y cam cyntaf yn y broses gaffael, roedd bylchau yn y ddarpariaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ac felly yn ail gam y caffael, dynododd Cyngor Celfyddydau Cymru yr angen am fwy o ymatebion o Ogledd Cymru, a fu’n llwyddiannus. Hefyd, ar ôl yr ail gam caffael, roedd ganddynt ddigon o brosiectau wedi’u targedu at bobl ifanc mewn perygl, ac felly targedwyd prosiectau yn y trydydd cam at bobl ifanc NEET. Roedd trefnu’r caffael mewn tri cham yn golygu hefyd bod prosiectau llai yn cael eu hariannu yn y cam cyntaf yn gallu gwneud cynnig yn ystod camau yn y dyfodol i barhau ar ôl peilot cychwynnol pe baent yn gallu dangos effeithiolrwydd.

3.9 Mabwysiadwyd proses gwneud cais un cam gan bob un o’r cyd-noddwyr mewnol ac allanol, yn unol â gofynion yr UE, gyda’r rhan fwyaf ohonynt yn amlygu meini prawf trothwy i asesu pa un a ddylai cynnig gael ei ystyried, ac yna meini prawf ar gyfer sgorio pob cynnig cymwys yn eu herbyn er mwyn penderfynu i bwy ddylid dyfarnu unrhyw gontract. Mae’r meini prawf asesu allweddol a ddefnyddiwyd gan y rhan fwyaf o’r cyd-noddwyr yn cynnwys:

- Gallu i gyflawni’r deilliannau prosiect a fwriadwyd;
- Gallu i gofnodi gwybodaeth fonitro, adrodd a gwerthuso;
- Profiad perthnasol o recriwtio a gweithio gydag aelodau o’r grŵp targed; a
- Chynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y llywio,/datblygu partneriaeth.

3.10 Fe wnaeth ychydig o'r cyd-noddwyr ddefnyddio rhai o'r meini prawf canlynol hefyd:

- Cynlluniau ar gyfer cynnal gweithgarwch ar ôl i gyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ddod i ben;
- Cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth ddatblygu gweithgareddau;
- Defnyddio arfer yn seiliedig ar dystiolaeth;
- Argaeledd arian cyfatebol;
- Prosesau sicrhau ansawdd; a
- Chysondeb deilliannau bwriadedig y gweithgarwch gyda blaenoriaethau partneriaethau plant a phobl Ifanc lleol.

3.11 Yn ogystal, roedd gan rai cyd-noddwyr ofynion am allu i gyflwyno mewn dalgylch daearyddol penodol. Wrth asesu cynigion, roedd y rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr yn rhoi blaenoriaeth i brofiad o weithio gyda'r grŵp targed dros brofiad o gyflwyno prosiectau yn cael eu hariannu gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd.

3.12 Er bod pris yn ystyriaeth i'r rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr, nid oedd yn faen prawf allweddol ar gyfer asesu cynigion yn ei erbyn yn gyffredinol.

3.13 Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau cyd-noddi mewnol ac allanol yn pennu'r uchafswm cyllideb a oedd ar gael, ac yn pennu lleiafswm nifer cyfranogwyr ar gyfer gweithgareddau wedi'u comisiynu. Wrth bennu'r gyllideb a thargedau allbwn, defnyddiwyd profiad blaenorol o gyflwyno ganddynt i asesu beth fyddai'n realistig, a hefyd fe wnaethant ystyried eu targedau cyffredinol Troedle Cyntaf/Llwybrau i'r Brig. Nid ymddengys bod y cyd-noddwyr wedi gwneud unrhyw ymchwil ehangach i bennu costau unedau meincnod er mwyn asesu cynigion yn eu herbyn. Cyngor Celfyddydau Cymru a Cerdd Gymunedol Cymru oedd yr unig gyd-noddwyr na wnaeth bennu niferoedd cyfranogwyr ar gyfer gweithgareddau wedi'u comisiynu, gan adael i asiantau cyflwyno wneud asesiad o dargedau a chostau unedau realistig ar gyfer eu model cyflwyno penodol a'u grŵp targed.

3.14 Cyflwynwyd yr holl fanylebau i dîm rheoli prosiectau Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo, ac yna'u cyhoeddi ar GwerthwchiGymru, eu hysbysebu

ar wefannau cyd-noddwyr a'u hanfon yn uniongyrchol at ddarparwyr hysbys er mwyn sicrhau eu cylchredeg mor eang â phosibl.

3.15 Nid oedd llawer o dystiolaeth bod y broses gontractio wedi amrywio o ran ei gofynion yn ôl maint y contract a ddyfernir.

3.16 Yn nodweddiadol, sefydlwyd panel o aseswyr ac aseswyd cynigion yn annibynnol gan bob aelod o'r panel cyn cynnal asesiad ar y cyd a dod i gytundeb. Mewn ychydig o achosion, fel rhan o'r broses asesu cynigion, fe wnaeth y cyd-noddwyr gysylltu â chynigyddion am esboniad ynglŷn ag agweddau ar y cynnig. Mewn rhai achosion, cynhaliwyd cyfweliadau lle bo angen.

<u>Beth wnaeth yr asiantau cyflwyno</u>

3.17 Wrth baratoi dogfennau tendro mewn ymateb i fanylebau cyd-noddwyr, cyflwynwyd tystiolaeth gan asiantau cyflwyno ynghylch beth sy'n gweithio o ran cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer y grŵp targed bwriadedig, gan ddefnyddio'u profiad cyflwyno eu hunain yn bennaf yn hytrach nag ymchwil a meincnodau wedi'u cyhoeddi'n ehangach.

3.18 Roedd y rhan fwyaf o fanylebau yn mynnu bod asiantau cyflwyno yn darparu tystiolaeth o'u cysylltiadau a phartneriaethau â sefydliadau eraill. Felly, cafodd yr asiantau cyflwyno lythyrau cefnogi gan bartneriaid a defnyddiwyd enghreifftiau o astudiaethau achos o brosiectau blaenorol ganddynt i ddangos gweithio mewn partneriaeth.

3.19 Wrth benderfynu pa allbynnau a deilliannau yr oedd modd eu cyflawni, roedd yr asiantau cyflwyno yn tueddu defnyddio prosiectau blaenorol tebyg yr oeddent wedi'u cyflwyno i wneud eu hasesiad. Yn gyffredinol, nid ymddengys bod asiantau cyflwyno wedi ymchwilio i'r boblogaeth darged gyfan na graddfa darpariaeth arall a anelwyd at y grwpiau hynny i wneud asesiad o faint o gyfranogwyr y gallent weithio gyda hwy yn realistig.

*Barnau'r comisiynwyr am y broses*

3.20 Mae cyfweliadau gyda chyd-noddwyr ynglŷn â'r broses gomisiynu yn dynodi'r canlynol:

- Adroddodd bob un o'r cyd-noddwyr y dywedwyd wrthynt gan Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i ddatblygu a chomisiynu gweithgareddau yn dilyn yr adroddiad gwerthuso interim. Y rheswm am hyn oedd nad oedd unrhyw sicrwydd, heb gytundeb WEFO i barhau â'r prosiectau, y byddai cyllid ar gael i gyflawni unrhyw gontractau a gyhoeddwyd. Aeth sawl mis heibio cyn i benderfyniad gael ei wneud gan WEFO i barhau â'r prosiectau ac roedd y cyd-noddwyr yn gallu ail-ddechrau'r broses, gan ddilyn arweiniad newydd a gyhoeddwyd am y grŵp targed ar gyfer prosiectau Cyrraedd y Nod. Golygai'r oedi hwn fod y gwaith o gomisiynu a chyflwyno gweithgareddau wedi'u *"ôl-lwytho"* a'i fod yn ffactor a gyfrannodd at beidio â chyflawni targedau gwariant allweddol a thargedau allbwn (gweler Pennod 4);
- Adroddodd ychydig o'r cyd-noddwyr yr effeithiwyd ar y comisiynu gan lefel yr arian cyfatebol a oedd ar gael. Nodwyd ganddynt fod y targedau ar gyfer arian cyfatebol wedi'u diffinio cyn y dirywiad economaidd. Pan ddaeth yn amser ceisio sicrhau ffynonellau cyllid eraill yn 2008 a 2009, roedd llawer llai o gyllid ar gael nag a ragwelwyd pan oedd y prosiect wrthi'n cael ei gynllunio. I ychydig o noddwyr, fel Techniquest, adroddir bod hyn yn ffactor cyfrannol allweddol at eu tanwariant a methiant i gyflawni nodau;
- Roedd y cyd-noddwyr a gafodd hyfforddiant CGGC o'r farn ei fod yn ddefnyddiol o ran darparu rhywfaint o arweiniad am arfer da mewn caffael;
- Nododd ychydig o gyd-noddwyr fod rhaid iddynt wneud gwelliannau i'r broses ar ôl y rownd gomisiynu gyntaf o ganlyniad i wersi a ddysgwyd. Er enghraifft, adroddodd un cyd-noddwr mai ymateb isel a gafodd i'r fanyleb gyntaf a gyhoeddwyd. Felly, cyn yr ail rownd gaffael, cynhaliodd y staff ddau ddiwrnod agored ar gyfer darpar gynigyddion, un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru. Cafwyd nifer uwch o gynigyddion yn sgil hyn;

- Nododd ychydig o gyd-noddwyr y byddent wedi dymuno cael mwy o gymorth ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â beth i'w gynnwys yn y fanyleb, a phroses fwy trylwyr ar gyfer gwirio a chymeradwyo manylebau terfynol. Byddai rhai ohonynt hefyd wedi elwa o gael cyngor ar gaffael lle nad yw hyn yn weithgaredd allweddol iddynt neu lle bo'n faes caffael newydd. Er enghraifft, nododd un cyd-noddwr nad oedd ganddo unrhyw brofiad blaenorol o gomisiynu fod eu manyleb gychwynnol, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys nifer o wendidau (o ran terminoleg a hepgor gofynion allweddol). Ni sylwyd ar hyn yn y broses gymeradwyo, ac achosodd broblemau yn ddiweddarach;
- Dywedodd llawer o'r cyd-noddwyr eu bod yn rhannu templedi, manylebau a chontractau enghreifftiol a dysgu ynglŷn â beth sy'n gweithio mewn proses gomisiynu effeithiol rhwng cyd-noddwyr. Roeddent yn gwerthfawrogi'r "*ysbryd hwn o bartneriaeth";*
- Adroddodd ychydig o gyd-noddwyr bod Llywodraeth Cymru wedi mynnu eu bod yn cyhoeddi manylebau ac yn dyfarnu contractau ar gyfer gwaith cyflwyno dan is-gontract cyn i'w cyllidebau cyffredinol gael eu cymeradwyo'n derfynol (gan Lywodraeth Cymru a WEFO). Roedd pryderon fod hyn yn peri lefel risg uchel i sefydliadau cyd-noddi, a barn y dylai'r broses gymeradwyo fod wedi'i rheoli'n well er mwyn osgoi hyn;
- Ar y cychwyn roedd nifer o gyd-noddwyr wedi bod yn amheus ynglŷn â gwerth ychwanegol proses gontractio gystadleuol, gan ystyried eu bod mewn sefyllfa dda i gyflwyno gweithgareddau'n uniongyrchol. Ar ôl hynny, fe wnaethant gydnabod yn gyffredinol fod y gofyniad i gomisiynu wedi golygu bod grwpiau targed, na fyddent fel arall wedi cael cymorth, wedi'u cyrraedd a bod eu capasiti sefydliadol wedi gwella o ganlyniad i hynny. Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gefnogol iawn i'r gofyniad am broses gontractio, ac adroddodd ei fod, o ganlyniad, wedi ffurfio partneriaethau newydd gyda sefydliadau na fyddent fel arall wedi'u comisiynu. Yn ddigon tebyg, adroddodd Techniquest eu bod wedi dysgu llawer am ennyn

diddordeb mwy o bobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio mewn pynciau STEM trwy weithio gyda Gyrfa Cymru. Roedd un neu ddau o gyd-noddwyr o'r farn, fodd bynnag, fod yr amser a dreuliwyd ar gomisiynu a rheoli darparwyr dan gontract yn anghymesur â'r deilliannau a gyflawnwyd. Roeddent o'r farn y byddai wedi bod yn fwy effeithlon i fynd ati eu hunain i sefydlu'r timau staff gofynnol ar gyfer cyflwyno.

*Barnau'r asiantau cyflwyno am y broses*

3.21 Yn gyffredinol, adroddodd yr asiantau cyflwyno fod y manylebau a gyhoeddwyd gan y cyd-noddwyr yn glir ac yn hawdd eu deall, a'u bod yn rhoi digon o fanylion i alluogi darparwyr ymateb i'r gofynion. Adroddodd ychydig o'r asiantau cyflwyno nad oedd rhai o'r manylebau yn caniatáu llawer o gyfle am arloesi ar ran y darparwyr. Hefyd, roedd un neu ddwy enghraifft lle'r oedd darparwyr o'r farn fod yr ymyrraeth neu'r cynnyrch a nodwyd yn y fanyleb yn amhriodol i'r grŵp targed. Priodolwyd hyn ganddynt i ddiffyg gwybodaeth arbenigol ar ran y comisiynwyr.

3.22 Adroddodd ychydig o asiantau cyflwyno, er eu bod wedi ceisio gwneud asesiadau realistig o niferoedd y bobl ifanc y gallent eu recriwtio a'u cefnogi yn y cam cynnig, fod eu hasesiadau wedi bod yn anghywir weithiau am nad oeddent wedi bod yn ymwybodol o dargedau arfaethedig cynigyddion llwyddiannus eraill yn gweithio gyda'r un grŵp targed yn yr ardal. Cafodd hyn effaith ar eu gallu eu hunain i gyflwyno oherwydd mewn rhai achosion, roedd cyfanswm y boblogaeth darged yn gymharol fach. Awgrymwyd ganddynt y byddai wedi bod o gymorth pe bai mwy o gydlynu wedi bod ar draws gweithgareddau gwahanol er mwyn osgoi hyn.

*Barnau rhanddeiliaid am y broses*

3.23 Dywedodd llawer o randdeiliaid nad oedd awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn ddigonol yn y broses gomisiynu. Roeddent o'r farn y dylai

rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol fod wedi cael gwahoddiad i gyfrannu gwybodaeth ac arbenigedd ynglŷn â beth sy'n gweithio o ran cyflawni deilliannau a'r ddarpariaeth bresennol. Yn eu barn hwy, byddai hyn wedi arwain at brosesau llawer gwell ar gyfer comisiynu gweithgareddau a llunio manylebau.

**Sefydlu a chychwyn arni**

*Y broses*

Beth wnaeth y comisiynwyr

3.24 Yn y rhan fwyaf o achosion, trafodaethau cyfyngedig fu ar ôl tendro rhwng comisiynwyr a darparwyr dan gontract, gyda'r targedau ac ymagwedd a bennwyd yn y cynnig wedi'u derbyn yn eang a'u defnyddio fel sail y contract. Yn gyffredinol, mewnbwn cyfyngedig a gafwyd gan staff Llywodraeth Cymru hefyd, gan dîm rheoli prosiect Cyrraedd y Nod neu gan adrannau eraill, at fireinio cynlluniau cyflwyno, modelau ac ymagweddau.

3.25 Yn ôl cyfweliadau â chyd-noddwyr, cyhoeddwyd contractau a oedd yn nodi'n glir dyddiadau dechrau a gorffen ar gyfer cyflwyno, targedau allbwn yn gysylltiedig â'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, cerrig milltir allweddol, rolau a chyfrifoldebau'r rheolwr gweithgareddau yn y sefydliad dan gontract, a'r rheolwr contractau yn y sefydliad comisiynu, gofynion ar gyfer casglu a chyflwyno data monitro, gofynion ar gyfer hunanwerthuso, ac mewn rhai achosion, y gofyniad i gyfrannu at werthusiad annibynnol.

3.26 Cynhaliodd bob un o'r cyd-noddwyr gyfarfodydd briffio ar ddechrau cyfnod y contract. Yn y cyfarfodydd hyn, darparwyd offer casglu data templed a ffurflenni adrodd am gynnydd i'r asiantau cyflwyno dan gontract, a rhoddwyd cyfarwyddiadau ac arweiniad iddynt ar ofynion ar gyfer llenwi a chyflwyno'r rhain. Hefyd, darparwyd arweiniad ynglŷn â'r meini prawf cymhwyster fel y'i pennwyd ac fel yr oedd ei angen ar gyfer y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd. Mewn ychydig o achosion, lluniwyd llyfrynnau cysylltiedig gan sefydliadau cyd-noddi yn esbonio'r gofynion

monitro data (yn cynnwys diffiniadau o wybodaeth reoli) i ddarparwyr eu defnyddio i gyfeirio atynt.

3.27 Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr lunio cadwyn resymeg i ddiffinio'r wybodaeth reoli i'w chasglu fel tystiolaeth angenrheidiol ar gyfer gwerthuso. Rhoddodd rhai arweiniad ar wybodaeth reoli a chofnodion y dylid eu cadw, ymhellach na hynny yr oedd WEFO yn gofyn amdanynt (fel mewn perthynas â'r niferoedd o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi neu'n cyflawni cymhwyster, neu ddeilliannau ychwanegol a gyflawnwyd). Yn gyffredinol, er hynny, nid ydynt wedi mynnu bod asiantau cyflwyno yn darparu'r wybodaeth reoli hon iddynt ac nid yw wedi'i throsglwyddo i Lywodraeth Cymru.

3.28 Yn yr un modd, mae nifer o gyd-noddwyr sy'n cyflwyno gweithgareddau yn uniongyrchol wedi sefydlu systemau ar gyfer casglu data ymhellach na hynny y mae WEFO yn gofyn amdano (fel data am weithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant, adborth gan rieni, pa sefydliadau sydd wedi cyfeirio at y gweithgaredd, adborth gan gyfeirwyr, yr amser a dreuliwyd gyda phob unigolyn ifanc neu ddata manylach am ddeilliannau) ond ni chyflwynir hwn i Lywodraeth Cymru ac nid yw wedi'i gasglu, ac mae wedi'i gadw fel cofnodion copi caled yn bennaf. Roedd rhai o'r sefydliadau cyd-noddi (y Ddraig Ffynci, Techniquest a Cerdd Gymunedol Cymru) yn mynnu bod sefydliadau dan gontract yn defnyddio model neu ddull penodol yr oeddent wedi'i ddatblygu fel sail ar gyfer cyflwyno. Yn yr achosion hyn, darparwyd hyfforddiant i staff yn y sefydliadau dan gontract yn y cam briffio cychwynnol hwn. Gwelwyd y sesiynau hyfforddi hyn fel cyfle hefyd i'r darparwyr dan gontract i rannu'u harbenigedd o ran cysylltu'r grŵp targed gyda'r comisiynydd.

3.29 Yn dilyn y gwerthusiad interim yn 2010/11 ac arweiniad llafar gan WEFO, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur i bob un o'r cyd-noddwyr yn rhestru nodweddion a gyfrannai at sefyllfa unigolyn ifanc mewn perygl o fod yn NEET. Roedd hyn yn nodi newid sylweddol yn y dull cyflwyno. Gan ddefnyddio'r papur hwn, fe wnaeth llawer o gyd-noddwyr ailadrodd gofynion cymhwyster i gontractwyr a gwirio cynlluniau asiantau cyflwyno ar gyfer sicrhau bod pobl ifanc yn y categorïau hyn yn cael eu recriwtio.

Beth wnaeth yr asiantau cyflwyno

3.30 Ar ôl i gontractau gael eu dyfarnu, fe wnaeth yr asiantau cyflwyno a sefydliadau cyd-noddi a oedd yn cyflwyno'n uniongyrchol ganolbwyntio ar recriwtio staff a chael gafael ar unrhyw offer angenrheidiol.

3.31 Yn y cam hwn, fe wnaethant hefyd ddechrau diffinio'n gliriach sut fyddai'r cyflwyno'n digwydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, aeth asiantau cyflwyno dan gontract a sefydliadau cyd-noddi ati i addasu gweithgareddau a modelau blaenorol i'w defnyddio ym mhrosiectau Cyrraedd y Nod. Er enghraifft, addaswyd cynlluniau cyflwyno presennol fel eu bod yn briodol ac yn berthnasol i grwpiau targed gwahanol, neu integreiddiwyd cynnwys ychwanegol mewn deunyddiau presennol. Rhoddwyd trefniadau ymsefydlu ar waith ar gyfer staff newydd a staff presennol, a hyfforddiant ar y cynlluniau a'r deunyddiau cyflwyno newydd eu datblygu, a meini prawf ar gyfer targedu a dewis cyfranogwyr. Ar ôl y gwerthusiad interim, gwnaed cryn ymdrech i ailadrodd pwy ddylid eu targedu a'u recriwtio i weithgareddau gan fod y broses hyd yma wedi methu â nodi hynny'n glir. Adroddodd cyd-noddwyr eu bod wedi gorfod treulio llawer o amser yn "*ail-addysgu"* asiantau a staff cyflwyno ynglŷn â chyfranogwyr cymwys.

3.32 Er y bu gweithgarwch sefydlu sylweddol cyn i'r cyflwyno ddechrau, nododd rheolwyr gweithgareddau hefyd fod y cynlluniau cyflwyno cychwynnol a deunyddiau ategol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u haddasu yn ystod y cyfnod cyflwyno.

3.33 Yn ystod y cam hwn hefyd, buddsoddwyd amser gan ddarparwyr dan gontract a sefydliadau cyd-noddi yn datblygu gweithio mewn partneriaeth a phrotocolau ar gyfer cyfeirio a dilyniant. Un rhan allweddol o'r gweithgaredd hwn oedd sicrhau bod asiantau cyfeirio yn deall y meini prawf ar gyfer cyfeirio pobl ifanc at weithgareddau. Er enghraifft, adroddodd rhai gweithwyr ieuenctid eu bod wedi "*treulio amser yn dod i adnabod yr holl chwaraewyr lleol a dweud wrthynt beth rydym yn ei gynnig."* Gofynnodd un asiant cyflwyno am ymrwymiad gan nifer o bartneriaid yn y cam cynnig i gyfeirio at y gweithgarwch a chefnogi'r

cyflwyno. Ar ôl ennill y contract, gwnaed ymdrechion i sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r partneriaid hyn, gan nodi hawliau a chyfrifoldebau pob parti yn glir. Roedd rhai asiantau cyflwyno dan gontract yn cynnig sesiynau rhagflas i sefydliadau cyfeirio i'w helpu i ddeall y cynnig gwasanaethau a'i fuddion yn well.

3.34 Gosododd llawer o asiantau cyflwyno dargedau misol neu chwarterol ar gyfer staff cyflwyno yn y cam hwn o ran nifer y bobl ifanc neu weithwyr proffesiynol yr oedd yn rhaid iddynt weithio gyda nhw.

*Barnau'r comisiynwyr am y broses*

3.35 Adroddwyd y canlynol gan y cyd-noddwyr:

- Er bod angen adnodd sylweddol i gynllunio a chynnal y cyfarfodydd briffio a datblygu arweiniad ysgrifenedig ynglŷn â gofynion monitro a gwerthuso, roeddent yn elfen hanfodol o'r broses sefydlu;
- Un her fawr wrth roi cyfarwyddiadau clir i gontractwyr oedd diffyg gwybodaeth glir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â pha gyfranogwyr oedd yn cyfrif tuag at dargedau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a'r wybodaeth reoli yr oedd ei hangen. Er enghraifft, dywedodd sawl un o'r cyd-noddwyr na chafodd y gofyniad i gasglu rhifau Yswiriant Gwladol ei gyfleu gan Lywodraeth Cymru tan yn ddiweddarach. Golygai hyn fod rhaid iddynt fynd yn ôl at eu contractwyr hefyd a newid y gofynion am wybodaeth reoli, a olygodd waith ychwanegol sylweddol. Hefyd, ni allai deilliannau achrededig fel unedau Agored Cymru gyfrif tuag at y targed i bobl ifanc yn cyflawni cymwysterau. Roedd diffyg eglurder ymhlith noddwyr ynglŷn â'r gwahaniaeth hwn, a chyfrannodd hynny'n rhannol at yr anallu i fodloni'r targed ar gyfer sgiliau sylfaenol a thargedau cymhwyster lefel 1 (gweler Pennod 4).

*Barnau'r asiantau cyflwyno am y broses*

3.36 Adroddodd yr asiantau cyflwyno fod y cyfarfodydd a drefnwyd gan gyd-noddwyr, lle esboniwyd y gofynion ynglŷn â gwybodaeth reoli a

gweinyddu, yn ddefnyddiol gan mwyaf. Nodwyd ganddynt, fodd bynnag, bod arweiniad yn cael ei newid yn rheolaidd a bod hyn yn creu dryswch ac yn arwain at waith ychwanegol.

3.37 Roedd barnau cymysg ymhlith asiantau cyflwyno ynglŷn â'r broses ar gyfer datblygu partneriaethau gweithredol. Mewn rhai achosion, lle'r oedd hanes o weithio ar y cyd, roedd yn gymharol hawdd sefydlu trefniadau gweithio ar gyfer gweithgareddau Cyrraedd y Nod. Fodd bynnag, adroddodd nifer o asiantau cyflwyno, er gwaethaf ymdrechion i ofyn am ymrwymiad gan bartneriaid newydd yn y cam cynnig, pan aethant at y partneriaid eto, cawsant anawsterau yn sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth.

3.38 Mynegodd llawer o asiantau cyflwyno'r farn, oherwydd bod llawer o sefydliadau partner yn derbyn cyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer prosiectau eraill a oedd yn cefnogi pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl, fod amharodrwydd ymhlith rhai asiantaethau i gydweithredu a chyfeirio pobl ifanc at eu gweithgareddau oherwydd y pryder na fyddent yn cyfrif wedyn tuag at y targed ar gyfer eu gweithgarwch eu hunain.

3.39 Adroddodd cyd-noddwyr a oedd yn cyflwyno gweithgareddau'n uniongyrchol am anawsterau cychwynnol o ran ymgysylltu â rhai awdurdodau lleol. Roedd canfyddiad nad oedd staff yr awdurdodau lleol hyn yn awyddus i gydweithredu am eu bod o'r farn y dylent fod wedi gallu gwneud cynnig am gyllid yn uniongyrchol i WEFO.

**Cyflwyno**

*Y broses*

<u>Beth wnaeth y comisiynwyr</u>

3.40 Er bod cyd-noddwyr allanol wedi datblygu eu dulliau eu hunain o reoli perfformiad darparwyr dan gontract, fe wnaeth pob un ohonynt gynnwys y mecanweithiau canlynol ar gyfer monitro a sicrhau ansawdd y cyflwyno:

- *Casglu adroddiadau gwybodaeth reoli'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ac adroddiadau cynnydd gan gontractwyr yn rheolaidd.* Mynnodd rhai cyd-noddwyr fod darparwyr yn cyflwyno adroddiadau gwybodaeth reoli'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ac adroddiadau cynnydd cysylltiedig bob chwarter, tra bod cyd-noddwyr rhai eraill yn mynnu cyflwyno adroddiadau misol. Roedd un cyd-noddwr yn defnyddio derbyn data gwybodaeth reoli yn fisol fel sbardun i wneud taliad i'r darparwr dan gontract. Mewn adroddiadau cynnydd, roedd yn ofynnol i gontractwyr yn gyffredinol i ddangos eu cyflawniad hyd yma o ran targedau a cherrig milltir, ac i ddarparu disgrifiad ansoddol o gyflawniadau. Gofynnodd ychydig o gyd-noddwyr i gontractwyr i raddio'r raddfa risgiau i gyflwyno gan ddefnyddio sgorau neu system Coch/Ambr/Gwyrdd. Os oes yr adroddiadau gwybodaeth reoli neu'r adroddiadau cynnydd yn codi pryderon ynghylch perfformiad, roedd y cyd-noddwyr yn trefnu cyfarfod wyneb-yn-wyneb neu delegynhadledd gyda darparwyr i drafod dull o wella'r cyflwyno;
- *Ymweliadau monitro wyneb-yn-wyneb*. Yn nodweddiadol, roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys arsylwi'r cyflwyno, adborth yn seiliedidg ar arsylwi, gwiriadau o gofnodion rheoli ariannol a thrafodaeth am unryw faterion perfformiad penodol. Roedd y cyd-noddwyr a oedd yn gweithio gyda nifer gymharol fach o gontractwyr (fel y Ddraig Ffynci a Cerdd Gymunedol Cymru) yn gallu darparu mwy o ymweliadau monitro a sicrhau bod pob darparwr yn cael un ymweliad o leiaf. Roedd ymagwedd fwy targedig gan y cyd-noddwyr a oedd yn goruchwylio niferoedd mawr o gontractau (fel Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Is-adran Cymorth i Ddysgwyr), gan ganolbwyntio ymweliadau monitro ar y contractwyr hynny lle'r oedd pryder ynghylch tanberfformio neu brosesau rheoli ariannol gwael;
- *Cymorth parhau ar y ffôn a thrwy'r e-bost*. Yn ychwanegol at yr ymweliadau monitro mwy ffurfiol, roedd pob un o'r cyd-noddwyr yn ceisio gadw mewn cysylltiad rheolaidd drwy'r e-bost neu dros y ffôn gyda chontractwyr, ac i ymateb i'w hymholiadau;

- *Adroddiadau terfynol am weithgareddau*. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd disgwyl i ddarparwyr dan gontract i gyflwyno adroddiad gweithgarwch terfynol a oedd yn crynhoi cyflawniadau terfynol.

3.41 Yn gyffredinol, nid yw'n ymddangos bod prosesau sicrhau ansawdd a monitro wedi amrywio yn ôl maint a hyd y contract er mwyn sicrhau cymesuredd.

3.42 Mewn achosion lle mae cyd-noddwyr wedi cyflwyno gweithgareddau'n uniongyrchol, er na fu unrhyw fodel 'comisiynu mewnol' ffurfiol yn gyffredinol (h.y. un adran yn rheoli ac yn goruchwylio cyflwyniad gan adran arall), sefydlwyd prosesau sicrhau ansawdd a monitro serch hynny. Er enghraifft, mae'r Ddraig Ffynci, yr Urdd a SNAP Cymru wedi dod â'i holl staff cyflwyno at ei gilydd yn rheolaidd i'w galluogi i rannu dysgu ac i alluogi'r rheolwr gweithgareddau i adolygu'r cyflwyno ar draws safleoedd er mwyn sicrhau cysondeb. Adroddodd ychydig o'r cyd-noddwyr a oedd yn cyflwyno'n uniongyrchol eu bod wedi dadansoddi data gwybodaeth reoli er mwyn monitro'r cyflwyno; er enghraifft, i sicrhau cyfranogiad cyson ar draws yr holl awdurdodau lleol a pherfformiad cyson ar draws aelodau'r tîm cyflwyno.

3.43 Aeth SNAP Cymru, yr Urdd, Cyngor Celfyddydau Cymru, Addysg a Hyfforddiant Cyfiawnder Ieuenctid a'r tîm polisi ieuenctid a oedd yn gyfrifol am brosiect CLIC, ati i gomisiynu gwerthusiadau allanol o'r cyflwyno a deilliannau. Rydym wedi defnyddio'r adroddiadau hyn i lywio'r gwerthusiad terfynol hwn, ac eithrio adroddiad SNAP Cymru na chafodd ei gwblhau mewn pryd. Ni wnaed unrhyw gynlluniau ar gyfer gwerthuso ffurfiol gan y cyd-noddwyr eraill, ymhellach na chyfranogi yn y gwerthusiad cyffredinol o Cyrraedd y Nod.

<u>Beth wnaeth yr asiantau cyflwyno</u>

3.44 Adroddodd asiantau cyflwyno dan gontract a rheolwyr gweithgareddau o fewn sefydliadau cyd-noddi eu bod wedi recriwtio pobl ifanc o ystod o sefydliadau partner, gan gynnwys Gyrfa Cymru, timau troseddau

ieuenctid, clybiau ieuenctid, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion, sefydliadau eraill y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol a gwasanaethau awdurdod lleol allweddol. Roedd rhai o'r partneriaethau hyn wedi bodoli cyn Cyrraedd y Nod, tra bod rhai eraill wedi'u ffurfio o ganlyniad i'r fenter. Roedd rhai asiantau cyflwyno wedi sefydlu prosesau ffurfiol ar gyfer cyfeirio a oedd yn mynnu bod asiantaethau cyfeirio yn llenwi ffurflen i ddangos sut yr oedd pobl ifanc yn bodloni'r meini prawf cyfeirio, a dilynwyd hynny wedyn gan drafodaeth ffôn neu drafodaeth wyneb-yn-wyneb gyda'r cyfeirydd i wirio a chadarnhau bod yr unigolyn ifanc yn gymwys i gymryd rhan yn y gweithgaredd. Roedd rhai gweithgareddau grŵp yn dibynnu ar athrawon i asesu pa bobl ifanc oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwyster, ac a ddylai gymryd rhan yn yr ymyrraeth felly, ac ni wnaethant gynnal asesiadau manwl ar wahân o ba un a oedd pobl ifanc yn bodloni meini prawf cymhwyster ar ôl hynny.

3.45 Fel y byddid yn disgwyl o ystyried natur eang iawn y gweithgareddau a oedd yn cael eu cyflwyno o dan brosiectau Cyrraedd y Nod, ar ôl cael eu recriwtio i weithgareddau, mae anghenion pobl ifanc wedi'u hasesu mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Fe wnaeth rhai asiantau cyflwyno ymgorffori Dangos Llwyddiant yn eu proses asesu, neu ddefnyddio fersiynau wedi'u haddasu o offer Dangos Llwyddiant, wedi'u teilwra i'w gweithgaredd penodol. Roedd rhai ymyriadau dwys, un i un, er enghraifft, yn defnyddio offer hunanasesu 'cyn' ac 'ar ôl' gyda phobl ifanc er mwyn asesu hyder, y graddau yr oedd yr unigolyn ifanc yn teimlo'n rhan o'r gymuned a dyheadau.

3.46 Adroddodd y rhan fwyaf o'r asiantau cyflwyno eu bod wedi gwneud addasiadau i'r cynllun cyflwyno gwreiddiol mewn ymateb i brofiad ac anghenion penodol y bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda nhw. Er enghraifft:

- Roedd un gweithgaredd yn caniatáu i bobl ifanc ddewis ffocws a natur y gweithgaredd. Golygai hyn fod rhaid cynnwys partneriaid ychwanegol mewn rhai achosion, er mwyn gallu diwallu anghenion y bobl ifanc;

- Roedd gweithgaredd arall wedi ffactoreiddio pum wythnos i bobl ifanc benderfynu ar fater y byddent yn hoffi canolbwyntio arno. Yn ymarferol roedd pobl ifanc yn tueddu bod â syniad clir yn gynnar am y mater yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddo, felly newidiwyd yr amserlen;
- Mewn rhai achosion, daeth yn amlwg na allai pobl ifanc ymdopi â gofynion llythrennedd a rhifedd gweithdai, ac na allent ganolbwyntio am gyfnod dwy awr arfaethedig y gweithdai. O ganlyniad, bu'r asiantau cyflwyno yn gweithio'n agos â'r cyd-noddwyr i addasu'r cynnwys, y dull cyflwyno a hyd y gweithdai er mwyn atal y bobl ifanc rhag colli diddordeb.

3.47 Mae adborth gan bobl ifanc i lywio'r cyflwyno wedi'i gasglu'n anffurfiol (drwy sgyrsiau gyda gweithwyr ieuenctid) ac yn fwy ffurfiol gan grwpiau ffocws a holiaduron.

3.48 Mae llawer o'r gweithgareddau wedi cynnal digwyddiad dathlu ar y diwedd i arddangos cyflawniadau'r unigolyn ifanc, i gynnwys rhieni a theuluoedd lle bo modd a lle bo'n briodol, ac i gyflwyno deilliannau a chyflawniadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

*Barnau comisiynwyr am gyflwyno*

3.49 Dywedodd y Comisiynwyr:

- Yn gyffredinol, roeddent wedi methu â llawn sylweddoli faint o amser ac adnoddau yr oedd eu hangen i oruchwylio gweithgareddau wedi'u comisiynu, ac yn y dyfodol byddent yn sicrhau bod mwy o amser staff yn cael ei neilltuo i hyn. Nododd ychydig o gyd-noddwyr eu bod wedi dysgu nad oedd dyfarnu nifer fawr o gontractau gwerth bach yn effeithlon, a bod y costau gweinyddu yn gorbwyso'r deilliannau a gyflawnwyd;
- Adroddodd ychydig o gyd-noddwyr â phrofiad blaenorol cyfyngedig o gomisiynu cyflwyno, nad oeddent ar y cychwyn wedi mabwysiadu dull ddigon trylwyr i fonitro darparwyr yn ystod y cyfnod cyflwyno. Wrth i faterion tanberfformio ddod i'r amlwg, aethant ati i ddiwygio'u

prosesau monitro fel eu bod yn fwy llym ac yn cynnwys mwy o lefelau gwiriadau a mwy o drefniadau sicrhau ansawdd;

- Fe wnaeth prosesau monitro a sicrhau ansawdd nodi tanberfformio ymhlith contractwyr, ac roedd ychydig o enghreifftiau o gomisiynwyr yn terfynu contractau ac yn eu hail-ddyfarnu. Rhoddodd un cyd-noddwr mewnol enghraifft lle'r oedd gweithgareddau'n cael eu monitro'n dda, ond nid oedd camau digonol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â thanberfformio;
- Mae'r cyd-noddwyr hynny sydd wedi mynnu cyflwyno data gwybodaeth reoli yn fisol wedi gweld bod hyn wedi helpu i sicrhau nodi bylchau mewn data yn gynnar;
- Adroddodd rhai cyd-noddwyr, er eu bod wedi ymgorffori gofynion i gontractwyr asesu risgiau i gyflwyno yn rheolaidd, bod rhai contractwyr ar y cychwyn yn gwneud asesiadau anghywir ac yn methu â nodi risgiau allweddol. Yn yr achosion hyn, roedd yn rhaid i gomisiynwyr ddarparu arweiniad a chyfeiriad ychwanegol i gontractwyr er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu lliniaru. Yn y dyfodol, byddent yn nodi'n gliriach ar y dechrau beth mae asesiad risg trylwyr yn ei olygu;
- Ystyriwyd bod y penderfyniad i roi blaenoriaeth i brofiad o gynorthwyo'r grŵp targed bwriadedig dros brofiad o'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd wrth asesu cynigion yn briodol ac yn gydnaws â chyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, cydnabuwyd y golygai hyn fod sefydliadau dan gontract a chanddynt brofiad blaenorol cyfyngedig o'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd wedi'i chael yn anodd casglu'r data monitro gofynnol.

*Barnau'r asiantau cyflwyno am y broses*

3.50 Barnau cymysg oedd gan yr asiantau cyflwyno o ran gwerth ymweliadau monitro. Ystyriai rhai bod yr ymweliadau'n canolbwyntio gormod ar ofynion gweinyddu a data, ond teimlai ychydig ohonynt fod yr

ymweliadau yn adeiladol iawn, a bod yr adborth a gawsant wedi'u helpu i wella'r cyflwyno.

3.51 Adroddodd rhai asiantau cyflwyno eu bod, ar brydiau, wedi gorfod aros amser hir am ymatebion i ymholiadau gan y tîm rheoli prosiectau yn y cyd-noddwr. Roeddent yn cydnabod y cyfyngiadau ar y tîm o ran adnoddau, ac awgrymwyd ganddynt fod angen swydd amser llawn mewn mentrau tebyg yn y dyfodol i gysylltu â chontractwyr.

3.52 Roedd barnau cymysg ynglŷn â Dangos Llwyddiant ymhlith yr asiantau cyflwyno. Cytunai'r rhan fwyaf bod meysydd eang tueddfryd a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a ddiffiniwyd yn Dangos Llwyddiant yn ddefnyddiol, ond teimlent fod yr offer casglu data cysylltiedig a'r fethodoleg sgorio yn rhy gymhleth ac nad oeddent yn addas i bob dull cyflwyno. Yn gyffredinol, ystyriai'r asiantau cyflwyno fod Dangos Llwyddiant yn fwy addas i waith dwys un-i-un dros gyfnod amser hir yn hytrach na gwaith grŵp. O ganlyniad, roedd llawer o asiantau cyflwyno wedi dewis peidio â defnyddio Dangos Llwyddiant.

3.53 Cafodd rhai asiantau cyflwyno anawsterau wrth weithio mewn partneriaeth ag ysgolion. Adroddwyd ganddynt hyd yn oed os oedd ysgolion yn gallu gweld bod gweithgareddau'n cynnig buddion posibl i ddisgyblion, ni allent drefnu gweithgareddau yn hawdd oherwydd diffyg lle ar yr amserlen. Roedd gweithdai ymgysylltu STEM a gyflwynwyd gan Techniquest yn enghraifft allweddol o hyn. Cynlluniwyd y gweithdai i'w cyflwyno fel tri gweithdy, un ym mhob tymor. Roedd rhaid i bob un o'r tri gweithdy gael eu cyflwyno i gyfrif fel ymyrraeth ystyrlon i unigolyn ifanc. Mewn rhai achosion, mae Techniquest wedi cael anawsterau yn cyflwyno'r gweithdy olaf, sy'n digwydd yn nhymor y Gwanwyn, am fod amserlenni ysgolion yn tueddu bod yn llawn iawn oherwydd arholiadau a gwaith paratoi ar eu cyfer. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at allu Techniquest i fodloni targedau WEFO o ran allbynnau, deilliannau a chanlyniadau.

*Barnau cyfranogwyr am y broses*

3.54 I lawer o'r bobl ifanc a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r ymchwil astudiaethau achos, roedd cyfranogiad mewn gweithgareddau yn orfodol. Er enghraifft, roed rhai gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, a gweithgareddau eraill mewn ysgolion i'r rheiny yn dilyn cwricwlwm amgen neu'r rheiny y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt yn sgil presenoldeb, ymddygiad neu gyflawniad gwael. Yn yr achosion hyn, roedd pobl ifanc yn cael gwybod am y gweithgaredd fel arfer gan eu hathro, cynorthwyydd cymorth dysgu neu aelod o staff yn darparu gofal bugeiliol. Yn y rhan fwyaf o achosion, teimlai pobl ifanc y rhoddwyd syniad da iddynt beth i'w ddisgwyl o'r gweithgaredd, er bod rhai pobl ifanc wedi adrodd nad oeddent wir yn gwybod beth oedd y gweithgaredd cyn iddynt ddechrau mynychu ac y byddent wedi hoffi cael mwy o wybodaeth ymlaen llaw. Roedd y bobl ifanc a fynegodd y farn hon yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ac yn dal yn awyddus i gyfranogi yn y gweithgareddau, yn bennaf oherwydd eu bod yn teimlo y byddai'n cynnig rhywbeth gwahanol i'r hyn yr oeddent yn arfer ag ef. I'r bobl ifanc hynny a oedd yn gallu dewis cymryd rhan yn y gweithgaredd neu beidio, y prif reswm a nodwyd dros ddewis cymryd rhan oedd y ffaith bod y gweithgaredd i weld fel pe bai "*yn rhywbeth gwahanol i'r ysgol"* a'r "*hyn y byddwn ni'n ei wneud fel arfer".* Yn gyffredinol, roedd pobl ifanc yn hoff o weithgareddau a oedd i weld yn "*hwyl"* ac yn *"ymarferol"* a lle byddent, mewn rhai achosion, yn cael y cyfle i ddefnyddio offer neu roi cynnig ar weithgareddau nad oeddent wedi dod ar eu traws o'r blaen.

3.55 Roedd y bobl ifanc a gyfranogodd mewn gweithgareddau lle'r oedd lefel uchel o ddewis o ran penderfynu pa destunau a gweithgareddau i ganolbwyntio arnynt, yn gwerthfawrogi'r dewis hwn, ac i weld yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau, gan siarad yn frwdfrydig am y gweithgaredd a gyflwynwyd.

3.56 Anfonwyd neges e-bost at y gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran mewn hyfforddiant ynglŷn â'r hyfforddiant a oedd ar gael. Roeddent yn awyddus i fynychu am nad oeddent yn gwybod am unrhyw gyrsiau hyfforddi tebyg eraill a hefyd am fod newidiadau i'w rôl yn golygu bod yr hyfforddiant yn arbennig o berthnasol.

**Rheoli prosiectau Cyrraedd y Nod**

*Y broses*

Monitro a sicrhau ansawdd

3.57 Rheolwyd prosiectau Cyrraedd y Nod gan Arweinydd Prosiectau yn goruchwylio tîm o staff a oedd yn gyfrifol am gyllid, prosiectau'n cael eu cyflwyno gan noddwyr mewnol a phrosiectau'n cael eu cyflwyno gan gyd-noddwyr allanol. Er y bwriadwyd cael tair swydd arweinydd tîm ar gyfer y tîm, ni chafodd bob un o'r rhain eu llenwi. Cyflogwyd cyfanswm o wyth o aelodau staff rheoli prosiect a gweinyddu eraill o fewn y timau hyn. Ariannwyd pob un o'r swyddi gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd.

3.58 Ymwelodd tîm rheoli prosiectau Cyrraedd y Nod â phob un o'r sefydliadau cyd-noddi o leiaf unwaith y flwyddyn. Yn gyffredinol, roedd yr ymweliadau hyn yn canolbwyntio ar asesu'r prosesau ariannol a'r systemau a sefydlwyd gan gyd-noddwyr allanol. Hefyd, cynhaliodd y tîm rheoli prosiectau ymweliadau gweithgareddau â phob un o'r cyd-noddwyr. Prif amcanion yr ymweliadau hyn oedd gwella dealltwriaeth y tîm rheoli prosiectau o'r hyn sy'n cael ei gyflwyno a'r deilliannau a gyflawnwyd, ac i amlygu dysgu am arfer effeithiol er mwyn llywio darpariaeth yn y dyfodol.

3.59 Roedd yn ofynnol i'r cyd-noddwyr gyflwyno adroddiadau gwybodaeth reoli yn chwarterol i Lywodraeth Cymru, gydag adroddiad cynnydd mwy ansoddol i gyd-fynd â'r adroddiadau hynny. Roedd yr adroddiadau gwybodaeth reoli yn dangos gwariant cyffredinol hyd yma, niferoedd y cyfranogwyr a nodweddion y cyfranogwyr yn unol â gofynion data'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, ond nid oeddent yn darparu'r wybodaeth hon ar gyfer gweithgareddau unigol. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru osod targedau ychwanegol ar gyfer allbynnau neu ddeilliannau ymhellach na'r rheiny a osodwyd gan WEFO i asesu cyfraniad y prosiectau at amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

3.60 Y bwriad oedd y byddai cronfa ddata gwybodaeth reoli ganolog yn cael ei sefydlu er mwyn i gyd-noddwyr allu cyfrannu data'n uniongyrchol. Fodd bynnag, ddwy flynedd ar ôl dechrau Cyrraedd y Nod, rhoddwyd gwybod i'r tîm rheoli prosiectau, oherwydd rheolau diogelwch gwybodaeth y llywodraeth, ni fyddai cyd-noddwyr allanol yn gallu cael mynediad i'r gronfa ddata. Yn lle hynny, roedd yn rhaid i'r tîm rheoli prosiectau gasglu taenlenni chwarterol oddi wrth y cyd-noddwyr a'u lanlwytho i'r gronfa ddata. Achosodd hyn waith ychwanegol sylweddol i'r tîm rheoli prosiectau. Golygai hefyd nad oedd cyd-noddwyr yn gallu diweddaru cofnodion cyfranogwyr presennol yn hawdd gyda data newydd am ddeilliannau a gyflawnwyd. Achosodd hyn waith ychwanegol i'r cyd-noddwyr.

<u>Trefniadau llywio</u>

3.61 Sefydlwyd Grŵp Rheoli Prosiectau ar gyfer y ddau brosiect, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn haf 2009. Mae wedi cyfarfod bob chwarter a'i ddiben yw mynd i'r afael â materion gweithredu'n gysylltiedig â: hawliadau; monitro prosiectau; archwilio; gwerthuso; a chyhoeddusrwydd a chyfathrebu.

3.62 Roedd disgwyl i'r mynychwyr fod yn aelodau allweddol o dîm Cyrraedd y Nod o fewn Llywodraeth Cymru (Rheolwr Prosiectau ac arweinwyr tîm) ac arweinwyr gweithredol ar gyfer pob un o'r sefydliadau cyd-noddi.

3.63 Yn ogystal, roedd Grŵp Llywio a Chynghori ar Brosiectau, a grëwyd yn ffurfiol ac a gyfarfu gyntaf ym Mehefin 2010. Bwriadwyd i hwn fod yn uwch grŵp strategol yn goruchwylio'r rheolaeth o Cyrraedd y Nod. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp yn nodi y dylai aelodau gynnwys:

- Pobl Ifanc (e.e. pobl ifanc o'r Ddraig Ffynci neu'r bobl ifanc hynny yn cyflwyno hyfforddiant i eraill);
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru;
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Uned Cymorth Partneriaeth;
- Y Trydydd Sector (Corff Ambarél e.e. CGGC);

- Y Gymuned Fusnes (e.e. Cynghorau Sgiliau Sector);
- Prosiectau Rhanbarthol neu Strategol y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd;
- Buddiannau lleol neu ranbarthol eraill;
- Noddwyr Prosiectau; a
- Buddiannau polisi a rheoli Llywodraeth Cymru (e.e. Sgiliau Sylfaenol, Cyflogadwyedd, Systemau Gwybodaeth).

3.64 Fodd bynnag, yn ymarferol, y cyd-noddwyr mewnol ac allanol a thîm rheoli prosiectau Cyrraedd y Nod oedd y rheiny a fynychodd yn bennaf, a dim ond ychydig heb gysylltiad agos wnaeth fynychu. Golygai hyn fod aelodaeth y Grŵp Rheoli Prosiectau a'r Grŵp Cynghori Llywio Prosiectau yr un fath i raddau helaeth.

3.65 Roedd disgwyl i'r Grŵp Llywio a Chynghori Prosiectau wneud y canlynol:

- Cynnig safbwynt allanol i'r prosiect;
- Cyfrannu at weithredu'r prosiect yn llwyddiannus;
- Cyfrannu at brif-ffrydio gwasanaethau effeithiol yn llwyddiannus yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gynhyrchwyd drwy'r prosiect;
- Hyrwyddo'r prosiect i rwydweithiau ehangach;
- Gwella'r arbenigedd a oedd ar gael i'r prosiect; a
- Grymuso'r prosiect trwy fynediad i gylchoedd dylanwadu a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

3.66 Ei gylch gorchwyl oedd hwyluso cyfeiriadau rhwng gweithgareddau Cyrraedd y nod a darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth eraill y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, lleihau dyblygu yn y ddarpariaeth gwasanaethau, a sicrhau bod dysgu am arfer effeithiol yn cael ei rannu ymysg rhanddeiliaid allweddol.

*Barnau cyd-noddwyr am fonitro, sicrhau ansawdd a threfniadau llywio*

3.67 Dywedodd y cyd-noddwyr bod:

- Newidiadau staff o fewn y tîm Rheoli Prosiectau yn Llywodraeth Cymru wedi arwain at wybodaeth ac arweiniad anghyson a diweddar

a bod hyn wedi effeithio'n niweidiol ar y ffordd y cafodd y prosiectau eu rheoli;

- Eu bod yn siomedig yn gyffredinol fod y gronfa ddata gwybodaeth reoli ganolog wedi'i sefydlu'n hwyrach na'r disgwyl, ac nad oeddent yn gallu lanlwytho cofnodion yn uniongyrchol. Yn eu barn nhw, arweiniodd hyn at greu gwaith gweinyddol ychwanegol;
- Roedd cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Prosiectau yn ddefnyddiol o ran mynd i'r afael â materion gweithredol mewn perthynas â gwybodaeth reoli a hawliadau chwarterol, ond fe wnaeth y ffocws ar faterion gweinyddol yn y Grŵp Rheoli Prosiectau atal rhoi pwyslais ehangach ar rannu dysgu ac arbenigedd rhwng cyd-noddwyr. Roedd llawer o'r cyd-noddwyr o'r farn fod hyn yn "*gyfle wedi'i golli".*
- Ni wnaeth y Grŵp Cynghori Llywio Prosiectau gynnwys y rhanddeiliaid strategol allweddol a restrwyd fel aelodau posibl yng nghynllun gwreiddiol Cyrraedd y Nod (fel uwch arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr o bartneriaid cenedlaethol allweddol fel Gyrfa Cymru, y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a chynrychiolwyr o'r gymuned fusnes). Gwahoddwyd y rhanddeiliaid hyn i eistedd ar y Grŵp Cynghori, ac er gwaethaf ymdrechion gan y tîm rheoli prosiectau i'w hannog i gyfranogi, ni wnaethant fynychu. Maent wedi cydnabod na chafodd amcanion strategol clir eu cyfleu yn gynnar o ganlyniad i hyn, nid oedd gweithgareddau wedi'u cysylltu â gwasanaethau eraill gystal ag y dylent fod, ac nid oedd uwch swyddogion a oedd yn gwneud penderfyniadau yn gallu dylanwadu ar ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau i raddau digonol. Gellid dadlau bod yr uchelgais i gynnwys uwch randdeiliaid strategol a bennwyd yn y cynllun busnes yn afrealistig o ystyried y nifer uchel o grwpiau cynghori tebyg eraill ar raglenni'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a mentrau eraill yng Nghymru sy'n 'cystadlu' am aelodaeth o blith yr un rhanddeiliaid.

*Barnau rhanddeiliaid am y trefniadau monitro, sicrhau ansawdd a llywio*

3.68 Nododd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai ar y grŵp llywio, mai data rheoli perfformiad cyfyngedig oedd ar gael. O ganlyniad, roeddent yn ei chael yn anodd deall beth fu effeithiau a chyflawniadau'r prosiectau. Roeddent o'r farn hefyd nad oedd yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y grŵp llywio yn adlewyrchu cylch gorchwyl strategol y grŵp a'i fod yn canolbwyntio yn lle hynny ar fanylion gweithredol.

**Crynodeb**

*Comisiynu*

- Cafodd y broses gomisiynu ei hoedi tra bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl y gwerthusiad interim yn 2010/11 ynglŷn â blaenoriaethau ar gyfer gweddill y cyfnod cyflwyno gan WEFO a Llywodraeth Cymru. Golygai hyn i lawer o gyd-noddwyr fod y comisiynu a'r cyflwyno wedi'u crynodi yn y camau diweddarach, gan greu pwysau sylweddol.
- Adroddodd ychydig o gyd-noddwyr fod lefel yr arian cyfatebol a oedd ar gael wedi effeithio ar gomisiynu. Nodwyd ganddynt fod y targedau ar gyfer arian cyfatebol wedi'u diffinio cyn y dirywiad economaidd. Pan ddaeth hi'n amser i geisio sicrhau ffynonellau cyllid eraill yn 2008 a 2009, roedd llawer llai o gyllid ar gael nag a ragwelwyd pan oedd y prosiect wrthi'n cael ei gynllunio. I ychydig o noddwyr, fel Techniquest, adroddwyd bod hyn yn ffactor allweddol a gyfrannodd at danwario a methiant i gyflawni nodau.
- Profiad cyfyngedig o gomisiynu trwy gontractio cystadleuol oedd gan nifer o gyd-noddwyr, ac adroddwyd ganddynt y byddent wedi hoffi cael mwy o gymorth gan Lywodraeth Cymru i sefydlu prosesau.
- Aeth y rhan fwyaf o gyd-noddwyr ati i asesu sefydliadau tendro yn erbyn gallu wedi'i brofi i ennyn diddordeb y grŵp targed, tystiolaeth o bartneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol a gallu i gofnodi, monitro a gwerthuso. Er bod pris/cost yn ystyriaeth i'r rhan fwyaf o'r cyd-

noddwyr, nid oedd yn gyffredinol yn faen prawf allweddol i asesu cynigion yn ei erbyn.

- Yn gyffredinol, ni wnaeth y cyd-noddwyr ymchwil i feincnodi costau unedau i asesu cynigion yn eu herbyn, ac ni wnaethant ychwaith amrywio'r dull o gomisiynu yn ôl maint contractau, gan awgrymu mewn rhai achosion na chyflawnwyd cymesuredd a gwerth am arian o bosibl.
- Er iddynt fod yn amheugar ar y cychwyn ynghylch gwerth ychwanegol y broses gomisiynu, adroddodd nifer o gyd-noddwyr fod partneriaethau newydd wedi'u ffurfio a bod hynny wedi gwella darpariaeth ar gyfer pobl ifanc difreintiedig.

*Sefydlu a chychwyn arni*

- Yn y rhan fwyaf o achosion, trafodaethau cyfyngedig fu ar ôl tendro rhwng comisiynwyr a darparwyr dan gontract, gyda'r targedau ac ymagwedd a bennwyd yn y cynnig wedi'u derbyn yn eang a'u defnyddio fel sail y contract.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, ni wnaeth y cyd-noddwyr gasglu data gwybodaeth reoli oddi wrth asiantau cyflwyno ymhellach na hynny yr oedd WEFO yn ei fynnu. Fe wnaeth rhai cyd-noddwyr a oedd yn cyflwyno gweithgareddau'n uniongyrchol gasglu gwybodaeth reoli ychwanegol ond ni chasglwyd hon yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, ac yn aml fe'i cadwyd ar ffurf copi caled.
- Un her fawr i'r cyd-noddwyr o ran rhoi cyfarwyddiadau clir i gontractwyr oedd diffyg gwybodaeth glir gan Lywodraeth Cymru am ba gyfranogwyr oedd yn cyfrif tuag at dargedau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a'r wybodaeth reoli yr oedd ei hangen.
- Aeth y cyd-noddwyr ati i friffio asiantau cyflwyno ar y gofynion monitro ac adrodd, ond serch hynny cawsant anawsterau o ran cael data gan ddarparwyr nad oedd ganddynt, mewn rhai achosion, unrhyw brofiad blaenorol o gyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd.

- Fe wnaeth nifer o asiantau cyflwyno fynegi'r farn, oherwydd bod llawer o sefydliadau partner yn derbyn cyllid gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer prosiectau eraill, bod amharodrwydd ymhlith rhai asiantaethau i gydweithredu a chyfeirio pobl ifanc at eu gweithgareddau oherwydd pryder na fyddent yn cyfrif tuag at y targed ar gyfer eu gweithgarwch eu hunain.

*Cyflwyno*

- Sefydlwyd amryw o fecanweithiau gan y cyd-noddwyr ar gyfer monitro a sicrhau ansawdd y cyflwyno gan sefydliadau dan gontract a hefyd eu cyflwyno uniongyrchol eu hunain. Yn gyffredinol, nid ymddengys bod prosesau sicrhau ansawdd a monitro wedi'u hamrywio yn ôl maint a hyd y contract. O ganlyniad, canfu rhai cyd-noddwyr eu bod wedi treulio cyfnod amser anghymesur yn rheoli contractau.
- Aeth asiantau cyflwyno dan gontract a rheolwyr gweithgareddau yn y sefydliadau cyd-noddi ati i recriwtio pobl ifanc o ystod o sefydliadau partner, yn cynnwys Gyrfa Cymru, timau troseddau ieuenctid, clybiau ieuenctid, Unedau Cyfeirio Disgyblion, ysgolion, sefydliadau eraill y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol a gwasanaethau awdurdod lleol allweddol.
- Ar ôl cael eu recriwtio i weithgareddau, mae anghenion pobl ifanc wedi'u hasesu mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Fe wnaeth rhai asiantau cyflwyno ymgorffori Dangos Llwyddiant i'w proses asesu, ond roedd barn gyffredinol fod Dangos Llwyddiant yn fwy addas i waith dwys un-i-un dros gyfnod hir o amser.
- Roedd barnau cymysg ynglŷn â gwerth ymweliadau monitro ymhlith asiantau cyflwyno. Ystyriai rhai fod yr ymweliadau'n canolbwyntio gormod ar ofynion gweinyddu a data, ond teimlai ychydig ohonynt fod yr ymweliadau yn adeiladol iawn, a bod yr adborth a gawsant wedi'u helpu i wella'r cyflwyno.

- Roedd cyfranogwyr (pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol) yn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â'r broses o gael eu recriwtio i weithgareddau. Teimlent gan fwyaf fod ganddynt wybodaeth ddigonol am y gweithgaredd ymlaen llaw, a bod y wybodaeth a gawsant yn gwneud y gweithgaredd yn ddeniadol.
- Gwnaeth llawer o'r bobl ifanc yn yr unedau cyfeirio disgyblion a'r rhai ar raglenni cwricwlwm amgen mewn ysgolion wneud sylwadau ar y ffaith eu bod yn hoffi mai gweithgareddau ymarferol oeddent yn hytrach na "*llwyth o ddarllen ac ysgrifennu".*

*Rheoli prosiectau Cyrraedd y Nod*

- Roedd cytundeb ymhlith y cyd-noddwyr fod newidiaeth staff yn y tîm Rheoli Prosiectau yn Llywodraeth Cymru wedi arwain at wybodaeth ac arweiniad anghyson a diweddar.
- Roedd y cyd-noddwyr yn siomedig yn gyffredinol fod y gronfa ddata gwybodaeth reoli ganolog wedi'i sefydlu'n hwyrach na'r disgwyl, ac na allent lanlwytho gwybodaeth reoli yn uniongyrchol. Roeddent o'r farn y byddai hyn wedi torri ar yr amser a'r adnoddau yr oedd eu hangen ar gyfer casglu a chyflwyno gwybodaeth reoli.
- Yn gyffredinol, roedd y cyd-noddwyr o'r farn fod cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Prosiectau wedi bod yn ddefnyddiol o ran mynd i'r afael â materion gweithredol mewn perthynas â gwybodaeth reoli a hawliadau misol, ond roedd hyn i ryw raddau wedi atal pwyslais ehangach ar rannu dysgu ac arbenigedd rhwng cyd-noddwyr.
- Roedd consensws hefyd ymhlith y cyd-noddwyr fod Grŵp Llywio ac Ymgynghori'r Prosiectau wedi methu â chynnwys uwch arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o bartneriaid cenedlaethol allweddol. Gwahoddwyd y rhanddeiliaid hyn i eistedd ar y Grŵp Cynghori, ac er gwaethaf ymdrechion gan y tîm rheoli prosiectau i'w hannog i gyfranogi, ni wnaethant fynychu. Golyga hyn na chafodd amcanion strategol clir eu cyfleu yn gynnar, nid oedd gweithgareddau wedi'u cysylltu â gwasanaethau eraill gystal ag y

dylent fod, ac nid yw uwch swyddogion a oedd yn gwneud penderfyniadau wedi gallu dylanwadu ar ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau i raddau digonol.

# 4 Gwariant ac allbynnau

4.1 Yn y bennod hon disgrifiwn i'r graddau sy'n bosibl gyda'r data sydd ar gael beth yw gwariant y prosiectau yn erbyn y cyllidebau a ddyrannwyd, yr allbynnau a gyflawnwyd yn erbyn y targedau, dosbarthiad gwariant ac allbynnau yn erbyn anghenion, a'r gweithgareddau a ariannwyd yn erbyn bwriadau. Lle bo modd, dadgyfunwyd hyn yn ôl prosiectau a noddwyr prosiectau. Cynhwyswn asesiad o'r graddau y mae'r nodau ac amcanion mewn perthynas â themâu trawsbynciol wedi'u cyflawni. Yn y bennod hon, canolbwyntiwn ar dargedau allbwn WEFO yn unig, ac aseswn ddangosyddion deilliannau a chanlyniadau WEFO ym Mhenodau 5 a 6, fel rhan o asesiad ehangach o berfformiad y prosiectau, deilliannau ac effeithiau yn erbyn y fframwaith gwerthuso. Mae'r bennod hon yn defnyddio data gwybodaeth reoli'r prosiectau a chyd-noddwyr, cyfweliadau gyda noddwyr ac adroddiadau gwerthuso.

### Cyllideb a gwariant

4.2 Fel y dengys Tabl 4 isod bu tanwariant sylweddol yn Cyrraedd y Nod:

- Yn 2009, y cyllidebau cychwynnol oedd £28.6 miliwn ar gyfer Troedle Cyntaf a £20.3 miliwn ar gyfer Llwybrau i'r Brig, gan arwain at gyfanswm cyllideb o £48.9 miliwn ar gyfer Cyrraedd y Nod.
- Ym Mehefin 2013, ar ddiwedd y prosiect, ar ôl dau ymarferiad ail-broffilio, lleihawyd cyfanswm y gyllideb yn sylweddol i £29.3 miliwn. Ar gyfer Troedle Cyntaf, hanerwyd cyllideb y prosiectau bron i £16.7 miliwn, ac ar gyfer Llwybrau i'r Brig, y gyllideb ddiwygiedig oedd £12.6 miliwn (rhyw tair rhan o bump o'r gyllideb wreiddiol).

**Tabl 4 Cyllideb Cyrraedd y Nod**

| | Cyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd - £ miliwn | | | Arian cyfatebol - £ miliwn | | | Cyfanswm cyllideb - £ miliwn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cychwynnol (2009) | Diwygiedig (2011) | Diwygiedig (2013) | Cychwynnol (2009) | Diwygiedig (2011) | Diwygiedig (2013) | Cychwynnol (2009) | Diwygiedig (2011) | Diwygiedig (2013) |

| | Cyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd - £ miliwn | | | Arian cyfatebol - £ miliwn | | | Cyfanswm cyllideb - £ miliwn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cychwynnol (2009) | Diwygiedig (2011) | Diwygiedig (2013) | Cychwynnol (2009) | Diwygiedig (2011) | Diwygiedig (2013) | Cychwynnol (2009) | Diwygiedig (2011) | Diwygiedig (2013) |
| Troedle Cyntaf | 15.9 | 10.8 | 8.5 | 12.7 | 9 | 7.1 | 28.6 | 19.7 | 16.7 |
| Llwybrau i'r Brig | 11 | 8.8 | 6.8 | 9.2 | 7.3 | 5.6 | 20.3 | 16.1 | 12.6 |
| **CYFANSWM ar gyfer Cyrraedd y Nod** | **26.9** | **19.6** | **15.3** | **21.9** | **16.3** | **12.7** | **48.9** | **35.8** | **29.3** |

Ffynhonnell: Llythyrau grant swyddogol WEFO i Lywodraeth Cymru a llythyr dadneilltuo. Mae cyllideb ddiwygiedig 2013 yn seiliedig ar amcangyfrif a ddarparwyd gan y tîm prosiectau ym Mehefin 2013.

*Troedle Cyntaf*

4.3 **Cyfanswm y gwariant ar gyfer Troedle Cyntaf ar** ddiwedd **Mehefin 2013 oedd £16.7 million**[6]. Fel y dengys Tabl 5 isod, nid oedd yr un o'r noddwyr yn gallu cyrraedd eu targedau gwariant hyd yn oed ar ôl yr ymarferiad ail-broffilio ar ganol y prosiect, er i Plant yng Nghymru, Y Ddraig Ffynci ac Achub y Plant bron â llwyddo i gyrraedd eu targedau.

4.4 Mae gwariant Cyngor Celfyddydau Cymru (£6.2 miliwn, 39%) a gwariant AdAS (£4.8 miliwn, 30%) yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o'r cyfanswm gwariant (gweler Ffigur 2 isod).

**Tabl 5 Gwariant Troedle Cyntaf hyd at ddiwedd Mawrth 2013**


| | Gwariant targed-Gwreiddiol (2008) (£) | Gwariant targed - ar ôl yr ail-broffilio cyntaf (2011) (£) | Gwariant cronnus hyd at Fawrth 2013 (£) | Canran wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed gwreiddiol (2008) | Canran wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Celfyddydau | 12,029,163 | 8,030,776 | 6,186,354 | **51%** | **77%** |

[6] Yn seiliedig ar ddadansoddiad o wariant ar gyfer pob prosiect a ddarparwyd gan dîm prosiect Cyrraedd y Nod.

| | Gwariant targed-Gwreiddiol (2008) (£) | Gwariant targed - ar ôl yr ail-broffilio cyntaf (2011) (£) | Gwariant cronnus hyd at Fawrth 2013 (£) | Canran wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed gwreiddiol (2008) | Canran wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | | | | | |
| Plant yng Nghymru | 919,835 | 840,825 | 823,736 | **90%** | **98%** |
| Y Ddraig Ffynci | 2,613,629 | 2,613,599 | 2,539,686 | **97%** | **97%** |
| Achub y Plant | 1,771,559 | 1,771,559 | 1,639,356 | **93%** | **93%** |
| AdAS | 11,259,853 | 6,484,930 | 4,760,581 | **42%** | **73%** |
| CYFANSWM | **28,594,039** | **19,741,689** | **15,949,714** | **56%** | **81%** |

Ffynhonnell: Data ar y gwariant gwirioneddol o Hawliad 17 Ionawr-Mawrth 2013 gan gyd-noddwyr i Lywodraeth Cymru; gwariant gwreiddiol wedi'i broffilio ar gyfer noddwyr allanol o lythyrau Cytundeb Cyd-noddwyr; ffigurau ar gyfer AdAS a'r targed ar ôl yr ymarferiad ail-broffilio cyntaf a gyflwynwyd gan dîm Cyrraedd y Nod

**Ffigur 2 Troedle Cyntaf – Cyfran cyd-noddwyr o'r gwariant**




Ffynhonnell: Ffurflenni Hawliad 17 a gyflwynwyd gan gyd-noddwyr i Lywodraeth Cymru, Mawrth 2013

Mae Tabl 6 yn dangos:

- Yn unol â'r disgwyl, dyrannwyd y gyfran uchaf o'r gyllideb i staff (gweithwyr proffesiynol ieuenctid i oruchwylio a chyflwyno gweithgareddau) a chaffael cyflwyno gwasanaethau oddi wrth

ddarparwyr allanol (22% a 69% yn y drefn honno). Ar ddiwedd Mehefin 2013, roedd costau staff ryw 5% yn llai na'r disgwyl, ac roedd costau caffael ryw un rhan o bump (19%) yn llai na'r disgwyl yn ffigurau ail-broffilio 2011;


- Roedd costau yn llai na'r disgwyl ym mhob maes ac eithrio llety, dibrisiant celfi ac offer, a ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol.
- Mae dadansoddiad o ba bryd y cofnodwyd gwariant yn dangos y cafwyd costau caffael sylweddol (rhyw £4 miliwn, 39% o'r holl gostau caffael) yn ystod chwe mis olaf y prosiect. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith cyflwyno mwy na'r disgwyl yn ystod blwyddyn olaf y prosiectau.

**Tabl 6 Gwariant Troedle Cyntaf hyd at ddiwedd Mehefin 2013**

| Math o wariant | Gwariant cronnus hyd at Orffennaf 2013 (£) | Cyfanswm costau a ragwelir (2011) (£) | Amrywio rhwng y gwariant cronnus a chostau a ragwelir |
|---|---:|---:|---:|
| Llety | 14,281 | 14,281 | 0% |
| Gweinyddu | 32,037 | 34,611 | -7% |
| Dibrisiant celfi ac offer | 3,677 | 3,029 | +21% |
| Adnoddau Dynol | 89,205 | 102,963 | -13% |
| TGCh | 34,856 | 47,124 | -26% |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | 222,292 | 199,541 | +11% |
| Marchnata a hyrwyddo | 433,422 | 520,054 | -17% |
| Gorbenion | 473,308 | 600,471 | -21% |
| Caffael gwasanaethau ieuenctid | 11,075,123 | 13,666,604 | -19% |
| Staff i reoli a chyflwyno gweithgareddau | 4,107,019 | 4,313,412 | -5% |
| Teithio a chludiant | 228,745 | 234,122 | -2% |
| **CYFANSWM COSTAU** | **16,713,965** | **19,736,213** | **-15%** |

Ffynhonnell: Adroddiad o'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd yng Ngorffennaf 2013 a phroffil gwariant diwygiedig ar gyfer Mehefin 2013, a ddarparwyd gan dîm rheoli prosiect Cyrraedd y Nod

**Ffigur 3 Troedle Cyntaf – mathau o wariant**





Ffynhonnell: Adroddiad o'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd yng Ngorffennaf 2013 a phroffil gwariant diwygiedig ar gyfer Mehefin 2013, a ddarparwyd gan dîm rheoli prosiect Cyrraedd y Nod

*Llwybrau i'r Brig*

4.5 **Cyfanswm gwariant Llwybrau i'r Brig ar ddiwedd Mehefin 2013 oedd £12.4 miliwn** ac roedd yr AdAS a'r Urdd yn gyfrifol am ychydig o dan dair rhan o bump o'r gwariant hwn (

Ffigur 4).

**Ffigur 4 Llwybrau i'r Brig – Cyfran cyd-noddwyr o'r gwariant**




Ffynhonnell: Ffurflenni Hawliad 17 a gyflwynwyd gan gyd-noddwyr i Lywodraeth Cymru, Mawrth 2013

4.6 Yn Llwybrau i'r Brig, o ganlyniad i ymarferiad ail-broffilio 2011, lleihawyd y targedau gwariant ar gyfer Techniquest ac AdAS yn sylweddol. Er y gostyngiad yn y targed gwariant, ni wnaeth yr un o'r darparwyr fodloni'u targedau gwariant, gyda Techniquest yn arbennig yn cael anawsterau sylweddol, ac yn cyflawni 33% o'r targed diwygiedig yn unig (Tabl 7). Y rhesymau allweddol a roddwyd gerbron ar gyfer y rhain gan Techniquest oedd diffyg arian cyfatebol ar gael ac anawsterau o ran trefnu'r holl weithdai yn rhaglen allgymorth STEM mewn rhai ysgolion.

**Tabl 7 Gwariant Llwybrau i'r Brig hyd at ddiwedd Mawrth 2013**

| | **Gwariant targed-Gwreiddiol (2008) (£)** | **Gwariant targed - ar ôl yr ail-broffilio cyntaf (2011) (£)** | **Gwariant cronnus hyd at Fawrth 2013 (£)** | **Canran wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed gwreiddiol (2008)** | **Canran wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cerdd Gymunedol Cymru | 782,334 | 782,334 | 696,583 | 89% | 89% |
| SNAP Cymru | 2,837,578 | 2,837,578 | 2,735,421 | 96% | 96% |
| Techniquest | 4,768,509 | 3,519,050 | 1,146,225 | 24% | 33% |
| Urdd Gobaith Cymru | 4,192,144 | 4,192,146 | 3,030,633 | 72% | 72% |

| | Gwariant targed-Gwreiddiol (2008) (£) | Gwariant targed - ar ôl yr ail-broffilio cyntaf (2011) (£) | Gwariant cronnus hyd at Fawrth 2013 (£) | Canran wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed gwreiddiol (2008) | Canran wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011 |
|---|---|---|---|---|---|
| AdAS | 7,803,937 | 4,861,590 | 3,438,096 | 44% | 71% |
| **CYFANSWM** | **20,384,502** | **16,192,700** | **11,046,958** | **54%** | **68%** |

Ffynhonnell: Data ar y gwariant gwirioneddol o Hawliad 17 Ionawr-Mawrth 2013 gan gyd-noddwyr i Lywodraeth Cymru, a'r holl wybodaeth am dargedau a ddarparwyd gan dîm prosiect Cyrraedd y Nod yn seiliedig ar ddata'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd

4.7 Mae Tabl 8 yn dynodi:

- Fel gyda Troedle Cyntaf, dyrannwyd cyfrannau uchaf y gyllideb i gostau staff a chostau caffael (55% a 26% yn y drefn honno). Ar ddiwedd Mehefin 2013, dim ond 1% yn llai na'r disgwyl oedd costau staff, ac roedd costau caffael bron i hanner y disgwyl (-46%) yn ffigurau ail-broffilio 2011.
- Roedd costau'n llai na'r disgwyl ym mhob maes ac eithrio ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol a dibrisiant celfi ac offer.


**Tabl 8 Gwariant Llwybrau i'r Brig hyd at ddiwedd Mehefin 2013**

| Math o wariant | Gwariant cronnus hyd at Mehefin 2013 (£) | Cyfanswm costau a ragwelir (2011) (£) | Cyfanswm costau a ragwelir (2013) (£) | Amrywio mewn perthynas â'r gost a ragwelir yn 2011 % |
|---|---|---|---|---|
| Llety | 26,633 | 41,191 | 26,633 | -35% |
| Gweinyddu | 150,343 | 303,321 | 150,343 | -50% |
| Dibrisiant celfi ac offer | 1,473 | 1,271 | 1,473 | 16% |
| Adnoddau Dynol | 290,455 | 331,937 | 290,455 | -12% |
| TGCh | 72,452 | 134,613 | 72,452 | -46% |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | 251,268 | 186,751 | 251,268 | 35% |
| Marchnata a hyrwyddo | 311,362 | 447,221 | 311,362 | -30% |
| Gorbenion | 874,979 | 1,297,455 | 3,263,935 | -33% |

| **Math o wariant** | **Gwariant cronnus hyd at Mehefin 2013 (£)** | **Cyfanswm costau a ragwelir (2011) (£)** | **Cyfanswm costau a ragwelir (2013) (£)** | **Amrywio mewn perthynas â'r gost a ragwelir yn 2011 %** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Caffael gwasanaethau ieuenctid | 3,263,935 | 6,116,541 | 3,263,935 | -47% |
| Staff i reoli a chyflwyno gweithgareddau | 6,840,389 | 6,898,198 | 6,840,389 | -1% |
| Teithio a chludiant | 356,219 | 378,809 | 356,219 | -6% |
| **CYFANSWM COSTAU** | **12,439,510** | **16,137,308** | **14,828,466** | **-23%** |

Ffynhonnell: Adroddiad ar wariant o'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd dyddiedig Gorffennaf 2013; proffil gwariant diwygiedig ar gyfer Mehefin 2013, a ddarparwyd gan dîm rheoli prosiect Cyrraedd y Nod; a chostau a ragwelir yn 2010 o adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd o fis Hydref 2012

**Ffigur 5 Llwybrau i'r Brig – mathau o wariant**




Ffynhonnell: Adroddiad o'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd yng Ngorffennaf 2013 a phroffil gwariant diwygiedig ar gyfer Mehefin 2013, a ddarparwyd gan dîm rheoli prosiect Cyrraedd y Nod

## Allbynnau

*Troedle Cyntaf*

<u>Cyflawni targedau allbynnau WEFO o ran y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd</u>

4.8 Mae Tabl 9 yn dangos:

- Er gwaethaf tanwariant sylweddol, bod Troedle Cyntaf wedi perfformio'n dda mewn perthynas â'i darged ar gyfer cyfanswm nifer y cyfranogwyr. At ei gilydd, mae **15,974 o bobl ifanc wedi elwa ar gymorth a ddarparwyd gan y prosiect**. Mae hyn yn 93% o'r targed gwreiddiol a gyflawnwyd, ac yn 98% o darged diwygiedig 2011;
- **Fodd bynnag, roedd rhyw bumed (19.7% n=3,145) o'r holl gyfranogwyr yn Troedle Cyntaf yn NEET, sef nifer sy'n sylweddol llai na a ragwelwyd.** Y targedau gwreiddiol oedd i bron i hanner y bobl ifanc (46.7%, n=7,980) sy'n cymryd rhan yn y prosiect i fod yn NEET. Yn ystod y ddau ymarferiad ail-broffilio, diwygiwyd y targed hwn. Yn 2011, cafodd y targed ar gyfer pobl ifanc NEET ei haneru bron o 7,980 i 4,000 ac yna'i leihau o chwarter yn yr ymarferiad ail-broffilio olaf yn 2013 i 3,000. Dim ond 40% o darged diwygiedig 2011 a 79% o darged terfynol 2013 a gyflawnwyd;
- Roedd **cyfran y merched yn cyfranogi yn y prosiect ychydig yn is na'r disgwyl** (cyflawnwyd 7,456, 47% o gymharu â tharged 2011, sef 8,330, 51%);
- Bwriadwyd yn wreiddiol y byddai 70% o'r cyfranogwyr rhwng 14-19 oed, ac y byddai 30% sy'n weddill rhwng 11-13 oed. Addaswyd y targedau ychydig pan gynhaliwyd yr adolygiad canol prosiect. Roedd y targedau newydd yn pennu y dylai 64% o gyfranogwyr fod rhwng 14-19 oed ac y dylai 36% fod yn 11-13 oed. Ni lwyddwyd i gyflawni'r cydbwysedd hwn yn hollol, ac roedd **cyfran uwch o rai 11-13 oed na'r disgwyl yn cyfranogi** (40%, 6,457);
- Gosodwyd targed ar gyfer pob prosiect i ddefnyddio systemau mesur deilliannau meddal a dynoda cronfa ddata'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd y llwyddwyd i gyflawni hyn. Fodd bynnag, mae cyfweliadau gyda chyd-noddwyr ac asiantau cyflwyno yn dynodi nad oedd hyn yn wir ar gyfer yr holl weithgareddau.

**Tabl 9 Troedle Cyntaf – cyflawniad yn erbyn targedau allbynnau**

| Allbynnau | Targed gwreiddiol (2008) | Targed diwygiedig (2011) | Targed diwygiedig (2013) | Cyflawnwyd (Mawrth 2013) | % wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed cychwynnol (%) | % wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cyfranogwyr (11-19) | 17,100 | 16,356 | 15,600 | 15,974 | 93% | 98% |
| Cyfranogwyr sy'n ferched | 8,550 | 8,330 | 7,250 | 7,456 | 87% | 90% |
| Rhai 11-13 oed | 5,130 | 5,920 | 6,100 | 6,457 | 126% | 109% |
| Rhai 14-19 oed | 11,970 | 10,436 | 9,500 | 9,492 | 79% | 91% |
| Pobl ifanc NEET* | 7,980 | 4,000 | 3,000 | 3,145* | 40% | 79% |
| Prosiectau yn defnyddio systemau mesur deilliannau meddal | Ie | Ie | Ie | Ie | - | - |
| Prosiectau yn integreiddio datblygu cynaliadwy i gynyddu ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant | Ie | Ie | Ie | Ie | - | - |

*Yn seiliedig ar nifer y bobl ifanc a gofnodwyd yn ddi-waith, y rhai di-waith hirdymor (dros flwyddyn) a'r rhai economaidd anweithgar (ac eithrio'r rheiny mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn) yn adroddiad cryno'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd

Ffynhonnell: Cafodd y wybodaeth darged o gynlluniau busnes cychwynnol a diwygiedig a gwybodaeth am gyflawniadau o adroddiad cryno o'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd ei darparu i'r tîm ymchwilio ar 6 Mehefin 2013, ac eithrio data am nifer y bobl ifanc NEET, sydd o adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a gafodd ei redeg ar 18 Medi 2013

4.9 O ran cyd-noddwyr unigol yn cyflawni targedau allbynnau, maeTabl 10 yn dangos y canlynol:

- Bod Achub y Plant a'r Ddraig Ffynci wedi cyflawni targedau diwygiedig 2011 ar gyfer niferoedd y cyfranogwyr, ac roedd perfformiad Cyngor Celfyddydau Cymru yn gymharol dda, gan gyflawni 82% o'r targed diwygiedig ar gyfer cyfanswm nifer y cyfranogwyr;
- Bod Plant yng Nghymru wedi cael anawsterau sylweddol o ran cyflawni'r holl dargedau allbynnau;
- Bod Achub y Plant wedi gorgyflawni'n sylweddol yn erbyn ei darged ar gyfer nifer y cyfranogwyr NEET. Mae graddfa'r gorgyflawni o

gymharu â'r targedau gwreiddiol yn awgrymu nad oedd y targed yn briodol i'r gweithgareddau a ddarparwyd.

**Tabl 10 Troedle Cyntaf - Cyflawniad targedau allbynnau gan gyd-noddwyr**

| Allbynnau | Cyngor Celfyddydau Cymru | | Plant yng Nghymru | | Y Ddraig Ffynci | | Achub y Plant | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % o'r targed gwreiddiol wedi'i chyflawni | % o'r targed diwygiedig wedi'i chyflawni | % o'r targed gwreiddiol wedi'i chyflawni | % o'r targed diwygiedig wedi'i chyflawni | % o'r targed gwreiddiol wedi'i chyflawni | % o'r targed diwygiedig wedi'i chyflawni | % o'r targed gwreiddiol wedi'i chyflawni | % o'r targed diwygiedig wedi'i chyflawni |
| Cyfanswm cyfranogwyr (11-19) | 44% | 82% | 12% | 14% | 189% | 100% | 59% | 139% |
| Cyfranogwyr sy'n ferched | 31% | 64% | 14% | 16% | 258% | 138% | 70% | 254% |
| Rhai 11-13 oed | 41% | 81% | 18% | 19% | 187% | 104% | 30% | 101% |
| Rhai 14-19 oed | 46% | 82% | 10% | 12% | 189% | 98% | 71% | 149% |
| Pobl ifanc NEET | 10% | 36% | 1% | 1% | 77% | 66% | 802% | 160% |

Ffynhonnell: Data am darged a gyflawnwyd o adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a gynhyrchwyd ym Mehefin 2013, wedi'i ddarparu gan dîm y prosiect; data'r targed gwreiddiol o Hawliad 7 wedi'i gyflwyno gan gyd-noddwyr i Lywodraeth Cymru; a data'r targed diwygiedig o Hawliad 18

Nodweddion y bobl ifanc yn cyfranogi yn Troedle Cyntaf

4.10 Yn ôl data cryno'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2013:


- Roedd 6% o'r bobl ifanc a gyfranogodd yn Troedle Cyntaf yn ystyried bod ganddynt anabledd. Yn ôl data Cyfrifiad[7], mae 4% o'r rhai 0-15 oed a 3% o'r rhai 16-24 oed mewn awdurdodau lleol yn yr ardal Gydgyfeirio yn ystyried bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael eu cyfyngu'n fawr neu ychydig o ganlyniad i broblem

[7] Cyfrifiad 2011: DC3302EW – Problem iechyd hirdymor neu anabledd yn ôl iechyd, yn ôl rhyw, yn ôl oed [o Nomis ar 2 Awst 2013]

iechyd hirdymor neu anabledd. Mae hyn yn awgrymu bod Troedle Cyntaf wedi ymgysylltu'n gymharol dda â phobl ifanc anabl[8];

- Adroddodd 2% (376 o bobl ifanc) o gyfranogwyr Troedle Cyntaf eu bod yn ddu neu o leiafrifoedd ethnig. Yn ôl data Cyfrifiad 2011[9], mae 5% o'r boblogaeth 10-19 oed yn awdurdodau lleol yr ardal Gydgyfeirio yn ystyried ei bod yn ddu neu o leiafrifoedd ethnig[10], gan awgrymu y gallai Troedle Cyntaf fod wedi bod yn fwy effeithiol yn targedu lleiafrifoedd ethnig;
- Nid oedd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr (78%) unrhyw gymwysterau presennol pan wnaethant ymuno â Troedle Cyntaf; roedd gan ryw un rhan o ddeg ohonynt gymhwyster ar Lefel 2 (8%) neu Lefel 3 (1%), gyda'r gweddill yn meddu ar gymhwyster islaw Lefel 2 (gweler Ffigur 6).

**Ffigur 6 Lefel cymwysterau bresennol cyfranogwyr Troedle Cyntaf**




Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd gan y tîm prosiectau, Gorffennaf 2013

---

8 Defnyddiodd llawer o noddwyr Cyrraedd y Nod y cwestiwn, 'Mae gennyf gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar weithio – oes/nac oes' tra bod y Cyfrifiad yn gofyn i ymatebwyr raddio cytundeb â'r datganiad, 'Mae fy ngweithgareddau bob dydd yn cael eu cyfyngu gan broblem iechyd neu anabledd'. Defnyddiwyd cwestiynau eraill hefyd gan rai noddwyr prosiectau a gweithgareddau. Felly, er nad oes modd cymharu data am gyfranogwyr yn y prosiect a data'r Cyfrifiad yn uniongyrchol, hon yw'r gymhariaeth fwyaf cywir a pherthnasol sy'n bosibl.

9 Cyfrifiad 2011: DC2101EW - Grŵp Ethnig yn ôl rhyw yn ôl oed, ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 26 Gorffennaf 2013

10 Yn seiliedig ar y rheiny sy'n adrodd eu bod yn Wyn: Gwyddelig; Sipsiwn Gwyn neu Deithiwr Gwyddelig; Gwyn: Gwyn Arall; Grŵp ethnig cymysg/lluosog: Asiaidd/Asiaidd Prydeinig; Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig; yn perthyn i grŵp ethnig arall

- Roedd Troedle Cyntaf yn cefnogi pobl ifanc â rhwystrau amrywiol i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig â mynediad cyfyngedig at wasanaethau, cyn-droseddwyr a'r rheiny â lefelau llythrennedd a rhifedd isel oedd rhai o'r grwpiau allweddol a gefnogwyd gan Troedle Cyntaf (gweler Tabl 11 isod).

**Tabl 11 Rhwystrau a wynebir gan gyfranogwyr Troedle Cyntaf**

| Grŵp blaenoriaeth | Nifer y bobl ifanc | % o gyfanswm cyfranogwyr Troedle Cyntaf |
|---|---:|---:|
| Rhai 14-19 oed mewn perygl o gael eu gwahardd neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol | 3,153 | 20% |
| Rhai 11-13 oed mewn perygl o gael eu gwahardd neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol | 1,579 | 10% |
| Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig | 1,466 | 9% |
| Cyn-droseddwyr | 816 | 5% |
| Pobl ifanc y mae angen cymorth arnynt gydag ysgrifennu / darllen / rhifedd / TG | 773 | 5% |
| Pobl ifanc y mae angen cymorth arall arnynt i wneud pethau | 662 | 4% |
| Pobl ifanc â rheswm pam na allant gael swydd | 297 | 2% |
| Pobl ifanc sy'n byw mewn cartref lle nad oes swydd gan unrhyw un | 231 | 1% |
| Pobl ifanc sy'n byw mewn gofal | 221 | 1% |
| Pobl ifanc â phroblemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | 164 | 1% |
| Pobl ifanc sy'n dysgu Saesneg fel ail iaith | 145 | 1% |
| Anabledd | 134 | 1% |
| Pobl ifanc ddigartref | 123 | 1% |
| Rhieni yn eu harddegau | 93 | 1% |
| Pobl ifanc sy'n dod allan o'r carchar yn fuan | 77 | 0% |
| Pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl | 74 | 0% |
| Pobl ifanc ag anawsterau dysgu | 71 | 0% |

| **Grŵp blaenoriaeth** | **Nifer y bobl ifanc** | **% o gyfanswm cyfranogwyr Troedle Cyntaf** |
|---|---|---|
| Unig rieni | 60 | 0% |

Ffynhonnell: Data'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Mehefin 2013

Gweithwyr Proffesiynol

4.11 Cymerodd o leiaf 1160 o weithwyr proffesiynol ran mewn hyfforddiant neu weithgareddau adeiladu gallu yn cael eu cyflwyno fel rhan o Troedle Cyntaf gan Plant yng Nghymru a Chyngor Celfyddydau Cymru[11], ac mae hynny fwy na dwywaith y targed o 500 o weithwyr proffesiynol. Ni threfnwyd bod data ar gael am y sefydliadau y gweithiai'r gweithwyr proffesiynol hyn iddynt, nac ymhle yn yr ardal Gydgyfeirio yr oeddent wedi'u lleoli.

4.12 O ran y mathau o weithwyr proffesiynol a gymerodd ran, mae data ar deitlau swyddi cyfranogwyr a chyfweliadau gyda staff y prosiect yn awgrymu bod ystod eang o weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda phobl ifanc wedi cymryd rhan. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithwyr cymdeithasol
- Gweithwyr ieuenctid
- Gweithwyr chwarae
- Staff lloches menywod
- Athrawon
- Hyfforddwyr sy'n gyfrifol am hyfforddi gweithwyr proffesiynol ieuenctid eraill
- Gweithwyr ieuenctid gwirfoddol

[11] Mae hyn yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Phlant yng Nghymru. Ar gyfer dau o brosiectau hyfforddi Cyngor Celfyddydau Cymru, gan nad oedd gennym ddata ar nifer wirioneddol y cyfranogwyr, cymerom fod y targedau a bennwyd yn y contract wedi'u cyflawni ac nad cyfranogwyr am yr eildro oedd y rhain. Ar gyfer un prosiect hyfforddi, nid oedd gwybodaeth am dargedau na chyfranogwyr gwirioneddol, felly nid yw gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr hyfforddiant hwn wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif.

- Cydlynwyr gwirfoddol mewn sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r sector cymunedol
- Nyrsys
- Swyddogion troseddau ieuenctid

4.13 Yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ieuenctid, roedd rhai o brosiectau hyfforddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio gydag artistiaid proffesiynol i helpu datblygu eu sgiliau yn cefnogi pobl ifanc.

*Llwybrau i'r Brig*

Cyflawniad targedau allbynnau WEFO o ran y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd

4.14 Mae Tabl 12 yn dangos y canlynol:

- Bod Llwybrau i'r Brig wedi gorgyflawni mewn perthynas â chyfanswm nifer y cyfranogwyr, gyda **chyfanswm o 15,786 o bobl ifanc yn cyfranogi.** Mae hyn 37% yn fwy na'r targed gwreiddiol a 32% yn fwy na tharged diwygiedig 2011;
- Fel gyda Troedle Cyntaf, mae nifer y bobl ifanc NEET yr ymgysylltwyd â nhw wedi bod yn sylweddol is na'r bwriad. Cymerodd gyfanswm o 351 o bobl ifanc NEET ran yn y prosiect, sef dim ond 16% o'r targed gwreiddiol, a 35% o darged diwygiedig 2011.

**Tabl 12 Llwybrau i'r Brig – cyflawniad yn erbyn targedau allbynnau**

| Allbynnau | Targed gwreiddiol (2008) | Targed diwygiedig (2011) | Targed diwygiedig (2013) | Cyflawnwyd (Mawrth 2013) | % wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed cychwynnol (%) | % wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cyfranogwyr (11-19) | 11,550 | 12,000 | 15,000 | 15,786 | 137% | 132% |
| Cyfranogwyr sy'n ferched | 5,720 | 5,945 | 7,400 | 7,775 | 136% | 131% |
| Rhai 11-13 oed | 4,620 | 4,845 | 7,000 | 7,144 | 155% | 147% |
| Rhai 14-19 oed | 6,930 | 7,155 | 8,000 | 8,574 | 124% | 120% |

| **Allbynnau** | **Targed gwreiddiol (2008)** | **Targed diwygiedig (2011)** | **Targed diwygiedig (2013)** | **Cyflawnwyd (Mawrth 2013)** | **% wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed cychwynnol (%)** | **% wedi'i chyflawni mewn perthynas â thharged 2011** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl ifanc NEET* | 2,200 | 1,000 | 400 | 351 | 17% | 37% |
| Cyfranogwyr sy'n ferched yn ail-hyfforddi mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg | 2,860 | 2,860 | Anhysbys | 3,311 | 116% | Anhysbys |
| Prosiectau yn defnyddio systemau mesur deilliannau meddal | Ie | Ie | Ie | Ie | Ie | Ie |
| Cyflogwyr yn cydweithredu gyda darparwyr addysg/ hyfforddiant | 83 | 60 | Anhysbys | 29 | 35% | 48% |

*Yn seiliedig ar nifer y bobl ifanc a gofnodwyd yn ddi-waith, y rhai di-waith hirdymor (dros flwyddyn) a'r rhai economaidd anweithgar (ac eithrio'r rheiny mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn) yn adroddiad cryno'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd

Ffynhonnell: Cafodd y wybodaeth darged o gynlluniau busnes cychwynnol a diwygiedig a gwybodaeth am gyflawniadau o adroddiad cryno o'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd ei darparu i'r tîm ymchwilio ar 6 Mehefin 2013, ac eithrio data am nifer y bobl ifanc NEET, sydd o adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a gafodd ei redeg ar 18 Medi 2013

4.15 Mae'n wir hefyd bod niferoedd fwy neu lai cyfartal o gyfranogwyr gwryw a benyw wedi cymryd rhan yn Llwybrau i'r Brig (gwryw: 8,011, 51%; benyw: 7,775, 49%), sy'n unol â'r cydbwysedd a bennwyd mewn targedau. Bwriadwyd yn wreiddiol y byddai 60% o gyfranogwyr rhwng 14 ac 19 oed, gyda'r gweddill yn y grŵp oed 11 i 13. Bu bron i'r prosiect â chyflawni'r cydbwysedd hwn, gyda 54% o gyfranogwyr rhwng 14 ac 19 oed. O ran cyd-noddwyr unigol yn cyflawni targedau allbynnau, mae Tabl 13 yn dangos y canlynol:

- Bod pob un o'r cyd-noddwyr wedi cael anawsterau yn cwrdd â'u targed ar gyfer nifer y bobl ifanc NEET i ymgysylltu â nhw, er bod Cerdd Gymunedol Cymru wedi perfformio'n gymharol dda, yn cyflawni bron i dri chwarter ei darged;

- Fe wnaeth SNAP Cymru a’r Urdd berfformio’n gymharol dda mewn perthynas â’r holl dargedau, ac eithrio’r targed ar gyfer pobl ifanc NEET;
- Nid oedd Techniquest wedi gallu cwrdd ag unrhyw un o’i dargedau allbynnau, ac eithrio’r targed i ymgysylltu merched mewn dysgu STEM.

**Tabl 13 Llwybrau i’r Brig – Cyflawniad targedau allbynnau gan gyd-noddwyr**

| | Cerdd Gymunedol Cymru | | SNAP Cymru | | Techniquest | | Urdd Gobaith Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % o’r targed gwreiddiol wedi’i chyflawni | % o’r targed diwygiedig wedi’i chyflawni | % o’r targed gwreiddiol wedi’i chyflawni | % o’r targed diwygiedig wedi’i chyflawni | % o’r targed gwreiddiol wedi’i chyflawni | % o’r targed diwygiedig wedi’i chyflawni | % o’r targed gwreiddiol wedi’i chyflawni | % o’r targed diwygiedig wedi’i chyflawni |
| Cyfanswm cyfranogwyr (11-19) | 51% | 51% | 92% | 92% | 30% | 30% | 80% | 74% |
| Cyfranogwyr sy’n ferched | 46% | 46% | 115% | 115% | 31% | 31% | 70% | 66% |
| Rhai 11-13 oed | 11% | 11% | 98% | 98% | 37% | 37% | 90% | 74% |
| Rhai 14-19 oed | 77% | 77% | 84% | 84% | 24% | 24% | 76% | 74% |
| Pobl ifanc NEET* | 71% | 71% | 27% | 27% | 0% | 0% | 6% | 6% |

Ffynhonnell: Data am dargedau a gyflawnwyd o adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a gynhyrchwyd ym Mehefin 2013, wedi’i ddarparu gan dîm y prosiect; data’r targed gwreiddiol o Hawliad 7 wedi’i gyflwyno gan gyd-noddwyr i Lywodraeth Cymru; a data’r targed diwygiedig o Hawliad 18

Nodweddion y bobl ifanc yn cyfranogi yn Llwybrau i’r Brig

4.16 Yn ôl data cryno’r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2013:

- Fel yn Troedle Cyntaf, ystyriai 6% o’r bobl ifanc a oedd yn cyfranogi yn Llwybrau i’r Brig fod ganddynt anabledd. Yn ôl data Cyfrifiad[12],

[12] Cyfrifiad 2011: DC3302EW - Problem iechyd dirdymor neu anabledd yn ôl iechyd, yn ôl rhyw, yn ôl oed [o Nomis ar 2 Awst 2013]

mae 4% o'r rhai 0-15 oed a 3% o'r rhai 16-24 oed mewn awdurdodau lleol yn yr ardal Gydgyfeirio yn ystyried bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael eu cyfyngu'n fawr neu ychydig o ganlyniad i broblem iechyd hirdymor neu anabledd. Mae hyn yn awgrymu bod Llwybrau i'r Brig wedi bod yn effeithiol o ran ymgysylltu â phobl ifanc anabl[13].


- Adroddodd 1.2% o gyfranogwyr Llwybrau i'r Brig (194) eu bod yn ddu neu o leiafrifoedd ethnig, sy'n gyfran is nag yn Troedle Cyntaf. Gan fod 5% o gyfanswm y boblogaeth 10-19 oed yn yr ardal Gydgyfeirio yn ddu neu o leiafrifoedd ethnig yn ôl data Cyfrifiad[14], mae hyn yn awgrymu nad yw Llwybrau i'r Brig wedi bod yn effeithiol o ran ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig;
- Nid oedd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr Llwybrau i'r Brig (86%) unrhyw gymwysterau presennol wrth ymuno â'r prosiect; roedd 7% yn meddu ar gymhwyster islaw Lefel 2; ac roedd 6% yn meddu ar gymhwyster ar Lefel 2. Felly roedd lefel cymwysterau cyfranogwyr Llwybrau i'r Brig yn is na'r lefel ar gyfer cyfranogwyr Troedle Cyntaf (gweler Ffigur 7);
- Mae data a gasglwyd gan yr Urdd yn dynodi y gallai rhyw 90% o bobl ifanc a oedd yn cyfranogi yng ngweithgareddau'r Urdd ddeall, siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Dim ond 58% o bobl ifanc a ddynododd mai'r Gymraeg oedd eu dewis iaith pan wnaethant gofrestru ar gyfer y gweithgareddau'n cael eu darparu gan yr Urdd, sy'n awgrymu bod yr Urdd wedi bod yn llwyddiannus o ran recriwtio pobl ifanc a fyddai'n elwa ar gymorth i ddefnyddio'r Gymraeg mwy yn eu bywydau bob dydd[15].

[13] Defnyddiodd llawer o noddwyr Cyrraedd y Nod y cwestiwn, 'Mae gennyf gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar weithio – oes/nac oes' tra bod y Cyfrifiad yn gofyn i ymatebwyr raddio cytundeb â'r datganiad, 'Mae fy ngweithgareddau bob dydd yn cael eu cyfyngu gan broblem iechyd neu anabledd'. Defnyddiwyd cwestiynau eraill hefyd gan rai noddwyr prosiectau a gweithgareddau. Felly, er nad oes modd cymharu data am gyfranogwyr yn y prosiect a data'r Cyfrifiad yn uniongyrchol, hon yw'r gymhariaeth fwyaf cywir a pherthnasol sy'n bosibl.

[14] 2011 Census: DC2101EW - Grŵp Ethnig yn ôl rhyw yn ôl oed, ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 26 Gorffennaf 2013]

[15] *Gwerthusiad o brosiect Llwybrau i'r Brig Urdd Gobaith Cymru,* Wavehill, Mawrth 2013

**Ffigur 7 Lefel cymwysterau bresennol cyfranogwyr Llwybrau i'r Brig**




Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd gan y tîm prosiectau, Gorffennaf 2013

4.17 Fel yn Troedle Cyntaf, roedd gan y bobl ifanc a gymerodd ran yn Llwybrau i'r Brig rwystrau amrywiol rhag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn eu bywyd. Mae'r materion a oedd yn effeithio ar gyfrannau uchel o bobl ifanc yn cynnwys bod mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol, lefelau llythrennedd a rhifedd isel ac arwahanrwydd o ganlyniad i fyw mewn ardaloedd gwledig. Er nad oedd gweithgaredd penodol yn targedu pobl ifanc a oedd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid fel yn Troedle Cyntaf, fe wnaeth dros 100 o gyn-droseddwyr elwa ar Llwybrau i'r Brig (

Tabl 14).

**Tabl 14 Rhwystrau a wynebir gan gyfranogwyr Llwybrau i'r Brig**

| Grŵp Blaenoriaeth | Cyfanswm | % o gyfanswm cyfranogwyr Llwybrau i'r Brig |
|---|---|---|
| Saesneg ail iaith[16] | 3,383 | 21% |
| Rhai 14-19 oed mewn perygl o gael eu gwahardd neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol | 1,734 | 11% |
| Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig | 1,245 | 8% |
| Rhai 11-13 oed mewn perygl o gael eu gwahardd neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol | 885 | 6% |
| Pobl ifanc y mae angen cymorth arall arnynt i wneud pethau | 772 | 5% |
| Pobl ifanc y mae angen cymorth arnynt gydag ysgrifennu / darllen / rhifedd / TG | 720 | 5% |
| Pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl | 149 | 1% |
| Cyn-droseddwyr | 131 | 1% |
| Pobl ifanc â phroblemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | 125 | 1% |
| Pobl ifanc sy'n byw mewn cartref lle nad oes swydd gan unrhyw un | 118 | 1% |
| Pobl ifanc â rheswm pam na allant gael swydd | 81 | 1% |
| Byw mewn gofal | 46 | 0% |
| Yn ddigartref | 27 | 0% |
| Unig riant | 27 | 0% |
| Rhiant yn ei arddegau | 8 | 0% |
| Yn dod allan o'r carchar yn fuan | 1 | 0% |

Ffynhonnell: Data'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan dîm prosiect Cyrraedd y Nod, Mehefin 2013

## Gweithwyr Proffesiynol

4.18 Cymerodd dros fil (1,103) o weithwyr proffesiynol ran mewn hyfforddiant neu weithgareddau adeiladu gallu yn cael eu cyflwyno fel rhan o

[16] Nid yw'n glir a yw hyn yn cyfeirio at bobl ifanc y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt neu bobl ifanc o gymunedau mudol sy'n siarad Saesneg fel ail iaith.

Lwybrau i'r Brig gan SNAP Cymru a phrosiect CLIC yn cael ei arwain gan yr AdAS. Gan nad oedd cyflwyno hyfforddiant yn amcan yng nghynllun busnes y prosiect, ni osodwyd targedau ar gyfer nifer y gweithwyr proffesiynol i gyfranogi. I ryw chwarter (287 o weithwyr proffesiynol) roedd y dysgu wedi'i achredu. Roedd y mathau o weithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn cynnwys staff o dimau troseddau ieuenctid, Gyrfa Cymru, colegau, a staff awdurdodau lleol. Cyflwynwyd 15 o gyrsiau gan SNAP Cymru yn cwmpasu agweddau gwahanol ar ddarparu cymorth i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau a'r rheiny mewn perygl o gael eu gwahardd. Llwyddodd ymarferwyr a oedd yn cyfranogi ym mhrosiect CLIC i ennill cymwysterau ar lefelau 1-3 mewn datblygu gwasanaethau gwybodaeth ar-lein i bobl ifanc.

**Gweithgareddau**

*Troedle Cyntaf*


<u>Mathau o weithgaredd</u>

- Gwariwyd tua degfed rhan o'r gyllideb (11%) ar weithgareddau yn targedu gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc. Roedd hyn yn gyfanswm gwariant o £1.15 miliwn. O hwn, gwariwyd rhyw bedair rhan o bump ar ddatblygu adnoddau i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol fel:
- Gwefan Gweithwyr Cyfranogi;
- Pecynnau cymorth i weithwyr proffesiynol iechyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r CCUHP;
- Canllawiau ynglŷn â sut i redeg rhaglenni mentora yn y gweithle i ar gyfer pobl ifanc;
- Cynlluniau gwersi i gefnogi addysgu CCUHP yn y gweithle;
- Modiwlau hyfforddi hunangyfeiriedig; ac
- Adnoddau cymorth mentora a gwerthuso (Dangos Llwyddiant).

4.19 Gwariwyd bron i £50,000 ar gyflwyno hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar amryw o destunau'n ymwneud ag ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc NEET a'r rheiny sydd mewn perygl o fod felly (gan Plant yng Nghymru a Chyngor Celfyddydau Cymru). Mae cyfweliadau gyda chyd-noddwyr yn awgrymu bod rhai gwirfoddolwyr wedi elwa ar yr hyfforddiant hwn hefyd. Y tri chwrs a fynychwyd fwyaf oedd: hyfforddiant ymgynghori (246 o gyfranogwyr); deall anghenion arbennig (240 o gyfranogwyr); a hyfforddiant ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid (121 o gyfranogwyr). O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o'r gwariant ar weithgareddau wedi'u targedu'n uniongyrchol at bobl ifanc (Ffigur 8)

- Gan adlewyrchu'r dyraniad cyllid i Gyngor Celfyddydau Cymru, gwariwyd tair rhan o bump o'r gyllideb ar weithgareddau a oedd yn defnyddio perfformio, y celfyddydau gweledol neu grefftau i ennyn diddordeb pobl ifanc;
- Gwariwyd dros chwarter y gyllideb ar weithgareddau a oedd yn ceisio gwella cyfranogiad pobl ifanc mewn prosesau penderfynu a llywodraethu. Mae enghreifftiau o weithgareddau cyfranogi yn cynnwys rhaglenni hyfforddi ar gyfer pobl ifanc i'w cefnogi i gymryd rhan yn ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, hyfforddiant a gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â CCUHP, a gweithgareddau lle bydd pobl ifanc yn ymchwilio i faterion o ddiddordeb a phryder lleol, ac yn cyflwyno'u canfyddiadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol;
- Fe wnaeth 6% o'r gyllideb ddarparu cymorth dwys i bobl ifanc (y rheiny mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid yn bennaf) i ail-ymgysylltu, a darparodd 7% gymorth i bontio'n llwyddiannus i fyd oedolion (drwy'r prosiect Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol yn bennaf).

**Ffigur 8 Troedle Cyntaf – cyfran y gyllideb a wariwyd ar fathau gwahanol o weithgareddau**




Ffynhonnell: Cynlluniau busnes noddwyr, dogfennau mewnol, cyfweliadau â noddwyr a data gwybodaeth reoli ychwanegol a gyflwynwyd yn Chwefror 2013.

4.20 Yn ogystal â gweithgareddau a gyflwynwyd i bobl ifanc, roedd nifer fach o weithgareddau ymchwil a gwerthuso hefyd, y bwriadwyd iddynt lywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cadw mewn Cysylltiad: ymgynghori ac ymchwil i lywio datblygu ymagweddau cenedlaethol at gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc 11-25 oed sy'n NEET neu'n debygol o fod yn NEET;
- Mapio'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol yn ôl CCUHP;
- Ymchwil am y diffyg cynhwysiant a chynrychiolaeth mewn arfer cyfranogiad disgyblion presennol; a
- Gwerthuso Strategaeth Gyfranogi pob awdurdod lleol yn erbyn y gofynion yn yr Arweiniad Strategaeth Cyfranogiad Lleol.

4.21 Wrth asesu'r gweithgareddau hyn o ran pa mor briodol a pherthnasol y maent i nodau Troedle Cyntaf a'r anghenion a gyflwynwyd yn y cynllun busnes, canfuom y canlynol:

- Ychydig o weithgareddau sy'n cyfrannu at y nod o ddatblygu, cynnal peilot yn rhanbarthol a gweithredu dulliau systematig ac arloesol o nodi pobl ifanc sy'n NEET neu mewn perygl o fod felly. Dechreuwyd ar ddarn o waith i adolygu tystiolaeth ymchwil ynglŷn â nodweddion

pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET, ond ni chwblhawyd hwnnw;

- Nid oedd unrhyw weithgaredd i ddatblygu systemau Cymru gyfan ar gyfer Cadw mewn Cysylltiad â phobl ifanc sy'n NEET, dim ond darn o ymchwil ac ymgynghori ag awdurdodau lleol a chynnal peilot o ddulliau gwahanol, ac ni fu unrhyw weithgarwch dilynol i hwnnw, ac ni chafodd ei ledaenu ychwaith;
- Mae'r gweithgareddau a gyflwynwyd i weithwyr proffesiynol a phobl ifanc yn berthnasol i nodau ac amcanion y prosiect, er bod y gweithgareddau cadarnhaol i bobl ifanc yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgareddau'n seiliedig ar y celfyddydau, cyfranogiad a dinasyddiaeth. Nid oedd unrhyw weithgareddau chwaraeon.
- Ychydig iawn o weithgareddau oedd ar gael sy'n cynnig profiadau i bobl ifanc ddefnyddio sgiliau a ddysgwyd mewn profiad yn gysylltiedig  â gwaith, ac nid oedd unrhyw weithgareddau'n darparu hyfforddiant yn benodol mewn sgiliau'n gysylltiedig â gwaith. Roedd y Ddraig Ffynci wedi bwriadu cynnig lleoliad profiad gwaith eu hunain a thrwy bartneriaid, ond dim ond ar raddfa fach iawn y digwyddodd hyn (nid yw'r union niferoedd yn hysbys); cyfranogodd saith o bobl ifanc mewn profiad gwaith drwy Achub y Plant; yn y prosiect Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid; fe wnaeth llawer o aelodau staff a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc geisio dod o hyd i gyfleoedd lleoliadau gwaith i droseddwyr ifanc gyda busnesau lleol. Adroddwyd ganddynt ei bod yn anodd sicrhau lleoliadau am nad oedd y rhan fwyaf o fusnesau, ar wahân i ychydig o fusnesau mawr gyda pholisïau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol sefydledig, eisiau cyfranogi. Nid oes data ar gael ar niferoedd y bobl ifanc a gwblhaodd leoliadau.
- O ystyried pwysigrwydd gwirfoddolwyr wrth gyflwyno gwasanaethau ieuenctid (sy'n cynyddu wrth i gyllidebau ar gyfer gwasanaethau ieuenctid gael eu hymestyn), ychydig o weithgareddau oedd yn canolbwyntio ar adeiladu gallu gwirfoddolwyr neu ar gefnogi

sefydliadau y sector gwirfoddol a chymdeithasol i ddatblygu’u seilwaith gwirfoddolwyr;

- Ychydig iawn o weithgareddau a gyflwynwyd a oedd yn mynd ati i adnabod a lledaenu enghreifftiau o arfer da, er bod rhai gweithgareddau (gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau a gyflwynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a’r prosiect Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid) wedi bod yn destun gwerthusiad allanol annibynnol, a gyfrannodd at y nod hwn;
- Mae gweithgareddau sydd wedi’u cynllunio’n amlwg i gyfrannu at ddarparu cymorth penodol ac wedi’i deilwra i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid (sef un o amcanion penodol y cynllun busnes) ond cyfran fach o’r gweithgarwch cyffredinol oedd y rhain.

4.22 Mae’r gweithgareddau yn gymharol gydnaws â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru oherwydd:

- Mae’r rhan fwyaf o weithgareddau i weld yn berthnasol ac yn briodol i bolisi gwasanaethau ieuenctid Llywodraeth Cymru, sef *Ymestyn Hawliau* a *Chynllun Ymgysylltu Ieuenctid a Chynllun Gweithredu Ieuenctid,* yn eu bod yn mynd i’r afael ag amcanion allweddol yn y polisïau hyn, fel: darparu cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch; adeiladu gallu pobl ifanc i ddod yn annibynnol, i wneud dewisiadau a chyfranogi yn y broses ddemocrataidd; a darparu gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel.
- Gweithgareddau sy’n canolbwyntio ar bobl ifanc mewn perygl o fod yn NEET neu a oedd yn NEET yn unol ag amcanion *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru,* sef ymagwedd strategol Llywodraeth Cymru at leihau nifer y bobl ifanc NEET yng Nghymru; er mai ychydig o weithgarwch oedd yn canolbwyntio ar ennill sgiliau’n gysylltiedig â gwaith, a dim gweithgarwch o gwbl i ddylunio a gweithredu system genedlaethol ar gyfer nodi a Chadw mewn Cysylltiad â phobl ifanc NEET.
- Ni chafodd nifer o weithgareddau a restrwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol eu cynnal. Mae cyfweliadau gyda chyd-noddwyr yn


awgrymu mai'r prif reswm am beidio â chynnal gweithgareddau wedi'u cynllunio oedd y penderfynwyd, ar ôl yr adroddiad gwerthuso interim, pan wnaed ymdrech sylweddol i ailadrodd pa bobl ifanc ddylid eu targedu, nad oedd rhai gweithgareddau a gynlluniwyd yn briodol mwyach. Am nad oedd costau ynghlwm â gweithgareddau penodol yn y cynllun busnes, nid oes modd asesu graddfa'r cyflwyno a gynlluniwyd ac na ddigwyddodd neu a addaswyd i fod â ffocws gwahanol iawn. Mae'r prif weithgareddau na chafodd eu cynnal yn Troedle Cyntaf wedi'u rhestru yn 0.

Cyflwyno'n uniongyrchol neu o dan is-gontract

**Yn Troedle Cyntaf, roedd cyfanswm o ryw 130 o gontractau, yn amrywio o tua £1,450 mewn o tua £1,450 mewn gwerth i dros £750,000 (ar gyfer y rhaglen Gweithiwr Trosglwyddo Trosglwyddo Allweddol). Gwerth y contract moddol oedd £25,000 a'r canolrif oedd £39,626, gan canolrif oedd £39,626, gan ddynodi bod nifer gymharol uchel o gontractau gwerth isel. Aeth bron gontractau gwerth isel. Aeth bron i hanner cyfanswm y gwariant ar weithgarwch wedi'i is-weithgarwch wedi'i is-gontractio i sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, gyda'r chymunedol, gyda'r gweddill yn cael ei rannu'n gymharol gyfartal rhwng sefydliadau'r sector sefydliadau'r sector preifat, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach (AB) / addysg uwch bellach (AB) / addysg uwch (AU) (**

4.23 Ffigur 9).

**Ffigur 9 Troedle Cyntaf – cyfran o gyfanswm y gwariant ar weithgarwch wedi'i is-gontractio yn ôl math o sefydliad**




Ffynhonnell: Cynlluniau busnes noddwyr, dogfennau mewnol, cyfweliadau â noddwyr a data gwybodaeth reoli ychwanegol a gyflwynwyd yn Chwefror 2013.


Lleoliad Daearyddol

4.24 Gan nad yw gwybodaeth fonitro wedi'i chasglu ar lefel gweithgaredd, nid oes modd datgan pa un a yw pob gweithgaredd wedi'i gyflwyno ym mhob awdurdod lleol. Mae dadansoddiad o gyfranogwyr fesul awdurdod lleol o'r boblogaeth 11-19 oed[17] (Ffigur 10 isod) yn dangos bod cyfranogwyr yn Troedle Cyntaf o'r holl awdurdodau lleol yn yr ardal Gydgyfeirio, er bod amrywio sylweddol yn y niferoedd a chyfrannau. Er enghraifft, yng Ngheredigion ac Ynys Môn, roedd 160 o gyfranogwyr fesul 1,000 o'r boblogaeth 11-19 oed, ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chonwy, roedd tua 40.

4.25 Nid oes modd gwneud asesiad cadarn o'r rhesymau dros gymaint o amrywio gyda'r data sydd ar gael.

[17] Cyfrifiad 2011: Poblogaeth breswyl arferol yn ôl blwyddyn unigol oed a rhyw, Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rydym wedi defnyddio data awdurdodau lleol cyfranogol a gofnodwyd ar gronfa ddata'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd ar gyfer y dadansoddiad hwn.

**Ffigur 10 Troedle Cyntaf – cyfranogwyr yn ôl awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth 11-19 oed**




Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Mehefin 2013

4.26 Fe wnaeth pob un o'r cyd-noddwyr gyflwyno ym mhob awdurdod lleol, ond fel y dengys **Error! Reference source not found.**:

- Gweithiodd Plant yng Nghymru gyda nifer gymharol fach o gyfranogwyr yng Nghaerffili (3), Ceredigion (4), Conwy (3) a Merthyr Tudful (2);
- Gweithiodd Achub y Plant gyda nifer gymharol fach o gyfranogwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot (13) a Chonwy (20) ond llawer mwy o gyfranogwyr yn Sir Ddinbych (164) a RhCT (289);
- Ychydig o gyfranogwyr oedd gan y Ddraig Ffynci yn Nhorfaen (86), Sir Gaerfyrddin (92) a Chastell-nedd Port Talbot (161) tra bod cryn nifer yn fwy o Gaerffili (954) a Rhondda Cynon Taf (494);
- Roedd nifer gymharol fach o gyfranogwyr gan Gyngor Celfyddydau Cymru yng Nghonwy (152) a Gwynedd (334) ond nifer gryn dipyn yn fwy ar Ynys Môn (833), Ceredigion (997) a Sir Gaerfyrddin (1021); ac
- Ni wnaeth gweithgaredd y Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol gofnodi unrhyw gyfranogwyr yng Nghonwy, Sir Ddinbych na Chastell-nedd Port Talbot, a chofnododd un cyfranogwr yn unig yn Abertawe.

**Tabl 15 Troedle Cyntaf - cyfranogwyr fesul awdurdod lleol yn ôl cyd-noddwr**

| Cyd-noddwr | Cyngor Celfyddydau Cymru | Plant yng Nghymru | Y Ddraig Ffynci | Achub y Plant | AdAS (Gweithwyr Trosglwyddo Allweddol) | AdAS (Prosiect Cyfiawnder Troseddol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 607 | 28 | 124 | 52 | 28 | 44 | **883** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 132 | 17 | 286 | 53 | 14 | 125 | **627** |
| Caerffili | 407 | 3 | 954 | 155 | 2 | 80 | **1601** |
| Sir Gaerfyrddin | 1021 | 35 | 92 | 71 | 36 | 99 | **1354** |
| Ceredigion | 997 | 4 | 382 | 156 | 51 | 68 | **1658** |
| Conwy | 152 | 3 | 285 | 20 | - | 70 | **530** |
| Sir Ddinbych | 324 | 40 | 296 | 164 | - | 107 | **931** |
| Gwynedd | 334 | 45 | 234 | 100 | 10 | 61 | **784** |
| Ynys Môn | 833 | 36 | 379 | 90 | 10 | 3 | **1351** |
| Merthyr Tudful | 209 | 2 | 179 | 59 | 10 | 60 | **519** |
| Castell-nedd Port Talbot | 514 | 14 | 161 | 13 | - | 33 | **735** |
| Sir Benfro | 543 | 13 | 400 | 57 | 1 | 86 | **1100** |
| Rhondda Cynon Taf | 749 | 18 | 494 | 289 | 13 | 108 | **1671** |
| Abertawe | 1373 | 52 | 417 | 252 | 1 | 106 | **2201** |
| Torfaen | 556 | 21 | 86 | 45 | 7 | 36 | **751** |
| **Cyfanswm** | **8770** | **331** | **4770** | **1578** | **183** | **1086** | **16718** |

Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Mehefin 2013

*Llwybrau i'r Brig*

<u>Mathau o weithgaredd</u>

- Roedd Llwybrau i'r Brig yn canolbwyntio ar gyflwyno gweithgareddau'n uniongyrchol i bobl ifanc; defnyddiwyd cyfran fach iawn o'r gwariant (llai na 0.5%) i gyflwyno gweithgareddau ar gyfer

gweithwyr proffesiynol[18]. O ganlyniad, gwariwyd dros £11 miliwn ar weithgareddau i bobl ifanc. Fel y dangosir yn


[18] Rydym wedi categoreiddio'r prosiect Prentisiaeth Gwaith Ieuenctid dan arweiniad AdAS fel gweithgaredd a gyflwynwyd i bobl ifanc yn hytrach na hyfforddiant i weithwyr proffesiynol. Dylid nodi, fodd bynnag, mewn ychydig o awdurdodau lleol, bod y prentisiaid yn bobl ifanc 16-19 oed, tra'u bod yn bobl hŷn a oedd eisoes yn gweithio yn y sector ieuenctid mewn awdurdodau eraill.

Ffigur 11, gan adlewyrchu'r dyraniad cyllid i'r Urdd, roedd dros draean y gwariant ar gyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol i bobl ifanc, gan gynnwys chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, profiadau preswyl, drama a'r celfyddydau;

- Gwariwyd bron i hanner cyfanswm y gwariant ar weithgareddau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad[19] (yn bennaf ar gyfer CLIC a'r gwasanaethau pwrpasol a ddarparwyd gan SNAP Cymru);
- Rhannwyd gweddill y gwariant yn bennaf rhwng gweithgareddau perfformio, y celfyddydau gweledol a chrefftau (a gyflwynwyd gan Cerdd Gymunedol Cymru), gweithgareddau STEM a gyflwynwyd gan Techniquest, a dysgu seiliedig ar waith (y rhaglen Prentisiaeth Ieuenctid).

[19] Wrth ddatblygu'r deipoleg hon, rydym wedi categoreiddio gweithgareddau y mae eu prif ffocws ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad, fel gwefan CLIC a'r cymorth a ddarparwyd gan SNAP Cymru, fel gweithgareddau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Mae rhai achosion o orgyffwrdd anochel, serch hynny, yn y categorïau a ddatblygwyd gennym. Er enghraifft, roedd llawer o weithgareddau yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad fel rhan o becyn eang o weithgareddau cymorth ac ymgysylltu, fel yr Urdd. Yn yr achosion hyn, roedd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn ffocws eilaidd, ac nid yw'r gweithgaredd felly wedi'i gategoreiddio fel gweithgaredd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, er bod hyn yn nodwedd bwysig o'r gweithgaredd o hyd.

**Ffigur 11 Llwybrau i'r Brig – cyfran o'r gyllideb a wariwyd ar fathau gwahanol o weithgareddau**




Ffynhonnell: Cynlluniau busnes noddwyr, dogfennau mewnol, cyfweliadau â noddwyr a data gwybodaeth reoli ychwanegol a gyflwynwyd yn Chwefror 2013.

4.27 O ran nodau Llwybrau i'r Brig mae (

Tabl 15) yn dangos y canlynol:

- Bod y gweithgareddau yn berthnasol i rai o nodau ac amcanion y prosiect, ond nid bob un ohonynt, a bod bylchau sylweddol o ran gweithgareddau yn cyfrannu at yr amcanion o gyflwyno profiad o fath profiad gwaith (yn gysylltiedig â chyflogwyr a diwydiannau allweddol) a chynyddu llythrennedd ariannol;
- Roedd llawer o'r gweithgareddau, fel gyda Troedle Cyntaf, yn canolbwyntio ar y celfyddydau perfformio (y gweithgareddau'n cael eu cyflwyno gan Cerdd Gymunedol Cymru, ac i ryw raddau, yr Urdd). Mae natur y gweithgareddau hyn yn gymharol debyg i rai gweithgareddau a gyflwynwyd gan Troedle Cyntaf trwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Nid yw'n glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng y gweithgareddau'n canolbwyntio ar y celfyddydau yn y ddau brosiect o ran y deilliannau disgwyliedig.

## Tabl 15 Llwybrau i’r Brig – Asesiad o ba mor briodol oedd y gweithgareddau i nodau’r prosiect

| **Nod y prosiect (fel y’i rhestrwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol)** | **Asesiad o ba un a yw’r gweithgareddau yn berthnasol i’r nod** |
|---|---|
| Datblygu ystod o wybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth i bobl ifanc ar ddysgu, gyrfaoedd a materion ffordd o fyw | Y prif weithgareddau sy’n cyfrannu at y nod hwn yw gwefan CLIC a chyngor a chymorth pwrpasol yn cael eu darparu gan SNAP Cymru. |
| Gwella Cymorth Personol a Chymorth Anogwr Dysgu i gynorthwyo pobl ifanc i wneud penderfyniadau a lleoli cyfleoedd i ddysgu a chaffael sgiliau | Datblygwyd modiwl hyfforddi Lefel 3 a 4 ar gyfer Anogwyr Dysgu i weithwyr proffesiynol syn’ darparu hyfforddiant dwys i bobl ifanc NEET, a threfnwyd ei fod ar gael, ond ni chafwyd unrhyw gyllid ychwanegol i’w weithredu nac ar gyfer gweithgarwch dilynol. |
| Hyrwyddo diddordeb a niferoedd sy’n astudio pynciau STEM a dewisiadau gyrfa yn y dyfodol yn ymwneud â’r rhain | Mae gweithgareddau Techniquest yn cyfrannu at y nod hwn – er, fel yr amlygwyd uchod – roedd tanwariant sylweddol ar gyfer y gweithgaredd hwn. |
| Datblygu a chyflwyno hyfforddiant ac adnoddau sy’n hyrwyddo sgiliau sylfaenol cymhwysol ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys meysydd fel rheoli cyllidebau drwy lythrennedd/gallu ariannol | Comisiynwyd datblygu adnoddau gan AdAS, i’w defnyddio gan athrawon a gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ieuenctid eraill, ond ni chyflwynwyd unrhyw weithgareddau i bobl ifanc. |
| Cyflwyno ystod o ymyriadau i bobl ifanc sy’n debygol o dangyflawni er mwyn sicrhau y gallant gyflawni lefel cymhwyster uwch trwy lwybrau dysgu newydd, yn cynnwys cerddoriaeth | Mae gweithgareddau a gyflwynwyd gan Cerdd Gymunedol Cymru, a chan yr Urdd i ryw raddau, yn cyfrannu at hyn. |
| Creu ystod o gyfleoedd newydd i bobl ifanc ymgymryd â phrofiad tebyg i brofiad gwaith a dysgu sgiliau y gellir eu defnyddio naill ai mewn dysgu pellach neu gyflogaeth (yn gysylltiedig â chyflogwyr allweddol a diwydiant) | Roedd gweithgareddau â ffocws ar brofiad o fath profiad gwaith yn gyfyngedig. Roedd gweithgareddau Cerdd Gymunedol Cymru’n gofyn i bobl ifanc gymhwyso’u sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn gweithgaredd yn seiliedig ar gerdd (er enghraifft, cynllunio cyngerdd), ac roedd gweithgareddau Techniquest yn gofyn iddynt gymhwyso gwyddoniaeth, llythrennedd a rhifedd i senarios bywyd go iawn, fel cynllunio cyngerdd pop neu wagio ardal oherwydd trychineb naturiol. Bu ychydig o gysylltiadau gyda chyflogwyr. Adroddodd Techniquest bod 29 o gyflogwyr wedi ymgysylltu â darparwyr addysg a hyfforddiant, ac roedd un o weithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru’n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ymweld â busnesau lleol yn y diwydiannau creadigol.. |
| Hyrwyddo nodi a rhannu arfer da | Mae noddwyr unigol wedi mynd ati i rannu arfer da i raddau amrywiol (gweler Pennod 7 ar ‘Gwerth Ychwanegol, Gwaddol a Chynaliadwyedd’) |

Ffynhonnell: Cynlluniau busnes y prosiect, cynlluniau busnes cyd-noddwyr a chyfweliadau â noddwyr

4.28 Mae’r gweithgareddau’n gymharol gydnaws â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru:

- Mae gweithgareddau Techniquest yn cyfrannu at nodau’r *Strategaeth Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru* a *Gwyddoniaeth i Gymru* ar ôl hynny;
- Mae gweithgareddau Cymraeg yr Urdd ar gyfer ymgysylltu ieuenctid yn cyfrannu at Iaith pawb ac Iaith Fyw, Iaith Byw;
- Mae’r rhan fwyaf o weithgareddau i weld yn cyfrannu at *Ymestyn Hawliau* a’r *Cynllun Ymgysylltu a Gweithredu Ieuenctid* ar ôl hynny, er nad ydynt wedi cyfrannu rhyw lawer at *Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, strategaeth lleihau pobl ifanc NEET y llywodraeth, gyda’r niferoedd isel o bobl ifanc NEET yn cyfranogi mewn gweithgareddau.


4.29 Fel yn Troedle Cyntaf, ni chynhaliwyd rhai o’r gweithgareddau a restrwyd yn y cynllun busnes. Rhestrir y rhain yn 0. Roedd y rhesymau a ddarparwyd gan gyd-noddwyr Llwybrau i’r Brig yr un fath â’r rheiny a ddarparwyd gan noddwyr Troedle Cyntaf (gweler 4.22).

Cyflwyno gweithgareddau’n uniongyrchol neu o dan is-gontract

4.30 Yn bennaf o ganlyniad i’r contract mawr a ddyfarnwyd i sefydliad y sector preifat i gyflwyno gwefan CLIC, aeth pedair rhan o bump o’r cyfanswm gwariant ar isgontractwyr i sefydliadau’r sector preifat, gyda’r un rhan o bump arall yn cael ei rhannu rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol (Ffigur 12).

4.31 Dyfarnwyd llai o gontractau o dan Llwybrau i’r Brig (32) ond roedd gwerth y contract moddol yn £2,109, gan adlewyrchu nifer uchel o gontractau gwerth isel.

**Ffigur 12 Mathau o isgontractwyr Llwybrau i'r Brig**





Ffynhonnell: Cynlluniau busnes noddwyr, dogfennau mewnol, cyfweliadau â noddwyr a data gwybodaeth reoli ychwanegol a gyflwynwyd yn Chwefror 2013

Lleolid daearyddol

4.32 Yn Llwybrau i'r Brig, er bod yr amrywio ychydig yn llai nodedig nag yn Troedle Cyntaf, roedd llawer llai o gyfranogwyr fesul 1,000 o'r boblogaeth ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Sir Benfro. Eto, nid oes modd asesu beth yw'r rhesymau am hyn, ond mae'r amrywio'n sylweddol (Ffigur 13).

**Ffigur 13 Llwybrau i'r Brig – cyfranogwyr yn ôl awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth 11-19 oed**




Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Mehefin 2013

4.33 Fe wnaeth bob un o'r cyd-noddwyr gyflwyno ym mhob awdurdod lleol, ac eithrio prosiect prentisiaeth Gwaith Ieuenctid dan arweiniad AdAS nad yw wedi cofnodi cyfranogwyr yng Ngwynedd, Ynys Môn, Abertawe na Thorfaen, ac sydd ond yn cofnodi un cyfranogwr yng Nghaerffili (Tabl 16).

4.34 Gan adlewyrchu adnoddau ychwanegol a oedd ar gael yn Rhondda Cynon Taf (RhCT), bu'r Urdd yn arbennig o lwyddiannus yn cyrraedd niferoedd mwy o bobl ifanc yn yr awdurdod lleol (1,289) nag mewn mannau eraill.

4.35 Mae'r amrywiadau yn eithaf sylweddol. Er enghraifft:

- Roedd gan Cerdd Gymunedol Cymru lai nag 20 o gyfranogwyr mewn pum awdurdod lleol, a dros 50 mewn pedwar awdurdod (109 yng Ngwynedd);
- Roedd gan SNAP Cymru nifer gymharol fach o gyfranogwyr yng Ngheredigion (49) a Sir Benfro (53), o gymharu ag Abertawe (188) a RhCT (192);
- Roedd gan Techniquest niferoedd cymharol fach ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol gorllewinol a gogleddol (ac eithrio Sir

Ddinbych) a niferoedd mawr iawn yn Abertawe (1,641) a RhCT (2,675);

- Fel y gellid fod wedi disgwyl, roedd gan yr Urdd niferoedd bach mewn ardaloedd fel Blaenau Gwent (64) a Thorfaen (157) ond niferoedd uwch mewn ardaloedd fel Rhondda Cynon Taf (1,289), Pen-y-bont ar Ogwr (633) yn ogystal â Gwynedd (689).

4.36 Bydd rhai gwahaniaethau'n adlewyrchu cydweithrediad awdurdodau lleol lle'r oedd yn rhaid i'r gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion.

**Tabl 16 Llwybrau i'r Brig – Cyfranogwyr fesul awdurdod lleol yn ôl cyd-noddwr**

| Cyd-noddwr | Cerdd Gymunedol Cymru | Snap Cymru | Techniquest | Urdd Gobaith Cymru | AdAS-Prosiect Prentisiaeth Gwaith Ieuenctid | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 13 | 130 | 113 | 64 | 3 | **323** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 105 | 740 | 633 | 69 | **1,554** |
| Caerffili | 7 | 132 | 201 | 361 | 1 | **702** |
| Sir Gaerfyrddin | 16 | 103 | 135 | 422 | 285 | **961** |
| Ceredigion | 56 | 49 | 147 | 325 | 200 | **777** |
| Conwy | 37 | 82 | 177 | 243 | 14 | **553** |
| Sir Ddinbych | 49 | 77 | 537 | 322 | 9 | **994** |
| Gwynedd | 109 | 111 | 275 | 689 | - | **1,184** |
| Ynys Môn | 51 | 92 | 40 | 162 | - | **345** |
| Merthyr Tudful | 10 | 91 | 410 | 187 | 23 | **722** |
| Castell-nedd Port Talbot | 11 | 157 | 396 | 312 | 192 | **1,068** |
| Sir Benfro | 25 | 53 | 102 | 167 | 119 | **466** |
| Rhondda Cynon Taf | 48 | 192 | 2675 | 1289 | 132 | **4,336** |
| Abertawe | 84 | 188 | 1641 | 353 | | **2,266** |
| Torfaen | 29 | 131 | 107 | 157 | | **424** |
| **Cyfanswm** | **555** | **1,693** | **7,696** | **5,723** | **1,049** | **16,717** |

Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Mehefin 2013

**Themâu trawsbynciol**

*Troedle Cyntaf*

Cyfle cyfartal

4.37 Roedd cynllun busnes prosiect Troedle Cyntaf yn datgan y byddai'n mynd i'r afael â thema drawsbynciol cyfle cyfartal drwy:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws yr holl weithgareddau yn unol â'r arweiniad a ddarparwyd gan WEFO;
- Cynnal peilot o ddulliau arloesol o ymgysylltu â phobl ifanc o grwpiau penodol, gan gynnwys y rhai ag anableddau, y rhai yn y system cyfiawnder troseddol, gofalwyr ifanc a phobl ifanc sy'n NEET;
- Sicrhau bod yr holl hyfforddiant a ddarparwyd drwy'r prosiect yn herio stereoteipiau rhyw. Er enghraifft, o ran gweithgareddau'n seiliedig ar gerddoriaeth, byddai'r prosiect yn herio'r canfyddiad fod cerddoriaeth yn ddiwydiant a reolir gan ddynion. Bwriadwyd hefyd y byddai'r gweithgareddau dinasyddiaeth yn amlygu mai nifer gymharol fach o fenywod sy'n cyfranogi mewn gwleidyddiaeth;
- Gofyn am gyngor gan sefydliadau arbenigol i sicrhau bod addasiadau priodol yn cael eu gwneud i weithgareddau er mwyn hwyluso cyfranogiad pobl ifanc anabl;
- Cynhyrchu dogfennaeth i'r prosiect a oedd ar gael i bob unigolyn ifanc;
- Sefydlu polisi cyfle cyfartal i'r prosiect a oedd yn gyson â pholisïau cyfle cyfartal unigol y cyd-noddwyr unigol.

4.38 Am nad oes data gwybodaeth reoli wedi'i gasglu ar lefel gweithgareddau, nid oes modd dod o hyd i gasgliadau cadarn ynghylch pa mor effeithiol y mae pob un o'r nodau ac amcanion yn ymwneud â chyfle cyfartal wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, mae gwybodaeth reoli'r prosiect yn dangos bod Troedle Cyntaf wedi llwyddo o ran ymgysylltu â'r grwpiau difreintiedig penodol y soniwyd amdanynt yn y cynllun busnes, a

chefnogi pobl ifanc â rhwystrau amrywiol rhag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn cynnwys pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig â mynediad cyfyngedig at wasanaethau, cyn-droseddwyr a'r rhai â lefelau llythrennedd a rhifedd isel (gweler paragraff 4.10 a Thabl 11).

4.39 Mae cyfweliadau â chyd-noddwyr, yr ymchwil astudiaethau achos a hefyd adolygiad o'r adroddiadau cynnydd ansoddol a ddarparwyd gan y cyd-noddwyr i Lywodraeth Cymru yn rhoi rhywfaint o gipolwg hefyd i'r ffyrdd yr aethpwyd i'r afael â chyfle cyfartal. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod y nodau yn y cynllun busnes mewn perthynas â chyfle cyfartal wedi'u cyflawni i gryn raddau.

4.40 Roedd y rhan fwyaf o noddwyr Troedle Cyntaf o'r farn fod cyfle cyfartal yn "*rhan annatod"* o'u gweithgareddau am eu bod yn targedu pobl ifanc difreintiedig ac yn ymdrechu i roi iddynt yr un cyfleoedd â phobl ifanc eraill. Fe wnaeth Plant yng Nghymru a'r prosiect Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol, er enghraifft, amlygu bod eu ffocws ar bobl ifanc anabl a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

4.41 Aeth llawer o noddwyr Troedle Cyntaf ati i ddefnyddio testun cyfle cyfartal fel sail eu gweithgareddau gyda phobl ifanc. Er enghraifft, fel rhan o'r gweithdai Dinasyddiaeth Weithgar, bu'r Ddraig Ffynci yn trafod testun stereoteipiau gyda phobl ifanc, ac mewn rhai achosion, gofynnodd i bobl ifanc wneud ffilmiau byr am stereoteipio.

4.42 Mae nifer o weithgareddau Troedle Cyntaf wedi mabwysiadu dull cyfranogol at ddylunio a chyflwyno gweithgareddau. Er enghraifft, adroddodd Achub y Plant eu bod, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle cyfartal i gyfranogi mewn penderfyniadau, wedi sefydlu panel ieuenctid i wneud penderfyniadau ynghylch sut ddylai cyllid gael eu dyrannu a sut fath o weithgareddau ddylid eu darparu. Ymgynghorodd y prosiect Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid â phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig a oedd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid i ganfod barnau pobl ifanc ar sut gallai'r cymorth a ddarperir gael ei wella a'i ddatblygu.

4.43 Roedd gan bob un o'r noddwyr bolisïau cyfle cyfartal ar waith a oedd yn sail i'w gwaith. Roedd disgwyl i isgontractwyr gydymffurfio â'r rhain.

4.44 Ar hyn o bryd ychydig o dystiolaeth sydd fod mynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol fel rhan o Cyrraedd y Nod wedi arwain at sefydliadau noddi yn cymhwyso'r themâu trawsbynciol yn gynyddol mewn meysydd gwaith eraill.

Cynaliadwyedd amgylcheddol

4.45 Roedd cynllun busnes y prosiect yn datgan y byddai'n mynd i'r afael â thema drawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol drwy:

- Sicrhau bod yr holl weithgareddau yn y prosiect yn cynyddu ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol ymhlith pobl ifanc;
- Pob un o'r noddwyr yn gwneud ymdrechion i leihau gwastraff, ailddefnyddio deunyddiau a lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio;
- Cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol fel un o'r meini prawf i asesu gweithgareddau yn ei erbyn yn ystod unrhyw broses dendro.

4.46 Eto, oherwydd diffyg gwybodaeth reoli ar lefel gweithgareddau, nid oes modd gwneud asesiad o ba weithgareddau wnaeth ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol yn effeithiol. Mae cyfweliadau gyda chyd-noddwyr ac ymchwil astudiaethau achos, serch hynny, yn dynodi'r mesurau canlynol i fynd i'r afael â thema cynaliadwyedd amgylcheddol:

- Roedd gan bob un o'r cyd-noddwyr bolisïau cynaliadwyedd amgylcheddol yn eu lle, ac roedd disgwyl i staff ac isgontractwyr gydymffurfio â nhw. Roedd lleihau gwastraff papur a lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio yn elfennau allweddol o'r polisïau;
- Rhoddodd llawer o'r noddwyr enghreifftiau hefyd o weithgareddau a oedd yn ymwneud â materion yn gysylltiedig â'r amgylchedd lleol. Er enghraifft:
  - Roedd un o ddarparwyr dan gontract Cyngor Celfyddydau Cymru yn anelu i weithio gyda phobl ifanc a meithrin balchder yn eu hardal leol drwy wneud cymdogaethau yn fwy glân, yn fwy diogel ac yn fwy gwyrdd. Cymerodd bobl ifanc ran mewn gweithgaredd plannu coed a gwneud ffilmiau am broblemau amgylcheddol lleol;

- Roedd prosiect Sicrhau Newid Achub y Plant yn gofyn i bobl ifanc ddewis mater yn eu hardal leol yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddo. Er enghraifft, roedd un grŵp o bobl ifanc yn Ne Cymru yn pryderu ynghylch chwistrellau'n cael eu gollwng ar eu traeth lleol. Rhoddwyd cymorth i'r bobl ifanc wneud posteri a ffilmiau, cyfweld â thrigolion lleol eraill ynglŷn â'u barnau am y broblem, ac yna cyflwyno'u canfyddiadau i gyrff penderfynu lleol.

*Llwybrau i'r Brig*

Cyfle Cyfartal

4.47 Roedd cynllun busnes prosiect Llwybrau i'r Brig yn datgan y byddai'n mynd i'r afael â thema drawsbynciol cyfle cyfartal drwy:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws yr holl weithgareddau yn unol â'r arweiniad a ddarparwyd gan WEFO;
- Cynnal peilot o ddulliau arloesol o ddarparu gwybodaeth a chyngor a chyfleoedd ehangach i bobl ifanc ddysgu, ac wrth wneud hynny cael gwared ar y rhwystrau rhag dysgu a chreu annibyniaeth;
- Cefnogi datblygu gweithwyr proffesiynol er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc dan anfantais;
- Sefydlu polisi cyfle cyfartal i'r prosiect a oedd yn gyson â pholisïau cyfle cyfartal unigol y cyd-noddwyr unigol.
- Herio anghydraddoldeb rhyw yn y gweithle, yn enwedig mewn perthynas â phroffesiynau STEM. Bwriadwyd y byddai Techniquest yn cyflwyno sesiynau i ferched yn unig;
- Gofyn am gyngor gan sefydliadau arbenigol i sicrhau bod addasiadau priodol yn cael eu gwneud i weithgareddau er mwyn hwyluso cyfranogiad pobl ifanc anabl;
- Cynhyrchu dogfennaeth i'r prosiect a oedd ar gael i bob unigolyn ifanc.

4.48 Fel gyda Troedle Cyntaf, mae diffyg gwybodaeth reoli ar lefel gweithgareddau yn golygu nad oes modd asesu'n llawn pa un a yw'r nodau ac amcanion hyn wedi'u bodloni. Mae'r wybodaeth reoli ar yr

ystod eang o grwpiau difreintiedig a gymerodd ran yn y prosiect yn awgrymu bod y prosiect wedi llwyddo o ran rhoi lle canolog i gyfle cyfartal yn y gweithgareddau. Ategir hyn gan gyfweliadau â chyd-noddwyr, yr ystyriai bob un ohonynt mai nod allweddol eu gwaith oedd cynnig cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol i bobl ifanc ddifreintiedig na fyddent fel arall yn cael yr un cyfleoedd â rhai eraill.

4.49 Mae cyfweliadau â chyd-noddwyr ac ymchwil astudiaethau achos yn dangos hefyd:

- Bod polisi cyfle cyfartal gan bob un o'r noddwyr ar waith, a bod disgwyl i staff ac isgontractwyr gydymffurfio ag ef;
- Cyflwynwyd hyfforddiant i weithwyr proffesiynol i wella'u sgiliau o ran cefnogi grwpiau difreintiedig;
- Cyflwynodd Techniquest raglen o weithdai STEM i ferched yn unig.

4.50 Mae hyn yn awgrymu bod y nodau ac amcanion yn y cynllun busnes yn ymwneud â chyfle cyfartal wedi'u bodloni i gryn raddau.

<u>Cynaliadwyedd amgylcheddol</u>

4.51 Roedd cynllun busnes y prosiect yn datgan y byddai'n mynd i'r afael â thema drawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol drwy:

- Sicrhau bod yr holl weithgareddau yn y prosiect yn cynyddu ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol ymhlith pobl ifanc;
- Pob un o'r noddwyr yn gwneud ymdrechion i leihau gwastraff, ailddefnyddio deunyddiau a lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio;
- Cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol fel un o'r meini prawf i asesu cynigion i ddarparu gweithgareddau yn ei erbyn yn ystod unrhyw brosesau tendro;
- Gwella dealltwriaeth pobl ifanc o faterion amgylcheddol fel rhan o raglen allgymorth STEM Techniquest. Bwriadwyd y byddai gweithdai allgymorth STEM yn gwella dealltwriaeth pobl ifanc o lygredd, effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gweithgareddau lleihau carbon, atebion ynni amgen, gyrfaoedd amgylcheddol, ac y byddent yn cynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o arferion cynaliadwy;

- Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn profiad gwaith a gwirfoddoli amgylcheddol.

4.52 Ni allwn asesu pa un a yw'r holl weithgareddau wedi ymgorffori thema cynaliadwyedd amgylcheddol ond mae cyfweliadau gyda chyd-noddwyr ac ymchwil astudiaethau achos y dynodi:

- Bod pob un o'r noddwyr yn ymwybodol o'r gofynion i leihau gwastraff, ailddefnyddio deunyddiau a lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio, ac adroddwyd eu bod wedi gwneud ymdrechion i wneud hyn, a bod gan bob un o'r noddwyr bolisïau cefnogol yn eu lle.
- Datblygodd Techniquest weithdai a oedd yn canolbwyntio ar faterion cynaliadwyedd amgylcheddol. Er enghraifft, roedd gweithdy o'r enw Maint Cymru yn archwilio testun fforestydd glaw yn lleihau yn Affrica ac effeithiau hyn ar fywyd bob dydd yng Nghymru. Trwy drafodaethau wedi'u hwyluso, bu'r bobl ifanc yn ystyried effeithiau eu dewisiadau personol ar yr amgylchedd. Mae tystiolaeth gyfyngedig, er hynny, fod hyn wedi arwain at wybodaeth a dealltwriaeth well ymhlith pobl ifanc neu newid yn eu hymddygiad.

4.53 Nid ymddengys bod y nod o ddarparu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith mewn sefydliadau amgylcheddol wedi'i gyflawni, ac nid oes fawr o dystiolaeth ar hyn o bryd fod cyd-noddwyr wedi newid eu harfer mewn perthynas â chynaliadwyedd amgylcheddol ymhellach na gweithgareddau'r prosiect.

**Crynodeb**

- Bu tanwariant sylweddol ym mhrosiect Cyrraedd y Nod: roedd y gyllideb bron yn £50 miliwn i gychwyn, ond y gwariant terfynol oedd £29 miliwn.
- Llwyddodd y prosiectau i gyflawni eu targedau trwybwn cyffredinol: fe wnaeth cyfanswm o dros 31,000 o bobl ifanc  gyfranogi yn Cyrraedd y Nod (15,974 o bobl ifanc yn Troedle Cyntaf a 15,786 o bobl ifanc yn Llwybrau i'r Brig).

- Fodd bynnag, bu anawsterau wrth dargedu: cymerodd nifer sylweddol yn llai o bobl ifanc NEET ran mewn gweithgareddau na'r disgwyl (roedd rhyw bumed o gyfranogwyr yn bobl ifanc NEET o gymharu â'r targed gwreiddiol ar gyfer bron i hanner y bobl ifanc i fod yn NEET); yn Troedle Cyntaf, cymerodd gyfran uwch o bobl ifanc 11-13 oed na'r disgwyl ran (y targed gwreiddiol oedd 30% (5,130 o bobl ifanc) o gymharu â'r 40% (6,457 o bobl ifanc) a gymerodd ran mewn gwirionedd); a gallai'r ddau brosiect fod wedi bod yn fwy effeithiol o ran targedu lleiafrifoedd ethnig. Mae'r ddau brosiect wedi ymgysylltu'n gymharol effeithiol â phobl ifanc anabl.
- Nid oedd perfformiad yn erbyn targedau yn gyson ar draws noddwyr, gyda rhai yn gorgyflawni'n sylweddol yn erbyn dangosyddion penodol a rhai yn tangyflawni'n sylweddol. Mae hyn yn awgrymu nad oedd y targedau bob amser yn briodol ar gyfer y gweithgareddau.
- Rhagorwyd ar y targed ar gyfer nifer y gweithwyr proffesiynol yn cael hyfforddiant, a hynny'n sylweddol (yn Troedle Cyntaf, cymerodd 1160 o weithwyr proffesiynol ran o gymharu â tharged o 500, ac yn Llwybrau i'r Brig, cymerodd dros 1000 o weithwyr proffesiynol ran, ac ni ddatganwyd unrhyw darged penodol).
- Roedd cyfranogwyr o bob un o'r awdurdodau lleol yn yr ardal Gydgyfeirio, ond mae amrywio sylweddol o hyd yn y niferoedd a'r cyfrannau.
- Mae rhai o'r nodau yn y cynllun busnes wedi'u cyflawni:

Yn Troedle Cyntaf, mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu a chyflwyno pecynnau hyfforddi mewn dulliau arloesol o ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol sy'n gyswllt llinell flaen gyda phobl ifanc;
- Darparu cymorth lleol ac arloesol i bobl ifanc, drwy ystod eang o weithgareddau.

Ac ar gyfer Llwybrau i'r Brig:

- Datblygu ystod o wybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth i bobl ifanc ar faterion yn ymwneud â dysgu, gyrfaoedd a materion ffordd o fyw (trwy wefan CLIC yn bennaf a gweithgareddau SNAP Cymru, er

yr ymgorfforwyd rhywfaint o wybodaeth ac arweiniad mewn llawer o weithgareddau)

- Datblygu adnoddau hyfforddi ar feysydd fel rheoli cyllidebau a gallu ariannol ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill
- Cyflwyno ystod o ymyriadau i bobl ifanc sy'n debygol o dangyflawni er mwyn sicrhau y gallant gyflawni lefel cymhwyster uwch trwy lwybrau dysgu newydd (trwy weithgareddau'n cael eu cyflwyno gan yr Urdd a Cerdd Gymunedol Cymru).
- Fodd bynnag, nid yw rhai nodau allweddol yn y cynlluniau busnes wedi'u cyflawni:

Ar gyfer Troedle Cyntaf, mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu, rhoi ar brawf a gweithredu dulliau systematig ac arloesol o adnabod pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl;
- Datblygu systemau Cymru gyfan ar gyfer Cadw mewn Cysylltiad â phobl ifanc NEET; a
- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymgymryd â rhaglenni hyfforddi byr mewn sgiliau'n gysylltiedig â gwaith a chymhwyso'r rhain trwy brofiad yn gysylltiedig â gwaith.

Ac ar gyfer Llwybrau i'r Brig:

- Cynyddu cyfleoedd ar gyfer profiad tebyg i brofiad gwaith sy'n gysylltiedig â chyflogwyr a diwydiannau.
- Ychydig o weithgareddau a aeth ati i geisio adnabod a lledaenu enghreifftiau o arfer da – sef un o nodau allweddol cynlluniau'r ddau brosiect. Bydd y gweithgareddau hynny a gafodd eu gwerthuso'n allanol (gweithgareddau a gyflwynwyd gan yr Urdd, SNAP Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid) yn cyfrannu'n rhannol at y nod hwn os caiff adroddiadau gwerthuso eu cylchredeg.
- Mae'r gweithgareddau a gyflwynwyd i weithwyr proffesiynol a phobl ifanc yn y ddau brosiect yn berthnasol yn gyffredinol i amcanion polisi *Ymestyn Hawliau* a'r *Cynllun Ymgysylltu Ieuenctid a'r Cynllun Gweithredu* dilynol, ond golyga'r niferoedd isel o bobl ifanc NEET a gymerodd ran mai cyfyngedig oedd y cyfraniad at *Darparu Sgiliau*

*sy'n Gweithio i Gymru*, sef strategaeth lleihau niferoedd NEET y llywodraeth.

- Ymddengys fod y nodau a'r amcanion a amlinellwyd yn y cynllun busnes mewn perthynas â thema drawsbynciol cyfle cyfartal wedi'u cyflawni i gryn raddau.
- Er nad oes modd gwneud asesiad llawn o ba un a yw'r holl weithgareddau wedi ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol yn effeithiol, mae nifer o enghreifftiau yn y ddau brosiect o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar faterion yn gysylltiedig â'r amgylchedd lleol. Nid yw un o nodau allweddol Llwybrau i'r Brig, sef cynnig y cyfle i bobl ifanc ymgymryd â lleoliadau gwaith a gwirfoddoli mewn sefydliadau amgylcheddol, wedi'i gyflawni.

# 5 Effeithiau Troedle Cyntaf

5.1 Yn yr adran hon aseswn ddeilliannau prosiect Troedle Cyntaf, gan ystyried y buddion i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn erbyn y deilliannau allweddol disgwyliedig, a amlinellwyd yn y model rhesymeg. Aseswn pa un a fu lefelau gwahanol o ddeilliannau ar gyfer grwpiau targed gwahanol, a chyn belled â phosibl, pa un a fu gweithgareddau penodol yn llwyddiannus o ran cyflawni deilliannau. Defnyddiwn gyfweliadau gyda chyd-noddwyr, ymchwil astudiaethau achos, adroddiadau diwedd prosiect, adroddiadau gwerthuso annibynnol (lle bônt ar gael) a’r holl wybodaeth reoli a oedd ar gael.

**Deilliannau a gyflawnwyd gan bobl ifanc**

5.2 Mae Tabl 18 yn asesu’r dystiolaeth a oedd ar gael ynglŷn â deilliannau tymor byr a thymor canolig a gyflawnwyd gan bobl ifanc (gweler Blwch 1 ym Mhennod 1), a gellir gweld y dystiolaeth yn ystod ac yn syth ar ôl gweithgareddau’r prosiect. Tueddfryd a sgiliau cymdeithasol a personol gwell yw’r deilliant y ceir y dystiolaeth gadarnaf ar ei gyfer. Er bod rhywfaint o dystiolaeth o’r deilliannau tymor canolig canlynol, mae’r dystiolaeth yn wan:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth well o hawliau;
- Cyfranogiad gwell mewn addysg a hyfforddiant; a’r
- Cymwysterau a enillwyd.

**Tabl 17 Troedle Cyntaf – asesiad o gryfder y dystiolaeth o feysydd deilliannau tymor byr a thymor canolig allweddol**

| | Tueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol gwell | Gwybodaeth a dealltwriaeth well o hawliau | Cyfranogiad gwell mewn addysg a hyfforddiant (yn cynnwys presenoldeb ac ymddygiad) | Cymwysterau a enillwyd |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | C | - | E | D |

| | Tueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol gwell | Gwybodaeth a dealltwriaeth well o hawliau | Cyfranogiad gwell mewn addysg a hyfforddiant (yn cynnwys presenoldeb ac ymddygiad) | Cymwysterau a enillwyd |
|---|---|---|---|---|
| Plant yng Nghymru | D | D | - | D |
| Y Ddraig Ffynci | D | D | - | D |
| Achub y Plant | D | D | - | D |
| Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol AdAS | C | - | E | D |
| Cyfiawnder Ieuenctid AdAS | C | - | D | D |

5.3 Yn gyffredinol nid oes unrhyw dystiolaeth ynglŷn â'r graddau y cynhaliwyd y deilliannau tymor byr a thymor canolig hyn ar ôl i bobl ifanc orffen gweithgareddau Troedle Cyntaf, p'un a yw caffael gwybodaeth, sgiliau a galluoedd wedi newid dyheadau, agweddau a bwriadau, a ph'un a ydynt wedi cyfrannu at gyflawni deilliannau, fel:

- Gwell presenoldeb yn yr ysgol neu'r coleg;
- Cyrhaeddiad addysgol gwell;
- Sgiliau sylfaenol gwell;
- Cynnal cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol neu ddiddordeb; a
- Dilyniant gwell i addysg bellach ac addysg uwch.

5.4 O ystyried mai dim ond yn gymharol ddiweddar y gwnaeth cyfran sylweddol o gyfranogwyr gwblhau gweithgareddau, ac y bwriadwyd i lawer o weithgareddau a gyflwynwyd yn Troedle Cyntaf ymgysylltu â phobl ifanc sy'n NEET yn y lle cyntaf - drwy newid agweddau at ddysgu a chymryd rhan - ni ddylem ddisgwyl gymaint o dystiolaeth eu bod wedi effeithio ar bresenoldeb a chyrhaeddiad ar hyn o bryd.

*Tueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol gwell*

**Datblygodd pobl ifanc ystod eang o sgiliau a thueddfryd personol a chymdeithasol o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys rhyngweithio ag oedolion a phobl ifanc eraill,**

**cymhelliant a chymryd rhan, annibyniaeth a pharch at eraill. Ar draws yr holl weithgareddau fe wnaeth cyd-noddwyr, staff cyflwyno, pobl ifanc a phartneriaid ddarparu llawer o enghreifftiau o bobl ifanc a oedd ag anawsterau sylweddol, pan wnaethant ymuno â gweithgareddau, o ran cyfathrebu ag oedolion a phobl ifanc eraill. I rai, yn enwedig pobl ifanc anabl, cyfyngedig fu anabl, cyfyngedig fu cyfleoedd blaenorol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau cymdeithasol a hamdden â phobl eraill. I rai eraill, er bod cyfleoedd ar gael, bod cyfleoedd ar gael, roeddent wedi'i chael yn anodd cynnal cyfranogiad ac adeiladu cyfranogiad ac adeiladu perthnasoedd cadarnhaol. O ran y bobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio oedd wedi ymddieithrio fwyaf roedd diffyg cymhelliant ganddynt i godi yn y bore a gadael eu y bore a gadael eu cartrefi. Ymddengys fod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau wedi helpu pobl gweithgareddau wedi helpu pobl ifanc i oresgyn yr heriau hyn a datblygu sgiliau personol a sgiliau personol a chymdeithasol. Rhoddir enghreifftiau yn Blwch 4, Blwch 5, Blwch 6 aBlwch 7 a**

5.5 Ffigur 14, isod.

**Blwch 4 Cymorth gweithiwr allweddol i wella tueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol ymhlith pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol**

Yn y rhaglen Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol, bu pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, a oedd yn teimlo'n unig iawn ac wedi ymddieithrio, yn cyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol gyda chyfoedion. Rhoddodd gweithwyr allweddol wybodaeth iddynt am beth oedd ar gael, a hefyd mynd gyda nhw hyd nes eu bod yn magu hyder i fynychu'n annibynnol. Roedd nifer o enghreifftiau lle'r oedd cludiant wedi bod yn rhwystr i bobl ifanc ac roedd gweithwyr allweddol wedi cymryd amser i 'ymarfer' siwrneiau fel bod y bobl ifanc yn teimlo'n hyderus i allu defnyddio cludiant cyhoeddus a dilyn y llwybr eu hunain. Roedd rhieni, gofalwyr a phobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cymorth ymarferol hwn ac adroddwyd ganddynt fod hyn, yn ogystal â gwella gallu'r bobl ifanc i gymdeithasu ag eraill, wedi lleihau straen ar y teulu[20]. Mae rhywfaint o dystiolaeth gan y gweithwyr prosiect fod pobl ifanc wedi parhau i fynychu gweithgareddau cymdeithasol a defnyddio cludiant yn annibynnol ers i'r cymorth ddod i ben.

**Blwch 5 Defnyddio gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau i wella tueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol**

Mewn llawer o weithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru, mae pobl ifanc wedi dysgu sgiliau i weithio mewn grwpiau. Mae hyn wedi arwain at allu gwell i gyd-dynnu â phobl eraill. Hefyd, o ganlyniad i'r hunan-barch a fagwyd, mae hyn wedi arwain at fwy o gymhelliant i gymryd rhan.

Yn sgil adolygiad o 30 o adroddiadau diwedd prosiect cyflwynwyd tystiolaeth o welliannau mewn gallu i ryngweithio ag eraill ymhlith pobl ifanc (17), gwell parch at eraill (13) ac annibyniaeth well (15) a chyflwynodd rhyw ddwy ran o dair dystiolaeth o welliannau mewn cymhelliant a pharodrwydd pobl ifanc i gymryd rhan (22).

Ategir hyn gan gyfweliadau â staff cyflwyno, partneriaid a phobl ifanc. Esbonia un cyfranogwr mewn gweithgaredd yn seiliedig ar ddrama:

> "*Cytunais i ddod yn gysylltiedig â drama er nad oeddwn wir yn hoffi drama. Roeddwn yn canolbwyntio mwy, a dechreuais ddod i adnabod y grŵp. Mewn*

[20] *The costs and benefits of transition key working: an analysis of five pilot projects,* Holtom, D, Lloyd-Jones, S, Bowen, R a Watkins, J Yr Uned Pobl a Gwaith, 2012

*drama mae'n rhaid i chi weithio gyda'ch gilydd, roeddem yn cael hwyl ac roeddent yn fy nghefnogi i. Rwyf eisiau gweithio'n galetach nawr, ac ni fyddwn i'n gwneud hyn o gwbl heb Cyrraedd y Nod. Roeddent yn credu ynof pan nad oeddwn i'n credu ynof i fy hun"*[21].

Dywedodd cyfranogwyr arall mewn gweithgaredd aml-gyfrwng:

*"Rwyf wedi gwneud mwy o ffrindiau o'r prosiect nag a oedd gen i yn barod. Ni fyddwn i wedi bod yn ffrindiau gydag unrhyw un yma oni bai am hwn".*

Mae'r canfyddiadau hyn yn cadarnhau tystiolaeth yn y llenyddiaeth fod cyfranogi yn y celfyddydau perfformio yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd ac ymddygiad y glasoed, ac yn benodol, yn cefnogi sgiliau cyfathrebu a gwrando gwell, gallu i gyd-dynnu â chyfoedion a mwy o hunanhyder[22,23] .

**Blwch 6 Defnyddio gweithgareddau dinasyddiaeth grŵp i wella sgiliau personol a chymdeithasol**

Yng ngweithdai Dinasyddiaeth Weithgar y Ddraig Ffynci fe wnaeth y bobl ifanc a gymerodd ran gyflawni sgiliau rhyngbersonol gwell o ganlyniad i'r ymarferiadau grŵp a oedd yn mynnu trafod a rhoi cyflwyniadau i eraill.

Mae sylwadau nodweddiadol gan gyfranogwyr yn cynnwys:

"*Mae siarad o flaen grŵp yn beth mawr ond fe wnes i hynny, ac rwy'n gwybod 'mod i'n gallu gwneud"* a *"Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus yn siarad â rhai eraill mewn grŵp".*

Nododd ychydig o'r cyfranogwyr farn cyn ac ar ôl mewn perthynas â'u hyder i ryngweithio ag eraill (0) a'u gallu i gyfleu eu barnau. Adroddodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi gwella'u hyder a'u sgiliau ar ôl y gweithdai.

Mae'r canfyddiadau hyn i gryn raddau yn adlewyrchu canfyddiadau'r gwerthusiadau o weithgareddau dinasyddiaeth eraill. Er enghraifft, canfu'r gwerthusiad o Gronfa Pobl Ifanc y Gronfa Loteri Fawr, a oedd yn cynnwys cyfran sylweddol o

[21] *Evaluation of the Reach the Heights Arts Participation Programme,* Ymchwil Arad, Mehefin 2013


[22] Daykin, N., Orme, J., Evans, D., Salmon, D., McEachran, M. a Brain, S. (2008) The impact of participation in performing arts on adolescent health and behaviour: A systematic review of the literature. *Journal of Health Psychology*, 13 (2). tud. 251-264.

[23] Wilkin, A, Gulliver, C a Kinder, K (2005) *Serious Play – An evaluation of arts activities in Pupil Referral Units and Learning Support Units.* Llundain: Sefydliad Calouse Gulbenkian

weithgareddau dinasyddiaeth, fod hyder a gallu gwell gan bobl ifanc i ffurfio a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda chyfoedion ac oedolion [24]. Dynododd y gwerthusiad hefyd fod pobl ifanc o'r farn bod gweithgareddau dinasyddiaeth, sef rhai tebyg i'r rheiny a gyflwynwyd o dan Cyrraedd y Nod, wedi'u helpu i fwynhau'r ysgol mwy (58%), i wella'u hymddygiad (46%) ac i gael graddau gwell yn yr ysgol (31%).

[24] Gen and Wavehill Consulting (2011) *Evaluation of Young People's Fund Year 5 Report.*

**Ffigur 14 Gweithdai Dinasyddiaeth Weithredol y Ddraig Ffynci: cynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig mewn perthynas â sgiliau cymdeithasol a phersonol**




Ffynhonnell: Holiaduron cyn ac ar ôl a weinyddwyd gan y Ddraig Ffynci cyn ac ar ôl rhaglen o weithdai Dinasyddiaeth Weithgar (sylfaen sampl ar hap = 31)

**Blwch 7 Penwythnosau preswyl ar gyfer pobl ifanc anabl i wella sgiliau personol a chymdeithasol**

Cynhaliodd Plant yng Nghymru benwythnosau preswyl i bobl ifanc anabl a gynigiodd gyfleoedd i gymdeithasu â phobl ifanc eraill mewn amgylchedd anffurfiol, a hefyd i ddysgu am eu hawliau o dan CCUHP. Adroddodd y staff cyflwyno:

> *"I lawer o bobl ifanc, hwn yw'r tro cyntaf iddynt fod i ffwrdd o gartref, ac maent yn dysgu sgiliau bywyd newydd na fyddent fel arall yn cael cyfle i wneud. Cânt y rhain drwy brofiadau fel aros mewn gwesty, cofrestru eu hunain, archebu eu bwyd eu hunain – mae'r rhain yn helpu i atgyfnerthu sgiliau sylfaenol yr ydym yn ceisio'u datblygu, fel hyder yn siarad o flaen pobl eraill a sgiliau rhyngbersonol cyffredinol".*

Roedd y bobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithgareddau preswyl yn cytuno bod y rhain wedi helpu i ddatblygu'u sgiliau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, nododd un unigolyn ifanc:

> *"Rwy'n teimlo'n fwy hyderus o lawer wrth siarad â phobl eraill mewn grŵp. Cyn ymuno â'r grŵp yma, ni fyddwn i wedi gwneud hynny. Fe fydden i'n*

*eistedd yno a throi fy mhen i lawr, a byddai pobl yn edrych arna'i a meddwl nad oeddwn i'n gallu siarad na chlywed".*

5.6 Ychydig o dystiolaeth sydd fod sgiliau a thueddfryd personol a chymdeithasol gwell wedi effeithio ar ddyheadau ar gyfer y dyfodol neu agweddau tuag at gyfranogi mewn dysgu pellach.

*Gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau*

5.7 Yn ôl staff cyflwyno, pobl ifanc a phartneriaid, mae gweithgareddau dinasyddiaeth a gyflwynwyd gan Plant yng Nghymru, y Ddraig Ffynci ac Achub y Plant wedi arwain at fwy o wybodaeth a dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Datblygwyd y rhain gan bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant a'r rhai sy'n NEET. Rhoddir enghreifftiau o astudiaethau achos isod ym Blwch 8.

**Blwch 8 Gwybodaeth a dealltwriaeth well o hawliau ymhlith pobl ifanc o ganlyniad i weithgareddau dinasyddiaeth**

- Fe wnaeth pobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithdai Gyda'n Gilydd dros Hawliau a gyflwynwyd gan Plant yng Nghymru wella'u dealltwriaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau o dan CCUHP. Ystyriai'r staff cyflwyno fod hwn yn ddeilliant allweddol a chytunai'r bobl ifanc:
- "*Mae dod i'r gweithgareddau hyn wedi rhoi'r hyder i mi ddweud beth sy'n bwysig i mi ac i wybod beth ddylwn i ddisgwyl – beth yw fy 'hawliau'. Cyn dod yma ni fyddai'r hyder wedi bod gennyf i ddweud 'Rwyf am gadair olwyn drydan – rwyf am fod fel y ferch acw'. Cyn dod yma nid oeddwn i'n gwybod pwy oedd y Comisiynydd Plant hyd yn oed – a nawr rwy'n ymuno â'r Ddraig Ffynci a phanel y Comisiynydd.'*
- Adroddodd y bobl ifanc a gymerodd ran yng ngweithdai Dinasyddiaeth Weithgar y Ddraig Ffynci nad oeddent wedi rhoi rhyw lawer o ystyriaeth o'r blaen i'w hawliau neu faterion fel gwahaniaethu. Roeddent o'r farn fod cymryd rhan wedi gwella'u gwybodaeth, a dangosir hynny gan ddatganiadau fel "*Rwy'n hoffi pan fyddant yn dod yma i'n haddysgu am hawliau a stwff –*

*pethau nad ydyn ni wedi'u dysgu o'r blaen".*

- Yn ddigon tebyg, arweiniodd gweithgaredd Arolygwyr Ifanc Achub y Plant at ddealltwriaeth well ymhlith pobl ifanc o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Roedd arolygwyr ifanc o'r farn eu bod "*wedi dysgu sut ddylent ymddwyn tuag at bobl iau, a sut ddylai oedolion fod wedi'ch trin chi pan oedden chi'n fach"* ac roedd y staff cyflwyno'n cytuno. Cytunai'r staff cyflwyno a dywedont fod pobl ifanc yn "*fwy hyderus o lawer ynglŷn â gwybod beth yw eu hawliau".*

5.8 Nid oes unrhyw dystiolaeth fod gwybodaeth a dealltwriaeth well o hawliau wedi arwain at gynnal cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol neu fwy o gyfranogiad mewn prosesau penderfynu.

*Cyfranogiad gwell mewn addysg a hyfforddiant*

5.9 Mae data gwybodaeth reoli'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn dynodi bod 1,144 o bobl ifanc (7% o gyfranogwyr Troedle Cyntaf) wedi mynd i mewn i ddysgu pellach[25]. Mae hyn yn nifer sylweddol llai nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol (5,700), ond mae'n orgyflawniad ar darged diwygiedig 2011 (

[25] Y diffiniad a ddarperir gan WEFO ar gyfer 'mynd i mewn i ddysgu pellach' yw "Gall dysgu pellach gynnwys addysg academaidd neu alwedigaethol ffurfiol a hyfforddiant datblygu sgiliau llai ffurfiol (yn cynnwys deilliannau meddal). Er enghraifft, bydd unigolyn ifanc sydd wedi'i ddosbarthu yn NEET (rhai 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn mynd i mewn i hyfforddiant galwedigaethol ar ôl cael cyngor dwys ar yrfa a ariannwyd gan y prosiect; neu, bydd unigolyn yn symud i mewn i hyfforddiant ffurfiol yn dilyn gwaith allgymorth a ariannwyd gan y prosiect. Rhaid i brosiectau ond adrodd yn erbyn y dangosydd hwn os yw'r cyfranogwr yn mynd i mewn i ddysgu pellach o fewn chwe mis i gwblhau'r ddarpariaeth. Gweler: http://wales.gov.uk/docs/wefo/publications/deliveringguidance/rme/130322esfindicatordefinitionsen.pdf

Tabl 18). Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ifanc a aeth ymlaen i ddysgu pellach gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau gan Gyngor Celfyddydau Cymru neu brosiect Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid.

**Tabl 18 Troedle Cyntaf – nifer y bobl ifanc yn mynd i mewn i ddysgu pellach**

| Dangosydd | Targed gwreiddiol (2008) | Targed diwygiedig (2011) | Targed diwygiedig (2013) | Cyflawnwyd (Mawrth 2013) | % wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed gwreiddiol (2008) | % wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr yn mynd i mewn i ddysgu pellach: rhai 16 – 19 oed | 5,700 | 815 | 400 | 1,144 | 20% | 140% |

Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Mehefin 2013

5.10 Ar gyfer rhai gweithgareddau fel y prosiect Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol, y prosiect Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid a gweithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru, mae rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd gan staff cyflwyno a phartneriaid fod pobl ifanc wedi cynyddu eu cyfranogiad mewn dysgu o ganlyniad i'r gweithgaredd. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET sy'n derbyn cymorth (ynghyd â'u teuluoedd) i aros yn yr ysgol neu goleg a gwella'u presenoldeb yn ogystal â bod â mwy o gymhelliant a diddordeb mewn dysgu. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Ym mhrosiect Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid AdAS mae rhai cyfranogwyr wedi cyfranogi mewn lleoliadau hyfforddi am gyfnodau hwy nag a ragwelodd yr asiantau cyflwyno ar sail y rheiny nad ydynt wedi cael cymorth: "*Bu effaith bendant – mae gennym niferoedd uchel sy'n aros mewn lleoliadau am gyfnodau hwy – nid oedd y bobl ifanc hyn yn ymgysylltu â Gyrfa Cymru o'r blaen*"[26].
- Yn un o weithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru, adroddodd y staff cyflwyno fod mwynhad a diddordeb pobl ifanc wedi cynyddu o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r celfyddydau yn cael eu cyflwyno mewn UCD, ac mae hynny wedi arwain at bresenoldeb gwell yn ystod y prosiect. Mewn un arall, roedd pobl

[26] *Evaluation of the Support into Education and Learning (Youth Justice) Project,* Chwefror 2013, Ymgynghoriaeth Ymchwil Red Kite

ifanc yn fwy tebygol i ymgysylltu â gweithgareddau ieuenctid eraill y tu allan i'r ysgol o ganlyniad i gyfranogi yn y gweithgaredd.

- Yn y gweithgaredd Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol adroddodd gweithwyr allweddol a oedd yn darparu cymorth i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol eu bod wedi ymgartrefu mwy yn yr ysgol o ganlyniad i'r cymorth yr oeddent wedi'i ddarparu. Roeddent hwy a phartneriaid o'r farn fod hyn yn gwella presenoldeb ac yn gwella cyfranogiad mewn dosbarthiadau ac mewn gweithgareddau ysgol neu goleg. Mewn rhai achosion, roedd hyn ymhlith pobl ifanc "*a oedd wedi bod ar fin gwrthod mynd i'r ysgol".*

*Cymwysterau a enillwyd*

5.11 Mae data gwybodaeth reoli'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn dynodi bod rhyw 3% (n=461) o gyfranogwyr Troedle Cyntaf wedi cael cymhwyster, mewn sgiliau sylfaenol neu ar lefel 1 yn bennaf (2.3%, n=372). Fel y dengys Tabl 19, mae hyn yn nifer sylweddol is nag a fwriadwyd.

**Tabl 19 Troedle Cyntaf – cymwysterau a enillwyd**

| **Canlyniadau** | **Targed gwreiddiol (2008)** | **Targed diwygiedig (2011)** | **Targed diwygiedig (2013)** | **Cyflawnwyd (Mawrth 2013)** | **% wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed gwreiddiol (2008)** | **% wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr yn ennill cymwysterau – 11-19 oed | 4,560 | 1,762 | 500 | 461 | 10% | 26% |
| Cymwysterau sgiliau sylfaenol a chymwysterau Lefel 1 a enillwyd[27] | 2850 | 1609 | 400 | 372 | 13% | 23% |

[27] Rydym wedi cyfuno'r targedau ar gyfer cymwysterau sgiliau sylfaenol a gyflawnwyd a chymwysterau lefel 1 a gyflawnwyd am fod y data wedi'i gasglu gan ddefnyddio'r categori 'Islaw lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol'.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymwysterau Lefel 2 a enillwyd | 1,710 | 153 | 100 | 89 | 5% | 58% |

Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Mehefin 2013

5.12 Yn ogystal rydym yn ymwybodol fod llawer o bobl ifanc wedi cwblhau rhan gymwysterau fel unedau achrededig Agored Cymru a'r RhCA. Roedd y staff cyflwyno a phartneriaid o'r farn fod y rhain wedi helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd sylfaenol a'u bod wedi bod yn fodd pwysig o adeiladu hunanbarch a chymhelliant ymhlith cyfranogwyr. Ni chyfrifwyd y rhain ac felly ni ellir ei meintoli. Cofnodir y rhain ynghyd â deilliannau cadarnhaol eraill, fel cymryd rhan mewn profiad gwaith gwirfoddol, fel 'deilliant cadarnhaol arall'. Cofnodwyd bod cyfanswm o 6,214 o bobl ifanc (48% o darged 2011, sef 12,952) wedi cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill ac mae'n debygol fod rhai o'r deilliannau hyn yn ymwneud â rhan gymwysterau.

**Deilliannau a gyflawnwyd gan weithwyr proffesiynol**

*Dealltwriaeth a gwybodaeth well am sut i ymgysylltu a chymell pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl, a chymhwyso hyn mewn ymarfer proffesiynol*

5.13 Mae'r gweithgareddau hyfforddi ac adeiladu gallu a gyflwynwyd o dan Troedle Cyntaf wedi arwain at ddeilliannau tymor byr a thymor canolig cadarnhaol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ieuenctid. Gan mwyaf, roedd cyfranogwyr o'r farn fod yr hyfforddiant y cymeront ran ynddo yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. Mae hyn, yn eu barn nhw, wedi arwain at ddealltwriaeth a gwybodaeth well am sut i gynorthwyo pobl ifanc NEET neu bobl ifanc sydd mewn perygl o fod y NEET yn effeithiol. Er enghraifft, fe wnaeth rhyw dri chwarter o weithwyr proffesiynol yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a gyflwynwyd gan Plant yng Nghymru (71%, n=289) lenwi ffurflenni adborth yn syth ar ôl y cwrs ac adrodd eu bod wedi 'gwella sgiliau a hyder wrth ddelio ag ymddygiad heriol'. Gwnaed

rhywfaint o weithgarwch cyfyngedig gyda sampl fach o gyfranogwyr (ar ffurf yr hyfforddwr yn ffonio cyfranogwyr i gael sgwrs anffurfiol), sy'n awgrymu bod y dysgu o'r cwrs wedi parhau i fod yn berthnasol a defnyddiol.

5.14 Mewn ychydig o achosion, mae enghreifftiau cadarn o'r modd y mae'r ddealltwriaeth hon wedi'i chymhwyso i ymarfer proffesiynol bob dydd. Dangosir y rhain ym Blwch 9 isod.

**Blwch 9 Gweithwyr proffesiynol yn ymgysylltu ac yn cymell pobl ifanc yn well**

Adroddodd ymarferwyr a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc yn cymryd rhan yn hyfforddiant Cyngor Celfyddydau Cymru fod y wybodaeth yr oeddent wedi'i chael wedi'u helpu yn eu rolau.

Er enghraifft, arferai un gweithiwr ieuenctid wneud i bobl ifanc sefyll y tu allan i'r ystafell neu mewn cornel oherwydd eu hymddygiad gwael. Ers yr hyfforddiant mae ganddi ddealltwriaeth well o ddatblygiad y glasoed a sut mae hyn yn effeithio ar ymddygiad a rhyngweithio ag eraill, ac mae wedi mabwysiadu "*ymagwedd fwy goddefgar a chynhwysol"* yn ei gwaith. Er enghraifft, anaml y bydd yn gwahardd pobl ifanc o'r gweithgaredd dros dro.

Nododd gweithiwr ieuenctid arall fod pwyslais y cwrs ar gynnwys pobl ifanc wrth ddylunio a chyflwyno cyrsiau wedi golygu ei bod bellach yn ymgorffori mwy o ddewis a rheolaeth mewn gweithgareddau.

5.15 Dywedodd staff mewn awdurdodau lleol â chyfrifoldeb am gyfranogiad pobl ifanc mewn prosesau penderfynu fod cymryd rhan ym mhrosiect Arolygwyr Ifanc Achub y Plant wedi gwella'u dealltwriaeth o ddulliau cyfranogi: '*mae'r hyfforddiant a gawsom, gweithio gyda phobl ifanc i gynorthwyo arolygiadau ifanc, a'r adborth cadarnhaol o'r gwasanaethau a arolygwyd wir wedi gwella fy nealltwriaeth o werth cyfranogiad pobl ifanc yn y maes hwn; mae'n neges yr wyf yn mynd â hi gyda mi i gyfarfodydd fel Swyddog y Cwricwlwm a Datblygiad Cymunedol mewn mannau eraill yn y fwrdeistref*'.

5.16 Adroddwyd am fuddion tebyg gan weithwyr proffesiynol a oedd yn gymharol amhrofiadol ac yn newydd i'w gyrfaoedd, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi gweithio yn y sector am nifer o flynyddoedd.

5.17 O ran deunyddiau ac adnoddau a ddatblygwyd o dan Troedle Cyntaf, ychydig o dystiolaeth sydd o'r modd y maent wedi galluogi ymarferwyr i weithio'n fwy effeithiol gyda phobl ifanc. Ar gyfer y wefan Gweithwyr Cyfranogi a gynhelir gan Plant yng Nghymru, mae cyfweliadau gyda naw o ddefnyddwyr yn dynodi, er y credai'r rhan fwyaf fod y wefan yn gymharol ddefnyddiol ar gyfer canfod gwybodaeth am ddulliau cyfranogol a ddefnyddir mewn sefydliadau eraill, nad oedd y wybodaeth a gawsant wedi effeithio ar eu harfer proffesiynol. Nododd ychydig fod sianelau eraill i gael ar gyfer rhannu arfer da a oedd yn fwy hygyrch na'r wefan (fel cyfarfodydd rheolaidd rhwng aelodau'r Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogi). Mae ychydig o'r defnyddwyr wedi addasu'u harfer i wella cynnwys pobl ifanc mewn prosesau penderfynu. Er enghraifft, nododd un gweithiwr ieuenctid ei bod, o ganlyniad i astudiaeth achos yr oedd wedi'i darllen yn adran Safonau Cyfranogi'r wefan, wedi sefydlu grŵp datblygu gwasanaethau pobl ifanc.

*Mwy o gyfranogiad mewn datblygiad proffesiynol*

5.18 Mewn ychydig o achosion mae tystiolaeth fod gweithwyr proffesiynol ieuenctid sydd wedi cymryd rhan yn hyfforddiant Troedle Cyntaf wedi cynyddu cymhelliant i ymgymryd â datblygiad proffesiynol pellach. Er enghraifft, dywedodd ychydig o weithwyr proffesiynol a ymgymerodd hyfforddiant Lefel 4 achrededig mewn gweithio gyda phobl ifanc a defnyddio'r celfyddydau fel cyfrwng i ennyn diddordeb pobl ifanc, eu bod wedi gwneud ymholiadau i barhau â'u hastudiaethau a chwblhau gradd lawn. Gan mwyaf, adroddwyd ganddynt y byddent wedi bod yn annhebygol o fod â'r uchelgais hwn cyn hynny. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar y cymwysterau a gyflawnwyd gan weithwyr proffesiynol.

### Deilliannau ar gyfer grwpiau targed gwahanol


5.19 Mae data gwybodaeth reoli'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn dangos:

- Bod cyfran ychydig yn uwch o gyfranogwyr anabl wedi mynd i mewn i ddysgu pellach a chyflawni deilliannau cadarnhaol eraill na chyfranogwyr nad ydynt yn anabl (Ffigur 15);

**Fel y byddid yn disgwyl, aeth cyfran uwch o bobl ifanc NEET i mewn i ddysgu pellach na'r i ddysgu pellach na'r rheiny a oedd eisoes mewn addysg amser llawn, er bod cyfran ychydig yn llawn, er bod cyfran ychydig yn uwch o bobl ifanc mewn addysg wedi cyflawni deilliannau cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill na phobl ifanc NEET (**


- Ffigur 16); ac
- Ychydig o wahaniaeth sydd mewn deilliannau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr gwryw a benyw (Ffigur 17);

**Ffigur 15 Troedle Cyntaf – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr anabl a chyfranogwyr nad ydynt yn anabl**





Ffynhonnell: Data’r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan y tîm rheoli prosiectau ym Mehefin 2013

**Ffigur 16 Troedle Cyntaf – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr NEET a'r rheiny sydd mewn addysg**




Ffynhonnell: Data'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan y tîm rheoli prosiectau ym Mehefin 2013

**Ffigur 17 Troedle Cyntaf – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr gwryw a benyw**





Ffynhonnell: Data'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan y tîm rheoli prosiectau ym Mehefin 2013

**Deilliannau a gyflawnwyd yn ôl ardal awdurdod lleol**[28]

5.20 O ystyried y ddarpariaeth amrywiol a'r niferoedd amrywiol sy'n ymgymryd â gweithgareddau gwahanol yn yr ardal Gydgyfeirio, byddai disgwyl gwahaniaethau yn y cyfrannau sy'n cyflawni deilliannau wedi'u cofnodi. Ni ellir cysylltu'r wybodaeth reoli â gweithgareddau. Ar gyfartaledd, fe wnaeth 3% o'r holl gyfranogwyr ym mhob awdurdod lleol ennill cymhwyster, ond roedd dros ddwywaith y gyfran hon ar Ynys Môn (8%) ac yn Sir Gaerfyrddin (7%), gyda neb o gwbl yng Nghaerffili ac ychydig iawn yng Ngheredigion (1%) a Blaenau Gwent (1%) (**Error! Reference source not found.**).

5.21 Ar gyfartaledd, fe wnaeth bron i ddwy ran o bump (39%) o gyfranogwyr gyflawni deilliannau cadarnhaol eraill, ond llwyddodd dros dair rhan o bump o gyfranogwyr ar Ynys Môn (64%) a Sir Benfro (62%) i gyflawni deilliannau cadarnhaol eraill, gyda degfed yn unig yn Nhorfaen (10%) (gweler Ffigur 18 isod).

**Ffigur 18 Troedle Cyntaf – canran y cyfranogwyr yn ennill cymwysterau ac yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill yn ôl awdurdod lleol**




*Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Gorffennaf 2013*

[28] Nid oedd y dadansoddiad o gyfranogwyr yn mynd i mewn i ddysgu pellach yn ôl awdurdod lleol ar gael yn adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd i'r tîm ymchwilio ac felly nid yw'r dadansoddiad hwn wedi'i gynnwys

**Deilliannau a gyflawnwyd gan gyd-noddwyr**

5.22 Er nad oes modd gwneud dadansoddiad o berfformiad gweithgareddau unigol gyda'r data sydd ar gael, mae dadansoddiad o gyflawniad targedau deilliannau a chanlyniadau WEFO o ran y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd gan gyd-noddwyr yn dechrau rhoi syniad o'r mathau o weithgareddau sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflawni deilliannau.

5.23 Mae

Tabl 20 isod yn dangos:

- Cafodd pob un o'r cyd-noddwyr anawsterau yn cyflawni'r targedau ar gyfer cyfanswm nifer y cymwysterau a enillwyd. Serch hynny, ymddengys fod y gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau a gyflwynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r gweithgareddau dinasyddiaeth a gyflwynwyd gan y Ddraig Ffynci wedi bod yn gymharol lwyddiannus o ran cefnogi pobl ifanc i ennill cymwysterau Lefel 2. Gall hyn fod yn arwydd y cafodd targedau mwy realistig eu gosod gan y noddwyr hyn na rhai eraill;
- Yn ddigon tebyg, ymddengys fod gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru a gweithgareddau dinasyddiaeth y Ddraig Ffynci wedi bod yn llwyddiannus o ran cefnogi pobl ifanc i fynd i mewn i ddysgu pellach, ac yn gymharol lwyddiannus o ran cefnogi cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill. Fodd bynnag, gallai'r graddau yr aethpwyd yn uwch na rhai targedau awgrymu bod y gymhariaeth yn dibynnu ar osod targedau cywir yn hytrach na bod yn arwydd o weithgaredd arbennig o lwyddiannus;
- Ni wnaeth Plant yng Nghymru berfformio'n dda yn erbyn y targedau deilliannau a chanlyniadau. Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld o'r farn mai'r rheswm am hyn oedd bod y bobl ifanc anabl y buont yn gweithio gyda nhw  yn wynebu rhwystrau mwy cymhleth a disymud i addysg a chyflogaeth na grwpiau y gweithiodd noddwyr eraill â nhw, a bod y targedau a osodwyd ar eu cyfer yn fwy heriol.

**Tabl 20 Troedle Cyntaf – cyflawniad deilliannau a chanlyniadau gan gyd-noddwyr**

| | Cyngor Celfyddydau Cymru | | Plant yng Nghymru | | Y Ddraig Ffynci | | Achub y Plant | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % o'r targed gwreiddiol wedi'i chyflawni | % o darged diwygiedig 2011 wedi'i chyflawni | % o'r targed gwreiddiol wedi'i chyflawni | % o darged diwygiedig 2011 wedi'i chyflawni | % o'r targed gwreiddiol wedi'i chyflawni | % o darged diwygiedig 2011 wedi'i chyflawni | % o'r targed gwreiddiol wedi'i chyflawni | % o darged diwygiedig 2011 wedi'i chyflawni |
| Cyfranogwyr yn ennill cymwysterau – rhai 11-19 oed | Amh | Anhysbys | 0% | 0% | 35% | 35% | 1% | Amh |
| Cymwysterau sgiliau sylfaenol, a cymwysterau Lefel 1 a enillwyd | Amh | 23% | 0% | 0% | 29% | 32% | 1% | Amh |
| Cymwysterau Lefel 2 a enillwyd | Amh | 138% | 0% | 0% | Amh | 67% | 0% | Amh |
| Cyfranogwyr yn mynd i mewn i ddysgu pellach: rhai 16 – 19 oed | 10% | 175% | 1% | 1% | 4% | 933% | 50% | 73% |
| Cyfranogwyr yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill | 40% | 63% | 4% | 5% | 99% | 52% | 33% | 9% |

Ffynhonnell: Data am dargedau a gyflawnwyd o adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a gynhyrchwyd ym Mehefin 2013, wedi'i ddarparu gan dîm y prosiect; data'r targed gwreiddiol o Hawliad 7 wedi'i gyflwyno gan gyd-noddwyr i Lywodraeth Cymru; a data'r targed diwygiedig o Hawliad 18

## Sut y cyflawnwyd deiliannau

5.24 Oherwydd y diffyg gwybodaeth reoli ar lefel gweithgareddau sy'n ymwneud ag ystod briodol o ddeilliannau, nid oes modd gwneud asesiad cadarn ynglŷn â nodweddion dylunio, cyflwyno ac arfer sy'n arwain at ddeilliannau cadarnhaol. Serch hynny, mae myfyrdodau cyd-noddwyr, staff cyflwyno a phobl ifanc yn dechrau rhoi cipolygon i'r hyn sy'n

gweithio o ran ymgysylltu â phobl ifanc NEET a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET. Mae rhai o'u myfyrdodau ar arfer effeithiol yn ategu tystiolaeth yn y llenyddiaeth:

- **Adroddwyd bod perthnasoedd rhwng staff a phobl ifanc yn seiliedig ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng y naill a'r llall yn allweddol i gyflawni deilliannau cadarnhaol.** Tynnodd llawer o gyd-noddwyr a staff cyflwyno Troedle Cyntaf a gafodd eu cyfweld sylw at bwysigrwydd gweithwyr proffesiynol ieuenctid sy'n meddu ar y sgiliau i wrando, bod yn empathig a thrin pobl ifanc â pharch. Er enghraifft, nododd staff cyflwyno fod diffyg hyder i fynegi'u barnau gan y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw, a'u bod yn ei chael hi'n anodd nodi eu cryfderau. Amlygwyd yr angen ganddynt i "*seilio'r cyflwyno ar anogaeth barhaus ac atgyfnerthu cadarnhaol"* er mwyn helpu pobl ifanc i fagu hyder i gyfranogi. Roedd y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld hefyd yn cydnabod agwedd gadarnhaol gweithwyr ieuenctid fel nodwedd o'r gweithgareddau y buont yn cyfranogi ynddynt. Er enghraifft, dywedodd rhai pobl ifanc ddigartref a gymerodd ran mewn gweithgaredd cyfranogi yn y celfyddydau: "*rydych chi'n teimlo'n esmwyth yng nghwmni'r oedolion hyn. Maent yn wahanol. Allwch chi ddim teimlo'n esmwyth gyda rhai oedolion. Maent fel teulu, allwch chi ddim teimlo'n esmwyth yn siarad â nhw. Ond yma, mae'n wahanol. Nid ydyn nhw'n ein barnu ni. Maent yn deall beth mae pobl wedi bod drwyddo a pha mor galed y gall fod".* Mynegwyd barnau tebyg gan bobl ifanc eraill yn cyfranogi mewn gweithgareddau eraill. Ceir tystiolaeth o bwysigrwydd perthnasoedd rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc mewn ymchwil a gwerthusiadau o weithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau[29], gweithgareddau gwrthdyniadol yn seiliedig ar chwaraeon[30] a gweithgareddau dinasyddiaeth[31].

---

[29] Wilkin, A, Gulliver, C a Kinder, K (2005) *Serious Play – An evaluation of arts activities in Pupil Referral Units and Learning Support Units.* London: Calouse Gulbenkian Foundation

[30] Y Swyddfa Gartref (2006) *Positive Futures Impact Report: End of season review*. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

[31] GHK (2009) *Identifying Effective Practice in Raising Young People's Aspirations.* Cyngor Dysgu a Sgiliau

- **Ystyrir hefyd bod mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ifanc sydd yn cynnig lefel uchel o ddewis yn effeithiol o ran ymgysylltu ac wedyn gweithio gyda phobl ifanc**. Ar draws cyd-noddwyr a staff cyflwyno Troedle Cyntaf, roedd cytundeb ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau bod gweithgareddau wedi'u teilwra yn ôl anghenion a diddordebau penodol pobl ifanc. Dylai asesiad o anghenion ar ddechrau ymyrraeth fod yn fan cychwyn i ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ifanc. Nododd nifer o noddwyr y gall cael ystod eang o bartneriaid helpu er mwyn ymateb i'r anghenion a'r diddordebau a nodwyd. Dywedodd noddwyr a staff cyflwyno hefyd y gall anghenion pobl ifanc newydd yn gyflym, er enghraifft, o un awr i'r nesaf o fewn sesiwn unigol, yn ogystal â rhwng sesiynau. Tynnwyd sylw ganddynt at bwysigrwydd gallu addasu'n gyflym i'r newidiadau hyn sy'n newid ac i fod yn hyblyg. Mae astudiaethau ymchwil eraill ar raddfa fach hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd addasu sesiynau wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion unrhyw ddiwrnod penodol[32].

  Mae sicrhau bod dewis yn cael ei ymgorffori mewn gweithgareddau a thrwy gydol y gweithgaredd ar ôl hynny yn bwysig hefyd. Er enghraifft, roedd un gweithgaredd yn darparu ystod eang o sesiynau rhagflas mewn cyfryngau artistig gwahanol i bobl ifanc. Roedd y bobl ifanc yn gallu dewis pa fathau o weithgaredd yr oeddent yn dymuno canolbwyntio arno wedyn. Credai un gweithiwr ieuenctid a oedd yn cyflwyno un o'r gweithgareddau dinasyddiaeth fod llawer o'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw yn arfer ag oedolion yn gwneud penderfyniadau ar eu rhan, a gall hynny gyfrannu at ddadrithiad. Nododd y gall "*hyd yn oed rhywbeth syml fel torri ein cynlluniau gwersi a gofyn iddynt ym mha drefn yr hoffent i'r sesiwn fod",* helpu i feithrin ymdeimlad o berchenogaeth, sy'n cefnogi ymgysylltu. Mae hyn yn ategu tystiolaeth o werthusiad o brosiectau dinasyddiaeth ôl-16 a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau yn Lloegr, a ganfu fod cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu yn

[32] Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc a'r Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus. (2010) *Improving outcomes for disadvantaged young people. Case studies of effective practice.*

gweithio'n dda[33]. Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn argymell hefyd y dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys wrth ddylunio a chyflwyno gweithgareddau dinasyddiaeth. Nododd staff a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r ymchwil fod plant a phobl ifanc, pan fyddant yn llunio'r rheolau a'r agenda ar gyfer cyfranogi, yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn fwy tebygol o ymgysylltu[34].

- **Mae gweithgareddau ymarferol sy'n wahanol i brofiadau ysgol ac addysg ffurfiol yn cynorthwyo ymgysylltu.** Mewn llawer o weithgareddau astudiaethau achos Troedle Cyntaf, soniodd staff cyflwyno a phobl ifanc am bwysigrwydd gweithgareddau gwahanol i ddysgu traddodiadol yn yr ysgol, ac yn hanfodol, eu bod yn weithgareddau ymarferol iawn eu natur. Er enghraifft:
  - Canfu staff cyflwyno yn Achub y Plant fod gweithgareddau lle rhoddwyd rôl benodol i bobl ifanc, fel arolygydd neu ymchwilydd ifanc, wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran ennyn diddordeb pobl ifanc. Nid yn unig yr oedd pobl ifanc yn cael dysgu sgiliau ond roeddent hefyd yn cael y cyfle i gymhwyso'r sgiliau hynny'n ymarferol. Roedd hyn yn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth, a hefyd yn rhoi ymdeimlad o werth a hunan-barch i bobl ifanc;
  - Fe wnaeth pobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion a phobl ifanc ar gwricwlwm amgen mewn ysgolion ddefnyddio camerâu fideo i ffilmio'i gilydd yn trafod barnau ynglŷn â ph'un a ddylid gostwng oed gyrru. Dywedodd y bobl ifanc eu bod yn hoffi gallu mynegi'u hunain ar lafar, a'u bod yn hoffi bod y gweithgaredd yn ymarferol yn hytrach na *"llwyth o ddarllen ac ysgrifennu".*

5.25 Mae'r canfyddiadau hyn yn ategu tystiolaeth eang yn y llenyddiaeth, fel ymchwil ansoddol gyda 69 o ddisgyblion, athrawon ac artistiaid a fu'n gysylltiedig â gweithgareddau'r celfyddydau mewn unedau cyfeirio

[33] Craig, R, Kerr, D, Wade, P, Taylor, G. Taking Post-16 Citizenship Forward: Learning from the Post-16 Citizenship Development Projects (2004) AdAS
[34] York Consulting (2010) *Cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

disgyblion a gwerthusiad o weithgareddau dinasyddiaeth, y canfu'r ddau ohonynt fod pobl ifanc yn ymateb yn dda i weithredu ymarferol[35,36] .

- **Mae cefnogi pobl ifanc dros gyfnod o amser yn helpu i gynnal effaith dros gyfnod.** Dywedodd llawer o gyd-noddwyr ac asiantau cyflwyno fod cyflawni deilliannau cadarnhaol yn dibynnu ar gael amser i feithrin perthynas gadarn â phobl ifanc. Gall gymryd amser i adeiladu ymddiriedaeth, parch a sefydlu rheolau sylfaenol, ac roedd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld o'r farn na fyddai pobl ifanc, heb y sefydliad hwn, yn ymgysylltu'n llawn ac yn cyfranogi mewn gweithgareddau. Mae hyn yn ategu'r canfyddiadau o adolygiad systematig o lenyddiaeth ynglŷn â darparu cymorth effeithiol i droseddwyr ifanc[37] ac ymchwil ar ffactorau llwyddo o ran ymgysylltu â phobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion trwy weithgareddau'r celfyddydau[38] sy'n amlygu pwysigrwydd gweithgareddau parhaus a hwy yn cyflawni canlyniadau mwy cadarnhaol na gweithgareddau dros gyfnod byr.
- **Sicrhau bod adnoddau ar gael i barhau i ddenu a chadw diddordeb pobl ifanc**. Credai nifer o gyd-noddwyr ac asiantau cyflwyno ei bod yn bwysig cael adnoddau i brynu bwyd a lluniaeth ac i logi lleoliad dymunol er mwyn sicrhau ymgysylltiad parhaus. Canfu asiant cyflwyno un o'r gweithgareddau mwy a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru nad oedd wedi rhagweld pa mor bwysig y byddai darparu bwyd i lwyddiant y gweithgaredd. Ni ddarparwyd pecynnau bwyd gan rieni a gofalwyr i'r rhan fwyaf o bobl a gyfranogodd yn y gweithgaredd, ac fe'u cawsant yn anodd canolbwyntio heb bryd o fwyd iawn.

---

[35] Craig et al, 2004
[36] Wilkin, A, Gulliver, C a Kinder, K (2005) *Serious Play – An evaluation of arts activities in Pupil Referral Units and Learning Support Units.* Llundain: Sefydliad Calouse Gulbenkian
[37] Mason, P and Prior, D (2008) *Engaging Young People who Offend,* Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
[38] Wilkin et al 2005

**Crynodeb**

5.26 At ei gilydd, mae tystiolaeth o rai o'r deilliannau tymor byr a thymor canolig disgwyliedig ond ychydig o dystiolaeth bod y rhain wedi'u cynnal pan fo cyfranogwyr wedi gadael gweithgareddau, a'u bod wedi cyfrannu at ddeilliannau tymor hwy fel gwell presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad mewn addysg neu ddilyniant gwell i addysg bellach ac addysg uwch:

- Tueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol gwell (fel rhyngweithio ag oedolion a phobl ifanc eraill, cymhelliant a chymryd rhan, annibyniaeth a pharch at eraill) yw'r deilliant y ceir y dystiolaeth gadarnaf ar ei gyfer. Ar draws yr holl weithgareddau fe wnaeth cyd-noddwyr, staff cyflwyno, partneriaid a phobl ifanc roi enghreifftiau o ddeilliannau cadarnhaol yn y maes hwn, ac ategir hynny gan rywfaint o dystiolaeth feintiol. Ychydig o dystiolaeth sydd fod tueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasau gwell wedi effeithio ar ddyheadau ar gyfer y dyfodol neu agweddau at gyfranogi mewn dysgu pellach.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth well o hawliau, er bod y dystiolaeth yn wannach. Y prif weithgareddau sydd wedi cyfrannu at y deilliant hwn yw gweithgareddau dinasyddiaeth a gyflwynwyd gan Plant yng Nghymru, y Ddraig Ffynci ac Achub y Plant. Nid oes unrhyw dystiolaeth fod gwybodaeth a dealltwriaeth well o hawliau wedi arwain at gynnal cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol neu fwy o gyfranogiad mewn prosesau penderfynu.
- Dim ond 7% (n=1144) o gyfranogwyr Troedle Cyntaf aeth i mewn i ddysgu pellach, sy'n nifer sylweddol llai na'r disgwyl. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a aeth ymlaen i ddysgu pellach gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau yn cael eu cyflwyno gan Gyngor Celfyddydau Cymru a phrosiect Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid dan arweiniad AdAS.

- Dim ond 3% (n=461) o gyfranogwyr Troedle Cyntaf y cofnodwyd eu bod wedi ennill cymhwyster. Adroddodd staff cyflwyno, noddwyr a phobl ifanc fod llawer o rai eraill wedi ennill rhan gymwysterau fel unedau achrededig Agored Cymru a'r RhCA, ond nid oes data ar gael i feintoli'r rhain.
- Mae'r gweithgareddau hyfforddi ac adeiladu gallu a gyflwynwyd o dan Troedle Cyntaf wedi arwain at ddeilliannau tymor byr a thymor canolig cadarnhaol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, ac mae tystiolaeth o ddealltwriaeth a gwybodaeth well am sut i ymgysylltu a chymell pobl ifanc NEET a phobl ifanc sydd mewn perygl. Mewn ychydig o achosion, mae enghreifftiau cadarn o'r modd y mae'r ddealltwriaeth hon wedi'i chymhwyso i ymarfer proffesiynol bob dydd.
- Fel y byddid yn disgwyl o ystyried y ddarpariaeth amrywiol a'r niferoedd amrywiol sy'n ymgymryd â gweithgareddau mewn awdurdodau lleol gwahanol, mae'r cyfrannau o gyfranogwyr ym mhob awdurdod lleol sy'n cyflawni deilliannau cadarnhaol wedi amrywio hefyd.
- Nid oes modd gwneud asesiad llawn a chadarn o beth sydd wedi gweithio'n dda o ran cyflawni deilliannau gyda'r data sydd ar gael. Serch hynny, mae cyfweliadau gyda noddwyr, staff cyflwyno a phobl ifanc wedi tynnu sylw at rai nodweddion cyflwyno yr ystyriant eu bod yn effeithiol o ran cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl sy'n cefnogi tystiolaeth yn y llenyddiaeth ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys: perthnasoedd rhwng staff a phobl ifanc yn seiliedig ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth y naill at y llall; sicrhau bod gweithgareddau'n canolbwyntio ar anghenion a diddordebau unigol unigolyn ifanc; cynnig lefel uchel o ddewis mewn gweithgareddau; sicrhau bod gweithgareddau yn ymarferol o ran eu natur ac yn wahanol i'r dysgu nodweddiadol mewn ysgol; a sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig dros gyfnodau hwy er mwyn cryfhau effeithiau.

# 6 Effaith Llwybrau i'r Brig

6.1 Yn yr adran hon aseswn ddeilliannau prosiect Llwybrau i'r Brig, gan ystyried y buddion i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn erbyn y deilliannau allweddol disgwyliedig, a amlinellwyd yn y model rhesymeg. I'r graddau y gallwn wneud hynny gyda'r dystiolaeth sydd ar gael, aseswn pa un a fu lefelau gwahanol o ddeilliannau ar gyfer grwpiau targed gwahanol, a pha un a fu gweithgareddau penodol yn llwyddiannus o ran cyflawni deilliannau ar gyfer pobl ifanc. Defnyddiwn gyfweliadau gyda chyd-noddwyr, ymchwil astudiaethau achos, adroddiadau diwedd prosiect, adroddiadau gwerthuso annibynnol (lle bônt ar gael) a gwybodaeth reoli a oedd ar gael.

**Deilliannau a gyflawnwyd gan bobl ifanc**

6.2 Gan ddilyn yr un ymagwedd â Throedle Cyntaf, rydym wedi asesu'r dystiolaeth a oedd ar gael ynglŷn â'r deilliannau a gyflawnwyd gan bobl ifanc, a gellir gweld y dystiolaeth yn ystod ac yn syth ar ôl gweithgareddau'r prosiect (

Tabl 21). Mae rhywfaint o dystiolaeth o'r canlynol:

- Tueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol gwell;
- Gwell hyder a chymhelliant i ddefnyddio'r Gymraeg, o ganlyniad i weithgareddau'r Urdd; a
- Gwell gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, o ganlyniad i wefan CLIC a gweithgareddau SNAP Cymru.

6.3 Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd o gyfranogiad gwell mewn addysg a hyfforddiant, yn cynnwys ymddygiad a phresenoldeb gwell, er bod y dystiolaeth yn wannach.

**Tabl 21 Llwybrau i'r Brig – asesiad o gryfder y dystiolaeth o feysydd deilliannau tymor byr a thymor canolig allweddol**

| | **Sgiliau personol a chymdeithasol gwell** | **Cyfranogiad gwell mewn addysg a hyfforddiant (yn cynnwys gwell presenoldeb ac ymddygiad)** | **Gwell hyder a chymhelliant i ddefnyddio'r Gymraeg** | **Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gwell** |
|---|---|---|---|---|
| Cerdd Gymunedol Cymru | B | E | - | - |
| SNAP Cymru | D | D | - | C |
| Techniquest | - | | - | - |
| Urdd Gobaith Cymru | C | E | C | - |
| CLIC AdAS | - | - | - | B/C |

6.4 Yn gyffredinol, ychydig o dystiolaeth sydd ynglŷn â'r graddau y cynhaliwyd deilliannau tymor byr a thymor canolig ar ôl i bobl ifanc orffen gweithgareddau Llwybrau i'r Brig, p'un a yw'r dysgu a gafwyd o'r gweithgaredd wedi'i ddefnyddio neu wedi newid dyheadau a bwriadau, a ph'un a yw wedi cyfrannu at gyflawni deilliannau tymor hwy, fel:

- Gwell presenoldeb yn yr ysgol neu'r coleg;
- Cyrhaeddiad addysgol gwell;
- Sgiliau sylfaenol gwell;
- Cynnal cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol;
- Mwy o gymhwysedd yn y Gymraeg;
- Darparu adnoddau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a ddefnyddir i wneud penderfyniadau gwybodus; a
- Dilyniant gwell i addysg bellach ac addysg uwch ac wedi atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET.

*Tueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol gwell*

6.5 Mae gweithgareddau a gyflwynwyd gan Cerdd Gymunedol Cymru, SNAP Cymru a'r Urdd wedi arwain at dueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol gwell ymhlith pobl ifanc, fel rhyngweithio ag oedolion a

phobl ifanc eraill, cymhelliant a chymryd rhan, annibyniaeth a pharch at eraill.

6.6 Adroddodd staff cyflwyno a phartneriaid fod llawer o’r bobl ifanc yr oeddent wedi gweithio â nhw, cyn iddynt ymuno â gweithgareddau, wedi wynebu anawsterau sylweddol o ran cyfathrebu ag eraill, eu cymell eu hunain i weithio’n annibynnol a chyfranogi’n rheolaidd mewn gweithgareddau cadarnhaol. Fe wnaeth llawer ohonynt ddisgrifio pobl ifanc nad oeddent yn teimlo’n hyderus i adael cartref neu a oedd, pan oedd rhaid iddynt fod mewn gweithgareddau grŵp, wedi’i chael yn anodd rhyngweithio’n gadarnhaol ag eraill. Dros amser, trwy gyfranogi mewn gweithgareddau ac adeiladu perthnasoedd cadarn gyda gweithwyr ieuenctid, datblygodd y bobl ifanc eu sgiliau personol a chymdeithasol. Ystyriai llawer o’r staff cyflwyno mai un rhan bwysig o’r gweithgareddau oedd eu bod yn dangos i bobl ifanc bwysigrwydd “*bod yn brydlon, yn foesgar, yn barchus ac yn raenus”.* Cytunai pobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau’r Urdd a Cerdd Gymunedol Cymru fod eu sgiliau personol a chymdeithasol wedi gwella.

6.7 Yng ngweithgareddau’r Urdd, dangoswyd gwelliannau gan 1,344 o gyfranogwyr (rhyw 30% o’r holl gyfranogwyr) o ran eu sgiliau rhyngweithio, eu cymhelliant, annibyniaeth a pharch at eraill. Mae Tabl 23 isod yn dangos sgorau cyfartalog cyn ac ar ôl, yn seiliedig ar raddfa o 1-4[39].

**Tabl 22 Yr Urdd – gwelliannau ym mhob elfen o Dangos Llwyddiant**

| **Sgiliau cymdeithasol, emosiynol a phersonol** | **Sgôr cyfartalog cyn y gweithgaredd** | **Sgôr cyfartalog ar ôl y gweithgaredd** | **% cynnydd** |
|---|---:|---:|---:|
| Rhyngweithio | 1.6 | 2.4 | 50% |
| Cymhelliant a chyfranogiad gweithgar | 1.7 | 2.4 | 43% |
| Annibyniaeth | 1.8 | 2.3 | 33% |
| Parch at eraill | 1.9 | 2.5 | 27% |

[39] Wavehill (2013) *Gwerthusiad o gynllun Llwybrau i’r Brig Urdd Gobaith Cymru*

Ffynhonnell: Gwerthusiad o gynllun Llwybrau i'r Brig Urdd Gobaith Cymru, Wavehill, Mawrth 2013

6.8 Ategir hyn gan y cyfweliadau astudiaethau achos a ganfu fod pobl ifanc wedi datblygu hyder i weithio mewn grwpiau ac i gymell ac annog ei gilydd trwy brofiadau newydd (Blwch 10 isod). Mae hyn hefyd yn ategu tystiolaeth mewn gwerthusiad o'r rhaglen Dyfodol Cadarnhaol a gynhaliwyd hyd at fis Mawrth 2013 gan y Swyddfa Gartref yn Lloegr, a adroddodd am berthnasoedd gwell gyda chyfoedion ac aelodau teulu ymhlith cyfranogwyr[40].

**Blwch 10 Defnyddio gweithgareddau awyr agored i wella sgiliau personol a chymdeithasol**

Nododd staff cyflwyno yn yr Urdd yr hyder cynyddol ymysg pobl ifanc i leisio barnau a chyfranogi yn ystod taith breswyl penwythnos a oedd yn cynnwys gweithgareddau dringo ac abseilio:

> "*Mae'r ddau yna yn dawel fel dwy lygoden fach fel arfer, ond maent yn llawn ohoni yma".*

Adroddodd pobl ifanc hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog gan eu cyfoedion a'u bod wedi magu'r hyder i roi cynnig ar rywbeth newydd:

> "*Nid oeddwn i'n hoff o uchder, a chan fy mod ychydig yn swil gyda dieithriaid - nid oeddwn i'n siŵr ynglŷn ag aros i ffwrdd o adref. Ni allwch chi dynnu'n ôl pan fyddwch chi i fyny yno! Mae pawb yn eich annog ymlaen. Mae'n wych!"*

6.9 Yng ngweithgareddau Cerdd Gymunedol Cymru cododd canfyddiadau pobl ifanc o'u sgiliau a'u cymwyseddau ar gyfartaledd erbyn diwedd y gweithgaredd[41]. Mae Ffigur 19 a Ffigur 20 yn dangos cynnydd mewn hyder o ran gweithio'n annibynnol a gyda rhai eraill, mwy o ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned leol a chael ffrindiau, a dyheadau uwch am swydd yn y dyfodol. Ategir hyn gan y rhai a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr astudiaethau achos. Cytunai staff cyflwyno, pobl ifanc a phartneriaid


---

[40] Y Swyddfa Gartref (2006) *Positive Futures impact report: End of season review.*

[41] Defnyddiwyd fersiwn wedi'i haddasu o Dangos Llwyddiant. Nid yw'r holiadur a'r raddfa a ddefnyddiwyd yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd gan noddwyr eraill.


cyfeirio fod y bobl ifanc, trwy gyfuniad o waith un-i-un a gwaith grŵp, wedi magu hyder i ryngweithio ag eraill. Er enghraifft, esboniodd un unigolyn ifanc sy'n byw mewn hostel nad yw'n cymysgu rhyw lawer gydag eraill yn yr hostel fel arfer, ond bod mynychu'r sesiynau cerdd yn golygu ei fod yn teimlo "*ei fod yn gallu siarad ychydig mwy â rhai eraill yn yr hostel".* Roedd un o'r partneriaid cyfeirio o'r farn fod cyfranogiad parhaus pobl ifanc mewn gweithgareddau Cerdd Gymunedol Cymru yn arwydd pwysig o gymhelliant gwell.

**Ffigur 19 Cerdd Gymunedol Cymru: cynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig mewn perthynas â hyder**




Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan Cerdd Gymunedol Cymru ar sail holiaduron cyn ac ar ôl a ddosbarthwyd i 83% o gyfranogwyr (457 o bobl ifanc). Gofynnwyd i bobl ifanc raddio'u cytundeb â datganiadau ar raddfa o 1-4.


**Ffigur 20 Cerdd Gymunedol Cymru: cynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig mewn perthynas â sgiliau cymdeithasol, cyfeillgarwch ac ymdeimlad o berthyn i gymuned**




Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan Cerdd Gymunedol Cymru ar sail holiaduron cyn ac ar ôl a ddosbarthwyd i 83% o gyfranogwyr (457 o bobl ifanc). Gofynnwyd i bobl ifanc raddio'u cytundeb â datganiadau ar raddfa o 1-4.

6.10 Yng ngweithgareddau SNAP Cymru, adroddodd cyfran fach (3%, n=52) o'r bobl ifanc a wnaeth ela o gyngor ac arweiniad pwrpasol am welliannau bach yn eu gallu i ryngweithio'n effeithiol ag eraill, hunan-reoli, cymhelliant a pharch at eraill. Gofynnwyd i gyfranogwyr ddarllen cyfres o ddatganiadau a oedd yn disgrifio cymwyseddau a sgiliau gwahanol, a sgorio'u hunain gan ddefnyddio graddfa o un i ddeg, i ddangos pa mor dda yr oeddent yn ystyried oedd eu sgiliau. Cafodd y cymwyseddau eu grwpio i bedwar maes: rhyngweithio, cymhelliant, hunan-reoli a pharch at eraill. Ym mhob un o'r meysydd hyn, roedd cynnydd o un yn y sgôr hunan-gofnodedig cyfartalog ar ôl yr ymyrraeth (Ffigur 21).

**Ffigur 21 SNAP Cymru: cynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig mewn perthynas â sgiliau personol a chymdeithasol**




Ffynhonnell: Holiaduron cyn ac ar ôl a weinyddwyd gan SNAP Cymru cyn ac ar ôl darparu cyngor ac arweiniad un-i-un (sylfaen sampl ar hap = 52)


6.11 Mae dadansoddiad manylach o'r gyfran o bobl ifanc yr oedd cynnydd o un, dau neu dri neu fwy o bwyntiau, neu ddim newid o gwbl, yn eu sgôr hunan-gofnodedig (

Ffigur 22), yn dangos[42]:

- Mewn perthynas â rhyngweithio a chymhelliant, roedd sgôr uwch gan ryw dair rhan o bump o'r bobl ifanc (62% ar gyfer rhyngweithio a 59% ar gyfer cymhelliant);
- Ar gyfer hunan-reoli a pharch at eraill, newidiodd sgorau hunan-gofnodedig oddeutu hanner y bobl ifanc ar ôl yr ymyrraeth (53% ar gyfer hunan-reoli, 48% ar gyfer parch at eraill); ac
- Ar gyfer cyfran fach o bobl ifanc, roedd gostyngiad mewn sgorau, gyda gostyngiad ychydig yn uwch ar gyfer cymhelliant a pharch at eraill.

[42] Dylid dehongli'r data hwn yn ofalus; heb ddata cyd-destunol nid oes modd asesu, er enghraifft, p'un a yw sgorau is yn arwydd bod unigolyn ifanc wedi symud i sefyllfa neu amgylchedd lle mae'n teimlo'n llai esmwyth, er enghraifft ysgol neu leoliad hyfforddi newydd.

**Ffigur 22 SNAP Cymru – cyfran y bobl ifanc â chynnydd mewn sgorau hunan-gofnodedig**




Ffynhonnell: Holiaduron cyn ac ar ôl a weinyddwyd gan SNAP Cymru cyn ac ar ôl darparu cyngor ac arweiniad un-i-un (sylfaen sampl ar hap = 52)

6.12 Nid oes unrhyw dystiolaeth pa un a yw sgiliau personol a chymdeithasol gwell wedi'u defnyddio gan bobl ifanc ar ôl gadael gweithgareddau i'w helpu symud ymlaen mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

*Cyfranogiad gwell mewn addysg a hyfforddiant*

6.13 Mae gwybodaeth reoli deilliannau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn dangos mai dim ond 106 o gyfranogwyr Llwybrau i'r Brig (llai nag 1% o holl gyfranogwyr y prosiect) wedi symud ymlaen i ddysgu pellach. Mae hyn yn nifer sylweddol yn llai na'r disgwyl, a dim ond 2% o darged 2011 (Tabl 24). Adroddodd rhai cyd-noddwyr eu bod wedi cael anawsterau yn olrhain pobl ifanc er mwyn gwirio cyrchfannau, a gall hynny esbonio'n rhannol pam mae'r ffigur hwn mor isel.

**Tabl 23 Llwybrau i'r Brig – nifer y bobl ifanc yn mynd i mewn i ddysgu pellach**

| Dangosydd | Targed gwreiddiol (2008) | Targed diwygiedig (2011) | Targed diwygiedig (2013) | Cyflawnwyd (Mawrth 2013) | % wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed gwreiddiol (%) | % wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr yn mynd i mewn i ddysgu pellach: rhai 16–19 oed | 4,400 | 4,400 | 50 | 106 | 2% | 2% |

Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Mehefin 2013

6.14 Mae tystiolaeth ansoddol fod cyfranogiad rhai pobl ifanc mewn addysg wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan yng ngweithgareddau Llwybrau i'r Brig. Er enghraifft, mae achosion o bresenoldeb gwell yn yr ysgol am fod pobl ifanc wedi ymgysylltu mwy a bod ganddynt fwy o ddiddordeb, a hefyd enghreifftiau o ymddygiad gwell, gyda'r bobl ifanc yn rhyngweithio'n gadarnhaol yn hytrach nag encilio neu darfu.

6.15 Er enghraifft:

- Nododd staff cyflwyno a phartneriaid cyfeirio a fu'n gysylltiedig â gweithgareddau Cerdd Gymunedol Cymru fod y gweithgareddau ymgysylltu cerddoriaeth wedi helpu i leihau absenoliaeth o'r ysgol a bod y gwelliant hwn wedi'i nodi gan benaethiaid. Esboniodd swyddog awdurdod lleol a gyfeiriodd pobl ifanc at weithgareddau Cerdd Gymunedol Cymru: *"mae cyfraddau triwantiaeth wedi'u lleihau, a phan fydd athrawon yn gweld pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn cymryd diddordeb yn rhywbeth ac eisiau gwneud mwy, mae'n gwneud yr ysgol yn hapus";*
- Adroddodd staff cyflwyno a phartneriaid mewn dau weithgaredd fod ymddygiad gwell ymhlith cyfranogwyr ar ôl iddynt fynd yn ôl i'r ysgol. Adroddodd athro yn un o'r ysgolion a oedd wedi cyfeirio pobl ifanc at weithgareddau'n cael eu cyflwyno gan Urdd Gobaith Cymru ei fod wedi gweld "*gwelliannau amlwg mewn ymddygiad yn yr ysgol ac wrth ail-ymgysylltu â gweithgareddau prif ffrwd".* Adroddodd 27% o bobl ifanc y gwnaed arolwg ohonynt gan yr Urdd ar ôl iddynt adael y prosiect (295 o 1,182 o bobl ifanc) fod cymryd rhan wedi helpu eu gwaith ysgol. Yn ddigon tebyg, adroddodd staff yn Cerdd Gymunedol Cymru eu bod wedi cael adborth gan athrawon a oedd wedi sylwi ar ymddygiad gwell ymhlith disgyblion;
- Adroddodd ychydig o staff cyflwyno o weithgareddau'r Urdd a Cerdd Gymunedol Cymru am dystiolaeth anecdotaidd o bobl ifanc yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn gweithgaredd neu leoliadau gwaith gwirfoddol ar ôl gweithgareddau Llwybrau i'r Brig;

- Yn SNAP Cymru, yn dros chwarter o'r 241 o ffeiliau achos a adolygwyd (28%)[43], roedd pobl ifanc wedi cael cefnogaeth i aros mewn addysg am fod darpariaeth neu gymorth wedi'i drefnu i alluogi pobl ifanc a oedd wedi gwrthod mynd i'r ysgol neu'r rheiny a oedd wedi'u gwahardd i fynd yn ôl i addysg, naill yn eu hysgol flaenorol, ysgol newydd, darpariaeth amgen neu ddarpariaeth gartref. Mewn dros un rhan o ddeg o achosion, roedd tystiolaeth o ddeilliannau tymor hwn, gyda chofnodion yn dynodi bod pobl ifanc wedi parhau i fynychu, yn cyflawni'n dda yn yr ysgol ac yn hapus ac wedi ymgartrefu.

6.16 Mae tystiolaeth hefyd o werthusiadau o weithgareddau ac ymyriadau sy'n debyg o ran eu natur i'r rhai a gyflwynwyd o dan Llwybrau i'r Brig, eu bod yn gallu cefnogi ymddygiad gwell yn yr ysgol, cynyddu mwynhad o'r ysgol a gwella graddau[44,45]

*Cymwysterau a enillwyd*

6.17 Llwyddodd rhyw 8% o gyfranogwyr Llwybrau i'r Brig (1,270 o bobl ifanc) i ennill cymhwyster, o gymharu â 3% o gyfranogwyr Troedle Cyntaf. Cyflawnodd tri o bob pedwar o'r cyfranogwyr Llwybrau i'r Brig hynny gymhwyster sgiliau sylfaenol neu gymhwyster lefel 1 (76%, n= 966). Fel y mae Tabl 24 yn dangos, mae hyn yn nifer sylweddol yn llai nag a fwriadwyd. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r bobl ifanc (90%, n=1,139) a gyflawnodd gymhwyster gymryd rhan mewn gweithgareddau a gyflwynwyd gan yr Urdd.

---

[43] Yn seiliedig ar adolygiad o 241 o ffeiliau achos.
[44] Y Swyddfa Gartref (2006) *Positive Futures Impact Report: End of season review*. Llundain: Y Swyddfa Gartref.
[45] Gen and Wavehill Consulting (2011) *Evaluation of Young People's Fund Year 5 Report.*

**Tabl 24 Llwybrau i'r Brig – cymwysterau a enillwyd**

| **Canlyniadau** | **Targed gwreiddiol (2008)** | **Targed diwygiedig (2011)** | **Targed diwygiedig (2013)** | **Cyflawnwyd (Mawrth 2013)** | **% wedi'i chyflawni mewn perthynas â'r targed gwreiddiol (2008)** | **% wedi'i chyflawni mewn perthynas â tharged 2011** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr yn ennill cymwysterau – 11-19 oed | 3,300 | 3,300 | 1,350 | 1,270 | 38% | 38% |
| Cymwysterau sgiliau sylfaenol a chymwysterau Lefel 1 a enillwyd | 1,650 | 1,650 | 1,000 | 966 | 59% | 59% |
| Cymwysterau Lefel 2 a enillwyd | 990 | 990 | 350 | 304 | 31% | 31% |
| Cymwysterau Lefel 3 a enillwyd | 660 | 660 | 0 | 0 | 0% | 0% |

Ffynhonnell: Adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd, Mehefin 2013

6.18 Fel gyda Troedle Cyntaf, mae rhan gymwysterau a gyflawnwyd gan bobl ifanc wedi'u cofnodi fel deilliannau cadarnhaol eraill, ynghyd â deilliannau fel cwblhau profiad gwirfoddol. Cofnodwyd bod cyfanswm o 1,823 o bobl ifanc wedi cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill (20% o darged 2011, sef 8,920).

6.19 Fel rhan o brosiect CLIC, dyfarnwyd cymwysterau neu ddyfarniadau fel dyfarniadau Agored mewn ysgrifennu creadigol, ffotograffiaeth a chynhyrchu straeon lluniau i 211 o bobl ifanc.

*Diddordeb cynyddol mewn pynciau a gyrfaoedd STEM*

6.20 Yn y gweithgareddau Techniquest a gyflwynwyd gan Gyrfa Cymru mewn ysgolion, roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi elfennau ymarferol y gweithdai. Roeddent yn cydnabod eu bod yn fwy "*ymarferol ac yn fwy o hwyl"* na gweithgareddau dysgu arferol yn yr ysgol. Adroddodd athrawon

hefyd fod disgyblion wedi mwynhau’r gweithdai, gyda dros hanner yn dweud bod disgyblion wedi’u mwynhau’n fawr neu gryn dipyn (91%, n=394).

6.21 Tystiolaeth gyfyngedig sydd fod cymryd rhan wedi arwain at fwy o ddiddordeb mewn pynciau neu yrfaoedd STEM. Dywedodd rhai pobl ifanc a gafodd eu cyfweld ar ôl gweithdy: “*nid oedden nhw’n sôn sut gallai unrhyw beth o’r hyn yr oeddent yn ei ddangos i ni gysylltu â gyrfa. Dim ond mater o ‘dyma fath o ddaeargryn, sut mae’n digwydd.’ Sut mae hynny’n gysylltiedig â swyddi?”.* Cydnabu nifer o’r staff cyflwyno nad oedd y cysylltiadau gyrfaoedd wedi’u datblygu’n arbennig o dda, ac roeddent o’r farn na fyddai’r gweithdai’n cael effaith sylweddol ar gynllunio gyrfa neu ddilyn pynciau STEM ar eu pennau’u hunain. Ystyriai ychydig ohonynt fod y gweithdai wedi helpu i *“agor llygaid pobl ifanc i gyfleoedd gwahanol”.* Roedd staff Techniquest yn cydnabod nad oedd y cysylltiadau gyrfaoedd wedi cael lle digon amlwg i gychwyn, a’u bod felly wedi gwneud ymdrechion i roi lle mwy blaenllaw i wybodaeth am yrfaoedd, ac i gynnwys elfennau ychwanegol yn canolbwyntio ar yrfaoedd mewn gweithdai diweddarach. Roedd y rhan fwyaf o’r athrawon a fu’n rhan o’r arolwg (86%, n=373) yn cytuno ‘gryn dipyn’ neu ‘yn fawr’ y dylai disgyblion, o ganlyniad i’r gweithdy, wybod mwy nawr am sut yr oedd y testun yn ymwneud â bywyd go iawn[46]. Roedd rhyw dair rhan o bump yn cytuno ‘gryn dipyn’ neu ‘yn fawr’ y dylai disgyblion, o ganlyniad i’r gweithdy, wybod mwy nawr am gyfleoedd gyrfa mewn Mathemateg (60%, n=260), er y dywedodd traean (29% n=125) ieuenctid bod yn cytuno ‘ychydig’ yn unig â’r datganiad hwn.

[46] Roedd yr holiadur a ddefnyddiwyd gan Techniquest yn cynnwys graddfa bum pwynt, gyda phwynt 1 wedi’i labelu ‘ddim o gwbl’, pwynt 3 (h.y. y pwynt canol ffordd) wedi’i labelu ‘ychydig’ a phwynt 5 wedi’i labelu, ‘yn fawr’. Nid oedd pwyntiau 2 a 4 wedi’u labelu. Yn nodweddiadol, ar raddfa o’r fath, byddai’r pwynt canol wedi’i labelu ‘rhywfaint’ a byddai’r holl bwyntiau wedi’u labelu er mwyn sicrhau bod yr ymatebydd yn glir ynghylch y farn yr oeddent yn ei mynegi. Yn ein dadansoddiad ni, rydym wedi galw pwynt 4 yn ‘gryn dipyn’, ond ni ddefnyddiwyd y derminoleg hon gydag ymatebwyr.

*Gwell hyder o ran defnyddio'r Gymraeg*

6.22 Er nad yw'r raddfa gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i chipio drwy wybodaeth reoli'r prosiect, mae cyfweliadau gyda chyd-noddwyr a staff cyflwyno yn dynodi bod sawl un o'r gweithgareddau wedi cynnwys elfen o gyflwyno yn Gymraeg.

6.23 Roedd amcan penodol gan yr Urdd i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau yr oedd yn eu darparu i bobl ifanc, ac mae tystiolaeth i awgrymu y bu'n llwyddiannus o ran cyflawni'r amcan hwn. Gwnaed arolwg o 1,182 (25% o'r holl gyfranogwyr) pan adawont y prosiect, ac adroddodd 48% fod eu Cymraeg wedi gwella o ganlyniad i'r gweithgareddau yr oeddent wedi cyfranogi ynddynt[47]. Ategir hyn gan dystiolaeth astudiaethau achos (Blwch 11).

**Blwch 11 Darparu cyfleoedd hamddenol ac anffurfiol i bobl ifanc fagu hyder yn siarad Cymraeg**

Ar un o'r penwythnosau preswyl a arsylwyd fel rhan o'r ymchwil astudiaethau achos, rhoddwyd yr holl gyfarwyddiadau yn Gymraeg. Roedd pobl ifanc yn cael eu hannog i siarad Cymraeg ond nid oedd unrhyw bwysau i wneud hynny, gyda'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun o hwyl a chymdeithasu.

Un sylw nodweddiadol gan unigolyn ifanc a gymerodd ran yn y gweithgarwch oedd:

> "*Nid yw fy ffrindiau yn yr ysgol yn siarad â'i gilydd yn Gymraeg, ond yma mae popeth wedi bod yn Gymraeg. Ro'n i'n meddwl y bydden i braidd yn dawel oherwydd hynny, ond nid wyf wedi bod yn dawel o gwbl".*

Mynegwyd barn debyg gan unigolyn ifanc arall;

> "*Mae gen i ychydig mwy o hyder i siarad Cymraeg. Nid wyf yn meddwl gymaint am y peth felly nid wyf yn hunanymwybodol".*

*Codi dyheadau ar gyfer y dyfodol*


---

[47] Gwerthusiad o gynllun Llwybrau i'r Brig Urdd Gobaith Cymru, Wavehill, Mawrth 2013

6.24 Roedd llawer o staff cyflwyno a phartneriaid o'r farn fod y gweithgareddau wedi helpu i ehangu gorwelion pobl ifanc. Yn ogystal â chael y cyfle i gyfarfod â phobl ifanc eraill y tu hwnt i'w teuluoedd a'u hardaloedd agosaf, roedd gweithgareddau'n cyflwyno hobïau newydd, ac mewn rhai achosion, dewisiadau gyrfa newydd. Teimlai staff cyflwyno a phartneriaid fod hyn yn llwyddiannus o ran codi dyheadau rhai pobl ifanc. Nid yw tystiolaeth am hyn, fodd bynnag, wedi'i chasglu'n gyffredin gan y gweithgareddau.

6.25 Casglodd Cerdd Gymunedol Cymru wybodaeth am farnau pobl ifanc am eu dyfodol cyn ac ar ôl cyfranogi yn y rhaglen fentora un-i-un. Mae hyn yn dangos dyheadau uwch ynglŷn â swyddi ac addysg, a hyder ynglŷn â'u dyfodol (gweler Ffigur 23).

**Ffigur 23 Cerdd Gymunedol Cymru: dyheadau pobl ifanc ar gyfer y dyfodol cyn ac ar ôl cyfranogi yng ngweithgareddau Cyrraedd y Nod**




*Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan Cerdd Gymunedol Cymru ar sail holiaduron cyn ac ar ôl a ddosbarthwyd i 457 o bobl ifanc*

*Mynediad gwell at wybodaeth, cyngor ac arweiniad*

6.26 Mae CLIC, sef gwefan cyngor, newyddion a chyngor cyffredinol i bobl ifanc 11-24 oed yng Nghymru wedi'i hariannu'n rhannol drwy Llwybrau i'r

Brig. Roedd gwerthusiad annibynnol o'r wefan[48] a ddefnyddiodd arolwg o 2.6% o ymwelwyr unigryw â'r wefan[49] yn dangos bod defnyddwyr wedi cael cymorth i gael gwybodaeth a chyngor y maent yn eu defnyddio. Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at:

- Roedd y wefan wedi hwyluso mynediad pobl ifanc at wybodaeth, cyngor ac arweiniad: roedd dros ddwy ran o dair o'r bobl ifanc y gwnaethpwyd arolwg ohonynt wedi edrych ar wefan arall i gael rhagor o wybodaeth a chyngor ar ôl cael eu cyfeirio drwy CLIC; ac roedd dwy ran o dair wedi adrodd eu bod wedi defnyddio gwybodaeth ar wefan CLIC ei hun i benderfynu 'beth i wneud' ynglŷn â mater yr oeddent yn ei wynebu;
- Adroddodd dau o bob pum defnyddiwr eu bod wedi cysylltu'n uniongyrchol â sefydliad i gael cymorth pellach o ganlyniad i ddefnyddio CLIC.

**Deilliannau a gyflawnwyd gan weithwyr proffesiynol**

6.27 Yn Llwybrau i'r Brig, cyflwynwyd hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gan SNAP Cymru a'r gweithgaredd CLIC a noddwyd gan AdAS. Hefyd, cynigiodd rhaglen Prentisiaeth Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru gyllid i hyd at 30 o brentisiaethau gwaith ieuenctid ar Lefel 2 neu Lefel 3.

6.28 Canfu ymarferwyr a oedd yn cyfranogi yn hyfforddiant SNAP Cymru ei fod yn berthnasol, a disgwyliant y bydd yn ddefnyddiol ac yn gymwys i'w hymarfer proffesiynol yn y dyfodol

- Adroddodd pob un o'r 89 o weithwyr proffesiynol a gyfranogodd mewn hyfforddiant ar gyfer Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid y byddai'r hyfforddiant "*yn cael effaith gadarnhaol ar eu gwaith gyda phobl ifanc";*
- Cytunai bob un o'r 45 o ymgynghorwyr gyrfaoedd a gymerodd ran mewn hyfforddiant i Gyrfa Cymru ar anghenion dysgu ychwanegol ac anabledd fod yr hyfforddiant "*wedi'u helpu i ganolbwyntio ar y*

[48] *Gwerthusiad o CLIC: Adroddiad Terfynol,* ICF GHK, Rhagfyr 2012
[49] Golyga hyn, er mwyn cael lefel hyder o 95%, mae gan y canlyniadau gyfwng o ±3.9, sy'n fawr.

*ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi cleientiaid ag anghenion dysgu ychwanegol ac anabledd";*

- Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld yn yr ymchwil astudiaethau achos o'r farn fod eu hymwybyddiaeth o anableddau wedi gwella: "*Bellach rwyf yn fwy ymwybodol o anableddau 'anweledig' ac wedi cael safbwynt newydd".* Nododd cynrychiolwyr o Gyrfa Cymru fod ymgynghorwyr, o ganlyniad i hyfforddiant Gyrfa Cymru, yn gallu adnabod yn well unrhyw gyflyrau gwahanol y gall fod gan bobl ifanc ag anghenion ychwanegol, a bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r broses pennu datganiad.

6.29 Pa un a yw cyfranogwyr wedi cymhwyso dysgu o'r cwrs i'w gwaith gyda phobl ifanc neu beidio, nid yw hynny mor eglur. Mae ymarferiad dilynol ar raddfa fach gyda staff mewn thimau troseddau ieuenctid, yr ymatebodd wyth o staff iddo, yn awgrymu eu bod:

- Wedi defnyddio'r wybodaeth o'r hyfforddiant herio penderfyniadau ac eiriol yn fwy effeithiol dros bobl ifanc;
- Wedi gweithio'n agosach â Gweithwyr Addysg Troseddwyr Ifanc o ganlyniad i'r hyfforddiant;
- O'r farn bod ganddynt ddealltwriaeth fwy o'r materion a wynebir gan bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi'u helpu i ddarparu cymorth mwy effeithiol;
- Wedi dod yn fwy hyderus i weithio'n uniongyrchol â phobl ifanc a theuluoedd, gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, a thrafod anghenion addysgol arbennig mewn cyfarfodydd; ac
- Yng ngweithgaredd Prentisiaeth Gwaith Ieuenctid yr AdAS, adroddodd y prentisiaid a gafodd eu cyfweld fod ymgymryd â'r hyfforddiant a'r profiad gwaith wedi rhoi'r hyder iddynt lunio a chyflwyno eu gweithgareddau ymgysylltu ag ieuenctid eu hunain, a arweiniodd at fwy o hunan-barch a hyder i gyfranogi ymhlith pobl ifanc.

## Deilliannau a gyflawnwyd gan grwpiau targed gwahanol

6.30 Mae data gwybodaeth reoli'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn dangos:


**Fel gyda Troedle Cyntaf, aeth cyfran ychydig yn uwch o gyfranogwyr anabl i mewn i ddysgu anabl i mewn i ddysgu pellach a chyflawni deilliannau cadarnhaol eraill na chyfranogwyr nad eraill na chyfranogwyr nad ydynt yn anabl (**

- Ffigur 24);
- Fel y byddid yn disgwyl, aeth cyfran uwch o bobl ifanc NEET i mewn i ddysgu pellach na'r rheiny a oedd mewn addysg amser llawn yn barod. Cyflawnodd cyfran uwch o bobl ifanc NEET ddeilliannau cadarnhaol eraill (

Ffigur 25) ; ac


- Ychydig o wahaniaeth sydd mewn deilliannau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr benyw a gwryw (Ffigur 26).

**Ffigur 24 Llwybrau i'r Brig – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr anabl a chyfranogwyr nad ydynt yn anabl**





Ffynhonnell: Data'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan y tîm rheoli prosiectau ym Mehefin 2013

**Ffigur 25 Llwybrau i'r Brig – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr NEET a'r rheiny mewn addysg**




Ffynhonnell: Data'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan y tîm rheoli prosiectau ym Mehefin 2013

**Ffigur 26 Llwybrau i'r Brig – cymharu deilliannau ar gyfer cyfranogwyr gwryw a benyw**





Ffynhonnell: Data'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan y tîm rheoli prosiectau ym Mehefin 2013

### Deilliannau a gyflawnwyd yn ôl ardal awdurdod lleol

6.31 Mae gwybodaeth reoli'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd (gweler Ffigur 27) yn dangos, ar gyfartaledd, bod 10% o'r holl gyfranogwyr ym mhob awdurdod lleol wedi ennill cymhwyster. Llwyddodd dros ddwywaith y

gyfran gyfartalog i ennill cymhwyster yn Ynys Môn, Conwy a Gwynedd. Cyfran gymharol isel o gyfranogwyr a enillodd gymwysterau ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful, a dim un yn Abertawe.


**Ffigur 27 Llwybrau i'r Brig – canran y cyfranogwyr yn ennill cymwysterau yn ôl awdurdod lleol**




Ffynhonnell: Data'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan y tîm rheoli prosiectau ym Mehefin 2013

6.32 Roedd amrywio tebyg yn y gyfran o gyfranogwyr yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill, ond patrwm gwahanol (gweler Ffigur 28). Ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Cheredigion, cyflawnwyd deilliannau cadarnhaol gan rhwng dwy a thair rhan o bump o gyfranogwyr, a dim ond 4% oedd y gyfran yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin.

**Ffigur 28 Llwybrau i'r Brig – canran y cyfranogwyr yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill yn ôl awdurdod lleol**




*Ffynhonnell: Data'r System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a ddarparwyd gan y tîm rheoli prosiectau ym Mehefin 2013*

**Deilliannau a gyflawnwyd yn ôl gweithgareddau**

6.33 Er nad oes modd gwneud asesiad o berfformiad gweithgareddau unigol gyda'r data sydd ar gael, mae dadansoddiad o ddeilliannau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a gyflawnwyd gan gyd-noddwyr (Tabl 25) yn dynodi'r canlynol:

- Ymddengys fod gweithgareddau gwasanaeth ieuenctid Cymraeg yr Urdd wedi bod yn gymharol lwyddiannus o ran dysgu sgiliau sylfaenol i gyfranogwyr a'u cynorthwyo i ennill cymwysterau lefel 1;
- Cafodd pob un o'r noddwyr anawsterau sylweddol yn cynorthwyo pobl ifanc i mewn i ddysgu pellach a chyflawni deilliannau cadarnhaol eraill, gan ei gwneud hi'n anodd nodi gweithgareddau sydd wedi bod yn llwyddiannu o ran cyflawni'r deilliannau hyn.

**Tabl 25 Llwybrau i'r Brig – cyflawniad deilliannau a chanlyniadau gan gyd-noddwyr**

| | Cerdd Gymunedol Cymru | | SNAP Cymru | | Techniquest | | Urdd Gobaith Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % o'r targed | % o'r targed | % o'r targed | % o'r targed | % o'r targed | % o'r targed | % o'r targed | % o'r targed |

| | Cerdd Gymunedol Cymru | | SNAP Cymru | | Techniquest | | Urdd Gobaith Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwreiddiol wedi'i chyflawni | diwygiedig wedi'i chyflawni | gwreiddiol wedi'i chyflawni | diwygiedig wedi'i chyflawni | gwreiddiol wedi'i chyflawni | diwygiedig wedi'i chyflawni | gwreiddiol wedi'i chyflawni | diwygiedig wedi'i chyflawni |
| Cyfranogwyr yn ennill cymwysterau– rhai 11-19 oed | - | - | 12% | 12% | - | - | 52% | 57% |
| Cymwysterau sgiliau sylfaenol, a cymwysterau Lefel 1 a enillwyd | - | - | 4% | 4% | - | - | 165% | 146% |
| Cymwysterau Lefel 2 a enillwyd | - | - | 28% | 28% | - | - | 17% | 20% |
| Cyfranogwyr yn mynd i mewn i ddysgu pellach: rhai 16 – 19 oed | 0% | 0% | 42% | 42% | 0% | 0% | 6% | 10% |
| Cyfranogwyr yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill | 2% | 2% | 24% | 24% | 4% | 4% | 17% | 15% |

Ffynhonnell: Data am dargedau a gyflawnwyd o adroddiad y System Rheoli Cronfeydd Data Ewropeaidd a gynhyrchwyd ym Mehefin 2013, wedi'i ddarparu gan dîm y prosiect; data'r targed gwreiddiol o Hawliad 7 wedi'i gyflwyno gan gyd-noddwyr i Lywodraeth Cymru; a data'r targed diwygiedig o Hawliad 18

### Sut y cyflawnwyd deilliannau

6.34 Fel gyda Troedle Cyntaf, mae diffyg gwybodaeth reoli ar lefel gweithgareddau yn golygu na fu modd gwneud asesiad llawn o'r hyn sydd wedi gweithio o ran cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc sy'n cyfranogi yn Llwybrau i'r Brig. Mae cyfweliadau gyda chyd-noddwyr, staff cyflwyno a phobl ifanc, serch hynny, wedi amlygu nodweddion cyflwyno yr oeddent yn ystyried eu bod yn effeithiol o ran cynorthwyo ymgysylltiad pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl.

Mae'r canfyddiadau hyn i gryn raddau yr un fath ag ar gyfer Troedle Cyntaf, ac yn adlewyrchu tystiolaeth ehangach yn y llenyddiaeth:

- **Mae cynnig lefel uchel o ddewis i bobl ifanc yn bwysig o ran sicrhau eu cyfranogiad a'u hymgysylltiad.** Fe wnaeth llawer o noddwyr Llwybrau i'r Brig ddylunio'u gweithgareddau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael dewis a rheolaeth dros yr hyn roeddent yn ei wneud. Er enghraifft, dechreuodd llawer o noddwyr ar eu gweithgaredd gydag asesiad o anghenion a geisiodd amlygu pa feysydd o'u bywyd yr hoffai pobl ifanc gael cymorth ar eu cyfer. Aethant ati i weithio gyda phobl ifanc i flaenoriaethu meysydd ffocws. Roedd llawer ohonynt hefyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau y gallai pobl ifanc ddewis ohonynt, gan weithio gyda nifer o sefydliadau partner i alluogi hi. Esboniodd staff cyflwyno yn Cerdd Gymunedol Cymru, er enghraifft: "*maent yn cael dewis beth i'w wneud; fel yna, mae perchenogaeth ganddynt ac mae'r hyn sy'n cael ei gynnig yn hyblyg felly gallant newid eu meddyliau unrhyw bryd".* Yn yr un modd, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd lefel uchel o ddewis ynglŷn â'r math o weithgaredd hamdden yr oeddent yn cyfranogi ynddo gan bobl ifanc yn gweithio gyda'r Urdd. Cytunai staff cyflwyno ar draws y sefydliadau noddi fod y dull hwn wedi helpu i gymell pobl ifanc. Ategir hyn gan gyfweliadau â phobl ifanc, a oedd yn frwdfrydig gan mwyaf ynglŷn â gweithgareddau. Mae hyn yn ategu tystiolaeth yn y llenyddiaeth ynglŷn ag arfer effeithiol o ran ymgysylltu â phobl ifanc. Yn ogystal â'r llenyddiaeth ar weithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau a gweithgareddau dinasyddiaeth y soniwyd amdanynt yn y bennod flaenorol, canfu adolygiad o'r llenyddiaeth ynglŷn ag ail-ymgysylltu â phobl ifanc wedi dadrithio trwy raglenni gweithgarwch corfforol fod buddion cadarnhaol wedi'u cyflawni, yn enwedig mewn perthynas â datblygiad personol a chymdeithasol, pan gaiff gweithgareddau eu

dewis a'u cynllunio'n ofalus gyda phobl ifanc yn cael y cyfle i lywio dyluniad a natur gweithgareddau[50].

- **Mae gweithwyr ieuenctid sydd â'r sgiliau i adeiladu perthnasoedd gyda phobl ifanc ar sail parch ar y ddwy ochr yn hollbwysig i lwyddiant**. Fel yn Troedle Cyntaf, cydnabu llawer o'r cyd-noddwyr a staff cyflwyno fod ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc yn dibynnu ar gydberthynas dda rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid. Esboniodd un gweithiwr allweddol, "*byddwn bob amser yn rhoi adborth cadarnhaol i'r bobl ifanc am ei fod yn rhoi'r hyder ac anogaeth iddynt i gadw at weithgaredd."* Roedd gweithiwr ieuenctid arall o'r farn "*y brif wers rwyf wedi'i dysgu o'r gwaith yw bod rhaid i chi ddeall bod pobl yn wahanol. Anogaeth ac atgyfnerthu cadarnhaol sy'n bwysig".* Dywedodd staff cyflwyno fod angen gweithio gyda phobl ifanc dros gyfnod amser estynedig er mwyn cyflawni hyn.
- **Mae gweithgareddau ymarferol sy'n wahanol i weithgareddau ysgol arferol yn helpu i ymgysylltu pobl ifanc.** Ym mhob un o weithgareddau Llwybrau i'r Brig, cydnabuwyd gan noddwyr a staff cyflwyno fod defnyddio gweithgareddau ymarferol iawn yn angenrheidiol ac yn effeithiol o ran ymgysylltu â phobl ifanc NEET a phobl ifanc sydd mewn perygl. Gyda gweithgareddau STEM, er enghraifft, adroddodd rhai o'r bobl ifanc a gyfranogodd yn y gweithdai a gyflwynwyd mewn ysgolion fod yn well ganddynt y rhannau ymarferol o'r gweithdy (a oedd yn defnyddio offer neu'n gofyn i bobl ifanc weithio rhywbeth) yn hytrach na'r rheiny a oedd yn canolbwyntio mwy ar ymarferiadau darllen ac ysgrifennu yn seiliedig ar bapur. Mae sylwadau nodweddiadol a wnaed gan bobl ifanc yn cynnwys *"mae'n fwy ymarferol"* ac "*mae'n rhoi prawf ar eich ymennydd drwy wneud pethau mewn ffordd sy'n hwyl".* Tynnodd staff cyflwyno sylw hefyd at fod angen i wybodaeth, cyngor ac arweiniad fod yn rhyngweithiol ac yn seiliedig ar wrando ar unigolyn ifanc ynglŷn â'i ddiddordebau a'i anghenion, a dod o hyd i ymatebion

[50] Sandford, R; Armour, K; Warmington, P (2006) Re-engaging disaffected youth through physical activity programmes. *British Educational Research Journal*, Cyfrol.32, Rhif.2, Ebrill 2006, tud.251-271

ymarferol i hyn. Amlygodd y gwerthusiad o wefan CLIC y ffaith fod pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r elfennau rhyngweithiol o'r wefan[51]. Fel yn Troedle Cyntaf, mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi tystiolaeth yn y llenyddiaeth. Er enghraifft, tynnodd gwerthusiad o raglen STEM yn Lloegr[52] ac ymchwil gan Ymddiriedolaeth Wellcome[53] sylw at bwysigrwydd gweithgareddau ymarferol, rhyngweithiol.

**Crynodeb**

6.35 Fel yn Troedle Cyntaf, mae tystiolaeth fod Llwybrau i'r Brig wedi cyflawni rhai o'r deilliannau tymor byr a thymor canolig disgwyliedig. Ychydig o dystiolaeth sydd yn gyffredinol, er hynny, ynglŷn ag i ba raddau y mae deilliannau tymor byr a thymor canolig wedi'u cynnal ar ôl i bobl ifanc orffen gweithgareddau Llwybrau i'r Brig, pa un a yw'r dysgu a gafwyd o'r gweithgaredd wedi'i ddefnyddio neu wedi newid dyheadau neu fwriadau, a pha un a yw wedi cyfrannu at ddeilliannau tymor hwy fel gwell presenoldeb yn yr ysgol neu goleg, cyrhaeddiad gwell, neu gyfranogiad gwell mewn gweithgareddau cymunedol:

- Mae gweithgareddau a gyflwynwyd gan Cerdd Gymunedol Cymru, SNAP Cymru a'r Urdd wedi arwain at dueddfryd a sgiliau personol a chymdeithasol gwell ymhlith pobl ifanc, fel rhyngweithio ag oedolion a phobl ifanc eraill, cymhelliant a chymryd rhan, annibyniaeth a pharch at eraill.
- Dim ond 106 o gyfranogwyr Llwybrau i'r Brig (llai nag 1% o holl gyfranogwyr y prosiect) wnaeth symud ymlaen i ddysgu pellach. Mae hyn yn nifer sylweddol yn llai na'r disgwyl, a dim ond 2% o darged 2011.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth wannach (data ansoddol o sampl fach gyda thriongli cyfyngedig) fod gweithgareddau Cerdd Gymunedol

[51] *Gwerthusiad o CLIC: Adroddiad Terfynol,* ICF GHK, Rhagfyr 2012
[52] Springate, I, Harland, J, Lord, P, Straw, S. Evaluation of the 2008-09 DCSF-funded Specialist Schools and Academies Trust Rhaglen Braenaru STEM (2009)
[53] Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2011) *Exploring young people's views on science education.* Ymddiriedolaeth Wellcome

Cymru, SNAP Cymru a'r Urdd wedi arwain at bresenoldeb a chyfranogiad gwell mewn addysg a gwell ymddygiad.

- Llwyddodd rhyw 8% o gyfranogwyr Llwybrau i'r Brig (1,270 o bobl ifanc) i ennill cymhwyster, o gymharu â 3% o gyfranogwyr Troedle Cyntaf. Cyflawnodd tri o bob pedwar o gyfranogwyr Llwybrau i'r Brig gymhwyster sgiliau sylfaenol neu gymhwyster lefel 1 (76%, n= 966). Mae hyn yn nifer sylweddol yn llai nag a fwriadwyd. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r bobl ifanc (90%, n=1,139) a gyflawnodd gymhwyster gymryd rhan mewn gweithgareddau a gyflwynwyd gan yr Urdd.
- Er bod pobl ifanc yn gyffredinol yn gwerthfawrogi natur hwyliog ac ymarferol gweithgareddau Techniquest, tystiolaeth gyfyngedig sydd fod cymryd rhan wedi arwain at fwy o ddiddordeb mewn pynciau neu yrfaoedd STEM.
- Roedd amcan penodol gan yr Urdd i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau yr oedd yn eu darparu i bobl ifanc, ac mae tystiolaeth i awgrymu y bu'n llwyddiannus o ran cyflawni'r amcan hwn.
- Casglodd Cerdd Gymunedol Cymru wybodaeth am farnau pobl ifanc am eu dyfodol cyn ac ar ôl cyfranogi yn y rhaglen fentora un-i-un. Mae hyn yn dangos dyheadau uwch ynglŷn â swyddi ac addysg, a hyder ynglŷn â'u dyfodol.
- Mae gwefan CLIC wedi bod yn effeithiol o ran cynorthwyo defnyddwyr i gael gwybodaeth a chyngor y byddant yn ei defnyddio.
- Canfu ymarferwyr a oedd yn cyfranogi mewn hyfforddiant a gyflwynwyd gan SNAP Cymru ei fod yn ddefnyddiol ac yn berthnasol, ond nid yw mor eglur p'un a yw cyfranogwyr wedi cymhwyso dysgu o'u cwrs i'w gwaith gyda phobl ifanc.
- Fel yn Troedle Cyntaf, mae amrywiadau yn neilliannau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a gyflawnwyd ym mhob awdurdod lleol.
- Nid oes modd gwneud asesiad llawn a chadarn o beth sydd wedi gweithio'n dda o ran cyflawni deilliannau gyda'r data sydd ar gael. Serch hynny, mae cyfweliadau gyda noddwyr, staff cyflwyno a phobl ifanc wedi tynnu sylw at rai nodweddion cyflwyno yr ystyriant eu bod

yn effeithiol o ran cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl sy’n cefnogi tystiolaeth yn y llenyddiaeth ehangach. Mae’r rhain yn cynnwys: perthnasoedd rhwng staff a phobl ifanc yn seiliedig ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth y naill at y llall; cynnig lefel uchel o ddewis mewn gweithgareddau; sicrhau bod gweithgareddau yn ymarferol o ran eu natur ac yn wahanol i’r dysgu nodweddiadol mewn ysgol.

# 7 Ychwanegedd, gwaddol a chynaliadwyedd

7.1 Yn y bennod hon ystyriwn y gwerth ychwanegol yr oedd disgwyl i Cyrraedd y Nod ei ddarparu, y buddion ehangach yn cynnwys ei waddol ar gyfer llunwyr polisi a'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc, a'r graddau y bydd ei weithgareddau'n cael eu cynnal.

**Ychwanegedd**

7.2 Isod, aseswn werth ychwanegol gweithgareddau'r prosiect, gan ystyried y dystiolaeth ynglŷn â: pha un a yw gweithgareddau'r prosiect wedi mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth; pa un a fyddai'r buddion sy'n gysylltiedig â gweithgareddau wedi digwydd beth bynnag; pa un a yw gweithgareddau'r prosiect wedi arwain at lai o weithgarwch mewn mannau eraill; pa un a yw gweithgareddau'r prosiect wedi arwain cyfranogwyr i amnewid un gweithgaredd am un arall; a pha un a yw buddiolwyr difwriad wedi elwa ar y gweithgareddau.

7.3 Am nad oes data gwybodaeth reoli ar gael ynglŷn â'r lleoliad daearyddol lle cyflwynwyd gweithgareddau neu leoliad daearyddol cyfeiriadau ymlaen, ac oherwydd mai dim ond rhywfaint o wybodaeth reoli sydd ar gael am nodweddion pobl ifanc yr ystyrir eu bod yn eu gwneud yn bobl ifanc mewn perygl, nid oes modd gwneud asesiad llawn o ychwanegedd.

*A yw gweithgareddau'r prosiect wedi mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth?*

7.4 Mae'n ofynnol i weithgareddau a ariennir o dan Flaenoriaeth 1 ychwanegu gwerth at strategaethau a chyllidebau domestig ac i ddangos eu bod yn mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth bresennol.

7.5 Nododd llawer o randdeiliaid na chynhaliwyd ymarferiad mapio manwl o ddarpariaeth brif ffrwd bresennol a darpariaeth y Gronfa Strwythurol

Ewropeaidd. Er bod rhai ohonynt yn gallu rhoi enghreifftiau o weithgareddau unigol sydd wedi mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth, roedd y rhan fwyaf yn pryderu hefyd fod rhai gweithgareddau prosiect, o ganlyniad i ddiffyg cynllunio strategol, yn dyblygu darpariaeth brif ffrwd neu ddarpariaeth arall y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd.

7.6 Yn ddigon tebyg, nodwyd anawsterau gan lawer o gyd-noddwyr a staff cyflwyno o ran nodi pobl ifanc NEET nad oeddent eisoes yn gysylltiedig â darpariaeth yn cael ei hariannu gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a oedd yn gweithio tuag at ddeilliannau tebyg neu'r un deilliannau. Mae hyn yn awgrymu nad yw bylchau wedi'u llenwi bob amser, a bydd hyn wedi cyfrannu, fel y nodwyd ym Mhennod 3, at anawsterau gosod targedau.

7.7 Mae adolygiad o brosiectau Blaenoriaeth 1 eraill yn dangos gorgyffwrdd posibl mewn nodau ac amcanion, grwpiau targed a model cyflwyno. Er enghraifft, gweithiodd y prosiect Disgyblion yn Deall Problemau yn eu Hardal (PUPIL) gyda phob un o'r 80 o ysgolion uwchradd, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig, ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Ceisiodd fynd i'r afael â phroblem pobl ifanc yn gadael yr ysgol heb y sgiliau meddal y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt, fel y gallu i weithio'n dda gydag aelodau tîm, cyfathrebu'n effeithiol a dilyn cyfarwyddiadau. Dewisodd pobl ifanc faterion yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt, a gwnaethant waith yn y gymuned mewn perthynas â'r testun, fel ymchwilio i destun trwy gyfweliadau gyda phobl yn y gymuned ac ymchwil ddesg, cynllunio a chynnal ymgyrch cynyddu ymwybyddiaeth a chyflwyno'u barnau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Defnyddiwyd dull tebyg iawn yn y gweithgareddau dinasyddiaeth a'r gweithgareddau'n canolbwyntio ar gyfranogiad yn Troedle Cyntaf. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth o gynllunio, gweithio a chydlynu ar y cyd â'r prosiect PUPIL.

7.8 Adroddodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr, yn bobl ifanc ac yn weithwyr proffesiynol, nad oeddent yn ymwybodol o wasanaethau tebyg yn rhywle arall. O ystyried mai pobl ifanc mewn perygl o fod yn NEET oedd y rhan

fwyaf o’r cyfranogwyr, gallai hyn ddynodi diffyg gwybodaeth am y gwasanaethau a oedd ar gael yn hytrach na thystiolaeth o fynd i’r afael â bylchau.

*A fyddai’r deilliannau a gyflawnwyd gan weithgareddau wedi’u gwireddu beth bynnag?*

7.9 Roedd consensws ymhlith cyd-noddwyr, llawer o weithgareddau astudiaethau achos a rhai rhanddeiliaid bod cyllid y prosiect wedi galluogi cyflwyno ar raddfa fwy ac i nifer fwy na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Gan mwyaf, ni chredai noddwyr a rheolwyr gweithgareddau y byddent wedi gallu sicrhau cyllid o ffynonellau eraill, ac felly ni fyddai’r gweithgareddau wedi’u darparu. O ganlyniad, roeddent o’r farn bod yr allgynnyrch a’r deilliannau wedi bod yn ychwanegol:

Yn Troedle Cyntaf:

- Ystyriai Cyngor Celfyddydau Cymru, oni bai am y rhaglen, na fyddai gweithgareddau wedi’u cyflwyno mewn ardal ddaearyddol mor fawr, a byddai amrywiaeth celfyddydau fwy cyfyngedig ar gael i bobl ifanc;
- Adroddodd Plant yng Nghymru y byddai Gyda’n Gilydd dros Hawliau wedi’i gyflwyno ar raddfa lai o lawer gyda chyfran gyfyngedig o ysgolion arbennig, ac y byddent felly wedi gweithio gyda llai o bobl ifanc;
- Byddai’r prosiect Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol wedi parhau yn beilot mewn pum ardal awdurdod lleol, yn hytrach na chael ei ymestyn dros yr ardal Gydgyfeirio.

Yn Llwybrau i’r Brig:

- Dynododd Cerdd Gymunedol Cymru, er y byddent wedi hoffi gweithio gyda rhai unedau cyfeirio disgyblion, fod cyllid y prosiect wedi’u galluogi i gynnig dewis ehangach o weithgareddau, sydd wedi helpu ymgysylltu a chymell pobl ifanc, a’u galluogi i weithio mewn ardal ddaearyddol ehangach;

- Ar gyfer Techniquest, mae'r cyllid wedi galluogi'r sefydliad i ymestyn ei gyrhaeddiad daearyddol o ran cyflwyno gweithgareddau allgymorth STEM.

7.10 Mewn ychydig o achosion, nododd noddwyr, er y byddai'r un buddion wedi'u gwireddu dros gyfnod, fod gweithgareddau'r prosiectau wedi gweithredu fel catalydd ac wedi galluogi cyflawni buddion yn gyflymach. Er enghraifft, adroddodd SNAP Cymru fod y sefydliad wedi bod yn symud tuag at fodel cyflwyno sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn hytrach na rhieni, a'i fod yn cynnig pecyn cymorth mwy cyfannol i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, addysgol, iechyd ac emosiynol. Mae Cyrraedd y Nod wedi helpu galluogi'r newid hwn ddigwydd yn gyflymach. Yn achos y gweithgaredd Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol, dywedodd arweinydd y gweithgaredd fod yr awdurdodau lleol sydd wedi bod yn datblygu gweithio allweddol dros y blynyddoedd heb fewnbwn ariannol ychwanegol wedi cymryd llawer mwy o amser i gyflawni'r un buddion na'r awdurdodau lleol sydd wedi cyfranogi yn Cyrraedd y Nod. Nid oedd rhanddeiliaid, gan mwyaf, yn ddigon gwybodus ynglŷn â chyflawniadau gweithgareddau i gynnig sylw ar hyn.

*A yw buddiolwyr difwriad wedi elwa ar weithgareddau'r prosiect?*

7.11 Ni chyflawnwyd y targed ar gyfer y nifer o bobl ifanc NEET ac roedd cyfran y bobl ifanc a oedd eisoes yn meddu ar gymhwyster yn gymharol uchel (rhyw un o bob pump yn Troedle Cyntaf), gan ddynodi i raddau y gallai pobl ifanc na fwriadwyd iddynt elwa ar y prosiect yn wreiddiol fod wedi elwa arno. Ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu bod pobl ifanc nad oeddent mewn perygl o fod yn NEET wedi bod yn gysylltiedig â gweithgareddau'r prosiectau, ac ymddengys bod y prosiectau wedi llwyddo o ran ymgysylltu â phobl ifanc mewn perygl trwy weithio'n agos â phartneriaid cyfeiriol eang iawn. Yn ôl data gwybodaeth reoli, dim ond llond llaw o bobl ifanc (21) o du allan i'r ardal Gydgyfeirio a gofnodwyd eu bod yn derbyn cymorth, a gellir cyfrif am hyn gan adleoli rhan o'r ffordd trwy weithgaredd.

*A yw'r prosiectau wedi arwain at ostyngiad mewn darpariaeth yn rhywle arall?*

7.12 Gan mwyaf, nid oedd cyd-noddwyr, partneriaid cyfeirio a phartneriaid cyflwyno o'r farn fod gwasanaethau cymorth eraill wedi'u lleihau o ganlyniad i weithgareddau Cyrraedd y Nod. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyflogwyd staff ychwanegol o ganlyniad i'r prosiect, gan alluogi cyflwyno gweithgareddau ychwanegol.

*A yw gwasanaethau neu weithgareddau presennol wedi'u hamnewid am weithgaredd arall o ganlyniad i'r prosiectau?*

7.13 Mae rhan fwyaf y cyfranogwyr yn adrodd eu bod wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau Cyrraedd y Nod yn ychwanegol at weithgareddau eraill, ac nid adroddodd unrhyw un eu bod wedi dewis gweithgaredd Cyrraedd y Nod yn lle gwasanaeth neu weithgaredd presennol arall. Yn yr un modd, nododd staff cyflwyno nad oeddent wedi amnewid cyflwyno gweithgaredd presennol am weithgaredd Cyrraedd y Nod, gan gyfeirio at gyflogi staff ychwanegol fel tystiolaeth o hyn.

**Buddion ehangach**

7.14 Gall llawer o'r gweithgareddau nodi buddion ehangach a gwaddolion fel gallu cynyddol gan weithwyr proffesiynol a gallu cynyddol gan sefydliadau trwy weithio gwell mewn partneriaeth, gwell prosesau busnes, a datblygu offer ac adnoddau i'w defnyddio yn y dyfodol.

*Gallu cynyddol gweithwyr proffesiynol*

7.15 Noda'r cynlluniau busnes bod disgwyl i'r prosiectau wella gallu gweithwyr proffesiynol llinell flaen sy'n gweithio gyda phobl ifanc er mwyn nodi ac ymgysylltu â phobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl drwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. O ganlyniad i gyfranogi yng ngweithgareddau'r prosiectau, byddent wedi gwella sgiliau a

chymwyseddau i allu cyflwyno gweithgareddau cadarnhaol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm ysgol ac yn ei gyfoethogi.

7.16 Yn y ddau brosiect, mae rhywfaint o dystiolaeth fod cyfranogi yn Cyrraedd y Nod wedi cyfrannu at allu cynyddol ymhlith gweithwyr proffesiynol i gynorthwyo pobl ifanc NEET neu bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn effeithiol. Mae'r hyfforddiant a gyflwynwyd gan noddwyr (er enghraifft, gan SNAP Cymru, Plant yng Nghymru a Chyngor Celfyddydau Cymru – gweler adrannau 5.13 a 6.27) i ystod o weithwyr proffesiynol ieuenctid, wedi arwain at fwy o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut i gefnogi pobl ifanc mewn perygl yn fwy effeithiol.

7.17 Adrodda ychydig o arweinwyr cyd-noddwyr hefyd fod cyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd wedi'u galluogi i fuddsoddi mewn sgiliau a datblygiad staff nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mewn rhai achosion, roedd noddwyr yn gweithio gyda grwpiau targed newydd, ac felly ystyriwyd bod graddfa'r dysgu gan unigolion yn sylweddol. Mae enghreifftiau a ddarparwyd gan noddwyr yn cynnwys:

- Adroddodd darparwyr dan gontract i Gyngor Celfyddydau Cymru fod eu gallu i weithio gyda phobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl wedi gwella, ac mae hyn wedi galluogi gweithio ar raddfa fwy ac yn fwy effeithiol gyda'r grwpiau hyn nag yn flaenorol. "*Mae'r prosiect wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygiad staff sy'n gweithio gyda'r grŵp targed hwn, ac fel y cyfryw mae nifer fwy o brosiectau wedi'u cynnal gan weithio gyda throseddwyr ifanc*"[54].
- Adroddodd Techniquest fod y sefydliad, o ganlyniad i gyflwyno mwy o ymyrraeth wedi'i thargedu nag a fyddent fel arfer, a gweithio mewn partneriaeth â staff Gyrfa Cymru, wedi: "*cael gwybod llawer a mabwysiadu ymagwedd newydd"* a'i fod "*yn fwy medrus o ran adnabod cyfleoedd a ffyrdd o ennyn diddordeb plant mewn dysgu STEM a bod â diddordeb mewn gyrfaoedd STEM".* Maent wedi defnyddio'r dysgu hwn i wella'u rhaglenni gwaith. Cadarnhawyd hyn gan staff yn Gyrfa Cymru.

---

[54] *Gwerthusiad o Raglen Cyfranogi yn y Celfyddydau Cyrraedd y Nod,* Ymchwil Arad, Mehefin 2013

- Datblygodd Cerdd Gymunedol Cymru rôl fentora well newydd o ganlyniad i Llwybrau i'r Brig. "*Mae gan y staff presennol set sgiliau ehangach nag o'r blaen, ac maent yn gallu darparu cymorth parhaus dwys i bobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl yn well".*

7.18 Nid yw rhan fwyaf y noddwyr wedi gallu cadw'r holl staff a recriwtiwyd i gyflwyno Cyrraedd y Nod, ac felly maent wedi colli rhai o'r sgiliau a'r gallu a ddatblygwyd drwy'r prosiect. Gan gymryd bod y staff hyn yn llwyddo i sicrhau swyddi newydd, dylid cyfrannu gallu cynyddol ymhlith gweithwyr proffesiynol at y sector ieuenctid yn ehangach.

*Gallu cynyddol sefydliadau*

<u>Gweithio gwell mewn partneriaeth</u>

7.19 Y prif ddeilliant i sefydliadau o ganlyniad i Cyrraedd y Nod fu gweithio gwell mewn partneriaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr a sefydliadau'r astudiaethau achos o'r farn fod gweithio gwell mewn partneriaeth wedi cyfrannu at broffil uwch yn y sector ieuenctid, ac wedi helpu i adeiladu enw da cadarnhaol gyda chyllidwyr. Mewn rhai achosion, mae Cyrraedd y Nod wedi helpu i ymestyn perthnasoedd presennol, ac mewn achosion eraill mae partneriaethau newydd wedi'u ffurfio.

7.20 Y ddau fudd pennaf yr adroddwyd amdanynt i sefydliadau o gael partneriaethau gwell oedd: yn gyntaf, mae mynediad gwell gan bobl ifanc at ystod ehangach o arbenigedd, a gellir darparu gwasanaethau iddynt sydd wedi'u teilwra'n dda i'w hanghenion; ac yn ail, gall sefydliadau fod yn fwy effeithiol o ran nodi a chyrraedd pobl ifanc NEET neu bobl ifanc sydd mewn perygl o fod felly.

7.21 Mae enghreifftiau allweddol o weithio gwell mewn partneriaeth mewn sefydliadau yn cynnwys:

- Roedd 95% o ddarparwyr dan gontract i Gyngor Celfyddydau Cymru yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod wedi datblygu partneriaethau

newydd gyda sefydliadau yn sector y celfyddydau, yn y sector addysg a'r sector cymdeithasol[55];

- Adroddodd nifer o ardaloedd awdurdodau lleol yn y prosiect Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid fod 'cyfathrebu gwell gydag ystod eang o sefydliadau partner, yn cynnwys Gyrfa Cymru, darparwyr hyfforddiant, colegau AB ac i'r rhai dan 16 oed, ysgolion a'r awdurdod addysg lleol'. Arweiniodd hyn mewn rhai achosion at fwy o hyfforddiant a lleoliadau cyflogaeth yn cael eu cynnig gan bartneriaid i bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Hefyd, adroddwyd bod trefniadau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng Gyrfa Cymru a thimau troseddau ieuenctid, a olygai bod staff timau troseddau ieuenctid yn gallu olrhain pobl ifanc yn well ar leoliadau ac mewn hyfforddiant, ac yn gallu darparu cymorth ychwanegol lle bo angen[56];
- Yn y gweithgaredd Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol, adroddodd llawer o weithwyr allweddol a'u rheolwyr fod y rhaglen wedi arwain at gydweithio gwell rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ac addysg. Adroddodd nifer o weithwyr allweddol eu bod wedi gwneud ymdrech sylweddol i esbonio'r heriau a wynebir gan bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i wasanaethau eraill. Arweiniodd hyn at well gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau eraill hyn;
- Yn yr Urdd, ystyriwyd bod perthnasoedd presennol gydag awdurdodau lleol wedi'u hymestyn a'u cryfhau drwy'r prosiect. Ceir enghraifft o fuddion hyn yn Sir Benfro, lle galluogwyd yr Urdd, drwy weithio agos gyda'r awdurdod lleol, i ddarparu cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET mewn ysgolion gwledig a fyddai fel arall wedi cael mynediad cyfyngedig i wasanaethau.

7.22 Gan mwyaf, roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn hyderus y byddai partneriaethau newydd yn cael eu cynnal dros amser ac ategir hyn gan

[55] *Gwerthusiad o Raglen Cyfranogi yn y Celfyddydau Cyrraedd y Nod,* Ymchwil Arad, Mehefin 2013
[56] *Gwerthusiad o'r Cymorth i'r Prosiect Addysg a Dysgu (Cyfiawnder Ieuenctid),* Chwefror 2013, Red Kite Research Consultancy

dystiolaeth o arolwg o holl ddarparwyr Cam 2 Cyngor Celfyddydau Cymru, lle'r adroddodd 90% y byddai partneriaethau a ddatblygwyd yn cael eu cynnal[57].

7.23 I'r gwrthwyneb, mynegodd y rhan fwyaf o gyd-noddwyr siom mai i raddau cyfyngedig iawn y buont yn gweithio mewn partneriaeth â chyd-noddwyr eraill.

7.24 O ran barnau ar ba un a oedd gweithio mewn partneriaeth ag AdAS wedi gwella o ganlyniad i Cyrraedd y Nod, roedd barnau'r cyd-noddwyr yn gymysg. Teimlai rhai ohonynt fod Cyrraedd y Nod wedi'u galluogi i adeiladu perthnasoedd gwell gydag arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru, ond roedd nifer o rai eraill yn siomedig na wireddwyd eu disgwyliad o gael partneriaeth strategol well gyda Llywodraeth Cymru.

Prosesau gwell ar gyfer datblygu busnes

7.25 Adroddodd ychydig o noddwyr fod cyfranogi yn Cyrraedd y Nod wedi'u galluogi i wella'u hymagwedd at farchnata. Er enghraifft, maent wedi cynhyrchu a lledaenu taflenni a phosteri, wedi gwella gwybodaeth ac ymarferoldeb eu gwefannau ac wedi hyrwyddo'u gwasanaethau drwy sianelau newydd. Credir bod hyn, law yn llaw â'r gweithio gwell mewn partneriaeth, wedi arwain at enw da a sefyllfa well o fewn y sector. Er enghraifft, adroddodd SNAP Cymru fod mwy yn ymweld â'u gwefan a bod nifer fwy o geisiadau am hyfforddiant drwy'r wefan o ganlyniad i'r gwelliannau hyn.

7.26 Adroddodd ychydig o noddwyr eu bod wedi datblygu'u prosesau ar gyfer monitro a gwerthuso'n sylweddol o ganlyniad i'r prosiect. Er eu bod yn gyffredinol yn cydnabod bod gwelliannau y gellid eu gwneud o hyd, maent wedi defnyddio offer newydd casglu data ac wedi sefydlu cronfeydd data newydd i gasglu gwybodaeth sy'n cefnogi datblygu gwasanaethau ac yn helpu i adnabod cyfleoedd newydd. Er enghraifft:

[57] Ibid.

- Bellach mae gan SNAP Cymru gyfeiriadur cynhwysfawr o sefydliadau ieuenctid, y maent yn bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer marchnata eu gwasanaethau'n rhagweithiol yn y dyfodol;
- Adroddodd staff yr Urdd fod ganddynt fwy o allu i fonitro perfformiad a chyflwyniad "*na fyddai wedi bod yn bosibl heb Cyrraedd y Nod".*

<u>Gallu gwell i reoli a gweinyddu prosiectau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd</u>

7.27 Teimlai pob un o'r noddwyr allanol bod ganddynt allu gwell i reoli a gweinyddu prosiectau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd o ganlyniad i Cyrraedd y Nod, ac y byddent yn gymwys iawn i gynnig yn uniongyrchol am gyllid WEFO yn y dyfodol neu fod yn rhan o gonsortiwm. Adroddodd ychydig o noddwyr fod gallu gwell gan ddarparwyr dan is-gontract hefyd i gyflwyno gwasanaethau'n cael eu hariannu gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, a chadarnhawyd hyn yn gyffredinol gan reolwyr gweithgareddau a gafodd eu cyfweld ar draws ystod gyfan y gweithgareddau.

*Lledaenu dysgu*

7.28 Mae cynlluniau busnes y prosiectau yn amlinellu disgwyliad y byddai dysgu'n cael ei nodi a'i ledaenu. Roedd y cynlluniau busnes yn datgan y dylai noddwyr fod yn gyfrifol am hyn ac y dylai aelodau'r grŵp llywio hefyd chwarae rhan yn lledaenu dysgu am beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio o ran cyflawni deilliannau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, a dilyniant at y rhain.

7.29 Yn gyffredinol, nid oes strategaethau lledaenu a oedd wedi'u datblygu'n dda gan y noddwyr, ac nid yw lledaenu dysgu hyd yma wedi bod yn ffocws i noddwyr yn yr un o'r ddau brosiect. Mae'r ffaith fod cyfran sylweddol o'r gwaith cyflwyno wedi'i wneud yn hanner olaf y prosiect, i ryw raddau, wedi gwrthdynnu sylw ac adnoddau oddi wrth syntheseiddio a lledaenu arfer da a dysgu.

7.30 Bu rhai ymdrechion ar raddfa fach i sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu er mwyn llywio mentrau yn y dyfodol. Er enghraifft:

- Mae Achub y Plant wedi cynhyrchu dogfen arweiniad ymarferol sy'n rhannu dysgu ac yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol ynglŷn â sut i gynnal gweithgareddau tebyg yn y dyfodol. Anfonwyd hon at ystod o randdeiliaid;
- Mae ychydig o noddwyr eraill wedi cynhyrchu adroddiadau diwedd prosiect sy'n disgrifio'r gwaith a wnaed yn y prosiect, ond mae'r dogfennau hyn yn tueddu bod yn ddisgrifiadol yn hytrach na'n ddadansoddol, ac nid ydynt ym mhob achos yn amlygu dysgu ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda, i lywio rhai eraill;
- Comisiynwyd gwerthusiadau annibynnol gan ychydig o noddwyr, fel yr Urdd, Cyngor Celfyddydau Cymru ac AdAS. Cyhoeddwyd gwerthusiad CLIC ac efallai y trefnid bod y lleill yn cael eu cyhoeddi;
- Mae nifer o noddwyr wedi cyflwyno gweithgareddau i gynulleidfaoedd allanol.

7.31 Nid yw oddeutu hanner y noddwyr allanol (Techniquest, Cyngor Celfyddydau Cymru, SNAP Cymru a'r Ddraig Ffynci) a'r rhan fwyaf o'r noddwyr mewnol hyd yma wedi lledaenu unrhyw arfer da ac nid oes ganddynt unrhyw gynlluniau pendant i wneud hynny yn y dyfodol.

7.32 Nid oes unrhyw dystiolaeth ychwaith fod aelodau'r grŵp llywio wedi lledaenu dysgu o'r prosiectau. Fel y nodwyd gan aelodau'r grŵp llywio, y rheswm am hyn yn rhannol yw nad yw dysgu wedi'i rannu mewn cyfarfodydd y grŵp llywio i'w galluogi i fynd ag unrhyw beth at gynulleidfa ehangach.

7.33 Dywedodd ychydig o noddwyr, o ganlyniad i gyfranogi yn Cyrraedd y Nod, bod gwersi wedi'u dysgu mewn monitro a gwerthuso effeithiol. Er enghraifft, cydnabu un noddwr nad oedd wedi gosod targedau penodol ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol, y byddai hyn wedi helpu i fonitro perfformiad a sicrhau cyflwyno cyson, a dywedodd y byddai'n gwneud defnydd gwell o dargedau yn y dyfodol. Ystyriai noddwr arall nad oedd wedi ymgorffori systemau digonol ar gyfer olrhain pobl ifanc a mesur deilliannau ymhellach na chyfranogi mewn gweithgareddau prosiectau.

Adroddwyd eu bod yn bwriadu ystyried hyn ar gyfer mentrau yn y dyfodol.

*Adnoddau ac offer i'w defnyddio yn y dyfodol*

7.34 Adroddodd y rhan fwyaf o noddwyr eu bod wedi datblygu adnoddau ac offer yn ystod y prosiect, a fydd ar gael i'w defnyddio yn y dyfodol, ac sydd felly yn waddol pwysig Cyrraedd y Nod. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae cynlluniau  sesiynau ac adnoddau dinasyddiaeth weithgar a ddatblygwyd gan y Ddraig Ffynci i'w defnyddio gan athrawon a gweithwyr proffesiynol ieuenctid, ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan y sefydliad i'w lawrlwytho;
- Bydd yr holl adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ar Wefan Gweithwyr Cyfranogi, gan gynnwys canllaw hunanasesu'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol, yn parhau i fod ar gael;
- Mae gweithgareddau hyfforddi a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi datblygu cymwysterau fel cwrs byr achrededig Lefel 4 ar weithio gyda phobl ifanc;
- Adnoddau athrawon a ddatblygwyd gan Techniquest i gefnogi gweithdai allgymorth STEM;
- Trwy gyfranogiad yn Cyrraedd y Nod, mae SNAP Cymru wedi dod yn ddarparwr cymwysterau lefel 2-4 mewn ymwybyddiaeth anabledd wedi'i gymeradwyo gan Agored, ac mae'n bwriadu cynnal y statws hwn ar ôl i'r rhaglen orffen.

7.35 Er y bydd adnoddau presennol yn parhau i fod ar gael, nododd ychydig o noddwyr y byddai angen diweddaru adnoddau ymhen amser, ond eu bod yn annhebygol o fod â'r adnoddau ar gael i wneud hynny

**Cynaliadwyedd**

7.36 Ar y pwynt hwn, nid oedd y rhan fwyaf o weithgareddau wedi sicrhau cyllid i'w cynnal. Tynnodd llawer o gyd-noddwyr sylw at yr heriau o

sicrhau cyllid parhaus ar gyfer Cyrraedd y Nod yn y dirywiad economaidd presennol, gydag awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau sylweddol ar gyllidebau gwasanaethau ieuenctid. Credai nifer o randdeiliaid hefyd, am nad yw Cyrraedd y Nod wedi rhannu dysgu ynglŷn ag arfer effeithiol a gwybodaeth am ddeilliannau a gyflawnwyd gyda Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ym mhob awdurdod lleol, roedd ymwybyddiaeth o weithgareddau'r prosiect a'u heffeithiolrwydd yn gyfyngedig ymhlith darpar gyllidwyr. Yn eu barn nhw, mae hyn wedi cynyddu risg *"gwasanaethau byrhoedlog"* anghynaliadwy.

7.37 Roedd cyd-noddwyr yn derbyn bod nifer o weithgareddau wedi gweithio o ran cyflawni deilliannau ar gyfer pobl ifanc (er nad yw hyn yn seiliedig ar fonitro a gwerthuso cadarn ym mhob achos) ac y dylid, mewn egwyddor, eu cynnal. Mae noddwyr wrthi'n chwilio am gyllid ar hyn o bryd i gynnal y gweithgareddau hyn ac yn disgwyl clywed pa un a yw cynigion a gyflwynwyd wedi bod yn llwyddiannus. Cyflwynir gweithgareddau yn y categori hwn yn Tabl 26 a Tabl 27.

**Tabl 26 Troedle Cyntaf – gweithgareddau'r prosiect y mae noddwyr yn chwilio am gyllid ar eu cyfer**

| Cyd-noddwr | Gweithgaredd a statws |
|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Dyfarnwyd cyllid ychwanegol i 15 o gontractwyr Cyrraedd y Nod rhwng Ebrill a Mehefin i gynnal gweithgareddau. Mae bwriad tymor hwy i ddefnyddio cyllid y Loteri i ariannu gweithgareddau tebyg yn canolbwyntio ar ? o grwpiau yn y dyfodol. |
| Plant yng Nghymru | Gwaith gyda phobl ifanc anabl – mae ceisiadau am grant wedi'u cyflwyno.<br><br>Gwefan Gweithwyr Cyfranogi – ceisiadau am grant wedi'u cyflwyno ond dim cyllid wedi'i sicrhau eto. |
| Achub y Plant | Gwaith Safonau Cenedlaethol – Ni fydd Achub y Plant yn parhau â'r gwaith hwn ond mae wedi datblygu cynnig y gallai sefydliadau eraill sy'n dymuno bwrw ymlaen â'r gwaith ei ddefnyddio i'w helpu i sicrhau cyllid. |
| Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid | Dynododd hanner y Timau Troseddau Ieuenctid (6 o 12) a gafodd eu cyfweld yn |

| Cyd-noddwr | Gweithgaredd a statws |
|---|---|
| | Hydref a Thachwedd 2012, bod 'cynlluniau wrthi'n cael eu trafod' i geisio cadw rhywfaint o'r gwaith i fynd o leiaf ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr na ellir gwneud penderfyniadau nes bod y timau troseddau ieuenctid yn gliriach ynglŷn â'r cyllid y byddent yn ei dderbyn ar gyfer 2013/2014. |

Ffynhonnell: Cyfweliadau â chyd-noddwyr a dogfennau strategaeth ymadael

**Tabl 27 Llwybrau i'r Brig – gweithgareddau'r prosiect y mae noddwyr yn chwilio am gyllid ar eu cyfer**

| Cyd-noddwr | Gweithgaredd a statws |
|---|---|
| Cerdd Gymunedol Cymru | Mae Cerdd Gymunedol Cymru yn archwilio posibilrwydd gweithdai grŵp ar gost lawn i'r awdurdodau lleol ac mae wrthi'n datblygu'u gynnig ar hyn o bryd |
| Urdd Gobaith Cymru | Mae ffynonellau cyllid eraill i gynnal y gwaith yn cael eu harchwilio. |
| Techniquest | Mae Techniquest yn chwilio am gyllid ychwanegol i gynnal ac ehangu gweithgareddau allgymorth ymgysylltu STEM |

Ffynhonnell: Cyfweliadau â chyd-noddwyr a dogfennau strategaeth ymadael

7.38 Mae'r gweithgareddau hynny sy'n cael eu cynnal ac y mae cyllid parhaus wedi'i gadarnhau ar eu cyfer, yn cael eu cyflwyno yn Tabl 28 a Tabl 29.

**Tabl 28 Troedle Cyntaf – gweithgareddau sydd wedi'u cynnal**

| Cyd-noddwr | Gweithgaredd a ffynhonnell cyllid a sicrhawyd i gynnal y gweithgaredd |
|---|---|
| Plant yng Nghymru | Mae hyfforddiant Plant yng Nghymru'n cael ei gynnig am gost lawn. Nid oes unrhyw ddata na thystiolaeth eto ar y niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hyfforddiant cost lawn.<br><br>Roedd y gweithgaredd Arbenigwyr Ieuenctid yn cynnwys rhywfaint o ymgynghori â phobl ifanc, ac mae hyn yn cael ei barhau trwy gyllid craidd y sefydliad. Ni fydd elfennau eraill o'r gweithgaredd Arbenigwyr Ieuenctid fel prosiectau'r cyfryngau, yn parhau. |

| Cyd-noddwr | Gweithgaredd a ffynhonnell cyllid a sicrhawyd i gynnal y gweithgaredd |
|---|---|
| Achub y Plant | Mae hwb Cyfranogiad ac Atebolrwydd wedi'i sefydlu yn Achub y Plant, a bydd dau o swyddogion datblygu Troedle Cyntaf yn gweithio yno. Bydd yr hwb yn cynghori adrannau mewnol ar sut i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ac wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau. Bydd y dysgu o Troedle Cyntaf yn ymwneud â beth sy'n gweithio'n dda o ran ymgysylltu â phobl ifanc yn llywio gwaith yr hwb yn y dyfodol. |
| Gweithwyr Trosglwyddo Allweddol | Mae'r graddau y bydd arfer gweithio allweddol a ddatblygwyd trwy Troedle Cyntaf yn cael ei gynnal yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Bydd gweithio allweddol yn parhau mewn rhai awdurdodau lleol ond nid mewn rhai eraill. |

Ffynhonnell: Cyfweliadau â chyd-noddwyr a dogfennau strategaeth ymadael

### Tabl 29 Llwybrau i'r Brig – gweithgareddau sydd wedi'u cynnal

| Cyd-noddwr | Gweithgaredd a ffynhonnell cyllid a sicrhawyd i gynnal y gweithgaredd |
|---|---|
| Cerdd Gymunedol Cymru | Mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer dwy swydd i barhau i gyflwyno mentora NEET un-i-un o gyfuniad o ffynonellau (Cyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a chyllid Porth Ymgysylltu). |
| SNAP Cymru | Bydd y cynnig o hyfforddiant yn parhau ac mae ar gael am gost lawn. Hyd yn hyn, mae un contract wedi'i sicrhau (gan Gyrfa Cymru i hyfforddi cynghorwyr).<br><br>Mae'r gwaith pobl ifanc a'r gwaith sy'n canolbwyntio ar y teulu yn cael ei ariannu a'i gyflwyno gan SNAP Cymru. Mae ailstrwythuro mewnol diweddar yn gwneud darpariaeth ar gyfer 'swyddogion teuluoedd a phobl ifanc' a fydd yn cyflwyno'r gwaith hwn. Mae rhywfaint o gyllid cyfredol wedi'i ailddyrannu i ariannu'r rolau hyn. Hefyd, mae cynigion wedi'u cyflwyno i'r Gronfa Loteri Fawr ac awdurdodau lleol amrywiol (cyllid Teuluoedd yn Gyntaf). |
| Urdd Gobaith Cymru | Mae awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wedi ymrwymo i gyllid parhau i'r ddau swyddog ieuenctid sy'n cyflwyno cyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg (yn bennaf drwy addysg awyr agored). Mae awdurdodau lleol mewn chwe awdurdod lleol arall wedi ymrwymo i ariannu i gynnal rhai elfennau o |

| Cyd-noddwr | Gweithgaredd a ffynhonnell cyllid a sicrhawyd i gynnal y gweithgaredd |
|---|---|
| | weithgareddau Cyrraedd y Nod. |

Ffynhonnell: Cyfweliadau â chyd-noddwyr a dogfennau strategaeth ymadael

7.39 Mae gweithgareddau allweddol nad yw'n edrych yn debygol ar hyn o bryd y byddant yn cael eu cynnal yn cynnwys gweithdai Dinasyddiaeth Weithgar yn cael eu cyflwyno gan y Ddraig Ffynci.

7.40 Nid oedd darparwyr dan gontract a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r ymchwil astudiaethau achos, gan mwyaf, wedi sicrhau cyllid i gynnal gweithgareddau, er bod llawer ohonynt wedi cyflwyno ceisiadau am grant. Adroddodd hanner y darparwyr dan gontract i Gyngor Celfyddydau Cymru y byddai gweithgareddau ymgysylltu'r celfyddydau yn cael eu hariannu drwy Troedle Cyntaf yn cael eu parhau[58]. Nododd llawer ohonynt mai cyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn y dyfodol oedd eu ffynhonnell cyllid fwyaf tebygol ar gyfer parhau i gyflwyno gweithgareddau tebyg. Roedd yr eithriadau'n cynnwys y gweithgareddau canlynol gan Achub y Plant, sy'n cael eu cynnal gan ddarparwyr dan gontract:

- Arolygwyr Ifanc – mae un o'r awdurdodau lleol[59] wedi cynnwys amser staff i barhau i gynnal y gweithgaredd hwn mewn rolau presennol, ac wedi dyrannu cyllideb i dalu costau teithio pobl ifanc.
- Gweithgaredd Sicrhau Newid – mae darparwr dan gontract yn ariannu gweithgaredd tebyg i ddarparu llwybr i bobl ifanc nad ydynt yn barod eto ar gyfer rhaglenni cyflogaeth ieuenctid yn cael eu hariannu drwy Twf Swyddi Cymru.

## Crynodeb

*Gwerth Ychwanegol*

[58] *Gwerthusiad o Raglen Cyfranogi yn y Celfyddyau Cyrraedd y Nod,* Ymchwil Arad, Mehefin 2013

[59] Nid ydym wedi gofyn i'r holl awdurdodau lleol a gyfranogodd yn y gweithgaredd ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer cynnal y gweithgaredd.

- Yn gyffredinol, roedd cyd-noddwyr, partneriaid cyflwyno, sefydliadau cyfeirio a rhai rhanddeiliaid o'r farn na fyddai'r deilliannau a gyflawnwyd wedi digwydd pe na bai'r rhaglen yn bodoli. Roeddent yn cytuno bod cyllid Cyrraedd y Nod wedi galluogi cyflwyno gweithgareddau ar raddfa fwy na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall, a bod hyn wedi galluogi cyrraedd mwy o bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol o ardal ddaearyddol ehangach.
- Yn arwyddocaol, serch hynny, roedd rhanddeiliaid o'r farn fod diffyg asesiad cynhwysfawr o anghenion ar ddechrau'r prosiect a chynnwys rhanddeiliaid rhanbarthol a lleol yn annigonol wedi lleihau gwerth ychwanegol ac wedi cynyddu'r potensial am ddyblygu yn hytrach na mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth.
- Mae niferoedd isel o gyfranogwyr NEET a'r niferoedd uwch na'r disgwyl o bobl ifanc mewn perygl yn dangos fod buddiolwyr y tu allan i'r grŵp targed a fwriadwyd wedi elwa ar y prosiect.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth o ddadleoli nac amnewid gweithgareddau eraill.

*Gwaddol*

- Gall llawer o'r gweithgareddau nodi buddion ehangach a gwaddolion fel cymhwyster cynyddol gweithwyr proffesiynol a chymhwyster sefydliadol cynyddol trwy weithio gwell mewn partneriaeth, prosesau busnes gwell, a datblygu offer ac adnoddau i'w defnyddio yn y dyfodol.

*Cynaliadwyedd*

- Ar y pwynt hwn, nid oedd y rhan fwyaf o weithgareddau wedi sicrhau cyllid i'w cynnal. Tynnodd llawer o gyd-noddwyr sylw at yr heriau o sicrhau cyllid parhaus ar gyfer Cyrraedd y Nod yn y dirywiad economaidd presennol. Adroddodd rhanddeiliaid, am nad yw

Cyrraedd y Nod wedi rhannu dysgu, fod ymwybyddiaeth o weithgareddau yn isel ymhlith darpar gyllidwyr.

- Roedd cyd-noddwyr yn derbyn bod nifer o weithgareddau wedi gweithio o ran cyflawni deilliannau ar gyfer pobl ifanc (er nad yw hyn yn seiliedig ar fonitro a gwerthuso cadarn ym mhob achos) ac y dylid, mewn egwyddor, eu cynnal. Mae noddwyr wrthi'n chwilio am gyllid ar hyn o bryd i gynnal y gweithgareddau hyn ac yn disgwyl clywed pa un a yw cynigion a gyflwynwyd wedi bod yn llwyddiannus.
- Mae rhai gweithgareddau'n cael eu cynnal ac wedi sicrhau cyllid parhaus. Mae'r rhain yn cynnwys, yn Troedle Cyntaf, hyfforddiant Plant yng Nghymru, elfennau o waith Achub y Plant, a Gweithwyr Trosglwyddo Allweddol mewn rhai awdurdodau lleol. Yn Llwybrau i'r Brig, mae'r rhain yn cynnwys: mentora NEET Cerdd Gymunedol Cymru, hyfforddiant SNAP Cymru a chymorth teuluol, a rhywfaint o ddysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol yr Urdd yn Gymraeg.
- Mae gweithgareddau allweddol nad yw'n edrych yn debygol ar hyn o bryd y byddant yn cael eu cynnal yn cynnwys gweithdai Dinasyddiaeth Weithgar yn cael eu cyflwyno gan y Ddraig Ffynci.

# 8 Casgliadau ac argymhellion

8.1 Mae'r bennod hon yn tynnu'r casgliadau a'r gwaith dadansoddi a gyflwynwyd yn y penodau blaenorol ynghyd i gyflwyno casgliadau mewn perthynas ag amcanion allweddol yr astudiaeth, sef:

- Asesu effeithiolrwydd y prosesau ar gyfer rheoli, dylunio a chyflwyno Cyrraedd y Nod;
- Aesu perfformiad y ddau brosiect o ran gwariant, targedau allbynnau a deilliannau; ac
- Asesu eu gwaddol a'u cynaliadwyedd

8.2 Mae'n mynd ymlaen i amlygu'r gwersi ar gyfer rhaglenni a phrosiectau o'r math hwn yn y dyfodol er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cyflwyno; ansawdd a graddau'r deilliannau a'r buddion ehangach y gellir eu cyflawni; a'r gallu i ddysgu o brofiad er mwyn llywio datblygu a gweitherdu polisïau.

## Effeithiolrwydd y prosesau ar gyfer rheoli, dylunio a chyflwyno Cyrraedd y Nod

8.3 Mae'r tablau isod yn crynhoi'r hun a ganfuwyd mewn perthynas â'r agweddau gwahanol ar reoli, dylunio a chyflwyno'r prosiectau a'r gweithgareddau a gomisiynwyd.

*Rheoli*

8.4 Rydym wedi canfod (**Error! Reference source not found.**):

**Tabl 31 Beth sydd wedi gweithio'n dda a heriau o ran rheoli Cyrraedd y Nod**

| | Wedi gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| Rheoli'r prosiectau | Mae'r Grŵp Rheoli Prosiectau wedi gweithredu trwy gydol y prosiectau ac wedi mynd i'r afael â materion gweithredol. | Nid yw newidiadau staff o fewn y tîm rheoli prosiectau ac yn Llywodraeth Cymru wedi helpu o ran cysondeb ac amseroldeb cyngor ac arweiniad i noddwyr. |

| | Wedi gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | | Ni chynhwyswyd uwch arweinwyr polisi a phartneriaid cenedlaethol allweddol yng Ngrŵp Cynghori'r Prosiectau.<br><br>Fe wnaeth oedi hir o ran penderfynu ynghylch parhau â'r prosiectau ddal gweithgareddau yn ôl rhag cyflawni deilliannau disgwyliedig. |
| Arwain a chydlynu | Daeth staff o fewn y sefydliadau cyd-noddi allanol at ei gilydd mewn cyfarfodydd. | Nid oedd cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Prosiectau a'r Grŵp Cynghori yn canolbwyntio ar gynllunio ar y cyd, gan danategu ymchwil ynglŷn â beth sy'n gweithio er mwyn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir a'r dysgu o'r prosiectau.<br><br>Trefniadau cyfyngedig o ran hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau cyd-noddi. |
| Monitro | | Cymerodd y gronfa ddata gwybodaeth reoli ganolog fwy o amser na'r disgwyl i'w datblygu<br><br>Nid oedd modd gadael i gyd-noddwyr gael mynediad i gofnodion cyfranogwyr a'u lanlwytho eu hunain, a olygai bod rhaid canoli'r broses, a chymerodd hyn gryn amser i'r tîm rheoli prosiectau a'r cyd-noddwyr.<br><br>Dim data ar lefel gweithgareddau.<br><br>Roedd ymweliadau gan y tîm rheoli prosiectau yn canolbwyntio i raddau helaeth ar weinyddu a chasglu data yn hytrach na gwybodaeth reoli at ddibenion gwerthuso er mwyn dysgu gwersi am gyflwyno a chymorth effeithiol ar gyfer y grwpiau targed.<br><br>Ni chasglwyd unrhyw wybodaeth reoli ymhellach na hynny yr oedd ei hangen at ddibenion y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd gan Lywodraeth Cymru i ddangos cyflawni gweithgareddau a chyfraniadau at flaenoriaethau polisi. Er bod rhai cyd-noddwyr wedi casglu gwybodaeth reoli ychwanegol, roedd hon yn fylchog ac ni chafodd ei chofnodi'n electronig bob tro, gan wneud dadansoddi'n anodd.<br><br>Diffyg gwybodaeth glir am ofynion data |

| | Wedi gweithio’n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | | gwybodaeth reoli oddi wrth WEFO a Llywodraeth Cymru. |

8.5 Mae hyn yn dynodi:

- Mai buddion cyfyngedig fu i'r model o gael noddwr arweiniol yn goruchwylio cyd-noddwyr (yn hytrach na chael nifer o noddwyr â pherthynas uniongyrchol â WEFO) ac mai cyfyngedig fu trefniadau cydlynu gweithgareddau a rhannu profiad rhwng sefydliadau noddi ar y cyd.
- Nid yw prosiectau Cyrraedd y Nod wedi elwa ar lywio gan grŵp cynghori prosiectau am na wnaeth uwch randdeiliaid a wahoddwyd i fod yn aelodau o'r grŵp cynghori gyfranogi. Mae hyn wedi cyfyngu ar berfformiad y prosiectau a'u gallu i ychwanegu gwerth.
- Ni chasglwyd digon o wybodaeth reoli, ac roedd diffyg gwybodaeth reoli gyson a chanolog nodedig am ystod y gweithgareddau a gyflwynwyd y fewn y prosiect. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn asesu perfformiad a hefyd mae'n rhwystro'r dysgu ar gyfer mentrau tebyg yn y dyfodol.

8.6 Mae hyn yn awgrymu, ar gyfer mentrau tebyg yn y dyfodol:

- Y bydd angen sefydlu trefniadau llywio gwahanol a all ddarparu cyngor ac arweiniad digonol i lywio prosiect o'r math hwn ar draws yr ardal Gydgyfeirio gyfan. O ystyried y nifer fawr o brosiectau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd sy'n cael eu rhedeg gan Lywodraeth Cymru, dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu grwpiau polisi thematig sy'n llywio nifer o brosiectau. Sicrhau bod gweithgareddau'n gyson â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, fframwaith Blaenoriaethau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ac amcanion y cynllun busnes ddylai rôl y grŵp hwn fod, fel bod prosiectau gwahanol y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn cydategu'i gilydd, yn dilyn y trywydd iawn ac yn osgoi gorgyffwrdd.
- Ochr yn ochr â'r grŵp llywio strategol hwn, mae'n werth sefydlu grŵp llywio gweithredol ar gyfer sefydliadau cyd-noddi mewnol ac allanol. Dylai hwn ganolbwyntio ar sicrhau bod gweithgareddau'n unol â deilliannau ac yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil gadarn oni bai y dynodwyd mai arbrofol ydynt.

- Dylid penodi gwerthuswyr allanol ar gychwyn y prosiect fel y gallant weithio gyda'r tîm rheoli prosiectau i sefydlu trefniadau monitro a gwerthuso digonol o'r cychwyn. Dylai hyn gynnwys casglu gwybodaeth reoli am y graddau y mae gweithgareddau'n cyfrannu at amcanion polisi Cymru yn ogystal ag amcanion a thargedau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd.
- Dylai data gwybodaeth reoli gael ei chasglu'n ganolog mewn perthynas â gweithgareddau unigol (h.y. yr ymyriadau gwahanol a gyflwynir gan gyd-noddwyr), a dylid dadansoddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd fel rhan o'r adolygiad parhaus o berfformiad prosiectau a chyd-noddwyr.

*Dylunio a datblygu'r prosiectau (cyn comisiynu ac ar ôl comisiynu)*

8.7 Rydym wedi canfod (Tabl 30):

**Tabl 30 Beth sydd wedi gweithio'n dda a heriau o ran dylunio a datblygu Cyrraedd y Nod**

| | **Wedi gweithio'n dda** | **Heriau** |
|---|---|---|
| Tystiolaeth o angen | Mae gweithgareddau'n gymharol gyson ag anghenion a flaenoriaethwyd ym mholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru. | Ni chafodd canfyddiadau o ymgynghoriad ehangach eu dadansoddi a'u cyflwyno mewn cynlluniau busnes neu ddogfennau ategol.<br><br>Adroddodd rhanddeiliaid na chafodd meysydd angen a godwyd yn yr ymgynghoriad eu cynnwys yn y prosiectau.<br><br>Mae rhywfaint o'r dystiolaeth ymchwil a gyflwynwyd yn y cynlluniau busnes i weld yn llai perthnasol a defnyddiol ar gyfer adnabod anghenion.<br><br>Roedd cynlluniau busnes yn ofynnol gan rai o weithgareddau noddwyr mewnol, ond nid bob un ohonynt.<br><br>Ni chafodd y ddarpariaeth bresennol ei mapio er mwyn amlygu bylchau y gallai gweithgareddau'r prosiect eu llenwi. |
| Cydweddiad rhwng nodau prosiectau a pholisi a gweithgareddau Llywodraeth Cymru | Mae'r gweithgareddau sydd wedi'u cyflwyno i weithwyr proffesiynol a phobl ifanc yn berthnasol yn gyffredinol i nodau ac amcanion y prosiectau.<br><br>Dyluniwyd rhai gweithgareddau'n glir i gyfrannu at ddarparu cymorth penodol wedi'i deilwra i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid (amcan penodol y cynllun busnes). | Ychydig o weithgareddau sy'n cyfrannu at rai o nodau allweddol y prosiectau a restrwyd yn y cynllun busnes.<br><br>Dim ond ychydig o weithgareddau a oedd yn cynnig profiadau i bobl ifanc ddefnyddio sgiliau a ddysgwyd mewn profiad yn gysylltiedig â gwaith.<br><br>Bwriadwyd mai un cyfraniad allweddol at amcanion *Darparu Sgiliau* |

| | Wedi gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | Mae'r gweithgareddau'n gymharol gydnaws â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, gyda'r rhan fwyaf o weithgareddau i weld yn berthnasol ac yn briodol i nodau *Ymestyn Hawliau* a'r *Cynllun Ymgysylltu a Gweithredu Ieuenctid* ar ôl hynny. | *sy'n Gweithio i Gymru* fyddai dylunio a gweithredu system genedlaethol ar gyfer nodi a chadw mewn cysylltiad â phobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl. Ni ddigwyddodd hyn. |
| Tystiolaeth o fylchau mewn gwasanaethau | Mae cynlluniau busnes yn datgan anghenion gwasanaethau cyffredinol ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio'r ymgynghoriad a rhywfaint o'r dystiolaeth ymchwil a gyflwynwyd.<br><br>Mae cynlluniau busnes y rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr yn ystyried cwmpas gwasanaethau a phrosiectau eraill yng Nghymru i ryw raddau er mwyn dangos sut fyddai gweithgareddau'r prosiectau yn ehangu ac yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol. | Nid yw'r cynlluniau busnes ar lefel prosiectau na chynlluniau busnes cyd-noddwyr yn cyflwyno tystiolaeth ynglŷn â bylchau mewn gwasanaethau ar lefel ranbarthol a lefel leol, ac roedd rhanddeiliaid o'r farn y gallai gweithgareddau'r prosiectau fod yn dyblygu gwasanaethau presennol yn hytrach na llenwi bylchau. |
| Cydweddu â gwasanaethau eraill | | Nid oedd y Grŵp Llywio'n gallu recriwtio aelodau a allai gynghori ar y ddarpariaeth bresennol er mwyn lleihau risg dyblygu.<br><br>Nid oes fawr o esboniad yn y cynlluniau busnes o ran sut mae gweithgareddau prosiectau gwahanol yn cysylltu â'i gilydd neu brosiectau Blaenoriaeth 1 eraill.<br><br>Nid yw llwybrau cyfeirio a dilyniant rhwng gwasanaethau presennol a gweithgareddau prosiectau arfaethedig wedi'u diffinio yn y cynllun busnes neu ddogfennau dilynol. |
| Ffurfio targedau | | Roedd y rhan fwyaf o'r targedau wedi'u datblygu'n wael. Nid ymddengys bod targedau wedi'u ffurfio ar sail asesiad o'r cyflenwad a'r galw.<br><br>Nid oedd gan weithgareddau penodol o fewn y prosiectau dargedau allbynnau tuag at y targedau a gytunwyd gyda chyd-noddwyr o angenrheidrwydd. |

| | Wedi gweithio’n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | | |
| Dadlau o blaid math, natur a model cyflwyno gweithgareddau | Defnyddiodd cynlluniau busnes y prosiectau dystiolaeth ymchwil a gwerthuso ynglŷn â beth sy’n gweithio o ran cyflawni deilliannau ar gyfer ychydig o weithgareddau allweddol (fel y prosiect Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol, Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid a gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru).<br><br>Fe wnaeth ychydig o noddwyr ddefnyddio tystiolaeth ymchwil a gwerthuso a phrofiad diweddar i lywio natur a ffurf gweithgareddau. | Nid oedd llawer o’r dystiolaeth ynglŷn â beth sy’n gweithio o ran cyflawni deilliannau ar gyfer grwpiau targed a gyflwynwyd yn y cynllun busnes wedi’i seilio ar werthusiadau o’r deilliannau a gyflawnwyd a fyddai’n cyfrannu at ddeilliannau’r prosiectau.<br><br>Nid ymgymerwyd ag adolygiad systematig o lenyddiaeth fel sail ar gyfer cynllun y prosiect.<br><br>Ni chynhaliwyd dadansoddiad manwl o natur a dwysedd gweithgareddau a oedd yn ofynnol i gyflawni’r deilliannau dymunol.<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ddadlau o blaid defnyddio gweithgareddau seiliedig ar STEM neu weithgareddau dinasyddiaeth fel modd o ymgysylltu’n effeithiol â phobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl. |
| Adolygiad marchnad ar gyfer comisiynu | | Cyfyngedig fu ymgysylltiad noddwyr y prosiectau â darparwyr yn y farchnad i ddeall yr atebion a allai fod ar gael ac i gael adborth ar y modd gorau i fodloni’r gofyniad.<br><br>Roedd gan noddwyr y prosiectau ymagwedd gymharol ad hoc at benderfynu ar nifer a natur y cyflenwyr yr oedd eu hangen, a maint, hyd a math y contract.<br><br>Ystyriaeth gyfyngedig fu o fodelau a dulliau caffael gwahanol, gan gynnwys ystyried prosesau comisiynu gwahanol ar gyfer contractau o feintiau gwahanol.<br><br>Ni wnaed unrhyw ymchwil i sefydlu costau uned meincnod i asesu cynigion ac ystyried gwerth am arian yn eu herbyn. |

| | **Wedi gweithio'n dda** | **Heriau** |
|---|---|---|
| Sicrhau adnoddau ar gyfer rheoli contractau neu gyflwyno'n uniongyrchol | Yn gyffredinol, roedd rheolwyr contractau ar waith o'r camau caffael cynnar a arweiniodd at benodi staff â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol yn amserol.<br><br>Roedd rhai o'r cyd-noddwyr yn cydnabod bod diffyg arbenigedd rheoli contractau o fewn eu sefydliadau, ac aethant ati i recriwtio staff â sgiliau i fynd i'r afael â hyn. | Profiad blaenorol cyfyngedig o reoli contractau oedd gan rai rheolwyr contractau. |
| Contractio, gan gynnwys trafodaethau ar ôl tendro | Mae cyd-noddwyr â mwy o brofiad o gaffael wedi cynorthwyo noddwyr llai profiadol trwy rannu manylebau, contractau a dysgu o'u profiad eu hunain.<br><br>Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynorthwyo cyd-noddwyr i gael hyfforddiant CGGC, ac roedd yn ddefnyddiol iddynt.<br><br>Mae manylebau a gyhoeddwyd yn gyffredinol yn rhoi digon o fanylion i alluogi darparwyr i ymateb i'r gofynion.<br><br>Gwerthusiadau o dendrau yn erbyn meini prawf wedi'u diffinio ymlaen llaw, gan gynnwys y gallu i gofnodi gwybodaeth fonitro, adrodd a gwerthuso, profiad perthnasol o recriwtio a chefnogi'r grŵp targed, a'r gallu i gyflawni deilliannau bwriadedig prosiectau.<br><br>Addasiadau gan gyd-noddwyr i'r broses o ganlyniad i wersi a ddysgwyd.<br><br>Partneriaethau newydd wedi'u ffurfio o ganlyniad i'r broses gomisiynu. | Oedi sylweddol i'r broses o gomisiynu gweithgareddau yn dilyn yr adroddiad gwerthuso interim.<br><br>Roedd yn ofynnol i rai cyd-noddwyr ddechrau'r broses gaffael cyn i'w cyllideb gyffredinol gael ei chymeradwyo'n derfynol gan Lywodraeth Cymru a WEFO.<br><br>Cymorth a chyngor annigonol wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru i rai cyd-noddwyr a oedd yn newydd i'r broses gaffael.<br><br>Nid oedd rhai o'r manylebau yn caniatáu llawer o gyfle am arloesi ar ran y darparwyr ac i ddangos gwerth am arian.<br><br>Roedd pris yn ystyriaeth i'r rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr, ond nid pris a gwerth am arian yn faen prawf allweddol ar gyfer asesu cynigion yn eu herbyn yn gyffredinol.<br><br>Trafodaethau cyfyngedig fu ar ôl tendro i fireinio ymagwedd a diffinio gwybodaeth reoli a thargedau, ymhellach na'r rheiny a oedd yn ofynnol ar gyfer y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd. |

8.8 Mae hyn yn dynodi:

- Defnyddiwyd rhywfaint o dystiolaeth i nodi'r prif heriau a wynebir gan bobl ifanc y dylai gweithgareddau'r prosiectau geisio mynd i'r afael â nhw, fel arolygon ar raddfa fawr o bobl ifanc ynglŷn â'r anawsterau a wynebant mewn addysg, iechyd, bywyd teuluol a chymdeithasol, ystadegau cenedlaethol a chanfyddiadau o ymgynghoriadau cenedlaethol. Mae rhywfaint o'r dystiolaeth a ddyfynnwyd i weld yn llai perthnasol a defnyddiol ar gyfer nodi anghenion. Nid ymddengys fod canfyddiadau o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid wedi'u dadansoddi a'u dogfennu'n fanwl.
- Er bod cynlluniau busnes y prosiectau yn datgan anghenion gwasanaethau cyffredinol ac er bod cynlluniau busnes cyd-noddwyr yn ystyried cwmpas gwasanaethau eraill yng Nghymru i ryw raddau, nid oes tystiolaeth yn y cynlluniau busnes ynglŷn â bylchau mewn gwasanaethau ar lefel ranbarthol neu lefel leol, na sut y bydd y prosiectau yn cydategu gwasanaethau presennol ar gyfer pobl ifanc.
- Nid oedd fawr o esboniad yng nghynlluniau busnes y prosiectau am sut mae gweithgareddau prosiectau gwahanol yn cysylltu â'i gilydd.
- Nid ymddengys fod y broses o ffurfio targedau wedi defnyddio tystiolaeth ddigonol o'r cyflenwad a'r galw.
- Mae cryfder y dystiolaeth a gyflwynwyd ynglŷn ag effeithiolrwydd gweithgareddau penodol o ran cyflawni deilliannau dymunol yn gymysg; ni chynhaliwyd adolygiad systematig o lenyddiaeth i danategu'r sail resymegol ar gyfer gweithgareddau prosiectau, a nodi pa weithgareddau y gellid eu meincnodi a pha rai oedd yn arbrofol.
- Yn y rhan fwyaf o achosion bu diffyg adolygiad o'r farchnad cyn comisiynu, diffyg asesiad o fodelau a dulliau caffael gwahanol, ac ychydig o ystyriaeth o werth am arian wrth asesu tendrau. Mae hyn wedi golygu llwyddiant cymysg o ran y broses gomisiynu, sy'n ffactor cyfrannol at berfformiad prosiectau Cyrraedd y Nod.

8.9 Mae hyn yn awgrymu ar gyfer mentrau tebyg yn y dyfodol:

- Dylid cynnal ymarferiad mapio manwl, yn cynnwys rhanddeiliaid rhanbarthol a lleol, er mwyn amlygu bylchau mewn gwasanaethau i weithgareddau'r prosiectau fynd i'r afael â nhw.

- Dylai fod proses cynllunio lefel uchel yn gynnar sy'n mapio ac yn cymharu gweithgareddau y bwriada noddwyr eu cynnal er mwyn osgoi dyblygu, i sefydlu cysylltiadau cyfeirio a dilyniant rhwng gweithgareddau ac i sicrhau cydlynu ar draws y gyfres o weithgareddau.
- Dylai adolygiad systematig o lenyddiaeth i amlygu beth sy'n gweithio mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol er mwyn cyfrannu at fynd i'r afael â thangyflawni a chodi sgiliau a dyheadau gael ei ddefnyddio i lywio holl weithgareddau'r prosiectau.
- Ar y cychwyn, dylid nodi'n glir pa weithgareddau sy'n arbrofol a pha rai sy'n adlewyrchu arfer yn rhywle arall, gyda gofynion gwerthuso a gwybodaeth reoli yn cael eu hamlinellu i gyfateb i'r rhain.
- Mae angen ffurfio targedau gan ddefnyddio tystiolaeth o'r cyflenwad a'r galw (e.e. cyfanswm poblogaeth y grŵp targed a'i leoliad daearyddol, y niferoedd sy'n debygol o ymgymryd â gweithgareddau penodol ar sail gweithgareddau meincnod neu fonitro a gwerthuso blaenorol, a chostau rhesymol ar gyfer gweithgareddau i gyflawni allbynnau a deilliannau dymunol ar sail dealltwriaeth o amser a dwyster y gweithgareddau i gyflawni'r rhain).
- Dylid sefydlu prosesau gwell ar gyfer adolygu'n feirniadol cynlluniau busnes a gyflwynwyd gan gyd-noddwyr er mwyn asesu'r achos dros weithgareddau arfaethedig mewn perthynas ag angen, cydweddiad â darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth arall y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, a thystiolaeth o beth sy'n gweithio.
- Dylid darparu arweiniad clir i gyd-noddwyr ynglŷn â sut i gynnal adolygiad digonol o'r farchnad cyn comisiynu, er mwyn pennu'r model a'r dulliau caffael mwyaf priodol.
- Mae angen uwch berchennog cyfrifol ar gyfer goruchwylio gweithgarwch caffael ar draws y sefydliadau cyd-noddi sy'n gweithio'n agosach ag arweinwyr cyd-noddwyr yn ystod y proses gaffael.
- Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i gyflawni gwerth am arian drwy gomisiynu (er enghraifft, trwy gynnwys cost/pris fel meini prawf allweddol i asesu cynigion yn eu herbyn, gan sicrhau bod adnoddau a fuddsoddir mewn comisiynu a rheoli contractau yn gymesur â gwerth y contract a ddyfarnwyd, a phennu costau unedau meincnod).

*Cyflwyno*

8.10 Rydym wedi canfod (Tabl 31):

**Tabl 31 Beth sydd wedi gweithio'n dda a'r heriau o ran cyflwyno Cyrraedd y Nod**

| | **Wedi gweithio'n dda** | **Heriau** |
|---|---|---|
| Gweithredoli | Mae rhan fwyaf y noddwyr a rheolwyr gweithgareddau wedi gallu sicrhau'r staff, y gwirfoddolwyr a'r offer sydd eu hangen i gyflwyno gweithgareddau.<br><br>Mae enghreifftiau o weithgareddau hyrwyddo a marchnata effeithiol i'r grwpiau targed ac o staff yn adeiladu perthnasoedd effeithiol gyda phartneriaid yn gynnar.<br><br>Ceir enghreifftiau o ddulliau effeithiol o dargedu pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl drwy ystod o sefydliadau partner, gan gynnwys UCDau, ysgolion (e.e pobl ifanc ar gwricwlwm amgen), Cydlynwyr AAA, TTIau, clybiau ieuenctid, y gwasanaethau cymdeithasol a fforymau ieuenctid.<br><br>Cafodd anghenion pobl ifanc eu hasesu a'u hystyried gan ddefnyddio ystod eang o offer a dulliau. | Roedd rhai sefydliadau partner a oedd yn derbyn cyllid gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer prosiectau eraill yn amharod i gyfeirio pobl ifanc gan ofni na fyddai'r bobl ifanc yn cyfrif tuag at eu targedau eu hunain.<br><br>Adroddwyd bod rhai awdurdodau lleol yn gwrthod cydweithredu am eu bod o'r farn y dylent fod wedi gallu gwneud cais uniongyrchol am gyllid i WEFO.<br><br>Mae wedi cymryd amser i feithrin perthnasoedd gyda rhai partneriaid. Cafodd rhai gweithgareddau anawsterau o ran ymgysylltu ag ysgolion mewn rhai rhannau o'r ardal Gydgyfeirio.<br><br>Oherwydd oedi ar ôl y gwerthusiad interim, mae'r gwaith cyflwyno wedi gorfod cael ei wneud dros gyfnod llawer byrrach nag a ragwelwyd. |
| Recriwtio cyfranogwyr | Ymddengys fod y ddau brosiect wedi ymgysylltu â phobl ifanc â rhwystrau eang rhag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig â mynediad cyfyngedig at wasanaethau, cyn-droseddwyr a'r rheiny â lefelau llythrennedd a rhifedd isel oedd rhai o'r grwpiau allweddol a gyfranogodd mewn gweithgareddau. | Cafwyd anawsterau sylweddol yn recriwtio pobl ifanc a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwyster – adroddodd asiantau cyflwyno fod yr holl bobl ifanc NEET mewn rhai ardaloedd eisoes yn gysylltiedig â gweithgaredd arall y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a fwriadai gyflawni deilliannau tebyg. |

| | Wedi gweithio’n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | | Mae’r data yn dangos bod y prosiectau wedi gor-recriwtio pobl ifanc mewn perygl (yn hytrach na phobl ifanc NEET) ac fe wnaeth Troedle Cyntaf ymgysylltu â llawer mwy o rai 11-13 oed na’r disgwyl. |
| Darparu gweithgareddau priodol i gyflawni deilliannau disgwyliedig | Cynhwyswyd pobl ifanc wrth ddylunio gweithgareddau.<br><br>Roedd y bobl ifanc yn mwynhau gweithgareddau dysgu a oedd yn cynnig rhywbeth gwahanol i’r ysgol a’r coleg i ddatblygu sgiliau.<br><br>Roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi sgiliau a phriodweddau’r staff cyflwyno.<br><br>Mae nifer o noddwyr wedi gallu achredu cyflawniadau pobl ifanc, ac nid oeddent yn gwneud hynny’n flaenorol.<br><br>Mabwysiadu arfer effeithiol gan gefnogi hynny â’r llenyddiaeth ymchwil i ymgysylltu â phobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl: cynnig lefel uchel o ddewis mewn gweithgareddau i bobl ifanc; sicrhau bod gweithwyr ieuenctid yn meddu ar y sgiliau i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda phobl ifanc yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr; cyflwyno gweithgareddau ymarferol iawn sy’n wahanol i weithgareddau nodweddiadol yn yr ystafell ddosbarth; a sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig dros gyfnod er mwyn cryfhau effeithiau. | Adroddodd rhai gweithgareddau fod ysgolion yn ei chael yn anodd dod o hyd i le ar yr amserlen oherwydd gweithgareddau wedi’u trefnu, hyd yn oed os oeddent yn gallu gweld buddion posibl<br><br>Oherwydd oedi o ran contractio ar ôl y gwerthusiad interim, roedd y gwaith cyflwyno wedi’i ‘ôl-lwytho’ gyda chyfran sylweddol yn digwydd yn ail hanner y prosiect. Rhoddodd hyn gryn bwysau ar staff cyflwyno a gallai fod wedi lleihau dwysedd a hyd gweithgareddau i ddarparu’r deilliannau dymunol.<br><br>Golygai lefelau llythrennedd is na’r disgwyl ymhlith pobl ifanc fod rhaid addasu gweithgareddau. |
| Addasiadau i’r cyflwyno a dysgu | Gwnaeth y rhan fwyaf o’r asiantau cyflwyno a chyd-noddwyr addasiadau i’r cynllun cyflwyno gwreiddiol mewn ymateb i brofiad ac anghenion penodol y bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda nhw. | |

| | Wedi gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | Fe wnaeth adborth gan bobl ifanc lywio cynnwys a chyflwyniad gweithgareddau. | |

8.11 Mae hyn yn dynodi:

- Ymddengys fod oedi o ganlyniad i'r gwerthusiad interim wedi arwain at gyflwyno llawer o weithgareddau dros gyfnod amser byrrach nag a ragwelwyd.
- Gan mwyaf, mae asiantau cyflwyno a sefydliadau cyd-noddi yn cyflwyno gweithgareddau'n uniongyrchol wedi gallu sicrhau'r staff, y gwirfoddolwyr ac offer sydd eu hangen arnynt i ddechrau cyflwyno gweithgareddau.
- Mae datblygu partneriaethau i gefnogi'r cyflwyno wedi bod yn haws gan yr oedd cysylltiadau eisoes yn bodoli gyda sefydliadau partner, ac mewn achosion eraill, mae staff cyflwyno wedi gorfod gweithio'n galed i hyrwyddo'u gwaith i bartneriaid (yn enwedig rhai awdurdodau lleol), esbonio buddion a sicrhau ymgysylltu.
- Mae rhai asiantau cyflwyno wedi adrodd am broblemau o ran adnabod pobl ifanc NEET nad ydynt eisoes yn cael eu cefnogi gan ddarpariaeth a ariennir gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn gweithio tuag at yr un deilliannau. Fe wnaeth y gweithgareddau or-recriwtio pobl ifanc mewn perygl 11-13 oed.
- Mae pobl ifanc a gyfranogodd mewn gweithgareddau astudiaethau achos wedi bod yn gadarnhaol i raddau helaeth ynglŷn â'u profiadau o gael eu recriwtio i weithgareddau a chyfranogi ynddynt.
- Mae arfer effeithiol o ran ymgysylltu â phobl ifanc NEET neu bobl ifanc mewn perygl wedi'i ddysgu a'i fabwysiadu gan y rhan fwyaf o noddwyr y prosiectau ac asiantau cyflwyno.

8.12 Mae hyn yn awgrymu, mewn mentrau tebyg yn y dyfodol:

- Dylid cynnal digwyddiadau i ddod â darparwyr allweddol mewn ardaloedd lleol at ei gilydd fel eu bod yn gallu sefydlu dealltwriaeth glir o waith ei gilydd a helpu meithrin partneriaethau effeithiol.
- Dylai gweithgareddau a gomisiynwyd adlewyrchu'r grwpiau targed.

*Monitro, adolygu a dysgu*

8.13 Rydym wedi canfod (Tabl 32):

**Tabl 32 Beth sydd wedi gweithio'n dda a heriau o ran monitro, adolygu a dysgu**

| | **Wedi gweithio'n dda** | **Heriau** |
|---|---|---|

| | **Wedi gweithio'n dda** | **Heriau** |
|---|---|---|
| Monitro perfformiad a sicrhau ansawdd | Yn gyffredinol sefydlwyd prosesau clir gan y cyd-noddwyr ar gyfer casglu gwybodaeth reoli i fesur cyflawniad targedau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ac adroddiadau cynnydd gan gontractwyr.<br><br>Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr sefydlu prosesau clir ar gyfer ymweliadau monitro wyneb yn wyneb a oedd yn cynnwys arsylwadau, gwiriadau o ddata rheolaeth ariannol a gwiriadau o sut y caiff cyfranogwyr eu targedu.<br><br>Mae cyd-noddwyr sy'n cyflwyno'n uniongyrchol wedi sefydlu prosesau da ar gyfer monitro ansawdd a chysondeb y cyflwyno. | Nid oedd cyfarwyddiadau i asiantau cyflwyno ynglŷn â gwybodaeth reoli ofynnol yn glir ac yn gywir am fod dealltwriaeth a dehongliad arweiniad gan Lywodraeth Cymru wedi newid / yn anghyson.<br><br>Casglwyd gwybodaeth reoli am allbwn heb fod yn ymwneud â'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a thargedau deilliannau gan rai o'r gweithgareddau.<br><br>Ni chafodd prosesau monitro a sicrhau ansawdd eu hamrywio yn ôl maint contractau, gan leihau gwerth am arian y broses gontractio.<br><br>Ni wnaeth ymweliadau monitro gyfrannu at wella cyflwyno gweithgareddau er mwyn cyflawni deilliannau disgwyliedig bob tro. |
| Casglu tystiolaeth o allbynnau a deilliannau | | Mae darparwyr â phrofiad blaenorol cyfyngedig o'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a systemau casglu data a gwybodaeth reoli wedi'u datblygu'n wael, wedi ei chael hi'n anodd cyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol o allbynnau a deilliannau.<br><br>Diffyg data penodol mewn perthynas â deilliannau a gyflawnwyd mewn perthynas â nodau ac amcanion y prosiectau.<br><br>Rhai anawsterau o ran defnyddio Dangos Llwyddiant; defnyddiwyd amrywiadau gan rai gweithgareddau.<br><br>Ni chynhaliwyd gwerthusiad annibynnol gan bob un o'r |

| | Wedi gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | | noddwyr; methodd rhai gwerthusiadau â darparu tystiolaeth na chasglwyd gan weithgareddau a noddwyr prosiectau am ddeilliannau. |
| Casglu a lledaenu dysgu | | Mae diffyg strategaeth lledaenu wedi'i datblygu'n dda yn golygu na fu llawer o gasglu a lledaenu dysgu.<br><br>Nid yw cyfarfodydd y grŵp llywio wedi'u trefnu i hwyluso rhannu dysgu.<br><br>Nid yw aelodau'r grŵp llywio wedi casglu gwybodaeth i'w galluogi i rannu dysgu â rhanddeiliaid. |

8.14 Mae hyn yn dynodi:

- Yn gyffredinol, sefydlwyd prosesau clir gan y cyd-noddwyr ar gyfer casglu data gwybodaeth reoli'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd gan ddarparwyr a sicrhau ansawdd y cyflwyno, ond yn gyffredinol nid ydynt wedi casglu neu gomisiynu gwybodaeth reoli ychwanegol i asesu allbynnau a deilliannau'r gweithgareddau ac i ddarparu tystiolaeth o beth sy'n gweithio.
- Lle casglwyd data ychwanegol, roedd yn tueddu bod yn gyfyngedig ac fe'i casglwyd ar ffurf copi caled a wnaeth monitro a dadansoddi'n anodd i gyd-noddwyr ei ddefnyddio. Nid oes gwerthusiadau o weithgareddau wedi'u comisiynu'n systematig ac nid yw pob un ohonynt wedi llenwi bylchau.
- Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r cyd-noddwyr sefydlu prosesau clir ar gyfer ymweliadau monitro wyneb yn wyneb a oedd yn cynnwys arsylwadau, gwiriadau o ddata rheolaeth ariannol a gwiriadau o sut y caiff cyfranogwyr eu targedu.
- Ymddengys mewn rhai achosion fod yr adnoddau a fuddsoddwyd mewn rheoli a monitro contractau yn anghymesur â gwerth y contract.
- Bu rhai anawsterau am fod yr arweiniad ynglŷn â pha wybodaeth reoli'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yr oedd ei hangen a diffiniadau o gymhwyster wedi newydd, a hefyd am fod rhai asiantau cyflwyno wedi'i chael hi'n anodd casglu'r wybodaeth reoli angenrheidiol.

- Ychydig o ddysgu sydd wedi'i ledaenu hyd yma.

8.15 Mae hyn yn awgrymu y dylai mentrau tebyg yn y dyfodol:

- Fuddsoddi mwy o amser ac adnoddau yn gynnar i sicrhau gwybodaeth glir am y wybodaeth reoli sy'n ofynnol, dealltwriaeth ynglŷn â beth sy'n cyfrif tuag at dargedau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, a beth sydd ei angen i roi tystiolaeth o nodau ac amcanion ehangach prosiectau a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd.
- Sicrhau bod adnoddau sy'n cael eu buddsoddi mewn rheoli a monitro contractau yn gymesur ac yn canolbwyntio ar ansawdd cyflwyno a darparu tystiolaeth o beth sy'n gweithio.
- Sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu rhwng noddwyr a rhanddeiliaid allanol yn barhaus trwy gyfarfodydd y grŵp llywio a thrwy fforymau eraill hefyd. Dylid seilio hyn ar fonitro a gwerthuso ffurfiannol a chrynodol cadarn.

**Perfformiad prosiectau Cyrraedd y Nod**

8.16 Rydym wedi canfod (Tabl 33):

**Tabl 33 Beth sydd wedi gweithio’n dda a heriau o ran perfformiad y prosiectau**

| | **Wedi gweithio’n dda** | **Heriau** |
|---|---|---|
| Cyflawni nodau ac amcanion yn y cynllun busnes, gan gynnwys gwariant a thargedau allbynnau WEFO | Mae’r targedau trwybwn cyffredinol wedi’u cyflawni:<br>• Fe wnaeth y ddau brosiect berfformio’n dda mewn perthynas â’r targedau ar gyfer cyfanswm nifer y cyfranogwyr. Fe wnaeth cyfanswm o dros 31,000 o bobl ifanc gyfranogi yn Cyrraedd y Nod (15,974 yn Troedle Cyntaf a 15,786 yn Llwybrau i’r Brig).<br>• Rhagorwyd yn sylweddol ar y targed ar gyfer nifer y gweithwyr proffesiynol yn cael hyfforddiant (yn Troedle Cyntaf, 1160 o weithwyr proffesiynol c gymharu â tharged o 500, ac yn Llwybrau i’r Brig, dros 1000 o weithwyr proffesiynol heb fod unrhyw darged penodol wedi’i ddatgan).<br><br>Mae nod y cynlluniau busnes o ymgysylltu â grwpiau penodol mewn perygl – pobl ifanc ag ADY, pobl ifanc anabl a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid – wedi’i gyflawni.<br><br>Mae nodau a gyflawnwyd yn cynnwys, ar gyfer Troedle Cyntaf:<br>• Datblygu a chyflwyno pecynnau hyfforddi mewn dulliau arloesol o ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol sy’n gyswllt llinell flaen gyda phobl ifanc;<br>• Darparu cymorth lleol ac arloesol i bobl ifanc;<br>Ac ar gyfer Llwybrau i’r Brig: | Bu tanwariant sylweddol ym mhrosiect Cyrraedd y Nod: roedd y gyllideb gychwynnol bron i £50 miliwn ond y gwariant terfynol oedd £29 miliwn; mae’n debygol bod gweithgareddau’n llai sylweddol (hyd, dwyster, ehangder) nag a ragwelwyd.<br><br>Cymerodd nifer sylweddol yn llai o bobl ifanc NEET ran mewn gweithgareddau na’r disgwyl (roedd rhyw bumed o gyfranogwyr yn bobl ifanc NEET o gymharu â’r targed gwreiddiol ar gyfer bron i hanner y bobl ifanc i fod yn NEET). Yn Troedle Cyntaf, cymerodd cyfran uwch o lawer o bobl ifanc 11-13 oed na’r disgwyl ran.<br><br>Nid oedd perfformiad yn erbyn targedau yn gyson ar draws noddwyr, gyda rhai yn gorgyflawni’n sylweddol yn erbyn dangosyddion penodol a rhai yn tangyflawni’n sylweddol. Gellir priodoli hyn yn rhannol i dargedau amhriodol.<br><br>Ni chafodd rhai o’r gweithgareddau a restrwyd yn y cynllun busnes eu cyflwyno a chafodd rhai eraill eu hamrywio.<br><br>Ymddengys fod nodau allweddol a restrwyd yn y cynllun busnes heb eu cyflawni. Ar gyfer Troedle Cyntaf, mae’r rhain yn cynnwys:<br>• Datblygu, cynnal peilot a gweithredu dulliau systematig ac arloesol o adnabod pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl;<br>• Datblygu systemau Cymru gyfan ar gyfer Cadw mewn Cysylltiad â phobl ifanc NEET; |

| | Wedi gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | • Datblygu ystod o wybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth i bobl ifanc ar faterion yn ymwneud â dysgu, gyrfaoedd a materion ffordd o fyw (trwy wefan CLIC yn bennaf a gweithgareddau SNAP Cymru, er yr ymgorfforwyd rhywfaint o wybodaeth ac arweiniad mewn llawer o weithgareddau)<br>• Datblygu adnoddau hyfforddi ar feysydd fel rheoli cyllidebau a gallu ariannol ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill<br>• Cyflwyno ystod o ymyriadau i bobl ifanc sy'n debygol o dangyflawni er mwyn sicrhau y gallant gyflawni lefel cymhwyster uwch trwy lwybrau dysgu newydd (trwy weithgareddau'n cael eu cyflwyno gan yr Urdd a Cherdd Gymunedol Cymru). | • Darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymgymryd â rhaglenni hyfforddi byr mewn sgiliau'n gysylltiedig â gwaith a chymhwyso'r rhain trwy brofiad yn gysylltiedig â gwaith.<br><br>Ac ar gyfer Llwybrau i'r Brig:<br>• Cynyddu cyfleoedd ar gyfer profiad tebyg i brofiad gwaith sy'n gysylltiedig â chyflogwyr a diwydiannau;<br>• Mae adnabod a lledaenu arfer da ac arloesol wedi digwydd i raddau cyfyngedig yn y ddau brosiect. |
| Cyflawni nodau ac amcanion mewn perthynas â themâu trawsbynciol | Ymddengys fod y nodau a'r amcanion a amlinellwyd yn y cynllun busnes mewn perthynas â chyfle cyfartal wedi'u cyflawni i gryn raddau.<br><br>Er nad oes modd gwneud asesiad llawn o ba un a yw'r holl weithgareddau wedi ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol yn effeithiol, mae nifer o enghreifftiau yn y ddau brosiect o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar faterion yn gysylltiedig â'r amgylchedd lleol. | Ymddengys nad yw un o nodau allweddol Llwybrau i'r Brig, sef cynnig y cyfle i bobl ifanc ymgymryd â lleoliadau gwaith a gwirfoddoli mewn sefydliadau amgylcheddol, wedi'i gyflawni. |
| Cyflawni deilliannau sy'n cyfrannu at uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru | Mae gweithgareddau prosiectau wedi cyfrannu ar rai o hawliau craidd polisi gwasanaethau ieuenctid Ymestyn Hawliau (2002) fel:<br>• Darparu cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch a darparu cyfleoedd ar gyfer profiadau chwaraeon, artistig, cerddorol ac awyr agored er mwyn datblygu doniau ac ehangu gorwelion – mae llawer o enghreifftiau o hyn; | Nid yw cyfraniad posibl y prosiectau at Gweledigaeth ar Waith (2006), sef y cynllun gweithredu deng mlynedd ar gyfer addysg a hyfforddiant, wedi'i gyflawni oherwydd y tangyflawni sylweddol yn erbyn y targed ar gyfer nifer y bobl ifanc yn mynd i mewn i ddysgu pellach. Mae'n anodd asesu cyfraniad at y polisi hwn yn llawn oherwydd mai tystiolaeth gyfyngedig sydd o ba un yw deilliannau tymor byr a welwyd yn ystod ac yn fuan ar ôl cyfranogi yng ngweithgareddau'r prosiect wedi'u cynnal dros amser, ac wedi |

| | **Wedi gweithio'n dda** | **Heriau** |
|---|---|---|
| | • Ffocws ar feithrin gallu pobl ifanc ddod yn annibynnol, i wneud dewisiadau a chyfranogi yn y broses ddemocrataidd – mae rhywfaint o dystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gwell o hawliau ymhlith cyfranogwyr;<br>• Cymorth a chyngor personol – mae tystiolaeth o wybodaeth, cyngor ac arweiniad gwell o ganlyniad i wefan CLIC a gweithgareddau SNAP Cymru yn Llwybrau i'r Brig.<br><br>Mae Llwybrau i'r Brig wedi cyfrannu at strategaeth genedlaethol y Gymraeg. Gwnaed hyn yn bennaf drwy weithgareddau'r Urdd, a cheir tystiolaeth o hyder a chymhelliant gwell i ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith cyfranogwyr.<br><br>Mae tystiolaeth gymharol gref fod y ddau brosiect wedi arwain at sgiliau personol a chymdeithasol gwell ymhlith pobl ifanc. Ymddengys mai'r gweithgareddau sydd wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth wneud hynny yw:<br>• Yn Troedle Cyntaf, gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru, gweithgaredd Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol AdAS a gweithgaredd Addysg a Dysgu Cyfiawnder Ieuenctid;<br>• Yn Llwybrau i'r Brig, mentora un-i-un a gweithdai grŵp yn seiliedig ar gerddoriaeth yn cael eu cyflwyno gan Cerdd Gymunedol Cymru a chyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol yn cael eu cyflwyno gan yr Urdd. | cyfrannu at ddeilliannau tymor hwy fel presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad gwell mewn addysg neu ddilyniant gwell i addysg bellach ac addysg uwch.<br>Mae potensial y prosiectau i gyfrannu at Darparu Sgiliau sy'n gweithio i Gymru (y strategaeth genedlaethol i leihau NEET), wedi'i leihau am fod nifer lai na'r disgwyl o bobl ifanc NEET wedi cyfranogi, a hefyd ni chynhaliwyd y fenter Cadw mewn Cysylltiad ar y raddfa a fwriadwyd, ac ni ddatblygodd a gweithredu systemau cenedlaethol ar gyfer nodi a chadw mewn cysylltiad â phobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl.<br><br>Tystiolaeth gyfyngedig sydd fod Llwybrau i'r Brig wedi cyfrannu'n effeithiol at y Strategaeth Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru (2006) |
| Dosbarthu adnoddau ar draws grwpiau targed | | Gwariwyd mwy o adnoddau na'r disgwyl ar bobl ifanc mewn perygl na phobl ifanc NEET. |
| Dosbarthu adnoddau ar draws yr ardal Gydgyfeirio | Yn y ddau brosiect, bu cyfranogwyr ym mhob un o'r awdurdodau lleol yn yr ardal Gydgyfeirio. | Mae amrywio sylweddol yn nifer y cyfranogwyr ym mhob awdurdod lleol. Gallai hyn adlewyrchu amrywiadau o ran angen a'r ddarpariaeth |

| | Wedi gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | | gwasanaethau bresennol, ond nid oes modd gwneud asesiad cadarn o'r rhesymau am amrywio o'r fath gyda'r data sydd ar gael.<br><br>Yn benodol:<br>• Yn Troedle Cyntaf, bu Plant yng Nghymru yn gweithio gyda nifer gymharol fach o gyfranogwyr yng Nghaerffili, Ceredigion, Conwy a Merthyr Tudful; gweithiodd Achub y Plant gyda nifer gymharol fach o gyfranogwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot a Chonwy ond llawer mwy yn Sir Ddinbych a RhCT; ychydig o gyfranogwyr oedd gan y Ddraig Ffynci yn Nhorfaen, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot, tra bod gryn dipyn yn fwy o Gaerffili a RhCT; roedd gan Gyngor Celfyddydau Cymru nifer gymharol fach o gyfranogwyr yng Nghonwy a Gwynedd ond gryn dipyn yn fwy yn Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin;<br>• Yn Llwybrau i'r Brig, roedd gan Cerdd Gymunedol Cymru lai nag 20 o gyfranogwyr mewn pum awdurdod lleol a dros 50 mewn pedwar; roedd llai o gyfranogwyr gan SNAP Cymru yng Ngheredigion a Sir Benfro nag yn Abertawe a Rhondda Cynon Taf; roedd gan Techniquest niferoedd cymharol fach ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol gorllewinol a gogleddol (ac eithrio Sir Ddinbych) a niferoedd mawr iawn yn RhCT ac Abertawe; fel y gellid disgwyl, roedd niferoedd bach gan yr Urdd mewn ardaloedd fel Torfaen a Blaenau Gwent ond niferoedd mwy mewn ardaloedd fel Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â Gwynedd. |
| Gwerth ychwanegol | Mae cyllid prosiectau wedi galluogi cyflwyno gweithgareddau ar raddfa fwy ac i ac i nifer fwy na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.<br><br>Mae rhai gweithgareddau wedi gweithredu fel catalydd ac wedi galluogi cyflawni buddion yn gyflymach.<br><br>Nid oes unrhyw dystiolaeth o ddadleoli nac amnewid darpariaeth arall. | Tystiolaeth nad yw gweithgareddau'r prosiectau wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â bylchau yn y ddarpariaeth |

8.17 Mae hyn yn dynodi:

- Bu tanwariant sylweddol ym mhrosiect Cyrraedd y Nod, gan olygu methiant i fanteisio ar gyllid a ddyrannwyd i wella sefyllfa pobl ifanc yn yr ardal Gydgyfeirio.
- Dim ond yn rhannol y cyflawnwyd y nodau ac amcanion a amlinellir yng nghynlluniau busnes y prosiectau, ac nid yw rhai o'r nodau allweddol wedi'u cyflawni.
- Er bod y prosiectau wedi perfformio'n dda o ran y targedau ar gyfer cyfanswm nifer y bobl ifanc yn cyfranogi mewn prosiectau, nid yw'r rhan fwyaf o dargedau eraill WEFO (ar wariant, allbynnau, a dangosyddion canlyniadau) wedi'u cyflawni. Yn benodol, cyfranogodd nifer llai o lawer o bobl ifanc NEET nag a fwriadwyd. Gallai hyn adlewyrchu'r prosesau ar gyfer ffurfio targedau yn rhannol, a olygai bod targedau yn afrealistig mewn rhai achosion, a gall hefyd ddynodi'r angen am brosesau gwell ar gyfer adnabod ac ymgysylltu â'r grŵp targed.
- Mae grwpiau penodol mewn perygl y soniwyd amdanynt yn y cynllun busnes – sef pobl ifanc ag ADY, pobl ifanc anabl a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid – wedi'u cynnwys yn effeithiol mewn prosiectau.
- Mae gweithgareddau'r prosiectau wedi cyfrannu at rai o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru:
  - Er enghraifft, rhai o'r hawliau craidd a amlinellir yn *Ymestyn Hawliau* (2002). Yn benodol, mae tystiolaeth o: weithgareddau sydd wedi darparu cyfleoedd cymdeithasol a hamdden, yn cynnwys profiadau artistig, cerddorol a phrofiadau awyr agored i ddatblygu doniau ac ehangu gorwelion; gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau ymhlith cyfranogwyr; a gwell gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o ganlyniad i wefan CLIC a gweithgareddau SNAP Cymru yn Llwybrau i'r Brig.
  - Mae'r ddau brosiect wedi arwain at fedrau personol a chymdeithasol gwell ymhlith pobl ifanc.
  - Mae Llwybrau i'r Brig wedi cyfrannu at Strategaeth yr Iaith Gymraeg.
- Nid yw cyfraniad posibl y prosiectau at Gweledigaeth ar Waith (2006), Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru (2008) a'r Strategaeth Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru, wedi'i gyflawni.

- Mae gweithgareddau prosiectau wedi'u darparu'n anghymesur mewn rhai ardaloedd. Nid oes sail resymegol glir ar gyfer hyn.
- Cafwyd rhywfaint o werth ychwanegol o ganlyniad i'r prosiectau: mae cyllid prosiectau wedi galluogi cyflwyno ar raddfa fwy ac i nifer fwy na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Fodd bynnag, nid ymddengys fod gweithgareddau prosiectau wedi mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol mor effeithiol ag y gallent fod wedi gwneud.

8.18 O ganlyniad, dylai mentrau tebyg yn y dyfodol:

- Sicrhau bod cynllunio gwell yn y camau cynnar, gan ddefnyddio tystiolaeth o beth sy'n gweithio a beth sy'n realistig, er mwyn sicrhau y gellir cyflawni gweithgareddau, allbynnau a deilliannau bwriadedig o fewn y ffrâm amser ac yn ardaloedd lle mae'r angen.
- Diffinio'n fwy eglur amcanion polisi penodol y llywodraeth y bwriedir i weithgareddau penodol gyfrannu atynt, er mwyn galluogi monitro a gwerthuso'u cyfraniad yn fanylach yn barhaus.

## Gwaddol a chynaliadwyedd Cyrraedd y Nod

8.19 Rydym wedi canfod (Tabl 34):

**Tabl 34 Beth sydd wedi gweithio'n dda a heriau o ran gwaddol a chynaliadwyedd Cyrraedd y Nod**

| | Wedi gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| Gwaddol | Mwy o wybodaeth a dealltwriaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol ieuenctid o sut i adnabod, ymgysylltu a chymell pobl ifanc NEET a phobl ifanc mewn perygl.<br><br>Mwy o fuddsoddiad mewn datblygu staff yn ychydig o'r sefydliadau cyd-noddi.<br><br>Gweithio gwell mewn partneriaeth ymhlith sefydliadau ieuenctid.<br><br>Prosesau gwell ar gyfer datblygu busnes mewn ychydig o sefydliadau cyd- | Tystiolaeth gyfyngedig hyd yma fod gwybodaeth a dealltwriaeth well wedi'u cymhwyso i ymarfer neu wedi newid dulliau sefydliadol.<br><br>Tystiolaeth gyfyngedig o weithio gwell mewn partneriaeth rhwng cyd-noddwyr a chyd-noddwyr ac AdAS.<br><br>Dim strategaeth ledaenu fanwl ar lefel prosiectau a lefel cyd-noddwyr.<br><br>Ychydig iawn o ledaenu |

| | Wedi gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | noddi.<br><br>Gwell gallu i reoli a gweinyddu prosiectau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ymhlith sefydliadau cyd-noddi.<br><br>Datblygu adnoddau ac offer i'w defnyddio yn y dyfodol. | dysgu hyd yma. |
| Cynaliadwyedd | Cafodd nifer o weithgareddau eu derbyn mewn egwyddor fel rhai a lwyddodd i gyflawni deilliannau bwriadedig, ac mae cyd-noddwyr wedi gwneud cais am gyllid i'w cynnal, er nad oedd hwn wedi'i sicrhau. | Ar y pwynt hwn, nid yw'r rhan fwyaf o weithgareddau wedi sicrhau cyllid i gynnal gweithgareddau.<br><br>Oherwydd y diffyg tystiolaeth a gasglwyd, ymwybyddiaeth gyfyngedig sydd ymhlith darpar gyllidwyr o effeithiolrwydd gweithgareddau. |

8.20 Mae hyn yn dynodi:

- Bu rhai buddion ehangach ar gyfer sefydliadau cyd-noddi o ganlyniad i gyfranogi yn Cyrraedd y Nod, yr ystyrir eu bod yn waddol pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o wybodaeth a sgiliau ymhlith gweithwyr proffesiynol ieuenctid o ran sut i nodi, ymgysylltu a chymell pobl ifanc NEET, gweithio gwell mewn partneriaeth â sefydliadau ieuenctid eraill (ond nid rhwng noddwyr prosiectau yn gyffredinol), gwell prosesau busnes a gallu gwell i reoli a gweinyddu prosiectau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd.
- Cyfyngedig fu trefniadau lledaenu dysgu hyd yma, ac mae hynny'n lleihau gwaddol y prosiectau.
- Ar y pwynt hwn, nid yw rhan fwyaf y gweithgareddau wedi sicrhau cyllid eto i'w cynnal, a dynododd cyd-noddwyr na fyddent yn cael eu cynnal; cafodd nifer o weithgareddau eraill eu derbyn mewn egwyddor fel rhai a lwyddodd i gyflawni deilliannau bwriadedig, ac roedd cyd-noddwyr wedi gwneud cais am gyllid parhaus.

8.21 O ganlyniad, dylai mentrau tebyg yn y dyfodol:

- Sicrhau bod strategaeth ledaenu fanwl yn cael ei chytuno o ddechrau'r prosiect a'i gweithredu. Dylai dysgu sy'n seiliedig ar fonitro a gwerthuso

cadarn gael ei rannu â'r gynulleidfa ehangach bosibl, a darpar gyllidwyr yn y dyfodol yn arbennig, yn ystod ac ar ôl y prosiect.

**Casgliadau: Gwersi i'r dyfodol**

8.22 Gellid datblygu, rheoli a chyflwyno prosiectau a rhaglenni graddfa fawr fel Cyrraedd y Nod yn wahanol er mwyn gwella'u heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd, cynyddu'r deilliannau a gyflawnir, a sicrhau eu bod yn darparu dysgu ar gyfer darpariaeth brif ffrwd gan y llywodraeth yn ogystal â'r trydydd sector. Isod, amlinellwn rai o'r gwersi o'n hasesiad o'r heriau yn deillio o Cyrraedd y Nod.

*Datblygu prosiectau*

- Dylai'r holl brosiectau a gweithgareddau fod yn seiliedig ar gadwyn resymeg sy'n esbonio'r sail resymegol yn glir (h.y. pa broblemau y mae'r prosiect neu weithgaredd yn mynd i'r afael â nhw; pa fylchau sy'n cael sylw; pam mae angen am y prosiect neu weithgaredd); mewnbynnau; gweithgareddau; allbynnau; deilliannau bwriadedig tymor byr a thymor canolig; ac effeithiau disgwyliedig. Er mwyn dod at y gadwyn resymeg hon, dylai fod proses gwmpasu ac ymchwilio helaeth. Yn benodol:
- Dylai prosiectau yn y dyfodol ddechrau gydag ymarferiad mapio manwl yn cael ei gynnal ar lefel ranbarthol neu lefel awdurdod lleol er mwyn deall darpariaeth bresennol y brif ffrwd a darpariaeth y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd fel y gellir amlygu bylchau'n effeithiol. Dylid gwneud hyn gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau, yn cynnwys ymchwil ddesg a dadansoddi, ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Dylai canfyddiadau drafft yr asesiad o fylchau gael eu rhannu gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau ansawdd ac i gyflawni consensws o ran y blaenoriaethau i fynd i'r afael â nhw.
- Dylid cynnal adolygiad systematig o dystiolaeth am beth sy'n gweithio o ran cyflawni deilliannau disgwyliedig y prosiect, a'u defnyddio i lywio natur gweithgareddau (beth, am ba hyd, sut, ar gyfer pwy). Dylai rhanddeiliaid

awdurdod lleol gael y cyfle hefyd i gyfrannu gwybodaeth am beth sy'n gweithio mewn cyd-destunau lleol fel rhan o'r broses hon.

- Cyn comisiynu, dylai fod adolygiad trylwyr o'r farchnad er mwyn: deall yr atebion a allai fod ar gael ac i gael adborth ar y modd gorau i gyflawni'r gofyniad; penderfynu nifer a natur cyflenwyr; ac asesu pa fodel caffael yw'r un mwyaf priodol a graddfa/maint/hyd contractau i'w gosod.
- Dylai diffiniadau clir o grwpiau targed allweddol gael eu datblygu a'u cytuno rhwng pob un o'r rhanddeiliaid ar ddechrau'r prosiect, a dylai'r potensial am groesgyfeirio a nodwyd gael ei gynnwys mewn targedau a gofynion contract.
- Dylai targedau fod yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o gyflenwad a galw sy'n ystyried poblogaeth gyfan y grŵp targed, tystiolaeth o angen, darpariaeth arall ar gyfer y grŵp targed, y niferoedd sy'n debygol o fanteisio ar weithgareddau a gwybodaeth briodol am gostau cyflenwi er mwyn cyflawni allbynnau a deilliannau ar sail data meincnod.
- Dylid gosod targedau ar gyfer gweithgareddau, yn hytrach nag ar lefel prosiect, a dylent gynnwys targedau daearyddol.
- Dylid gwella'r broses ar gyfer adolygu ansawdd cynlluniau busnes er mwyn sicrhau mwy o graffu a her o ran y dystiolaeth a'r sail resymegol a gyflwynir, ac i symud o syniad cychwynnol at gynllun datblygedig. Fel rhan o hyn, dylai fod cyfleoedd am fewnbwn gan arweinwyr polisi ac ymarferwyr arbenigol. Dylai hyn fod yn gymwys i gyd-noddwyr mewnol lawn gymaint â noddwyr allanol.

*Llywio a rheoli*

8.23 Dylai'r mecanweithiau ar gyfer llywio prosiectau graddfa fawr y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd gael eu haddasu i sicrhau y gellir ymgysylltu â'r holl randdeiliaid strategol a gweithredol perthnasol:

- O gofio'r rhwystrau ymarferol i gael arweinydd polisi ar bob grŵp llywio llawer o brosiectau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru, dylid sefydlu grwpiau polisi thematig sy'n goruchwylio'r holl brosiectau sy'n berthnasol i'w meysydd polisi. Dylai eu rôl gynnwys monitro a hwyluso

gyfrannu at amcanion polisi a chasglu a lledaenu dysgu am beth sy'n gweithio o ran cyflawni amcanion polisi.

- Dylai fod grwpiau gweithredol rhanbarthol neu isranbarthol hefyd sy'n ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau cyflwyno. Sicrhau bod gweithgareddau'n cyfateb i anghenion rhanbarthol ac yn llenwi bylchau yn y ddarpariaeth a hwyluso partneriaethau gweithredol sy'n cefnogi deilliannau ar gyfer pobl ifanc ddylai rôl y grwpiau hyn fod.

*Cyflwyno*

8.24 Mae comisiynu yn gam pwysig i sicrhau bod gweithgareddau cost-effeithiol yn cael eu darparu sy'n bodloni nodau a deilliannau'r prosiect.

- Dylid rhoi sail resymegol glir ar gyfer pam y mae rhai gweithgareddau yn cael eu gosod ar gontract a bod rhai eraill yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol gan noddwyr.
- Pan gaiff y penderfyniad ei wneud bod angen i weithgaredd gael ei osod ar gontract, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arbenigwr contractio i weithio'n agos gyda noddwyr nad yw'r arbenigedd hwn ganddynt yn fewnol. Dylid darparu cyngor ac arweiniad ynghylch sut i gynnal adolygiad o'r farchnad cyn contractio, gan lunio manylebau, a sicrhau bod y broses monitro a sicrhau ansawdd yn gymesur â maint y contract.
- Dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig am gontractau ddangos eu perthnasoedd presennol gyda phartneriaid cyflwyno a chyfeirio, gan gynnwys datganiadau gan bartneriaid y byddant yn cefnogi cyflwyno'r gweithgaredd.
- Dylid darparu digwyddiadau ar lefel leol hefyd er mwyn hwyluso partneriaethau gweithredol rhwng awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a sefydliadau'r sector preifat.
- I gyflawni deilliannau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc NEET neu bobl ifanc mewn perygl, dylai'r cyflwyno ddigwydd dros gyfnod amser digonol er mwyn rhoi amser i weithwyr proffesiynol ieuenctid adeiladu perthynas gyda phobl ifanc a chyflawni deilliannau ystyrlon sy'n fwy tebygol o gael eu cynnal. Mae hyn yn mynnu dealltwriaeth o gyllidebau a fframiau amser gweithgareddau pan gânt eu comisiynu.

- Dylai'r broses o fonitro'r cyflwyno ganolbwyntio ar brosesau gweinyddol ar gyfer casglu, dilysu a chyflwyno data'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ond hefyd darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar sut i addasu'r cyflwyno er mwyn gwella deilliannau.

*Dysgu*

8.25 Dylai gwerthuso ffurfiannol yn ogystal â gwerthuso crynodol fod yn nodwedd o brosiectau yn y dyfodol. Dylid penodi gwerthuswyr allanol ar ddechrau prosiectau yn hytrach na chanol ffordd drwodd er mwyn gweithio ar y cyd â noddwyr i sefydlu prosesau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso cyflawni amcanion polisi'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Dylai'r dysgu sy'n dod i'r amlwg gael ei rannu'n rheolaidd trwy gydol y prosiect gyda noddwyr a rhanddeiliaid. Yn benodol:

- Dylai data gwybodaeth reoli gael ei gasglu'n ganolog ar lefel gweithgaredd. Dylai hyn gynnwys data ar gydrannau allweddol pob adran o'r model rhesymeg sy'n sail i'r prosiect (mewnbynnau, gweithgareddau, deilliannau ac effeithiau tymor byr a thymor canolig).
- Lle bo angen, dylid darparu cymorth adeiladu capasiti i noddwyr ar ddechrau'r prosiect ac yn barhaus er mwyn eu galluogi i fonitro a gwerthuso'n effeithiol. Gallai hyn gynnwys arweiniad i lunio cadwyn resymeg ar gyfer gweithgareddau penodol, darparu offer casglu data priodol ac arweiniad at sut y gall data gael ei ddadansoddi'n rheolaidd i lywio'r cyflwyno.
- Dylid sefydlu strategaeth ledaenu o ddechrau'r prosiect sy'n cynnwys cyfleoedd i randdeiliaid ddod at ei gilydd yn ystod y prosiect i fyfyrio ar ddysgu o'r monitro a gwerthuso ffurfiannol.
- Dylai gwerthuso ganolbwyntio ar sicrhau ei bod yn bosibl asesu beth sy'n gweithio i gyflawni'r deilliannau a ddisgwylir gan weithgareddau, gyda blaenoriaeth i'r rheiny nad ydynt wedi'u profi gystal/sy'n cael eu haddasu a'r rhai gwirioneddol arbrofol. Dim ond bryd hynny y bydd tystiolaeth i danategu penderfyniadau gan gyllidwyr i ddarparu cyllid.

**Casgliadau: Gwersi ar gyfer llunwyr polisi a chyllidwyr**

8.26 Collwyd llawer o gyfleoedd i ddarparu gwersi o'r gweithgareddau yn y prosiectau. O ganlyniad, nid yw'n glir pa un a yw gweithgareddau dinasyddiaeth, er enghraifft, yn darparu sgiliau neu ba un a yw gweithgareddau celfyddydau, er enghraifft, yn ail-ennyn diddordeb pobl ifanc mewn dysgu neu mewn gwneud gweithgareddau cadarnhaol. Nifer gymharol fach o ganfyddiadau y gellir eu hamlygu i wneud datganiadau cadarnhaol am ba weithgareddau yr ymddengys eu bod yn gweithio i gyfrannu at ddeilliannau polisi allweddol, sut ddylai'r gweithgareddau gael eu cyflwyno'n effeithiol i gyflawni'r deilliannau a ddymunir ar gyfer pobl ifanc mewn perygl a phobl ifanc NEET, a pha weithgareddau sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc fel y byddant yn caffael sgiliau na fyddent yn eu cael fel arall o ddysgu ffurfiol.

8.27 Os yw hyn i'w gyflawni mewn rhaglenni'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd o'r math hwn yn y dyfodol, mae'n bwysig bod llunwyr polisi a chyllidwyr yng Nghymru yn defnyddio'r gwersi uchod ac:

- Yn glir ynghylch y cwestiynau ymchwil y maent am fynd i'r afael â nhw yn ogystal â'r deilliannau a ddisgwyliant o'r ymyriadau ar gyfer y grwpiau targed.
- Yn adeiladu systemau ar gyfer casglu gwybodaeth reoli a dangos tystiolaeth o'r deilliannau o'r cychwyn cyntaf (i'r holl fuddiolwyr).
- Yn cefnogi dysgu trwy gydol y rhaglen ochr yn ochr â threfniadau rheoli gweithredol, a sicrhau bod dysgu'n bwydo i anghenion llunwyr polisi yn ogystal â'r rheiny sy'n gweithredu polisïau ar lawr gwlad.
- Yn sicrhau bod dysgu o lenyddiaeth ymchwil yn cael ei adolygu'n feirniadol a'i ymgorffori ar y cychwyn cyntaf yng ngwaith comisiynwyr ac asiantau cyflwyno fel bod gweithgareddau'n adlewyrchu'r hyn sy'n hysbys am beth sy'n gweithio a lle mae angen asesu dulliau arbrofol yn ofalus.
- Yn cydlynu'r comisiynu ac yn darparu parhad cydlyniant yn ogystal â chyflwyno.
- Yn datblygu strategaethau ymadael a lledaenu ar ddechrau prosiectau a gweithgareddau.
- Yn darparu cymorth a hyfforddiant i noddwyr i gyfateb i'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i gyfranogi mewn rhaglenni o'r

fath fel comisiynwyr ac asiantau cyflwyno, gyda phrif rôl yn y dysgu a'r gwerthuso.

# Atodiadau

# Atodiad 1 Modelau rhesymeg

## *Model rhesymeg ar gyfer Troedle Cyntaf*

**Sail Resymegol ar gyfer Troedle Cyntaf** Bwriadwyd i Troedle Cyntaf gyfrannu at y polisïau allweddol canlynol gan Lywodraeth Cymru: Ymestyn Hawliau; Gweithredu'r Hawliau; Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru; strategaeth Llwybrau Dysgu 14-19; gweledigaeth Y Wlad sy'n Dysgu; strategaeth sgiliau sylfaenol Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri (2005); ac Iaith Pawb

### *Mewnbynnau:*

**Cyfanswm cyllideb o £19.8 miliwn:**

- Cyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd o ryw £10.8 miliwn
- Arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru a chyd-noddwyr o ryw £9 miliwn

**Mae arian cyfatebol yn cynnwys cyfraniadau o fath arall** gan Lywodraeth Cymru, cyd-noddwyr ac asiantau cyflwyno (ee lleoliadau, amser staff , amser gwirfoddolwyr)

Staff (arian cyfatebol): Arweinydd prosiectau, 3 arweinydd tîm gweithgareddau, 3 rheolwr prosiectau gweithgareddau, 3 swyddog cymorth prosiectau a chyllid prosiectau, 1 cynorthwyydd prosiectau

### *Grŵp targed:*

**Pobl ifanc 11-19 oed sy'n NEET neu mewn perygl o fod yn NEET yn y 15 awdurdod lleol yn yr ardal Gydgyfeirio**

Mae hyn yn cynnwys grwpiau targed penodol ar gyfer gweithgareddau penodol:

Pobl ifanc anabl

Pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig

Pobl ifanc ag AAA

Pobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid (yn enwedig merched)

Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi dadrithio (yn y sector statudol, preifat a gwirfoddol a chymunedol)

### *Gweithgareddau:*

Cynllunio a datblygu:
Dyluniad gwreiddiol prosiectau; defnyddio tystiolaeth i lywio'r dylunio; cynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth gynllunio a datblygu gweithgarwch, yn cynnwys plant a phobl ifanc; asesu dewisiadau gwahanol

Rheoli a chydlynu:
Gwaith cydlynu canolog wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru (rheoli prosiectau, rheoli partneriaethau gyda noddwyr allanol a mewnol: Cyngor Celfyddydau Cymru, Plant yng Nghymru, Y Ddraig Ffynci, Achub y Plant, AdAS, monitro gweithgarwch cyd-noddwyr)

Marchnata a hyrwyddo

Cyflwyno :
Tri model cyflwyno: 1) cyd-noddwyr yn cyflwyno gweithgareddau 2) cyd-noddwyr yn caffael gwaith cyflwyno 3) cyfuniad o gyflwyno uniongyrchol a chaffael gan gyd-noddwyr

Ystod y gweithgareddau:
- Cyfranogiad pobl ifanc yn y broses benderfynu a llywodraethu
- Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ynghylch sut i adnabod, ymgysylltu a chynorthwyo pobl ifanc NEET/mewn perygl yn effeithiol
- Cyfleoedd dysgu'n gysylltiedig â gwaith
- Datblygu systemau i adnabod a chadw mewn cysylltiad â phobl ifanc NEET/mewn perygl
- Cymorth wedi'i bersonoli i grwpiau penodol o bobl ifanc difreintiedig: AAA, pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig, anabl, troseddwyr ifanc

Mae rhai gweithgareddau'n cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg

Mesur deilliannau meddal
Datblygu a gweithredu'r fframwaith Dangos Llwyddiant i fesur deilliannau meddal

Gweithgareddau lledaenu i rannu gwybodaeth am arfer effeithiol, yn cynnwys ar lefel Ewropeaidd

Cyfranogiad pobl ifanc
Cyfranogiad mewn dylunio, cyflwyno a monitro gweithgareddau

Ymgorffori themâu trawsbynciol mewn gweithgareddau prosiectau

### *Allbynnau*

16,356 o gyfranogwyr:
- 8,330 o ferched
- 5,920 o rai 11-13 oed
- 10,436 o rai 14-19 oed
- 4000 o bobl ifanc NEET
- ADD EQUAL OPPS TARGETS

1,762 o gyfranogwyr yn ennill cymwysterau neu achrediad
- 541 ar lefel sgiliau sylfaenol
- 1068 ar Lefel 1
- 153 ar Lefel 2

12,952 o bobl ifanc yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill

815 o bobl ifanc yn mynd i mewn i ddysgu pellach

Nifer o bobl ifanc yn cyfranogi mewn lleoliadau gwaith

Nifer o raglenni hyfforddi wedi'u sefydlu

Nifer o weithgareddau wedi'u cyflwyno i bobl ifanc

Nifer o weithwyr proffesiynol llinell flaen yn cael hyfforddiant

Nifer o brosiectau/ gweithgareddau yn defnyddio Dangos Llwyddiant neu fesurau deilliannau meddal eraill

Nifer o seminarau, cynadleddau a digwyddiadau arfer gorau wedi'i cynnal

Nifer o weithgareddau yr ymgorfforwyd y themâu trawsbynciol ynddynt

### *Deilliannau Tymor Byr:*

*Gweithwyr Proffesiynol*

Dealltwriaeth well o sut i nodi pobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl

Dealltwriaeth well o sut i nodi a darparu cymorth i bobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl

Dealltwriaeth well o ddulliau effeithiol o gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc NEET

Mwy o ddealltwriaeth o sut y gellir addysgu cyfranogi mewn ABGI

Dealltwriaeth well o fuddion pobl ifanc yn cyfranogi

Dealltwriaeth a gwybodaeth well am arfer da mewn perthynas â gweithgareddau cyfranogi

*Pobl Ifanc*

Yn cael mwy o gymorth a chymorth gwell

Mwy o ddealltwriaeth o fuddion cyfranogi

Mwy o gyfleoedd i gyfranogi mewn penderfyniadau

Gwell mynediad at gyfleoedd addysg a hyfforddiant

Mwy o gyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau cadarnhaol

Mwy o gyfleoedd i gael darpariaeth Gymraeg

*Llywodraeth Cymru*

Mwy o ddealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â phwysigrwydd cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau

Dysgu am sut i nodi, ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl

*Pawb*
Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol

### *Deilliannau Tymor Canolig:*

*Gweithwyr Proffesiynol*

Proses well ar gyfer nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET

Ymgysylltu a chymorth gwell i bobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl

Cyswllt parhaus/cyswllt cynaledig gwell â phobl ifanc NEET

Cynnwys materion yn ymwneud â chyfranogi mwy yn y cwricwlwm ABGI

Cynnydd yn y gyfran o weithwyr proffesiynol sy'n ymgorffori cyfranogi'n effeithiol yn eu gwaith

Mwy o ddefnydd o arfer da mewn perthynas â chyfranogiad gan weithwyr proffesiynol

*Pobl ifanc*

Tueddfryd a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwell (rhyngweithio; parch at eraill; cymhelliant a chymryd rhan; ac annibyniaeth)

Mwy o sgiliau cyflogadwyedd

Mwy o gyfranogiad gan bobl ifanc mewn penderfyniadau

Mwy o gyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant

Cyfran fwy o bobl ifanc sy'n teimlo bod pobl yn gwrando arnynt

Mwy o hyder a chymhelliant i ddefnyddio'r Gymraeg

*Llywodraeth Cymru*

Darpariaeth gwybodaeth well gan y llywodraeth i bobl ifanc mewn ffordd sy'n glir a hygyrch

Datblygu polisïau sy'n hyrwyddo arfer effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth wrth nodi, ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc

*Pawb*
Cymhwyso mwy o themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol ym mhob maes gwaith

### *Deilliannau Tymor Hir:*

*Sefydliadau darparu (cyd-noddwyr ac eraill)*

Gallu gwell i nodi pobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl

Gallu gwell i ymgysylltu a darparu cymorth i bobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl

Gallu gwelld i gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl

Gallu gwell i fesur deilliannau meddal

Cydymffurfio mwy â Safonau Cyfranogi Cenedlaethol

*Pobl ifanc*
Gostyngiad yn y gyfran o bobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl

Sgiliau sylfaenol gwell

Cyrhaeddiad addysgol gwell

Presenoldeb gwell

*Llywodraeth Cymru*

Polisïau yn ymateb mwy i anghenion pobl ifanc

*Ardal Gydgyfeirio*
Mwy o gyfle cyfartal yn yr ardal Gydgyfeirio

Mwy o gynaliadwyedd amgylcheddol yn yr ardal Gydgyfeirio

Y Gymraeg yn ffynnu

# *Model rhesymeg ar gyfer Llwybrau i'r Brig*

**Sail Resymegol ar gyfer Llwybrau i'r Brig:** Bwriadwyd i Llwybrau i'r Brig gyfrannu at y polisïau allweddol canlynol gan Lywodraeth Cymru: Ymestyn Hawliau; Gweithredu'r Hawliau; Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru; strategaeth Llwybrau Dysgu 14-19; gweledigaeth Y Wlad sy'n Dysgu; strategaeth sgiliau sylfaenol Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri (2005); ac Iaith Pawb

### *Mewnbynnau:*

**Cyfanswm cyllideb o £16.1 miliwn:**

- Cyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd o ryw £8.8 miliwn
- Arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru a chyd-noddwyr o ryw £7.3 miliwn

**Mae arian cyfatebol yn cynnwys cyfraniadau o fath arall** gan Lywodraeth Cymru, cyd-noddwyr ac asiantau cyflwyno (e.e. lleoliadau, amser staff, amser gwirfoddolwyr)

Staff (arian cyfatebol): Arweinydd prosiectau, 3 arweinydd tîm gweithgareddau, 3 rheolwr prosiectau gweithgareddau, 3 swyddog cymorth prosiectau a chyllid prosiectau, 1 cynorthwyydd prosiectau

### *Grŵp Targed:*

**Pobl ifanc 11-19 sy'n NEET neu mewn perygl o fod yn NEET yn y 15 awdurdod lleol yn yr ardal Gydgyfeirio**

Mae hyn yn cynnwys **grwpiau targed penodol** ar gyfer gweithgareddau penodol

Pobl ifanc anabl

Pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig

Pobl ifanc ag AAA

Pobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid (yn enwedig merched)

Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi dadrithio (yn y sector statudol, preifat a gwirfoddol a chymunedol)

### *Gweithgareddau:*

<u>Cynllunio a datblygu:</u>
Dyluniad gwreiddiol prosiectau; defnyddio tystiolaeth i lywio'r dylunio; cynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth gynllunio a datblygu gweithgarwch, yn cynnwys plant a phobl ifanc; asesu dewisiadau gwahanol

<u>Rheoli a chydlynu:</u>

Gwaith cydlynu canolog wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru (rheoli prosiectau, rheoli partneriaethau gyda noddwyr allanol a mewnol: Cerdd Gymunedol Cymru, SNAP Cymru, Techniquest, Urdd Gobaith Cymru ac AdAS; monitro gweithgarwch cyd-noddwyr)

<u>Marchnata a hyrwyddo</u>

<u>Cyflwyno :</u>
Tri model cyflwyno: 1) cyd-noddwyr yn cyflwyno gweithgaredd 2) cyd-noddwyr yn caffael gwaith cyflwyno 3) cyfuniad o gyflwyno uniongyrchol a chaffael gan gyd-noddwyr

Ystod y gweithgareddau:

- Gwell gwybodaeth, cyngor ac arweiniad drwy ystod o gyfryngau
- Gweithgareddau ymgysylltu STEM
- Cyfranogi mewn gweithgareddau cadarnhaol, yn cynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg
- Gweithgareddau dysgu'n gysylltiedig â gwaith
- Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol

<u>Mesur deilliannau meddal</u>
Datblygu a gweithredu'r fframwaith Dangos Llwyddiant i fesur deilliannau meddal

<u>Gweithgareddau lledaenu</u> i rannu gwybodaeth am arfer effeithiol

<u>Cyfranogiad pobl ifanc</u>
Cyfranogi mewn gweithgareddau dylunio, cyflwyno a monitro

<u>Ymgorffori themâu trawsbynciol mewn gweithgareddau prosiectau</u>

### *Allbynnau*

12,000 o gyfranogwyr:

- 5,945 o ferched
- 4,845 o rai 11-13 oed
- 7,155 o rai 14-19 oed
- 1000 o bobl ifanc NEET
- 2,860 o Ferched yn hyfforddi yn STEM –

3,300 o gyfranogwyr yn ennill cymwysterau neu achrediad

- 825 ar lefel sgiliau sylfaenol
- 825 ar Lefel 1
- 990 ar Lefel 2
- 660 ar Lefel 3

8,920 o bobl ifanc yn cyflawni deilliannau cadarnhaol eraill

4,400 o bobl ifanc yn mynd i mewn i ddysgu pellach

Nifer o gyflogwyr yn cydweithio gyda darparwyr addysg/hyfforddiant

Nifer o bobl ifanc yn cyfranogi mewn lleoliadau gwaith

Nifer o weithwyr proffesiynol llinell flaen yn cael hyfforddiant

Nifer o brosiectau/ gweithgareddau yn defnyddio Dangos Llwyddiant neu fesurau deilliannau meddal eraill

Nifer o seminarau, cynadleddau a digwyddiadau arfer gorau wedi'u cynnal

Nifer o weithgareddau yr ymgorfforwyd y themâu trawsbynciol ynddynt

### *Deilliannau Tymor Byr:*

*Gweithwyr Proffesiynol*

Dealltwriaeth well o sut i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd

Mwy o ddealltwriaeth o sut i gynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ddylunio a chyflwyno gwasanaethau

Mwy o ddealltwriaeth o sut i ddarparu cyngor effeithiol am reolaeth ariannol, gan gynnwys gwybodaeth well am adnoddau sydd ar gael

Athrawon yn caffael sgiliau newydd i addysgu pynciau STEM mewn ffordd sy'n creu diddordeb a brwdfrydedd

*Pobl ifanc*
Yn cael mynediad at wybodaeth a chyngor gwell am ddysgu, gyrfaoedd a ffyrdd o fyw drwy ystod o ddulliau

Mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymarferol yn gysylltiedig â gwaith ac i ddysgu am swyddi gwahanol, yn cynnwys swyddi STEM

Mwy o gyfleoedd i gyfranogi yn y gwaith o ddylunio a chyflwyno gwasanaethau

Dealltwriaeth well o gyllidebu a chyllid personol

Mwy o ddiddordeb mewn pynciau STEM

Mwy o gyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau cadarnhaol

Mwy o gyfle i gael darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

Mwy o ddealltwriaeth o hawliau plant a phobl ifanc

*Llywodraeth Cymru*
Dysgu am sut i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol i bobl ifanc, ennyn diddordeb pobl ifanc mewn STEM a datblygu sgiliau drwy weithgareddau cadarnhaol

*Pawb*
Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol

### *Deilliannau Tymor Canolig:*

*Gweithwyr Proffesiynol*

Defnyddio ystod o ddulliau priodol i ddarparu gwybodaeth a chyngor effeithiol i bobl ifanc, gan gynnwys technolegau newydd

Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau

Darparu gwell gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc am reoli'u cyllid

Athrawon STEM yn gallu ymgysylltu'n well â dysgwyr nad ydynt yn draddodiadol yn cyfranogi mewn dysgu neu yrfaoedd STEM

*Pobl ifanc*
Yn gwneud dewisiadau mwy gwybodus a chadarnhaol ynglŷn â'u dyfodol

Mwy o sgiliau cyflogadwyedd

Tueddfryd a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwell

Sgiliau sylfaenol gwell (rhifedd, llythrennedd a TGCh)

Sgiliau gwell i reoli eu harian eu hunain

Mwy o gyfranogiad mewn pynciau STEM a mwy yn eu hastudio

Mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau cadarnhaol

Mwy o hyder a chymhelliant i ddefnyddio'r Gymraeg

Mwy o gyfranogiad mewn addysg bellach a hyfforddiant (yn cynnwys llai o waharddiadau)

*Llywodraeth Cymru*
Datblygu polisïau sy'n hyrwyddo arfer effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth o ran nodi, ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc

*Pawb*
Cymhwyso mwy o themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol ym mhob maes gwaith

### *Deilliannau Tymor hir:*

*Sefydliadau darparu (cyd-noddwyr ac eraill)*

Mwy o allu i ddarparu gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel drwy ystod o ddulliau

Cyflwyno gwasanaethau sy'n fwy ymatebol i anghenion plant a phobl ifanc

Mwy o allu i ddarparu cymorth ar gyfer rheolaeth ariannol

Mwy o allu i ymgysylltu'n â dysgwyr nad ydynt yn draddodiadol yn cyfranogi mewn dysgu neu yrfaoedd STEM

*Pobl ifanc*
Gostyngiad yn y gyfran o bobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl

Sgiliau sylfaenol gwell

Cyrhaeddiad gwell

Presenoldeb gwell

Dilyniant gyrfaoedd gwell

*Llywodraeth Cymru*

Polisïau yn ymateb mwy i anghenion pobl ifanc

## Atodiad 2 Fframwaith gwerthuso effaith Troedle Cyntaf

| **Elfen o'r model rhesymeg** | **Dangosydd** | **Offeryn/dull ar gyfer casglu tystiolaeth** |
|---|---|---|
| Sail resymegol | Mae angen wedi'i amlygu'n glir am Troedle Cyntaf<br><br>Mae ei ddyluniad yn ei alluogi i gyfrannu'n effeithiol at amcanion polisi Llywodraeth Cymru. | Dogfennau mewnol: cynlluniau busnes ar lefel prosiectau a lefel cyd-noddwyr<br><br>Astudiaethau achos gweithgareddau<br><br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach<br><br>Cyfweliadau â rheolwyr rhaglenni a phrosiectau |
| Mewnbwn | Gwariant mewn perthynas â chaffael, llety, adnoddau dynol, TGCh, costau cyfreithiol a phroffesiynol, marchnata, gorbenion, teithio a chludiant (cyfuniad o gyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ac arian cyfatebol)<br><br>Cyfraniadau o fath arall | Adroddiad hawliadau chwarterol WEFO<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr |
| Grŵp Targed | Cyrhaeddwyd y grŵp targed bwriadedig | Gwybodaeth reoli cyfranogwyr<br><br>Adroddiad hawliadau chwarterol WEFO<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Astudiaethau achos gweithgareddau |
| Gweithgareddau | Disgrifiad cynhwysfawr o'r gweithgareddau a gyflwynwyd | Dogfennau wedi'u darparu yn ystod y cyfnod cwmpasu ac adolygu dogfennau'n barhaus<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Astudiaethau achos o weithgareddau |

| | | |
|---|---|---|
| Allbynnau | Allbynnau Cronfa Strwythurol Ewropeaidd WEFO<br><br>Nifer o bobl ifanc yn cyfranogi mewn lleoliadau gwaith<br><br>Nifer o raglenni hyfforddi wedi'u sefydlu<br><br>Nifer o weithwyr proffesiynol llinell flaen yn cael hyfforddiant ac yn cyflawni cymwysterau<br><br>Nifer o seminarau, cynadleddau a digwyddiadau arfer gorau wedi'u cynnal<br><br>Nifer o weithgareddau yr ymgorfforwyd themâu trawsbynciol ynddynt | Gwybodaeth reoli cyfranogwyr/adroddiadau hawliadau chwarterol WEFO<br><br>Gwybodaeth reoli ychwanegol i'w chasglu gan gyd-noddwyr lle mae ar gael<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr |
| Deilliannau tymor byr | *Gweithwyr proffesiynol*<br>Dealltwriaeth well o sut i adnabod pobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl<br><br>Dealltwriaeth well o sut i ymgysylltu â phobl ifanc NEET/mewn perygl a darparu cymorth iddynt<br><br>Dealltwriaeth well o ddulliau effeithiol o gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc NEET<br><br>Mwy o ddealltwriaeth o sut y gellir addysgu cyfranogi mewn ABGI<br><br>Dealltwriaeth well o fuddion pobl ifanc yn cyfranogi<br><br>Dealltwriaeth a gwybodaeth well am arfer da mewn perthynas â gweithgareddau cyfranogi<br><br>*Pobl ifanc*<br>Yn cael mwy o gymorth a chymorth gwell<br><br>Mwy o ddealltwriaeth o fuddion cyfranogi<br><br>Mwy o gyfleoedd i gyfranogi mewn penderfyniadau<br><br>Gwell mynediad at gyfleoedd addysgu a hyfforddiant<br><br>Mwy o gyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau cadarnhaol<br><br>*Llywodraeth Cymru*<br>Mwy o ddealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â phwysigrwydd cynnwys | Astudiaethau achos gweithgareddau (5 o astudiaethau achos gweithgareddau wedi'u targedu at weithwyr proffesiynol: hyfforddiant Cyngor Celfyddydau Cymru; hyfforddiant cyfranogi AdAS; hyfforddiant AdAS ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar ymyrraeth gynnar; hyfforddiant SNAP ar gyfer gweithwyr proffesiynol; cyflwyno DPP gan Techniquest ar gyfer athrawon)<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Gwybodaeth reoli ychwanegol gan gyd-noddwyr lle cafodd ei chasglu<br><br>Astudiaethau achos o weithgareddau<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Tystiolaeth o werthusiadau presennol |

| | | |
|---|---|---|
| | pobl ifanc mewn penderfyniadau am bolisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau<br><br>Dysgu am sut i adnabod, ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl<br><br>*Pawb*<br>Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol | Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Astudiaethau achos o weithgareddau<br><br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach |
| Deilliannau tymor canolig | *Gweithwyr proffesiynol*<br>Proses well ar gyfer adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET<br><br>Ymgysylltu a chymorth gwell i bobl ifanc NEET/pobl ifanc mewn perygl<br><br>Cyswllt parhaus/cyswllt cynaledig gwell â phobl ifanc NEET<br><br>Cynnwys materion yn ymwneud â chyfranogi mwy yn y cwricwlwm ABGI<br><br>Cynnydd yn y gyfran o weithwyr proffesiynol sy'n ymgorffori cyfranogi'n effeithiol yn eu gwaith<br><br>Mwy o ddefnydd o arfer da mewn perthynas â chyfranogiad gan weithwyr proffesiynol<br><br>*Pobl ifanc*<br><br>Tueddfryd a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwell (rhyngweithio; parch at eraill; cymhelliant a chymryd rhan; ac annibyniaeth)<br><br>Mwy o sgiliau cyflogadwyedd<br><br>Mwy o gyfranogiad gan bobl ifanc mewn penderfyniadau | Astudiaethau achos gweithgareddau (5 o astudiaethau achos gweithgareddau wedi'u targedu at weithwyr proffesiynol: hyfforddiant Cyngor Celfyddydau Cymru; hyfforddiant cyfranogi AdAS; hyfforddiant AdAS ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar ymyrraeth gynnar; hyfforddiant SNAP ar gyfer gweithwyr proffesiynol; cyflwyno DPP gan Techniquest ar gyfer athrawon)<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Gwybodaeth reoli ychwanegol gan gyd-noddwyr lle mae wedi'i chasglu<br><br>Astudiaethau achos o weithgareddau<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | Mwy o gyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant<br><br>Cyfran fwy o bobl ifanc sy’n teimlo bod gweithwyr proffesiynol yn eu bywydau, aelodau o’u cymuned neu sefydliadau y llywodraeth yn gwrando arnynt<br><br>*Llywodraeth Cymru*<br>Darpariaeth gwybodaeth well gan y llywodraeth i bobl ifanc mewn ffordd sy’n glir a hygyrch<br><br>Datblygu polisïau sy’n hyrwyddo arfer effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth wrth adnabod, ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc<br><br>*Pawb*<br>Cymhwyso mwy o themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol ym mhob maes gwaith | Tystiolaeth o werthusiadau presennol<br><br>Gwybodaeth reoli cyfranogwyr/hawliadau WEFO (os ar gael)<br><br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Astudiaethau achos o weithgareddau<br><br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach |

## Atodiad 3 Fframwaith gwerthuso effaith Llwybrau i'r Brig

| **Elfen o'r model rhesymeg** | **Dangosydd** | **Offeryn/dull ar gyfer casglu tystiolaeth** |
|---|---|---|
| Sail resymegol | Mae angen wedi'i amlygu'n glir am Llwybrau i'r Brig<br><br>Mae ei ddyluniad yn ei alluogi i gyfrannu'n effeithiol at amcanion polisi Llywodraeth Cymru. | Dogfennau mewnol: cynlluniau busnes ar lefel prosiectau a lefel cyd-noddwyr<br><br>Astudiaethau achos gweithgareddau<br><br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach<br><br>Cyfweliadau â rheolwyr rhaglenni a phrosiectau |
| Mewnbwn | Gwariant mewn perthynas â chaffael, llety, adnoddau dynol, TGCh, costau cyfreithiol a phroffesiynol, marchnata, gorbenion, teithio a chludiant (cyfuniad o gyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ac arian cyfatebol)<br><br>Cyfraniadau o fath arall | Adroddiad hawliadau chwarterol WEFO<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr |
| Grŵp Targed | Cyrhaeddwyd y grŵp targed bwriadedig | Gwybodaeth reoli cyfranogwyr<br><br>Adroddiadau hawliadau chwarterol WEFO<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Astudiaethau achos gweithgareddau |
| Gweithgareddau | Disgrifiad cynhwysfawr o'r gweithgareddau a gyflwynwyd | Dogfennau wedi'u darparu yn ystod y cyfnod cwmpasu ac adolygu dogfennau'n barhaus<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Astudiaethau achos gweithgareddau |

| | | |
|---|---|---|
| Allbynnau | Allbynnau Cronfa Strwythurol Ewropeaidd WEFO<br><br>Nifer o bobl ifanc yn cyfranogi mewn lleoliadau gwaith<br><br>Nifer o weithwyr proffesiynol llinell flaen sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn cael hyfforddiant<br><br>Nifer o seminarau, cynadleddau a digwyddiadau arfer gorau wedi'u cynnal<br><br>Nifer o weithgareddau yr ymgorfforwyd themâu trawsbynciol ynddynt | Gwybodaeth reoli cyfranogwyr/Adroddiadau hawliadau chwarterol WEFO<br><br>Gwybodaeth reoli ychwanegol i'w chasglu gan gyd-noddwyr lle mae ar gael<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr |
| Deilliannau tymor byr | *Gweithwyr proffesiynol*<br>Dealltwriaeth well o sut i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd<br><br>Mwy o ddealltwriaeth o sut i gynnwys pobl ifanc wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau<br><br>Mwy o ddealltwriaeth o sut i ddarparu cyngor effeithiol am reolaeth ariannol, gan gynnwys gwybodaeth well am adnoddau sydd ar gael<br><br>Athrawon yn caffael sgiliau newydd i addysgu pynciau STEM mewn ffordd sy'n creu diddordeb a brwdfrydedd<br><br>*Pobl ifanc*<br>Cael mynediad i wybodaeth a chyngor gwell am ddysgu, gyrfaoedd a ffordd o fyw trwy ystod o ddulliau<br><br>Mwy o gyfleoedd i gaffael sgiliau ymarferol yn gysylltiedig â gwaith a dysgu am swyddi gwahanol, gan gynnwys swyddi STEM<br><br>Mwy o gyfleoedd i gyfranogi mewn dylunio a chyflwyno gwasanaethau<br><br>Dealltwriaeth well o gyllidebu personol a chyllid<br><br>Mwy o ddiddordeb mewn pynciau STEM<br><br>Mwy o gyfleoedd i gael mynediad i weithgareddau cadarnhaol<br><br>Mwy o gyfle i gael darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg | Astudiaethau achos gweithgareddau (5 o astudiaethau achos gweithgareddau wedi'u targedu at weithwyr proffesiynol: hyfforddiant Cyngor Celfyddydau Cymru; hyfforddiant cyfranogi AdAS; hyfforddiant AdAS ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar ymyrraeth gynnar; hyfforddiant SNAP ar gyfer gweithwyr proffesiynol; cyflwyno DPP gan Techniquest ar gyfer athrawon)<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Gwybodaeth reoli ychwanegol gan gyd-noddwyr lle mae wedi'i chasglu<br><br>Astudiaethau achos o weithgareddau<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Tystiolaeth o werthusiadau presennol |

| | | |
|---|---|---|
| | Mwy o ddealltwriaeth o hawliau plant a phobl ifanc<br><br>*Llywodraeth Cymru*<br>Dysgu am sut i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol i bobl ifanc, ennyn diddordeb pobl ifanc yn STEM a datblygu sgiliau drwy weithgareddau cadarnhaol<br><br>*Pawb*<br>Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol | Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Astudiaethau achos gweithgareddau<br><br>Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach |
| Deilliannau tymor canolig | *Gweithwyr proffesiynol*<br>Defnyddio ystod o ddulliau priodol i ddarparu gwybodaeth a chyngor effeithiol i bobl ifanc, gan gynnwys technolegau newydd<br><br>Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau y bwriadwyd iddynt gael budd ohonynt<br><br>Darparu gwybodaeth a chyngor gwell i bobl ifanc am reoli'u cyllid<br><br>Athrawon STEM yn gallu ymgysylltu'n well â dysgwyr nad ydynt yn cyfranogi mewn dysgu neu yrfaoedd STEM yn draddodiadol<br><br>*Pobl ifanc*<br><br>Gwneud dewisiadau mwy gwybodus a chadarnhaol ynglŷn â'u dyfodol<br>Mwy o sgiliau cyflogadwyedd<br><br>Tueddfryd a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwell<br><br>Sgiliau sylfaenol gwell (rhifedd, llythrennedd a TGCh)<br><br>Sgiliau gwell i reoli eu harian eu hunain<br><br>Mwy o gyfranogiad mewn pynciau STEM a mwy yn eu hastudio<br><br>Mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau cadarnhaol | Astudiaethau achos gweithgareddau (5 o astudiaethau achos gweithgareddau wedi'u targedu at weithwyr proffesiynol: hyfforddiant Cyngor Celfyddydau Cymru; hyfforddiant cyfranogi AdAS; hyfforddiant AdAS ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar ymyrraeth gynnar; hyfforddiant SNAP ar gyfer gweithwyr proffesiynol; cyflwyno DPP gan Techniquest ar gyfer athrawon)<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Gwybodaeth reoli ychwanegol gan gyd-noddwyr lle mae wedi'i chasglu<br><br>Astudiaethau achos o weithgareddau<br><br>Cyfweliadau â chyd-noddwyr<br><br>Tystiolaeth o werthusiadau presennol<br><br>Gwybodaeth reoli cyfranogwyr/hawliadau WEFO (os ar gael) |

| | | |
|---|---|---|
| | Mwy o hyder a chymhelliant i ddefnyddio’r Gymraeg | |
| | Mwy o gyfranogiad mewn addysg bellach a hyfforddiant (yn cynnwys llai o waharddiadau) | |
| | *Llywodraeth Cymru*<br>Datblygu polisïau sy’n hyrwyddo arfer effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth o ran adnabod, ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc | |
| | *Pawb*<br>Cymhwyso mwy o themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol ym mhob maes gwaith | Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach |
| | | Cyfweliadau â chyd-noddwyr |
| | | Astudiaethau achos gweithgareddau |
| | | Cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach |

## Atodiad 4 Fframwaith gwerthuso prosesau

| **Rhanddeiliad** | **Dyluniad Cychwynnol (cyn-comisiynu)** | **Comisiynu** | **Mireinio a Gweithredu (ar ôl comisiynu)** | **Monitro, gwerthuso a dysgu** |
|---|---|---|---|---|
| **Comisiynwyr** | Defnyddio tystiolaeth o angen<br><br>Defnyddio a hyrwyddo tystiolaeth o beth sy'n gweithio<br><br>Defnyddio ymchwil a gomisiynwyd<br><br>Cydweddiad â gweithgareddau eraill a ariennir<br><br>Cydweddiad â strategaethau allweddol y llywodraeth ar gyfer pobl ifanc | Ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â'r broses<br><br>Datblygu unrhyw broses ymgeisio a meini prawf asesu ar gyfer cynigion<br><br>Amcangyfrif costau/targedau i asesu cyllideb ac allbynnau yn erbyn meincnodau<br><br>Manyleb, gan bennu allbynnau, deilliannau a safonau ansawdd | Asesiad systematig o ymgeiswyr ac adborth iddynt<br><br>Asesiad o ddull, graddfa amser a chyflawniadau disgwyliedig<br><br>Adolygu trefniadau cyflwyno a chynlluniau ar gyfer sicrhau ansawdd a rheoli risg<br><br>Adolygiad a manyleb o wybodaeth reoli i'w darparu | Monitro ac adolygu gwybodaeth reoli'n systematig<br><br>Asesiad o risgiau<br><br>Monitro gwiriadau cyflwyno<br><br>Gwerthusiad<br><br>Nodi dysgu ar gyfer ei ledaenu a chynllunio yn y dyfodol |
| **Asiantau cyflwyno** | | Defnyddio ymchwil a meincnodau i nodi beth sy'n gweithio a sut gyda pha adnoddau sydd eu hangen<br><br>Asesiad o opsiynau gwahanol ar gyfer cyflwyno<br><br>Ymgynghori â darparwyr, ymarferwyr a phartneriaid ynghylch atebion a dulliau gweithredu<br><br>Asesiad o allbynnau a deilliannau y gellir eu cyflawni | Datblygu a chyflwyno cynllun adnoddau<br><br>Sicrhau adnoddau i gyflwyno<br><br>Trefniadau rheoli a chyflwyno wedi'u sefydlu yn cynnwys unrhyw feini prawf ar gyfer targedu a dewis buddiolwyr<br><br>Datblygu gweithio gyda phartneriaid ar gyfer cyfeirio a nodi<br><br>Ystyried barnau pobl ifanc<br><br>Llunio cadwyn resymeg a | Dysgu o weithredu i addasu'r cyflwyno er mwyn cyflawni targedau a cherrig milltir<br><br>Cynhyrchu gwybodaeth reoli ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad ac adrodd<br><br>Cael adborth gan fuddiolwyr i fonitro ansawdd y cyflwyno<br><br>Cyfathrebu a lledaenu ynghylch gweithgareddau a chyflawniadau |

| Rhanddeiliad | Dyluniad Cychwynnol (cyn-comisiynu) | Comisiynu | Mireinio a Gweithredu (ar ôl comisiynu) | Monitro, gwerthuso a dysgu |
|---|---|---|---|---|
| | | | gwybodaeth reoli i fonitro a gwerthuso | |

## Atodiad 5

## Tystiolaeth o arfer effeithiol yn y llenyddiaeth

A5.1 Yn yr Atodiad hwn cyflwynwn ganfyddiadau adolygiad o dystiolaeth ynglŷn ag arfer effeithiol wrth gyflwyno ymyriadau i gefnogi parhau i ymgysylltu neu ail-ymgysylltu â phlant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o fod felly.  Y prif fathau o weithgareddau a gyflwynwyd o dan Cyrraedd y Nod ar gyfer pobl ifanc oedd:

- Gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau
- Ymyriadau gan ddefnyddio gweithgarwch corfforol
- Ennyn diddordeb mewn pynciau STEM
- Cymorth i droseddwyr ifanc
- Dinasyddiaeth weithredol a chyfranogi mewn penderfyniadau a llywodraethu
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a mentora

A5.2 Rydym wedi canolbwyntio ein hadolygiad felly ar dystiolaeth ynglŷn â sut y gall y mathau hyn o weithgareddau fod yn effeithiol.

### Dull

A5.3 Mae nodau'r astudiaeth o'r llenyddiaeth yn ddeublyg: yn gyntaf, nodi nodweddion allweddol arfer effeithiol mewn perthynas â'r prif fathau o ymyrraeth a gyflwynwyd o dan Cyrraedd y Nod; ac yn ail, nodi gweithgareddau meincnod i helpu asesu cyflawniadau cymharol gweithgareddau Cyrraedd y Nod.

A5.4 Defnyddiom EBSCO i chwilio ystod o destun academaidd llawn a chronfeydd data cryno. Roedd y rhain yn cynnwys: Academic Search Complete, Education Research Complete, SocIndex, Child Development & Adolescent Studies, Families Studies Abstracts, Social Sciences Full Text a Family & Society Studies Worldwide. Fe wnaethom chwilio gwefannau adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth hefyd, a sefydliadau elusennol sy'n gysylltiedig ag ymchwil fel Ymddiriedolaeth Wellcome Trust a Sefydliad Nuffield.  Ein meini prawf cynnwys oedd bod rhaid i bob eitem fod:

- Yn ymwneud â strategaethau ymgysylltu neu ail-ymgysylltu;
- Yn gadarn o ran dylunio ymchwil: i'r graddau y bo modd, rydym wedi nodi adolygiadau a gwerthusiadau systematig o lenyddiaeth sy'n rhoi tystiolaeth gadarn am eu bod yn ddigon mawr o ran eu graddfa (er enghraifft, mabwysiadu meintiau sampl digonol i alluogi dadansoddi ystadegol cadarn, neu'n seiliedig ar astudiaethau achos ddigon manwl i alluogi esbonio canfyddiadau'n llawn).
- Wedi'u cyhoeddi er 2006. Mewn ychydig o achosion, lle'r oedd y dystiolaeth yn arbennig o berthnasol, cynhwysom astudiaethau a gyhoeddwyd yn 2006.
- Yn ogystal, er ein bod wedi canolbwyntio'n bennaf ar dystiolaeth o'r DU, lle bo'n berthnasol, rydym wedi defnyddio tystiolaeth o fannau eraill.

A5.5 Mae ein hadolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid. Mae hefyd yn cynnwys astudiaethau ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd gan adrannau ac asiantaethau llywodraeth y DU a sefydliadau'r trydydd sector[60].

A5.6 Mewn ychydig o achosion lle mae'r sail dystiolaeth yn fwy cyfyngedig, rydym wedi cynnwys enghreifftiau o ymchwil ymarferwyr, nad yw'n seiliedig ar ddulliau ymchwil trwyadl nac yn destun adolygiad gan gymheiriaid. Er bod y math hwn o ymchwil yn rhoi cipolwg defnyddiol ar nodweddion arfer effeithiol a heriau a wynebir wrth gyflwyno, mae hefyd yn cynnwys cyfyngiadau methodolegol y dylid eu hystyried. Rydym wedi nodi'n glir ble'r ydym wedi defnyddio ymchwil ymarferwyr.

A5.7 Rydym wedi darparu llyfryddiaeth yn yr Atodiad.

**Gweithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau**

A5.8 Canfu adolygiad systematig o lenyddiaeth ar effaith cyfranogi yn y celfyddyau perfformio ar iechyd ac ymddygiad y glasoed dystiolaeth fod sgiliau

[60] Fe wnaethom gyfyngu ar hyn am mai dim ond 5 o ddiwrnodau ymgynghori a ddyrannwyd i'r dasg hon a'r adolygiad o'r polisïau y bwriedir i weithgareddau Cyrraedd y Nod gyfrannu atynt (cyflwynwyd yn yr adroddiad cwmpasu).

cyfathrebu a gwrando gwell, y gallu i gyd-dynnu â chyfoedion a mwy o hunanhyder yn ddeilliannau allweddol[61].

A5.9 Roedd ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) gyda 69 o ddisgyblion, athrawon ac artistiaid sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r celfyddydau mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Unedau Cymorth Dysgu, yn cefnogi'r canfyddiadau hyn, ac fe wnaeth ddarganfod y ffactorau llwyddo canlynol hefyd ar gyfer arfer da yn y cyd-destunau addysgol hyn:[62]

- *Personoliaeth ac arddull yr artist neu'r hwylusydd*. Roedd disgyblion yn gwerthfawrogi hwyluswyr a oedd 'ar yr un donfedd â nhw'; a oedd ag arddull addysgu fwy anffurfiol; agwedd gadarnhaol tuag at bobl ifanc; a gallu i wrando ar syniadau disgyblion;
- *Cynllunio prosiectau*. Perthnasedd cynnwys prosiectau (e.e. cyflwyno ffurfiau celf sy'n canolbwyntio mwy ar ieuenctid), lleoliad, cynnyrch terfynol dathliadol, a chael gwaith dilynol i gynnal a chryfhau effaith; a
- *Natur nodedig y celfyddydau*. Roedd gweithgareddau'n llwyddo fwyaf pan oeddent yn wahanol i brofiadau dysgu arferol disgyblion yn yr ysgol. Er enghraifft, roeddent yn ymarferol yn hytrach na'n academaidd, yn gyfoes o ran eu natur ac yn galluogi pobl ifanc i fynegi'u barnau.

A5.10 Mae astudiaethau achos a ddatblygwyd ar y cyd gan Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc a'r Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus o ddarparwyr yn dangos arfer effeithiol o ran gwella deilliannau ar gyfer pobl ifanc dan anfantais. Mae'r astudiaethau achos hyn yn cynnwys enghraifft o fynediad yn seiliedig ar gerddoriaeth i raglen gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc 14-18 sydd wedi ymddieithrio[63]. Er y dylid nodi bod yr ymchwil astudiaeth achos hon ar raddfa fach yn defnyddio profiadau ymarferwyr yn hytrach na dulliau ymchwil trwyadl, mae'n rhoi dysgu defnyddiol ynglŷn â beth sy'n gweithio o ran ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi dadrithio. Mae'r ymchwil yn cefnogi canfyddiadau o astudiaeth SCYA ynglŷn â'r angen i sicrhau bod

[61] Daykin, N., Orme, J., Evans, D., Salmon, D., McEachran, M. a Brain, S. (2008) The impact of participation in performing arts on adolescent health and behaviour: A systematic review of the literature. *Journal of Health Psychology*, 13 (2). tud. 251-264.
[62] Wilkin, A, Gulliver, C a Kinder, K (2005) *Serious Play – An evaluation of arts activities in Pupil Referral Units and Learning Support Units.* Llundain: Sefydliad Calouse Gulbenkian
[63] Asiantaeth Ddysgu Pobl Ifanc a'r Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus. (2010) *Improving outcomes for disadvantaged young people. Case studies of effective practice.*

gweithgareddau'n defnyddio dulliau na fydd dysgwyr yn eu cysylltu â 'dulliau dysgu traddodiadol' a hefyd yn amlygu'r angen i:

- Ddatblygu amgylchedd dysgu sy'n 'teimlo' fel gweithle yn hytrach na sefydliad addysgol traddodiadol;
- Cynnal cymhareb uchel o ran staff-i-ddysgwyr (er enghraifft, un aelod staff i bob pum dysgwr); a
- Bod yn sensitif i hwyliau pobl ifanc a'u profiadau y tu allan i'r amgylchedd dysgu ac addasu sesiynau wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion ar unrhyw ddiwrnod penodol.

**Ymyriadau gan ddefnyddio gweithgarwch corfforol**

A5.11 Mae adolygiad o lenyddiaeth ynglŷn ag ail-ymgysylltu â phobl ifanc trwy raglenni gweithgarwch corfforol[64] yn nodi bod buddion cadarnhaol yn cael eu cyflawni, yn enwedig mewn perthynas â datblygiad personol a chymdeithasol, pan fydd:

- Gweithgareddau yn cael eu dewis a'u cynllunio'n ofalus, gyda phobl ifanc yn cael y cyfle i lywio dyluniad a natur gweithgareddau;
- Gweithgareddau'n cael eu cyflwyno i grwpiau cymharol fach o bobl ifanc;
- Partneriaethau cydweithredol yn cael eu ffurfio rhwng ysgolion, darparwyr cymunedol ac aelodau teulu, i sicrhau bod staff cyflwyno yn gyfarwydd â chyd-destun cymdeithasol ehangach unigolyn ifanc; a
- Gweithgareddau'n cael eu dylunio fel gweithgaredd cyfoethogi sy'n gwella ac yn cyd-ategu darpariaeth ddysgu ffurfiol.

A5.12 Roedd rhaglen 'Positive Futures' y Swyddfa Gartref yn darparu gweithgareddau atal a dargyfeiriol, yn cynnwys llawer o weithgareddau'n seiliedig ar chwaraeon, ar gyfer y rhai 10-19 oed sydd mewn perygl o droseddu neu gamddefnyddio cyffuriau. Canfu gwerthusiad tair blynedd[65] fod nifer uchel o gyfranogwyr wedi symud ymlaen at addysg a hyfforddiant, ac wedi adrodd am welliannau mewn perthnasoedd gyda staff prosiectau, a

[64] Sandford, R; Armour, K; Warmington, P (2006) Re-engaging disaffected youth through physical activity programmes. *British Educational Research Journal*, Cyfrol 32, Rhif 2, Ebrill 2006, tt251-271
[65] Swyddfa Gartref (2006) *Positive Futures Impact Report: End of season review*. Llundain: Swyddfa Gartref.

bod hynny wedi arwain at y staff yn gallu cynnig cymorth a chyngor. Tynnodd y gwerthusiad sylw at gyflogi staff priodol â'r sgiliau cywir fel ffactor llwyddo allweddol. Yn benodol, roedd dysgu am arfer effeithiol yn cynnwys:

- Ei bod yn bwysig cyflogi swyddogion ieuenctid ac anogwyr ag amrywiaeth o brofiadau a chefndiroedd;
- Roedd staff a oedd yn lleol ac yn rhannu cefndir gyda chyfranogwyr yn gallu gwneud cysylltiadau cryfach gyda phobl ifanc;
- Mae parch rhwng staff a chyfranogwyr yn ganolog i berthnasoedd cadarnhaol; ac
- Mae lefelau sgiliau chwaraeon yn llai pwysig na sgiliau yn gweithio gyda phobl ifanc.

**Ymgysylltiad mewn pynciau STEM**

A5.13 Aeth gwerthusiad o Raglen Pathfinder STEM yn Lloegr[66], a ariannwyd ar y pryd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd[67], ati i asesu effeithiolrwydd gweithgareddau a dulliau STEM gwahanol. Roedd tystiolaeth o'r gwerthusiad yn awgrymu bod gweithgareddau STEM yn llwyddiannus pan wneir y canlynol:

- Cyflwynir y gweithgareddau gan athrawon brwdfrydig a oedd yn barod i roi cynnig ar rywbeth newydd;
- Pan oedd partneriaid STEM arbenigol a chyflogwyr y tu allan i'r ysgol yn gysylltiedig; ac
- Roedd: ffocws clir, cyd-destun 'bywyd go iawn'; elfen gystadleuol ar gyfer myfyrwyr; rhywfaint o ryddid i fyfyrwyr arbrofi a meddwl drostynt eu hunain; agweddau ymarferol a rhyngweithiol ar y gweithgareddau; a chydbwysedd da rhwng gwyddoniaeth, mathemateg, technoleg a pheirianneg.

---

[66] Springate, I, Harland, J, Lord, P, Straw, S. Evaluation of the 2008-09 DCSF-funded Specialist Schools and Academies Trust Rhaglen Pathfinder STEM (2009)
Mae'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd wedi'i hail-frandio ers hynny, a bellach fe'i gelwir yr Adran Addysg.

A5.14 Cefnogir y canfyddiadau hyn gan ganfyddiadau astudiaeth ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Wellcome[68] ynglŷn â barnau pobl ifanc ar addysg wyddoniaeth. Cymerodd 240 o bobl ifanc ran mewn cyfweliadau grwpiau ffocws. Dywedodd y bobl ifanc a gyfranogodd yn yr ymchwil bod yn well ganddynt weithgareddau ymarferol, yr ystyrient eu bod yn gwneud dysgu gwyddoniaeth yn fwy diddordol ac yn haws ei ddeall felly. Roedd lefelau uwch o ran ymgysylltiad disgyblion mewn gwyddoniaeth yn ymwneud hefyd â chanfyddiadau o'i chymhwyso a'i throsglwyddo i sefyllfaoedd 'y byd go iawn', yn cynnwys astudiaeth bellach (ar lefel prifysgol) a chyfleoedd cyflogaeth. Fe wnaeth y bobl ifanc yn yr astudiaeth bwysleisio'r agweddau o 'hwyl' a mwynhau ar weithgareddau y tu allan i amgylchedd traddodiadol yr ystafell ddosbarth. Awgrymodd yr astudiaeth y gallai darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer profiadau y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth fod yn ffordd ddefnyddiol o annog ymgysylltiad myfyrwyr mewn addysg wyddoniaeth.

A5.15 Caiff pwysigrwydd rhieni yn helpu llunio dyheadau eu merched ei bwysleisio mewn astudiaeth hydredol o fyfyrwyr ysgol uwchradd a'u rhieni yn yr Unol Daleithiau.[69] Anfonodd yr ymchwilwyr lyfryn at sampl o rieni yn rhoi gwybodaeth am bwysigrwydd mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer bywyd bob dydd a gyrfaoedd amrywiol; flwyddyn yn ddiweddarach, anfonwyd llyfryn arall at yr un rhieni yn pwysleisio'r un themâu a gyda dolen at wefan yn dangos adnoddau'n gysylltiedig â phroffesiynau STEM. Ni dderbyniodd y grŵp rheoli unrhyw ddeunyddiau. Canfu'r astudiaeth fod myfyrwyr â rhieni yn y grŵp ymyrraeth yn cael mwy o sgyrsiau â'u rhieni ynglŷn â dewisiadau cyrsiau, cynlluniau addysgol, a phwysigrwydd mathemateg a gwyddoniaeth. Yn ogystal â dynodi effeithiolrwydd targedu ymyriadau gwybodaeth at rieni ar gyfer cynyddu cofrestru ar gyrsiau STEM, mae'r canfyddiadau hefyd yn rhoi tystiolaeth y gallai'r dull hwn helpu i gau bylchau mewn cofrestriadau disgyblion sy'n deillio o wahaniaethau mewn addysg i rieni.

---

[68] Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2011) *Exploring young people's views on science education.* Ymddiriedolaeth Wellcome

[69] Harackiewicz, J.M., Rozek, C.R., Hulleman, C.S., a Hyde, J.S. (2012) Helping parents to motivate adolescents in mathematics and science: An experimental test of a utility-value intervention. *Psychological Science,* 40, DOI: 10.1177/0956797611435530

**Cymorth i droseddwyr ifanc**

A5.16 Canfu asesiad cyflym o dystiolaeth ar gyfer yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd bryd hynny yn Lloegr, fod: [70]

- Rhaglenni sydd â ffocws ar ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol pobl ifanc yn effeithiol o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Rhaglenni atal trais yn yr ysgol yn helpu i leihau ymddygiad treisgar, ymosodgar ac ymddygiad sy'n tarfu ar eraill.

A5.17 Yn ogystal, mae adolygiad systematig o lenyddiaeth a gynhaliwyd gan Mason a Prior (2008) yn datgan y nodweddir cymorth effeithiol i droseddwyr ifanc gan:

- Asesiadau cynnar o angen a risg;
- Perthnasoedd rhwng yr ymarferydd a'r unigolyn ifanc sy'n seiliedig ar empathi, cynhesrwydd, ymddiriedaeth, parch a chydberthynas;
- Ei deilwra'n unigol, yn canolbwyntio ar ystod eang o anghenion cymdeithasol, emosiynol, iechyd ac addysgol, yn rhai tymor hir a hyblyg i ymateb i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid; a
- Gweithio amlasiantaeth cadarn[71].

A5.18 Defnyddir yr offeryn Asset ledled y DU i asesu ffactorau risg amrywiol sy'n cyfrannu at ymddygiad troseddol e.e. hunan-barch neu les isel. Mae rhai ymchwilwyr wedi awgrymu bod Asset yn offeryn gwerthfawr o ran strwythuro proses asesu gymhleth a sicrhau rhoi sylw i'r holl feysydd angen posibl. Dywedwyd bod y broses benderfynu wedi dod yn un fwy tryloyw[72] ac mae defnyddio'r un meini prawf yn helpu sicrhau tegwch a chysondeb.[73] Fodd bynnag, mae awduron eraill yn cytuno bod lwfans yr asesiad i wneud camgymeriadau yn broblematig gan y gallai hyn arwain at bobl ifanc yn dod yn darged i ymyriadau diangen.[74] Mae beirniadaeth bellach wedi nodi bod

---

[70] Thomas J, Vigurs C, Oliver K, Suarez B, Newman M, Dickson K, Sinclair J (Y Ganolfan Gwybodaeth a Chydlynu Tystiolaeth ar gyfer Polisi ac Arfer - EPPI-Centre) (2008), Effective Early Interventions For Youth At Risk Of Future Poor Outcomes A Rapid Evidence Assessment, Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

[71] Mason, P a Prior, D (2008) *Engaging Young People who Offend,* Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

[72] Whyte, B. (2004). Effectiveness, research and youth justice. Youth Justice, 4(1), 3–21.

[73] Annison, J. (2005). Risk and protection. Yn T. Bateman a J. Pitts (Gol.), The RHP companion to youth justice (tud. 119–124). Lyme Regis, Lloegr: Russell House.

[74] Paylor, I (2011), 'Youth justice in England and Wales: a risky business' yn *Journal of Offender Rehabilitation*, cyfrol 50 , rhif 4, tud. 221-233

Asset yn annhebygol o ddatgelu'r ffactor neu ffactorau penodol sy'n esbonio cyfnod troseddu unigolyn, neu i ragweld natur troseddau yn y dyfodol.[75]

**Dinasyddiaeth weithgar a chyfranogi**

A5.19 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y glasoed yn gyfnod ffurfiannol mewn dinasyddiaeth, a bod arferion dinasyddiaeth pobl ifanc yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad, gall targedu ymyriadau addysg dinasyddiaeth at y grŵp oed hwn fod yn arbennig o effeithiol.[76] Fe wnaeth gwerthusiad o brosiectau dinasyddiaeth ôl-16 a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau yn Lloegr[77], nodi'r canlynol fel nodweddion darpariaeth dinasyddiaeth effeithiol:

- Diffiniad clir o'r hyn y mae dinasyddiaeth yn ei olygu, a beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni, wedi'i deilwra yn ôl anghenion, sgiliau, diddordebau a phrofiadau pobl ifanc;
- Staff ymroddedig a brwdfrydig gyda digon o adnoddau a chyfleoedd datblygu;
- Pwyslais ar gael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau drwy weithredu ymarferol a gweithgareddau; a
- Chynnwys a chyfranogiad pobl ifanc mewn penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu, a datblygu llais y myfyriwr.

A5.20 Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru yn 2010 ynglŷn â chyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau yn cefnogi'r canfyddiadau hyn. [78] Roedd yn dynodi mai un ffactor llwyddo allweddol o ran cyflwyno addysg dinasyddiaeth yw cyflwyno nodau ac amcanion clir fel bod pawb yn deall beth mae cyfranogi mewn penderfyniadau'n ei olygu; pam y mae'n beth da i'w wneud; sut gellir ei wneud; a beth fydd y deilliannau a'r buddion. Nododd yr adroddiad hefyd:

[75] Annison (2005) op. cit.
[76] Keating, A, Benton T a Kerr, D (2011) 'Tracing the trends and transitions in young people's citizenship practices: what are the implications for researching citizenship and citizenship education?' yn *Educational Research*; Mehefin 2011, Cyfrol. 53 Rhifyn 2, tud223-235
[77] Craig, R, Kerr, D, Wade, P, Taylor, G. Taking Post-16 Citizenship Forward: Learning from the Post-16 Citizenship Development Projects (2004) AdAS
[78] GHK (2009) *Identifying Effective Practice in Raising Young People's Aspirations.* Cyngor Dysgu a Sgiliau

- Ei bod yn bwysig rhoi adborth i blant a phobl ifanc am beth sydd wedi newid o ganlyniad i'w cyfranogiad;
- Bod y perthnasoedd a ddatblygir rhwng pobl ifanc a staff yn hanfodol i lwyddiant dulliau cyfranogol. Nododd staff a phobl ifanc fod rhaid i berthnasoedd fod yn seiliedig ar barch a dealltwriaeth ar y ddwy ochr; a Dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys wrth ddylunio a chyflwyno mentrau dinasyddiaeth. Nododd staff a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r ymchwil, pan fydd plant a phobl ifanc yn llunio'r rheolau a'r agenda ar gyfer cyfranogi, eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau ac yn fwy tebygol o ymgysylltu. Mae ymchwil arall wedi cefnogi'r canfyddiad hwn, gan nodi bod cynnwys pobl ifanc yn y broses o ddylunio a chyflwyno ymyriadau yn helpu creu perchenogaeth, yn cynyddu hyder ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei deilwra'n agosach at anghenion pobl ifanc.

**Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad a mentora**

A5.21 Canfu adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth yn ymwneud ag arfer effeithiol wrth gynorthwyo pobl ifanc sy'n NEET[79] y dylai gwybodaeth, cyngor ac arweiniad fod: yn ddiduedd, wedi'u teilwra, ar y lefel gywir, wedi'u cyflwyno mewn ffordd sy'n briodol i'r arddull ddysgu sydd orau gan unigolion, yn benodol, wedi'u darparu ar sail un-i-un ac yn cael eu darparu gan gynghorwyr profiadol a gwybodus. Dylid eu darparu hefyd ar bwyntiau trosglwyddo allweddol fel rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd.

A5.22 Mae adolygiad systematig o dystiolaeth o'r DU, Awstralia, yr Unol Daleithiau, Seland Newydd ac Asia a gynhaliwyd gan Costello a Thomson (2011) yn nodi mai tystiolaeth gyfyngedig sydd yn gyffredinol ynglŷn ag effeithiolrwydd rhaglenni mentora. Mae tystiolaeth, fodd bynnag, fod cydweddu mentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora mewn modd pwrpasol, darparu hyfforddiant priodol i fentoriaid, ac ymgorffori mentora a gwerthuso,

[79] GHK (2009) *Identifying Effective Practice in Raising Young People's Aspirations.* Cyngor Dysgu a Sgiliau

yn ffactorau llwyddo allweddol.[80] Cefnogir hyn gan dystiolaeth o synthesis o ymchwil wedi'i chyhoeddi ar fentora a chyfeillio yn y DU[81].

[80] Costello, L a Thompson, M (2011) *Youth Mentoring,* Australian Housing and Urban Design Institute

[81] Philip, K a Spratt, J (2007) *A Synthesis of Published Research on Mentoring and Be-friending,* Sefydliad Mentora a Chyfeillio

# Atodiad 6 Detholiad o astudiaethau achos

## A6.1 Gweithgareddau astudiaethau achos Troedle Cyntaf

| Cyd-noddwr | Astudiaeth achos o weithgaredd | Grŵp targed | Natur y gweithgaredd |
|---|---|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 1. Rhaglen wedi'i thargedu o weithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau, yn cynnwys dawns, cerddoriaeth, drama/theatr, y celfyddydau gweledol, y celfyddydau digidol, ffilm a'r cyfryngau, ysgrifennu creadigol | Pobl ifanc mewn perygl a phobl ifanc NEET 14-19 oed | Cyfranogi mewn gweithgaredd cadarnhaol<br><br>Ymgysylltiad pobl ifanc NEET/mewn perygl |
| | 2. Rhaglen wedi'i thargedu o weithgareddau cyfranogi yn y celfyddydau, yn cynnwys dawns, cerddoriaeth, drama/theatr, y celfyddydau gweledol, y celfyddydau digidol, ffilm a'r cyfryngau, ysgrifennu creadigol | Pobl ifanc mewn perygl a phobl ifanc NEET 14-19 oed | Cyfranogi mewn gweithgaredd cadarnhaol<br><br>Ymgysylltiad pobl ifanc NEET/mewn perygl |
| | 3. Rhaglenni/modiwlau hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn amrywiaeth o gyd-destunau ieuenctid. | Gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda phobl ifanc | Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol<br><br>Ymgysylltiad pobl ifanc NEET/mewn perygl |
| Plant yng Nghymru | 4 Gyda'n Gilydd dros Hawliau: Datblygu a chynnal peilot o fodelau i hwyluso cyfranogiad pobl ifanc anabl yn y broses benderfynu a llywodraethu. Hyfforddi pobl ifanc anabl i ddod yn hyfforddwyr ymwybyddiaeth o anabledd ymhlith pobl nad ydynt yn anabl | Pobl ifanc anabl 11-19 oed | Cyfranogiad pobl ifanc yn y broses benderfynu a llywodraethu<br><br>Hyfforddiant i bobl ifanc fod yn hyfforddwyr<br><br>Ymgysylltiad pobl ifanc NEET/mewn perygl |
| Y Ddraig Ffynci | 5. Rhaglen Dinasyddiaeth Weithgar – dysgu achrededig sy'n cysylltu â chwricwlwm ABCh y brif ffrwd. Cyflwynir ar ffurf gweithdai sy'n ymdrin â thestunau mewn perthynas â'r CCUHP, cyfranogi a chydraddoldeb ac amrywiaeth. | Pobl ifanc mewn perygl o fod yn NEET 11-19 oed | Cyfranogiad pobl ifanc yn y broses benderfynu a llywodraethu |
| Achub y Plant | 6. Sicrhau Newid | Pobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET | Cyfranogiad pobl ifanc yn y broses benderfynu a llywodraethu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Achub y Plant | 7. Timau arolygwyr ifanc. Cyflwynir yn uniongyrchol gan Achub y Plant. 11 o ALlau yn cyfranogi. Mae'r cydlynydd cyfranogi ym mhob ALl yn cyflwyno hyfforddiant i bobl ifanc sy'n aelodau o fforwm ieuenctid yr awdurdod lleol i'w galluogi i fynd i archwilio lleoliadau ieuenctid ac addysg gwahanol er mwyn asesu p'un a ydynt yn cydymffurfio â'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol. Mae cymorth parhaus yn cael ei ddarparu. | Pobl ifanc 11-19 oed sy'n aelodau o fforymau ieuenctid lleol | Cyfranogiad pobl ifanc yn y broses benderfynu a llywodraethu |

## A6.2 Gweithgareddau astudiaethau achos Llwybrau i'r Brig

| Cyd-noddwr | Astudiaeth achos o weithgaredd | Grŵp targed | Natur y gweithgaredd |
|---|---|---|---|
| Cerdd Gymunedol Cymru | 1. Gwaith grŵp – gweithdai cerddoriaeth cyfranogol mynediad agored | Pobl ifanc sy'n NEET neu mewn perygl o fod yn NEET, 11-19 oed | Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad<br>Cyfranogi mewn gweithgareddau cadarnhaol<br>Ymgysylltiad pobl ifanc NEET/mewn perygl<br>Sgiliau sylfaenol a dysgu seiliedig ar waith |
| Snap | 2. Cyflwyno hyfforddiant achrededig i weithwyr proffesiynol o'r maes addysg, gofal cymdeithasol, iechyd a thimau troseddau ieuenctid gyda'r nod o wella dealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol o ran gwahardd a hawliau'r plentyn | Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc | Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol |
| Techniquest | 3. Gweithdai ymgysylltu STEM ar gyfer y rhai 11-14 oed (Cyfnod Allweddol 3 a 4) / Gweithdai profiad yn gysylltiedig â gwaith / Dadleuon gwyddoniaeth cyfoes ôl-16 (Gogledd Cymru) | Pobl ifanc 14-19 oed sy'n tangyflawni | Ymgysylltiad STEM |
| | 4. Gweithdai ymgysylltu STEM ar gyfer y rhai 11-14 oed (Cyfnod Allweddol 3 a 4) / Gweithdai profiad yn gysylltiedig â gwaith / Dadleuon gwyddoniaeth cyfoes ôl-16 | Pobl ifanc 14-19 oed | Ymgysylltiad STEM<br>Dysgu yn seiliedig ar waith |
| Urdd Gobaith Cymru | 5. Cyflogi swyddogion gwaith ieuenctid mewn awdurdodau lleol er mwyn cyflwyno gweithgareddau grŵp yn y gymuned i bobl ifanc – cyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol sy'n defnyddio ystod eang o gyfryngau (chwaraeon, celf, drama, dringo, cerddoriaeth ac ati). Mae'n cynnwys hyfforddiant achredig (ee Dug Caeredin/Gwirfoddolwyr y Mileniwm). | Pobl ifanc 14-19 oed, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg | Hyrwyddo'r Gymraeg<br>Cyfranogi mewn gweithgareddau cadarnhaol<br>Ymgysylltu pobl ifanc NEET/mewn perygl |
| Urdd Gobaith Cymru | 6 Cyflogi swyddogion gwaith ieuenctid mewn awdurdodau lleol er mwyn cyflwyno gweithgareddau grŵp yn y gymuned i bobl ifanc. | Pobl ifanc 14-19 oed, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg | Hyrwyddo'r Gymraeg<br>Cyfranogi mewn gweithgareddau cadarnhaol<br>Ymgysylltu pobl ifanc NEET/mewn perygl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AdAS | 7. Rhaglen Prentisiaeth Gwaith Ieuenctid – Lefel 1 a Rhaglen Prentisiaeth Gwaith Ieuenctid – Lefel 2 | Pobl ifanc 16-18 oed | Hyfforddiant yn y gwaith |

## Atodiad 7 Adroddiadau gwerthuso a adolygwyd

*Gwerthusiad o Raglen Cyfranogi yn y Celfyddydau Cyrraedd y Nod*, Ymchwil Arad, Mehefin 2013

*Gwerthusiad o brosiect Llwybrau i'r Brig Urdd Gobaith Cymru,* Wavehill, Mawrth 2013

*The costs and benefits of transition key working: an analysis of five pilot projects,* Holtom, D, Lloyd-Jones, S, Bowen, R a Watkins, J Yr Uned Pobl a Gwaith, 2012

*Gwerthusiad o CLIC: Adroddiad Terfynol,* ICF GHK, Rhagfyr 2012

*Evaluation of the Support into Education and Learning (Youth Justice) Project,* Red Kite Research Consultancy, Chwefror 2013

# Atodiad 8 Gweithgareddau a restrwyd yn y cynllun busnes na chafodd eu cynnal

### Troedle Cyntaf

- Hyfforddiant Anogwyr Dysgu gan ddefnyddio modiwl hyfforddiant Lefel 3 a Lefel 4 wedi’i ddatblygu;
- Gweithgaredd i godi proffil cyfranogi a pherswadio rhanddeiliaid allweddol o’i werth, gan weithio tuag at ddull mwy integredig o lunio polisïau a sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses benderfynu. Bwriadwyd i hyn gynnwys recriwtio a hyfforddi mwy o swyddogion cyswllt rhanbarthol o fewn Llywodraeth Cymru.
- Datblygu elfennau trawswladol o’r prosiectau, er enghraifft, drwy aelodaeth o rwydweithiau ieuenctid Ewropeaidd a digwyddiadau rhyngwladol arfer gorau. Dilewyd yr elfen hon o’r cynllun busnes gwreiddiol ar ganol yr adolygiad o’r prosiectau, gan gydnabod anhawster teithio rhyngwladol pan fo cyllidebau teithio a chostau sefydliadol wedi’u gostwng i’r isafswm.
- Datblygu canllaw arddull pobl ifanc ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru i helpu sicrhau bod polisïau a gwybodaeth gysylltiedig yn hygyrch i bobl ifanc.
- Datblygu systemau ar gyfer olrhain pobl ifanc sy’n NEET. Er y cynhaliwyd gweithgarwch peilot mewn rhai awdurdodau lleol, ni chafodd y dysgu ei ledaenu ac ni chyflwynwyd modelau llwyddiannus.
- Datblygu dulliau o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET. Er bod pob un o’r noddwyr wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid i dreialu dulliau gwahanol o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl, nid oes dull ar draws yr ardal Gydgyfeirio gyfan wedi’i ddatblygu y mae pob un o’r rhanddeiliaid yn ymroddedig iddo.
- Ehangu’r peilot o fodel deilliannau Dangos Llwyddiant mewn nifer fwy o awdurdodau lleol. Er bod gofyn i weithgareddau Cyrraedd y Nod ddefnyddio model Dangos Llwyddiant yn bennaf, nid ymddengys fod llawer ohonynt wedi gwneud hynny.

- Caffael gwasanaethau sefydliad i gyflogi gweithwyr ieuenctid cymwys i gynorthwyo ag ymgysylltu pobl ifanc NEET a’r rheiny sydd mewn perygl o fod yn NEET.
- Cysylltu pobl ifanc a’u sefydliadau â fforymau lleol a chenedlaethol. Mae’r gweithgaredd hwn wedi’i gyflwyno ar raddfa lai o lawer na’r disgwyl o ganlyniad i’r ffocws o’r newydd ar grwpiau risg.
- Hwyluso mewnbynnau parhaus pobl ifanc at broses lunio polisïau Llywodraeth Cymru drwy Aelodau Uwch-Gyngor a grwpiau Cynghori Gweinidogion. Eto, cynhaliwyd y gweithgaredd hwn, ond ar raddfa lai o lawer nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.

**Llwybrau i’r Brig**

*APADGOS Llywodraeth Cymru*

- Arwain lledaenu arfer gorau;
- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc adeiladu ar hyfforddiant gyda phrofiadau’n gysylltiedig â gwaith a’r cyfle i hyfforddi a mentora pobl ifanc eraill llai profiadol.
- Gwasanaeth Ieuenctid: Y bwriad yw caffael gwasanaeth sefydliad i gyflogi gweithwyr ieuenctid cymwys er mwyn gwella ymgysylltiad y Gwasanaeth Ieuenctid â phobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), neu’r rheiny a all fynd yn NEET o bosibl. Bydd dau o weithwyr ieuenctid cymwys ym mhob rhanbarth CCAC (SC, De Orllewin a’r Canolbarth, Gogledd a’r De Ddwyrain) o Gymru. Gan ddefnyddio gwaith ieuenctid allgymorth (cysylltu pobl ifanc a’u hysbysu am wasanaethau sy’n bodoli yn eu cymuned a’u hannog i ddefnyddio’r gwasanaethau hynny), maent yn cynnwys pobl ifanc mewn ystod o weithgareddau cadarnhaol, a fydd yn annog cyfranogiad gweithgar, datblygu sgiliau ehangach, a chymhwysedd emosiynol gwell. Bydd y math o weithgareddau sy’n agored i’r bobl ifanc yn cynnwys (mae’r rhestr hon yn enghreifftiol): gweithgareddau awyr agored, teithiau cyfnewid

rhyngwladol, darlledu ar y rhyngrwyd, a beicio mynydd, i enwi ychydig yn unig.

*Techniquest*

- Ennyn diddordeb pobl ifanc i fynd i'r brifysgol: Mae'r prosiect yn arwain at ddulliau arloesol i helpu codi dyheadau pobl ifanc a'i hymwybyddiaeth o fuddion addysg uwch, yn enwedig ymhlith y rhai o grwpiau difreintiedig a'r rhai na fyddent efallai wedi ystyried prifysgol. I wneud hyn, bydd Techniquest yn gweithio gyda phrifysgolion Cymru i ddatblygu a chyflwyno gweithdai a fydd yn rhoi'r cyfle i'r cyfranogwyr gymryd rhan mewn arbrofion gwyddoniaeth na fyddent yn gallu'u gwneud mewn ysgol neu goleg oherwydd cyfyngiadau amser, costau neu iechyd a diogelwch, ond sy'n rhan o'r manylebau ôl-16. Bydd y gweithdai yn cyd-ategu manylebau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru mewn Cemeg, Ffiseg, Bioleg, Peirianneg a Seicoleg.
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Athrawon: Bydd pob sefydliad sy'n cyfeirio pobl ifanc yn cael y cyfle i gyfranogi mewn DPP. Bydd Techniquest yn darparu athrawon gyda deunyddiau cyn ymweliad ac ar ôl ymweliad ac yn eu hyfforddi i'w defnyddio. Bydd yn amlygu dolenni at amcanion dysgu'r rhaglen.
- Bydd fforwm ar-lein, y Rhwydwaith Rhithwir, yn cefnogi rhaglenni Allgymorth ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill. Bydd y rhwydwaith rhithwir ddwyffordd yn annog ac yn cyfnerthu adborth athrawon, ac yn hyrwyddo trafodaethau rhwng athro/athro ac athro/Techniquest i gydategu'r rhaglenni. Bydd adnoddau ategol ar gyfer y rhaglen ar gael ar y rhwydwaith hefyd.